

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU



NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

Bydd cyfarfod o **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 21 GORFFENNAF 2025** yn rhithiol trwy Zoom am **09:30**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Datganiadau o Fuddiant**
3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.
4. **Cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2025**
5. **Materion yn Codi**

Eitemau Sefydlog yr Agenda

6. **Adroddiad y Cadeirydd**
7. **Diweddariad ar yr Adolygiad Diwylliannol Annibynnol**
8. **Diweddariad ar Brosiect y Ganolfan Hyfforddi**
9. **Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys**

Adroddiadau a Ystyriwyd yn Flaenorol gan y Pwyllgor Archwilio

10. **Datganiad Drafft o'r Cyfrifon 2024-25**
11. **Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol 2024-2025**

Adroddiadau a Ystyriwyd yn Flaenorol gan y Panel Gweithredol

12. **Adroddiad Monitro Perfformiad, Ebrill 2024 – Mawrth 2025**
13. **Adroddiad Arolygiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru**

Parhad....

Eitemau i'w Hystyried

- 14. Datganiad Polisi Disgresiwn Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân**
- 15. Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynnyddol 2024/25**
- 16. Cadarnhau Penodiadau Prif Swyddogion**

17. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 2 uchod.

RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

18. Dim

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **Ddydd Llun 28 Ebrill 2025** gan ddefnyddio **Zoom**. Dechreuodd y cyfarfod am **09.30**.

Cynghorydd

Dylan Rees (Cadeirydd)
Paul Cunningham (Dirprwy
Gadeirydd)
Bryan Apsley
Marion Bateman
Carol Beard
Tina Claydon
Ann Davies
Adele Davies-Cooke
Sharon Doleman
Jeff Evans
Alan Hughes
Chris Hughes
John Brynmor Hughes (gadawodd
am 10:57)
Gareth R Jones
Marc Jones
Gwynfor Owen
Beverley Parry-Jones (gadawodd
am 11:25)
Arwyn Herald Roberts
Austin Roberts
Gareth A Roberts
Rondo Roberts
Paul Rogers
Gareth Sandilands
Dale Selvester
Antony Wren
Mark Young

Yn cynrychioli

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ddinbych

Hefyd yn bresennol:

Dawn Docx
Helen MacArthur
Stuart Millington
Justin Evans
Anthony Jones
Dafydd Edwards
Gareth Owens
Matthew Powell
Elgan Roberts
Steve Morris
Rhian Williams
George Jones
Lisa Allington

Prif Swyddog Tân (PST)
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Trysorydd
Clerc a Swyddog Monitro
Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro
Pennaeth Cyllid a Chaffael
Pennaeth TGCh
Dirprwy Bennaeth Cyfathrebu Corfforaethol
Gwasanaethau Cyfieithu Atebol
Gwasanaethau Aelodau

1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd

John Ifan Jones

Yn cynrychioli

Cyngor Sir Ynys Môn

YN ABSENNOL

Cynghorydd

Rob Triggs

Yn cynrychioli

Cyngor Gwynedd

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

- 2.1 Fe wnaeth y Clerc, y Dirprwy Glerc a'r Trysorydd oll ddatgan buddiant yn Eitem 21, gan roi cadarnhad y byddent yn gadael y cyfarfod cyn i'r papur hwnnw gael ei drafod.

3 HYSBYSIAD O FATERION BRYD

- 3.1 Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

4 COFNODION CYFARFOD YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB A GYNHALIWYD AR 20 IONAWR 2025

- 4.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2025 i'w cymeradwyo.

4.2 PENDERFYNWYD:

- i) **cymeradwyo cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub o 20 Ionawr 2025 fel cofnod cywir a gwir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

5 MATERION YN CODI

- 5.1 Mewn perthynas â pharagraff 5.1 o'r cofnodion, nodwyd bod arolwg y Prif Gynghorydd Tân ac Achub o Dechnegau Diffodd Tân bellach wedi'i gwblhau a bod y drafft terfynol ar gael. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Gorffennaf. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod gwaith ar argymhellion yr adroddiad eisoes wedi dechrau.
- 5.2 Mewn perthynas â pharagraff 5.3, dywedwyd wrth yr Aelodau fod PSTC Stuart Millington wedi penderfynu ymddeol ac y byddai'n gadael ddiwedd mis Mehefin. Roedd DBST Stewart Forshaw hefyd wedi penderfynu ailgyflwyno ei hysbysiad ymddeol a byddai yntau'n gadael ar ddiwedd y mis. Rhoddwyd diolch i'r ddau swyddog am eu gwaith diflino dros flynyddoedd lawer o wasanaeth, ac am eu cyfraniad sylweddol i waith Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Roedd y Cadeirydd a'r Aelodau'n adleisio'r diolchiadau hyn.

5.3 Gofynnodd Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod, y Cynghorydd Doleman, a ellid rhoi ei diolch personol hi i DBST Forshaw am ei ymroddiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y Gwasanaeth. Roedd ei gyfraniad yn sylweddol ac roedd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws y Gwasanaeth.

5.4 Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi mynd i angladd Brian Gorling.

6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

6.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i roi i'r Aelodau i roi gwybod iddynt am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau y bu Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ynddynt yn eu capasiti swyddogol rhwng Ionawr a Mawrth 2025.

6.2 PENDERFYNWYD:

i) Nodi'r wybodaeth yn y papur.

7 ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS

7.1 Cyflwynodd PSTC Jones bapur ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR). Cafodd hwn ei sefydlu mewn ymateb i'r argymhelliad gan y cyfarfod ar 20 Ionawr 2025 i swyddogion barhau i ddyfeisio ac i brofi datrysiadau amgen gyda chyrrff cynrychioliadol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, er mwyn mynd i'r afael â'r ddarpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.

7.2 Cadarnhaodd PSTC Jones fod Undeb y Brigadau Tân (FBU) wedi ymrwymo i lofnodi cytundeb ar y cyd, a'i fod bellach wedi'i lofnodi ar lefel weithredol gan Ben Selby.

7.3 Cydnabuwyd gwaith caled ac ymroddiad aelodau grŵp yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, yn enwedig Terry Ledden a Rebekah Uden o Undeb y Brigadau Tân a Nick Roberts a Tom Weston, sef Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a gofynnodd PSTC Jones a'r Aelodau am i'w diolchiadau gael eu rhoi iddynt. Rhoddodd y Cadeirydd a'r PST hefyd eu diolch i'r rhai sydd wedi bod yn rhan o'r broses bwyllog a hirhoedlog hon, gan eu llongyfarch am ddod i gytundeb ar y cyd.

7.4 Gofynnwyd sut y byddai hyn yn lleihau'r risg hysbys o ran darpariaeth yn ystod y dydd mewn ardaloedd gwledig, ac eglurodd PSTC Jones mai bwriad y cytundeb ar y cyd oedd gwneud y gorsafoedd amser cyflawn presennol yn hunangynhaliol, h.y. aildrefnu eu darpariaeth eu hunain yn ystod absenoldeb, amseroedd dechrau a gorffen, gwylliau blynyddol ac yn y blaen, gan y byddai hynny yn rhyddhau rhywfaint o gyllid o gyllideb y nifer presennol o swyddi (sefydliad) gan alluogi i wasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol gael ei gynnig mewn partneriaeth â'r garfan ar alwad yn yr ardaloedd mwy gwledig. Byddai hyn yn cael ei werthuso bob chwarter dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

- 7.5 Gofynnodd y PST ymhellach a ellid nodi nad symudiad tuag at fodel staffio dydd oedd hyn, ond yn hytrach symudiad tuag at griwiau cnewyllyn, pan fo diffoddwyr tân amser cyflawn yn ffurfio criwiau gyda diffoddwyr tân ar alwad yn yr ardal honno.
- 7.6 Dywedodd Aelod bod y pwnc hwn wedi bod yn destun trafod ers tro byd, a holodd a oedd dyddiad gweithredu yn Ionawr 2026 yn ddigon buan o ystyried bod y risgiau angen sylw cyn gynted ag sy'n bosibl. Atebodd y PST trwy ddweud y byddai rhywfaint o gyllid o gronfeydd trawsnewid y Gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i gynnal y cynllun peilot mewn gorsafoedd erbyn dechrau Medi 2025. Fodd bynnag, gan y gallai gymryd rhywfaint o amser i'r cyllid gael ei ryddhau, byddai rhywfaint o'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu neilltuo i brofi ac i gynnal y cynllun peilot criwiau cnewyllyn erbyn Haf 2025.
- 7.7 Dywedodd y Clerc ymhellach ei bod wedi cymryd rhywfaint o amser i gael cytundeb ar fater yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a'i bod yn debygol o gymryd rhywfaint o amser i weithredu datrysiadau ar gyfer mater mor ddrys.
- 7.8 Holodd y Cadeirydd pam na ddewiswyd cynnal cynllun peilot o batrymau shifft un ar ddeg awr, ac fe atebodd y PST trwy ddweud bod y Gwasanaeth yn ystyriol o argymhellion y Prif Gynghorydd Tân ac Achub ynghylch lliniaru'r perygl o ddiffoddwyr tân yn gorflino. Fodd bynnag, dewiswyd mynd i'r afael â hyn ar wahân i'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, gan ailymweld â hyn yn y dyfodol agos.
- 7.9 Dywedodd Aelod fod perthynas y Gwasanaeth gydag Undeb y Brigadau Tân wedi bod yn drawsnewidiol, a bod tystiolaeth amlwg o gydweithredu er budd dyfodol gwell i'r Gwasanaeth, o ran yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn ogystal â'r prosiect Canolfan Hyfforddi. Cafodd y Swyddogion eu llongyfarch am y newid hwn ym mherthynas y Gwasanaeth gydag Undeb y Brigadau Tân.
- 7.10 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda chyrrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys;**
 - ii) **nodi bod cynnydd wedi'i wneud wrth ddrafftio Cytundeb ar y Cyd a bod cytundeb arno mewn egwyddor wedi'i sicrhau gan Undeb y Brigadau Tân mewn cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi ar 4 Ebrill 2025;**
 - iii) **gwerthfawrogi ymdrechion parhaus yr holl barfion i ddatblygu datrysiad a chyflwyno cynllun peilot i ddangos hunangynhaliath y lefelau staffio yn y gorsafoedd tân amser cyflawn presennol; a**
 - iv) **chydabod, drwy ddangos hunangynhaliath fel hyn, fod lle i ystyried cyflwyno cynlluniau peilot i ddefnyddio swyddi o'r nifer presennol o swyddi sy'n weddill i ddarparu model darpariaeth frys mwy effeithlon ac effeithiol ar draws Gogledd Cymru.**

8 DIWEDDARIAD AR BROSIECT Y GANOLFAN HYFFORDDI

- 8.1 Cyflwynodd PSTC Evans y Diweddariad ar Brosiect y Ganolfan Hyfforddi, sef diweddariad strategol ar gynnydd prosiect Canolfan Hyfforddi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), gan gynnwys datblygiadau diweddar o'r gweithdai achos busnes a gynhaliwyd ym mis Ebrill, y sefyllfa risg ddiweddaraf, yr amserlen ddiwygiedig, a'r meysydd ffocws ar hyn o bryd.
- 8.2 Rhoddodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r Cynghorydd Sandilands am ei gyfraniad fel Hyrwyddwr y Ganolfan Hyfforddi. Rhoddodd y Cynghorydd Sandilands amlinelliad o ganlyniadau allweddol prosiect y ganolfan hyfforddi, a dywedodd ei fod yn ymroddedig i weithio tuag at sicrhau bod y Gwasanaeth yn addas ar gyfer y dyfodol ac i allu agor canolfan hyfforddi ragorol yn brydlon ac o fewn y gyllideb, a hynny er mwyn rhoi hyfforddiant o'r safon uchaf i ddiffoddwyr tân y Gwasanaeth. Roedd yr Aelodau'n cytuno â hyn.
- 8.3 Dywedodd y Trysorydd y dylai Aelodau fod yn ymwybodol o ymrwymiad ariannol sylweddol y prosiect hwn, ac y dylid mynd ar ôl cyllid grant Llywodraeth Cymru er mwyn ariannu cymaint o'r prosiect ag sy'n bosibl, yn enwedig o ystyried argymhellion y Prif Gynghorydd Tân ac Achub.
- 8.4 Holodd Aelod a oedd perygl na fyddai Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid os yw'r gwaith ar y prosiect yn parhau, gan y gallent ystyried bod hyn yn arwydd y gellid ei gwblhau heb gyllid allanol. Atebodd PSTC MacArthur trwy ddweud mai gwaith i symud y prosiect i'r cam nesaf sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, i greu'r dyluniad ac i ddatblygu'r costiadau a'r modelau cyllido. Roedd hyn yn cynnwys ceisio pob adnodd posibl gan Lywodraeth Cymru.
- 8.5 Gofynnodd y Cynghorydd Gareth Jones i'w amharoddrwydd i fwrw ymlaen â'r prosiect heb gyllid gan Lywodraeth Cymru gael ei nodi, ac atebodd y Cynghorydd Sandilands trwy ddweud y byddai gohirio'r prosiect yn arwain at fwy o gostau i'r Gwasanaeth o ran chwyddiant a'r prosiect yn llithro, ond roedd yn cytuno y dylid cael y rhan fwyaf o gyllid gan bartneriaid yn hytrach na chan awdurdodau lleol.
- 8.6 Dywedodd Aelod fod yn well gan Lywodraeth Cymru weld prosiect sydd wedi'i baratoi ac sy'n barod i'w adeiladu cyn iddyn nhw neilltuo cyllid, felly roedd gyrru ymlaen â'r prosiect ar y cam hwn yn bwysig.
- 8.7 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Nodi'r llwybr critigol a'r targed diwygiedig ar gyfer cwblhau RIBA Gateway 4 (Ebrill 2027);**
 - ii) **nodi'r cynnydd wrth ddiffinio cwrpas, manyleb, a model cyflawni trwy weithdai achos busnes;**
 - iii) **nodi'r risgiau allweddol a nodwyd ar gofrestr risg y prosiect a'r mesurau sydd ar waith i'w lliniaru; a**
 - iv) **nodi cyfatebiaeth strategol y Ganolfan Hyfforddi newydd â nodau llesiant a rheoli risg cymunedol ehangach y Gwasanaeth.**

9 ADOLYGIAD DIWYLLIANNOL ANNIBYNNOL O WASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

9.1 Cyflwynodd PST Docx adroddiad yr adolygiad diwylliannol annibynnol o'r Gwasanaeth i'r Aelodau, a chadarnhaodd y camau nesaf o ran taith ddiwylliannol y Gwasanaeth.

9.2 Pwysleisiodd PST Docx fod Llywodraeth Cymru'n awyddus i weithio gyda'r Gwasanaeth a'i gefnogi, trwy roi cyllid a thrwy gynnig arbenigedd, ac y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal i drafod sut becyn y gellid ei gynnig.

9.3 PENDERFYNWYD:

- i) Cydnabod derbyn adroddiad yr adolygiad diwylliannol annibynnol;**
a
- ii) chymeradwyo'r cais am gymorth ariannol neu "mewn ffyrdd eraill" gan Lywodraeth Cymru i barhau â thaith ddiwylliannol y Gwasanaeth.**

10 PROSES BENODI AR GYFER SWYDD PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL

10.1 Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau am y trefniadau i recriwtio ar gyfer un o'r ddwy swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) wag.

10.2 Eglurwyd mai cyfrifoldeb yr Awdurdod oedd penodi i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth ac felly roedd angen sefydlu Pwyllgor Penodi. Yn unol â'r Cyfansoddiad, mae angen chwe aelod o'r Panel Gweithredol ar Bwyllgor Penodi, a gofynnwyd i'r rhai sy'n gymwys fynegi eu diddordeb y tu allan i'r cyfarfod.

10.3 Nododd yr aelodau ei bod yn bwysig sicrhau bod cydbwysedd o ran amrywiaeth ymysg aelodau'r panel.

10.4 PENDERFYNWYD:

- i) Nodi'r broses fel yr amlinellir yn y papur;**
- ii) cadarnhau aelodaeth y pwyllgor penodiadau; a**
- iii) chymryd camau priodol i sicrhau bod cydbwysedd amrywiaeth ar y panel penodi.**

11 ALLDRO DROS DRO 2024/25

11.1 Cyflwynodd Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid, ddiweddariad i'r Aelodau ar y rhagolwg gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2024/25, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025.

11.2 Diolchodd y Trysorydd i Elgan am y gwaith a wnaed i lunio'r papur a nododd fod llawer o'r wybodaeth eisoes yn hysbys i'r Awdurdod. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y Llys Apêl wedi dyfarnu o blaid y sector cyhoeddus mewn perthynas â Firelink ac felly nid oedd hyn bellach yn risg ariannol.

11.3 **PENDERFYNWYD:**

- i) **nodi'r blaenamcan alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 fel y manylir yn yr adroddiad;**
- ii) **nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant, tariffau, a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi;**
a
- iii) **chyperadwyo'r symudiad i/o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a'r gronfa gyffredinol.**

12 **CADARNHAD O'R GYLLIDEB AR GYFER 2025/26**

12.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur Gadarnhad o'r Gyllideb ar gyfer 2025/26, gyda'r nod o roi'r newyddian diweddaraf i'r Aelodau ynghylch y gyllideb refeniw a chyfalaf derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

12.2 Gofynnwyd sut y byddai'r rhagolwg o 3.2% ar gyfer y dyfarniad cyflog yn cael ei reoli'n fewnol. Eglurodd PSTC MacArthur fod sawl swydd wag o fewn y Gwasanaeth nad oeddent yn bwriadu eu llenwi yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a byddai hyn yn galluogi i'r gost gael ei hamsugno. Holodd Aelod a fyddai hyn yn golygu y byddwn yn mynd i'r flwyddyn ariannol nesaf gyda phwysau cost i lenwi'r swyddi gwag hyn, a chadarnhaodd PSTC MacArthur hynny; fodd bynnag, roedd y gyllideb gyflogau yn un o'r meysydd lle ceir craffu manwl gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, a byddent yn rhoi sylw i hyn.

12.3 Rhoddodd Cadeirydd y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb sicrwydd ynghylch lefel y craffu ar y gyllideb a diolchodd i bawb a oedd yn ymwneud â hyn am eu gwaith caled.

12.4 **PENDERFYNWYD:**

- i) **Cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw derfynol o £52.389 miliwn;**
- ii) **cymeradwyo defnyddio cronfeydd wrth gefn sy'n dod i gyfanswm o £0.601 miliwn;**
- iii) **cymeradwyo Cyllid Cyfalaf o £6.103 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26;**
- iv) **cymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn i dalu costau datblygu o oddeutu £2.100 miliwn ar gyfer y ganolfan hyfforddi yn ystod y flwyddyn; a**
- v) **nodi effeithiau posibl materion cadwyn gyflenwi byd-eang, tariffau, a phrisiau cynyddol, a allai effeithio ar gynllunio ariannol yn y dyfodol.**

13 STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2025–26

- 13.1 Cyflwynodd y Trysorydd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025–26, a oedd yn amlinellu'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys arfaethedig i'r Aelodau ar gyfer y cyfnod Ebrill 2025 – Mawrth 2026.
- 13.2 Tynnodd sylw pellach at ffigyrau allweddol yn yr adroddiad, sef terfyn awdurdodedig o £36m, ffin weithredol o £33m, ac isafswm darpariaeth refeniw o £3m.
- 13.3 Gofynnodd Aelod beth oedd y ganran mewn perthynas â chyllid newydd ac ailariannu benthyciadau presennol. Atebodd y Trysorydd trwy ddweud bod y manylion hyn i'w cael yn Nhabl 1 y papur.
- 13.4 **PENDERFYNWYD:**

i) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26.

14 DATGANIAD POLISI TÂL 2025/26

- 14.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur Ddatganiad Polisi Tâl 2025/26 a oedd yn hysbysu'r Aelodau o'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 (y Ddeddf). Tynnwyd sylw at rannau allweddol o'r papur.
- 14.2 **PENDERFYNWYD:**

- i) Nodi gofynion Deddf Lleoliaeth 2011; a**
ii) chymeradwyo'r broses ariannu a dyrannu cyfalaf.

15 CYNLLUN GWEITHREDU RHEOLI RISG CYMUNEDOL 2025/26

- 15.1 Cyflwynodd PSTC Jones Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 i'r Aelodau. Roedd hwn yn rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025–2026 a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig ac yn ceisio cymeradwyaeth ar y fersiwn derfynol o'r dogfennau uchod.
- 15.2 Diolchwyd i'r swyddogion hynny a weithiodd ar y papur, a nodwyd ei fod eisoes wedi'i gymeradwyo gan y Panel Gweithredol.
- 15.3 **PENDERFYNWYD:**
- i) Nodi cynnwys yr adroddiad adborth; a**
ii) chymeradwyo Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025–26 sydd wedi'i atodi a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig i'w cyhoeddi.

16 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2024/25

16.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau (y Pwyllgor) i'r Aelodau, a oedd yn rhoi crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

16.2 PENDERFYNWYD:

i) nodi'r Adroddiad Blynyddol.

17 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – CYLCH GWAITH

17.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur bapur Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Cylch Gwaith i'r Aelodau, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cylch Gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Tynnwyd sylw at feysydd allweddol o'r Cylch Gwaith.

17.2 Dywedodd y Trysorydd bod cworwm aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi bod yn destun pryder, ac y byddai'r newidiadau hyn yn sicrhau y gellid cynnal y busnes gofynnol.

17.3 Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw gynlluniau i symud oddi wrth fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai moesegol, ac atebodd PSTC MacArthur nad oedd gan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân unrhyw fuddsoddiadau sylfaenol, er bod atebolwydd. Fodd bynnag, edrychwyd ar y buddsoddiadau sylfaenol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan ei fod yn gynllun sy'n cael ei gefnogi gan asedau.

17.4 Eglurodd y Trysorydd ymhellach fod gan Gyngor Sir y Fflint eu bwrdd pensiwn eu hunain a oedd yn gyfrifol am y cynllun pensiwn llywodraeth leol, ac mai nhw oedd yn dylanwadu ar y buddsoddiadau ac yn craffu arnynt.

17.5 PENDERFYNWYD:

- i) Nodi cwmpas a gofynion Cylch Gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol;**
- ii) nodi argymhelliad y Bwrdd Pensiwn Lleol i ddiwygio'r cworwm; a**
- iii) chymeradwyo Cylch Gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.**

18 CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – DIWEDDARIAD AR YR HERIAU CYFREITHIOL

18.1 Dywedodd PSTC MacArthur wrth yr Aelodau mai diben y papur Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynghylch y newidiadau statudol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn sgil heriau cyfreithiol sylweddol. Roedd y rhain yn cael eu galw fel arfer yn ymarferion rhwymedi pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2). Rhoddwyd crynodeb o fanylion y papur.

- 18.2 Nodwyd bod adroddiad wedi'i wneud i'r Rheoleiddiwr Pensiynau gan na lwyddodd y Gwasanaeth gyflawni'r gofynion statudol.
- 18.3 Holodd Aelod ai'r Awdurdod sy'n ysgwyddo'r risg ariannol sy'n gysylltiedig â'r heriau cyfreithiol hyn, a chadarnhaodd PSTC MacArthur hynny.
- 18.4 Gofynnwyd hefyd a oedd digon o allu gan y Gwasanaeth i ymdopi â'r heriau hyn, ac atebodd PSTC MacArthur nad oedd staff ar gael yn genedlaethol ar hyn o bryd i ddod i mewn i gefnogi fîm pensiynau'r Gwasanaeth ac felly roeddent yn ymdopi â'r llwyth gwaith cystal ag y gallent.
- 18.5 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Nodi'r cynnydd o ran gweithredu Dyfarniad McCloud;**
 - ii) **nodi bod adroddiad wedi'i wneud i'r Rheoleiddiwr Pensiynau gan nad yw'r Gwasanaeth wedi gallu cyflawni'r gofynion statudol; a**
 - iii) **nodi'r sefyllfa o ran gweithredu Dyfarniad O'Brien.**

19 CRYNODEB O REOLAU'R WEITHDREFN CONTRACTAU 2025

- 19.1 Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid, Elgan Roberts, Grynodedb o Reolau'r Weithdrefn Contractau ar gyfer 2025 i'r Aelodau, a'i bwrpas oedd cyflwyno'r newidiadau arfaethedig i Reolau Gweithdrefn Contractau'r Awdurdod, yn dilyn diwygiadau i gyd-fynd â Deddf Caffael 2023, a weithredwyd ar 24 Chwefror 2025.
- 19.2 Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y papur eisoes wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, a'u bod wedi argymhell iddo gael ei gymeradwyo.
- 19.3 **PENDERFYNWYD:**

- i) **Cymeradwyo Rheolau'r Weithdrefn Contractau**

20 Y DDYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL

- 20.1 Cyflwynodd PSTC Jones Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno Adroddiad Blynyddol cyntaf y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn craffu arno, ac i gyhoeddi'r adroddiad ar wefan yr Awdurdod.
- 20.2 Clywodd yr Aelodau bod y papur eisoes wedi'i gyflwyno i'r Panel Gweithredol, a'u bod wedi argymhell iddo gael ei gymeradwyo.
- 20.3 Gofynnodd yr Aelodau i'w diolch gael ei roi i'r Rheolwr Ardal Sandra Williams a oedd yn ymddeol ddiwedd y mis.

20.4 **PENDERFYNWYD:**

- i) **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'w gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn craffu arno a'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

21 **PENODI SWYDDOG MONITRO A THRYSORYDD**

21.1 Gadawodd y Clerc, y Dirprwy Glerc a'r Trysorydd y cyfarfod yn unol â'u datganiadau o fuddiant.

21.2 Rhoddodd PST Docx gyngor i'r Aelodau ar ofynion swyddi statudol y Swyddog Monitro a'r Trysorydd a cheisiodd gymeradwyaeth i ymestyn y penodiadau presennol hyd at 31 Mawrth 2027.

21.3 Roedd y Panel Gweithredol eisoes wedi trafod hyn yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2025. Yn dilyn trafodaeth a sicrwydd ynghylch perfformiad y trefniadau presennol, cymeradwyodd y Panel Gweithredol yr argymhelliad i ymestyn y contractau ar gyfer y Swyddog Monitro a'r Swyddog A151 hyd at 31 Mawrth 2027.

21.4 Holodd Aelod am sefyllfa'r Awdurdod pe digwyddai rhywbeth i'r Trysorydd, gan mai unigolyn ydoedd yn hytrach na sefydliad. Cadarnhaodd PSTC MacArthur y byddai hi neu'r Pennaeth Cyllid yn gwneud y swydd yn y cyfamser, gan fod gan y ddau y cymwysterau priodol.

21.5 **PENDERFYNWYD:**

- i) **nodi'r gofyniad i benodi i rolau statudol Trysorydd a Swyddog Monitro; a**
- ii) **chyperadwyo'r argymhelliad i ymestyn y trefniadau presennol i 31 Mawrth 2027.**

MATERION BRYS

22.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Diolchwyd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i ben: 11:29

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	21 Gorffennaf 2025	
Swyddog Arweiniol	Amherthnasol	
Swyddog Cyswllt	Gwasanaethau Aelodau (members.services@northwalesfire.gov.wales)	
Pwnc	Adroddiad y Cadeirydd	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2025.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

ARGYMHELLIAD

- 3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
 - i) **Nodi'r wybodaeth a roddir.**

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

GWYBODAETH

- 5 Yn ogystal â chyfarfodydd sy'n ymwneud â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cyfarfod â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.
- 6 Ar 3 Ebrill 2025 aeth y Cadeirydd a'r PST i gyfarfod ar-lein o'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) i drafod trafodaethau cyflog.
- 7 Ar 7 Ebrill 2025, yn dilyn gwahoddiad, ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Bangor i gwrdd â staff.
- 8 Ar 11 Ebrill 2025 aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i Seremoni Gyflawniad y Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn newydd yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

- 9 Ar 14 Ebrill 2025 ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Benllech a chyfarfod â'r Wylfa.
- 10 Ar 17 Ebrill 2025 aeth y Cadeirydd, ynghyd â'r Cynghorydd Sharon Doleman ac aelodau o'r Tîm Prif Swyddogion, i weithdy Gwella Diwylliant.
- 11 Ar 23 Ebrill 2025 ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Rhosneigr a chyfarfod â'r Wylfa.
- 12 Ar 28 Ebrill 2025, aeth y Cadeirydd i gyfarfod ar-lein gydag aelodau o Dîm Archwilio Cymru i drafod eu hadolygiad o "Asesiadau Sicrwydd a Risg" o fewn Awdurdodau Tân ac Achub.
- 13 Ar 5 Mai 2025 ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Amlwch a chyfarfod â'r Wylfa.
- 14 Ar 9 Mai 2025 ymwelodd y Dirprwy Gadeirydd â Gorsaf Dân y Waun i fynd i Seremoni Wobrwyo Ffenics.
- 15 Ar 12 Mai 2025 aeth y Cadeirydd a'r PST i gyfarfod y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.
- 16 Ar 15 Mai 2025 aeth y Cadeirydd a'r PST, ynghyd â Chadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân eraill Cymru, i gyfarfod ar-lein o Banel Tân ac Achub CLILC.
- 17 Ar 26 Mai 2025 ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Porthaethwy a chyfarfod â'r Wylfa.
- 18 Ar 27 Mai 2025 aeth y Cadeirydd i gyfarfod ar-lein o'r Bwrdd Gwella Diwylliant.
- 19 Ar 1 Mehefin 2025 ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Porthaethwy i gefnogi'r digwyddiad Golchi Ceir Elusennol.
- 20 Ar 6 Mehefin 2025 ymwelodd y Dirprwy Gadeirydd â Gorsaf Dân Treffynnon i fynd i Seremoni Wobrwyo Ffenics.
- 21 Ar 10 Mehefin 2025 cyfarfu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ag aelodau o'r Tîm Prif Swyddogion i archwilio'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Yn ddiweddarach yr un diwrnod dirprwyodd y Cadeirydd ar ran y Cynghorydd Gareth Sandilands (nad oedd ar gael) gan fynd i gyfarfod o Fwrdd Prosiect y Ganolfan Hyfforddi.

- 22 Ar 11 Mehefin 2025 aeth y Cadeirydd a'r PST i gyfarfod ar-lein o'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol.
- 23 Ar 18 a 19 Mehefin 2025 aeth y Cadeirydd i gynhadledd flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn Llandudno gyda'r PST.
- 24 Ar 27 Mehefin 2025 eisteddodd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a phedwar Aelod arall o'r Awdurdod ar y panel cyfweld ar gyfer penodi i swyddi PSTC.
- 25 Ar 30 Mehefin 2025 aeth y Cadeirydd a'r PST, ynghyd â Chadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân eraill Cymru, i gyfarfod ar-lein gydag Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Amherthnasol.
Cyllideb	Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth.
Cyfreithiol	Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.
Staffio	Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.
Risgiau	Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	21 Gorffennaf 2025	
Swyddog Arweiniol	Dawn Docx, Prif Swyddog Tân	
Swyddog Cyswllt	Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwy	
Pwnc	Diweddariad ar yr Adolygiad Diwylliannol Annibynnol	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Cyflwyno i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) y Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol drafft i'w gymeradwyo a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hyd yma ar daith ddiwylliannol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Ar 5 Chwefror 2025, cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr adolygiad diwylliannol a gynhaliwyd gan Crest Advisory ac fe'i cyflwynwyd i Banel Gweithredol yr Awdurdod ar 17 Mawrth 2025. Ers 17 Mawrth 2025, mae Crest Advisory wedi gwneud cyflwyniadau i Aelodau'r Awdurdod, i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, i Arweinwyr Canol, ac mewn digwyddiadau sydd wedi bod yn agored i bob gweithiwr, yn ogystal ag i swyddogion Llywodraeth Cymru ar 11 Mawrth 2025.
- 3 Mae'r papur hwn yn bapur cynnydd ac yn cyflwyno'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol i'w gymeradwyo.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 4 Archwiliodd y Panel Gweithredol y Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol ar 16 Mehefin 2025 a'i argymhell i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

ARGYMHELLIAD

- 5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
 - i) Cymeradwyo'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol; ac yn
 - ii) nodi'r camau nesaf ar daith ddiwylliannol GTAGC.

CEFNDIR

- 6 Er ei fod yn cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud, mae'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol yn targedu materion fel diffyg atebolrwydd a thryloywder ymhlith rhai arweinwyr. Mae'n cynnig camau pendant i gryfhau ymddiriedaeth, sicrhau tegwch wrth recriwtio a dyrchafu, a buddsoddi mewn datblygu staff.

- 7 Mae'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol hwn hefyd yn anelu at feithrin gweithlu amrywiol a chynhwysol, gwella iechyd, diogelwch a lles, a gwella'r ffordd o ymdrin â chamymddwyn a chŵynion cyflogaeth er mwyn adeiladu ar welliannau a wnaed eisoes a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n weddill.
- 8 Mae'n anelu at gydnabod, er bod y diwylliant wedi gwella ers mis Mehefin 2021 gyda phenodi'r Prif Swyddog Tân (PST) presennol, bod ymddygiadau negyddol ymhlith lleiafrif o staff yn dal i rwystro newid cadarnhaol.

GWYBODAETH – CAMAU GWEITHREDU A GWBLHAWYD HYD YMA

- 9 Yn dilyn ymchwil helaeth, rhoddwyd cymeradwyaeth gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i ddechrau cyflwyno arfarniadau 360. Bydd hyn yn dechrau gyda Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2025.
- 10 Cyfarfu'r PST â Bron Biddle o Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwylans ar 2 Mehefin 2025. Diben y cyfarfod oedd archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno gweithdy o'r enw "The Wolf We feed", a chytuno ar hynny.
- 11 Cafodd deugain o arweinwyr uwch a chanol ddiwrnod llawn o hyfforddiant ardderchog "Disgyblaeth a Chŵynion Cyflogaeth" a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 12 Mae'r Gwasanaeth wedi ailosod y contract ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol.
- 13 Mae'r Gwasanaeth wedi ysgogi taith canfod ffeithiau i Wasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerloyw, sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol ar eu taith ddiwylliannol eu hunain ac wedi cyflogi arbenigwr diwylliannol allanol ar contract 12 mis. Un peth sydd o ddiddordeb yw darparu offeryn dangosfwrdd a all helpu i olrhain cynnydd unrhyw newid diwylliannol sy'n cael ei weithredu dros gyfnod penodol.
- 14 Adolygwyd a thrafodwyd y Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol yn ystod Seminar yr Arweinwyr Canol a gynhaliwyd yn Venue Cymru ar 11 Mehefin 2025.
- 15 Yn ystod y broses ddiweddar o ddethol PSTC, sefydlwyd panel rhanddeiliaid gyda'r holl gyrff cynrychioliadol wedi'u gwahodd i gwrdd â'r ymgeiswyr ar y rhestr fer.
- 16 Yn dilyn proses yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, mae Cytundeb Cydweithredol bellach wedi'i lofnodi rhwng Undeb y Brigadau Tân a'r Gwasanaeth, sy'n ceisio gwella darpariaeth ymateb i danau mewn ardaloedd gwledig a chynyddu gwydnwch. Mae'r Cydgytundeb hefyd wedi'i gymeradwyo gan Undeb y Brigadau Tân ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

17 Cynhaliwyd adolygiad o absenoldeb iechyd meddwl a darpariaeth gwasanaeth y Gwasanaeth mewn cyfarfod anffurfiol o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth ar 18 Mehefin 2025, yn ogystal â sawl adolygiad polisi sy'n cefnogi'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol i fodloni argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- Polisi Rheoli Cwynion
- Absenoldeb sy'n ystyriol o Deuluoedd
- Polisi Datrys Cwynion Cyflogaeth
- Polisi Menopos
- Polisi Galluogrwydd
- Gweithdrefn Absenoldeb Maethu.

GOBLYGIADAU

Lles Amcanion	Gallai peidio â mynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd gan yr adolygiad effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol.
Cyllideb	O fewn cyllidebau presennol ar hyn o bryd
Cyfreithiol	Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Staffio	Dim
Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Dim
Risgiau	Mae'r adroddiad yn nodi gwelliannau cadarnhaol a phethau sy'n peri pryder. Rhaid mynd i'r afael â'r pryderon i sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i fod yn gyflogwr o ddewis ac yn gallu denu talent i ddarparu gwasanaethau o safon.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol

ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales



Cyflwyniad a Chefndir

Mae'r cynllun gwella diwylliannol strategol hwn ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) wedi'i greu i ganolbwyntio ar yr heriau diwylliannol a nodwyd yn yr adroddiad adolygiad diwylliannol diweddar a gomisiynwyd gan GTAGC ac a ddarparwyd gan CREST. Er ei fod yn cydnabod cynnydd, mae'r cynllun gwella hwn yn targedu materion fel diffyg atebolrwydd a thryloywder ymhlith rhai arweinwyr. Mae'n cynnig camau pendant i gryfhau ymddiriedaeth, sicrhau tegwch wrth recriwtio a dyrchafu, a buddsoddi mewn datblygu staff. Mae'r cynllun gwella hwn hefyd yn anelu at feithrin gweithlu amrywiol a chynhwysol, gwella iechyd, diogelwch a lles, a gwella'r ffordd o ymdrin â chamymddwyn a chwynion cyflogaeth er mwyn adeiladu ar welliannau a wnaed eisoes a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n weddill.

Mae'r cynllun gwella hwn yn cydnabod, er bod y diwylliant wedi gwella ers mis Mehefin 2021 gyda phenodiad y Prif Swyddog Tân presennol, bod ymddygiadau negyddol ymhlith lleiafrif o staff yn dal i rwystro newid cadarnhaol.



Amcanion Allweddol

1. Prif amcan y cynllun hwn yw creu gweithle mwy tryloyw, atebol, amrywiol a chefnogol, lle mae'r holl argymhellion wedi cael eu gweithredu'n llawn ac wedi dod yn rhan arferol o'r busnes.
2. Cyflawni'r meysydd i'w gwella a nodwyd drwy brif adroddiad CREST, a'r cyfarfodydd grŵp ffocws adrannol dilynol, a'r cynllun awgrymiadau staff.
3. Defnyddio amcanion CAMPUS i nodi camau gweithredu i fodloni'r argymhellion gwella hyn.
4. Nodi'n glir pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun i fynd i'r afael â'r argymhellion.
5. Monitro'r cynllun yn rheolaidd ar lefel strategol, gan wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol fel rhan o broses adolygu strategol barhaus.



Themâu Strategol Allweddol

Cryfhau Atebolrwydd ac Adeiladu Ymddiriedaeth

Y mater dan sylw: Nododd adroddiad CREST ddiffyg atebolrwydd am gamymddwyn yn y gorffennol, arweinyddiaeth osgoi, gwneud penderfyniadau gwael, diffyg tryloywder, ac amheuaeth ynghylch ymrwymiad uwch-arweinwyr i wella diwylliannol.

Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol:

- Byddwn yn mynd ati'n ymwybodol i **arwain newid diwylliannol** trwy esiampl, gan fod yn agored, atebol, a gostyngedig, yn unol â'r ymddiheuriadau diweddar am ymddygiadau'r gorffennol a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Tân.
- Byddwn yn penodi i rôl Swyddog Perfformiad a Monitro ac yn ymgynghori ag arbenigwr gweithredu newid diwylliant annibynnol i ymchwilio i'r defnydd o arfarniad 360 ar gyfer rheolwyr ar bob lefel, gan gynnwys aelodau Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, a'r defnydd o hyrwyddwyr diwylliannol.
- Byddwn yn hyrwyddo'r '**cynllun gwella diwylliannol**' byw hwn gyda dolenni i gynnydd ar yr argymhellion, gan wahodd aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA) i gymryd rôl fwy gweithredol.
- Byddwn yn adolygu polisïau presennol sy'n ymdrin â chŵynion, disgyblaeth a chŵynion cyflogaeth, gan ystyried cyfweiliadau ymadael er mwyn sicrhau eu bod yn deg, yn adlewyrchu ein gweithlu amrywiol ac yn dryloyw lle bo hynny'n briodol.

Sicrhau bod Recriwtio, Dyrchafu ac Adleoli yn Deg ac yn Dryloyw

Y mater dan sylw: Nododd adroddiad CREST bryderon am ganfyddiad o orgyrhaeddiad a diffyg tryloywder canfyddedig mewn gweithredu cadarnhaol, gan danio amheuan am degwch (yn enwedig i fenywod), rhagfarn ganfyddedig mewn dyrchafiadau, a'r angen am fwy o dryloywder gydag adleoliadau.

Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol:

- Byddwn yn nodi'n glir ddull GTAGC o weithredu'n gadarnhaol mewn polisi cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar recriwtio a dethol i wella dealltwriaeth staff a'r cyhoedd o bwysigrwydd amrywiaeth y gweithlu a sut mae gweithredu cadarnhaol yn cefnogi hyn.
- Byddwn yn gwella'r modd yr ydym yn cyhoeddi ac yn rhannu llwyddiannau yn sgil gweithredu cadarnhaol, gan dynnu sylw at ganlyniadau fel mwy o amrywiaeth.
- Byddwn yn adolygu'r holl bolisiau dyrchafu presennol (gan gynnwys adleoliadau) i sicrhau adborth o ansawdd a phroses werthuso gadarn sy'n ystyried gwaith sicrwydd ansawdd annibynnol ar yr holl benderfyniadau dyrchafu a throsglwyddo.

Buddsoddi yn Natblygiad Pob Unigolyn

Y mater dan sylw: Bylchau canfyddedig mewn hyfforddiant (gan gynnwys rheoli pobl) a diffyg buddsoddiad mewn datblygiad staff anweithredol ('Llyfr Gwyrdd') o'i gymharu â staff gweithredol

Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol:

- Byddwn yn adolygu ac yn ceisio gwella llwybrau datblygu "Llyfr Gwyrdd", gan ymgorffori adborth staff, tynnu sylw at gynnydd llorweddol, a chymwysterau dysgu blaenorol achrededig a rhai presennol.
- Byddwn yn adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau arfarnu ar gyfer staff, a fydd yn ystyried datblygiad proffesiynol parhaus (gan gynnwys adleoliad dros dro tymor byr posibl neu gyfnewid swyddi gyda gwasanaethau eraill) a system i olrhain ceisiadau datblygu ar ôl arfarniadau.
- Byddwn yn rhoi hyfforddiant wedi'i dargedu i reolwyr ar ganfod ac ymateb i bryderon lles, gan gynnwys iechyd meddwl, niwroamrywiaeth, a chydbwysedd bywyd-gwaith.

Meithrin Gweithlu Amrywiol a Chynhwysol

Y mater dan sylw: Tensiynau ynghylch mentrau amrywiaeth, delwedd gyhoeddus gul o ddiffoddwyr tân, yr angen am fwy o amrywiaeth o ran meddwl/profiad, a'r angen i ymgorffori'r Cod Moeseg Craidd

Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol:

- Byddwn yn adolygu ein cynnwys a'n darpariaeth hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn seiliedig ar adborth staff ac unrhyw argymhellion gan Grŵp Datblygu Pobl a Sefydliadol Cymru Gyfan (PODG) i gynnwys hyfforddiant gorfodol ar niwroamrywiaeth, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)
- Byddwn yn adolygu cymwyseddau gweithredol a chynlluniau olyniaeth ar gyfer rolau uwch (Rheolwr Strategol/Rheolwr Ardal ac uwch) er mwyn agor rolau uwch i grŵp mwy amrywiol o bosibl, gan gynnwys y rhai heb brofiad diffodd tân.
- Byddwn yn rhoi cynllun mentora gwrthdro ar waith i leihau rhwystrau hierarchaeth sy'n atal gwella.
- Byddwn yn adolygu ein Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ein gwaith casglu data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r Cod Moeseg Craidd i sicrhau eu bod yn bodloni ein gofynion cyfreithiol a'n disgwyliadau o ran y gweithlu.



Gwella Iechyd, Diogelwch a Lles

Y mater dan sylw: Pryderon ynghylch iechyd a diogelwch (sy'n gysylltiedig ag archwilio newidiadau a diddymu'r adran Safonau Gwasanaeth Proffesiynol), ffocws/capaciti annigonol ar gyfer diogelu, cefnogaeth anghyson i staff ar absenoldeb iechyd meddwl hirdymor, a phryder am ddial yn erbyn y rhai sy'n codi llais

Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol:

- Byddwn yn cwblhau adolygiad o drefniadau iechyd a diogelwch, gan edrych ar dueddiadau cyn ac ar ôl diddymu'r adran Safonau Gwasanaeth Proffesiynol.
- Byddwn yn adolygu ein polisi diogelu, y galw cysylltiedig, capaciti, a hyfforddiant staff a'u dealltwriaeth o pryd a sut i godi pryderon diogelu.
- Byddwn yn parhau i amlygu a hyrwyddo rolau cymorth fel rolau Hyrwyddwr Golau Glas/Cefnogi Cydweithwyr.
- Gwella'r rheolaeth ar staff sy'n dychwelyd o absenoldeb hirdymor gyda strwythur cliriach ac ymwneud gan AD/adranau.
- Byddwn yn parhau i sicrhau ffordd gyfrinachol i staff godi pryderon (Safe-Call) a chodi ymwybyddiaeth o brosesau chwythu'r chwiban, gan adolygu'r gefnogaeth i'r rhai sydd wedi codi pryderon a sicrhau bod unrhyw beth a ddysgir yn cael ei rannu lle bo hynny'n briodol.



Gwella'r Dull o Ymdrin â Chamymddygiad a Chwynion Cyflogaeth

Y mater dan sylw: Diffyg rhoi gwybod am achosion, ymatebion annigonol/ anghyson, osgoi systemig, a diffyg tryloywder ynghylch canlyniadau yn arwain at ddiwylliant o eithrio rhag cosb a chanfyddiadau o beidio â rhoi cosb am ymddygiad Anghyfartaledd posibl yn y trafodion

Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol:

- Byddwn yn sicrhau bod yr arferion gorau, megis safonau tân Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar ddatgeliadau staff, cwynion, trin cwynion cyflogaeth, honiadau o gamymddwyn a thrin canlyniadau, yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cynnal ymchwiliadau hyd yn oed os yw staff wedi gadael, ac ystyried diswyddo ar unwaith yn unol â chyfraith cyflogaeth.
- Byddwn yn parhau i gyflogi arbenigwyr pwnc er mwyn sicrhau bod honiadau o gamymddwyn yn cael eu rheoli'n gyson ac yn gyfreithiol gan ddefnyddio system rheoli achosion, gan geisio datblygu, hyfforddi ac amrywiaethu ymchwilyr, aelodau ATA a phaneli yn barhaus fel y bo'n briodol.
- Byddwn yn parhau i ddefnyddio cyflenwr allanol ar gyfer prosesau cyfryngu, er mwyn sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth â'r gyfraith.
- Byddwn yn adolygu ein data Cwynion Cyflogaeth a Disgyblu i nodi tueddiadau, gan gynnwys anghyfartaledd posibl (e.e., yn gysylltiedig â staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol), ac yn adrodd i Lywodraeth Cymru er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth briodol.
- Byddwn yn cyflwyno proses ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgir yn sgil achosion camymddwyn, gan gadw cyfrinachedd ar yr un pryd.



Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dyddiad	21 Gorffennaf 2025
Swyddog Arweiniol	Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Swyddog Cyswllt	Lee Bourne, Rheolwr Prosiect y Ganolfan Hyfforddi
Pwnc	Diweddariad ar Brosiect y Ganolfan Hyfforddi



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi diweddariad o ran cynnydd i'r Aelodau ar brosiect y ganolfan hyfforddi, gan gynhoi datblygiadau ar draws amserlenni cyfreithiol, cyfathrebu, dylunio, ecoleg a rhaglenni.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae prosiect y ganolfan hyfforddi yn parhau i symud ymlaen yn gyflym. Yn dilyn y cyfarfod dylunio ffurfiol cyntaf ym mis Mehefin, mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar gynllunio, ecoleg ac ymarferoldeb y dyluniad. Ar ôl caffael, mae'r contract ar gyfer y prif ymgynghorydd dylunio wedi'i lofnodi. Mae cynllun cyfathrebu wedi'i ddatblygu ac mae'r gwaith ymgysylltu â chymdogion y safle wedi dechrau. Mae cyfyngiad tymor byr ar waith clirio oedd wedi'i gynllunio ar y safle wedi'i gyflwyno yn dilyn asesiad ecolegol. Mae dyluniad y safle yn cael ei ddatblygu i gyflawni safon gynaliadwyedd ardderchog (BREEAM¹), gydag amcangyfrif o'r sgoriau ar hyn o bryd yn uwch na'r trothwy isaf. Mae gwaith modelu costau a gwerthuso opsiynau ar y gweill i gefnogi'r achos busnes amlinellol.

ARGYMHELLIAD

- 3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

a) Nodi cynnydd prosiect y Ganolfan Hyfforddi.

CEFNDIR

- 4 Mae datblygu canolfan hyfforddi newydd sy'n addas i'r diben yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), gan ymateb i risg weithredol, materion cydymffurfio ac anghenion y gweithlu yn y dyfodol. Mae'r prosiect yn symud yn ei flaen i'r cyfnod dylunio a chostio cynnar, gyda gwaith llywodraethiant parhaus trwy Fwrdd y Prosiect a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

¹ BREEAM | Sustainable Building Certification

GWYBODAETH

Cyfreithiol

- 5 Yn dilyn proses gaffael gydymffurfio a thimau cyfreithiol diwydrwydd dyladwy pellach ar gyfer Gleeds a'r Gwasanaeth, mae Veale Wasbrough Vizards (VWV) wedi cadarnhau parodrwydd i lofnodi dogfennaeth contract Perfect Circle.
- 6 Cytunwyd y bydd unrhyw elfennau gwerth cymdeithasol sy'n weddill yn cael eu cwblhau yn ôl-weithredol.

Cyfathrebiadau

- 7 Mae llythyrau wedi'u dosbarthu â llaw i'r holl eiddo preswyl a masnachol ger y safle hyfforddi arfaethedig, yn esbonio cwrmpas y gwaith cychwynnol a'r bwriad i gynnal digwyddiad agored i weld cynlluniau a thrafod cynigion.
- 8 Mae'r gwaith ymgysylltu â chynghorwyr lleol wedi dechrau.

Gwaith Dylunio a Thechnegol

- 9 Cynhaliwyd y cyfarfod dylunio cyntaf ar 26 Mehefin 2025 gyda phresenoldeb gan yr ymgynghorwyr dylunio, penseiri, peirianwyr mecanyddol a thrydanol, aseswyr BREEAM a chynghorwyr ecolegol penodedig, a staff y Gwasanaeth, gan gynnwys cynrychiolwyr hyfforddiant yr ochr weithredol.
- 10 Mae'r arolygon canlynol wedi'u cwblhau:
 - Arolwg Topograffig
 - Arolwg GPR
 - Arolwg Cyfleustodau
 - Archwiliad o'r Safle – Cam 1a Cham 2 Interim
 - Arolwg ordnans heb ffrwydro
 - Asesiad o ganlyniadau llifogydd
 - Arolwg Coedyddiaeth
 - Cynllun parth gwahardd iechyd a diogelwch
 - Llythyr interim cyn gwneud cais cynllunio
 - Arolwg ecolegol sylfaenol
- 11 Mae'r drwydded ar gyfer rheoli madfallod dŵr cribog wedi'i sicrhau ac mae gwaith ar y safle wedi'i raglennu.
- 12 Mae'r briff dylunio yn mynd rhagddo gyda gofyniad i'r safle fod yn niwtral o ran carbon a chyrraedd statws BREEAM Rhagorol (sgôr targed: 75%). Mae hyn yn bwysig er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu achos busnes deniadol ar gyfer cyllid.

Diweddariad Ecolegol

- 13 Cadarnhawyd bod nythaid o gwtiaid torchog bach (rhywogaeth Atodlen 1) ger ardal fynediad arfaethedig y safle. Mae cyfyngiad cyfreithiol ar waith bellach rhag tarfu arnynt.
- 14 Caniateir gwaith tawel, â llaw yn rhan ogleddol y safle, ond gwaherddir mynediad ac unrhyw waith gyda pheiriannau nes bod y cywion wedi hedfan o'r nyth.
- 15 Gallai hyn achosi oedi o sawl wythnos neu, o bosibl, sawl mis cyn dechrau ar y gwaith o glirio'r safle. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n agos ac mae'r effeithiau ar amserlenni'r prosiect yn cael eu hystyried.

Modelu Costau ac Opsiynau

- 16 Gofynnwyd am gostau cenedlaethol am:
 - Ganolfan hyfforddi yn unig;
 - Canolfan hyfforddi gyda phencadlys;
 - Canolfan hyfforddi gyda'r holl swyddogaethau corfforaethol; a
 - Chyfleuster preswyl (wedi'i gynnwys ar gyfer cyflawnrwydd ac i brofi arbedion effeithlonrwydd posibl)
- 17 Bydd yr opsiynau hyn yn sail i'r rhestr fer yn yr Achos Busnes Amlinellol.

Dyddiadau Allweddol y Prosiect

- 18 Llinell Amser y Prosiect (Dylunio)
 - Diwedd Awst 2025: briff dylunio cyflawn
 - Canol Tachwedd 2025: cwblhau cam 1 RIBA
 - Canol Tachwedd 2025: cwblhau Achos Busnes Amlinellol
 - Diwedd Mai 2026: cwblhau RIBA 2/3
 - Mehefin 2026: cyflwyno cais cynllunio
 - Canol Tachwedd 2026: cwblhau cam 4a RIBA
 - Mawrth 2027: cytuno ar bris contract
 - Awst 2027: amcan o ddyddiad dechrau ar y safle
 - Ionawr 2029: cwblhau'r prosiect

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r prosiect yn cefnogi gwydnwch y gweithlu yn yr hirdymor, cynaliadwyedd amgylcheddol, ac anghenion hyfforddi yn y dyfodol.
Cyllideb	Mae cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes. Mae opsiynau cost yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf bwrdd y prosiect.
Cyfreithiol	Mae cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yn hanfodol oherwydd amddiffyn adar Atodlen 1. Mae gofynion dylunio a rheoli gwaith adeiladu yn cael eu trafod ar hyn o bryd.
Staffio	Mae mewnbwn gan staff hyfforddiant gweithredol yn sail i'r cynllun a'r dyluniad. Mae cymorth ychwanegol yn cael ei ystyried er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni'r rhaglen.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Mae'r gwaith ymgysylltu â'r gymuned wedi dechrau. Bydd deunyddiau dwyieithog yn cael eu darparu mewn digwyddiadau ymgynghori yn y dyfodol.
Risgiau	Gall cyfyngiadau ecolegol beri oedi o ran y gwaith galluogi. Rhaid cydbwysu pwysau cost ac uchelgeisiau dylunio er mwyn cefnogi fforddiadwyedd. Disgwylir newid i feini prawf asesu BREEAM yn haf 2025. Gallai prosiectau nad ydynt wedi'u cofrestru o fewn 3 mis wynebu meini prawf asesu llymach.

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	21 Gorffennaf 2025	
Swyddog Arweiniol	Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid	
Pwnc	Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar waith is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Cafodd hwn ei sefydlu mewn ymateb i'r argymhelliad gan y cyfarfod ar 20 Ionawr 2025 i swyddogion barhau i ddyfeisio a phrofi datrysiadau amgen gyda chyrrff cynrychioliadol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, er mwyn mynd i'r afael â darpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Ers mis Ebrill 2025, mae is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi'i aildrefnu i greu "Grŵp Gweithredu'r Cydgytundeb" (Collective Agreement Implementation Group, CAIG). Daw hyn yn sgil y llwyddiant i gwblhau a llofnodi'r cydgytundeb rhwng y PST ac Undeb y Brigadau Tân, ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.
- 3 Mae'r Grŵp Gweithredu yn dal i gynnwys swyddogion Undeb y Brigadau Tân a swyddogion o'r tîm trawsnewid ond mae wedi cael ei ymestyn i gynnwys personél o'r rhan fwyaf o swyddogaethau i sicrhau y cedwir at y terfynau amser ar gyfer gweithredu a mynegiadau o ddiddordeb ar gyfer prosiectau criwio yn y dyfodol, ymhlith pethau eraill.
- 4 Mae'r Grŵp Gweithredu yn parhau i weithio gyda'i gilydd i weithredu'r cytundeb a rhoi mesurau ar waith i wella'r hunanwydnwch o fewn y system ddyletswydd bresennol ar draws yr 8 gorsaf Amser Cyflawn/Criw Dydd. Wedi iddo gael ei weithredu, bydd hyn yn caniatáu i swyddi eraill o fewn y nifer presennol o swyddi gael eu hymgorffori mewn cynlluniau peilot i ddarparu model mwy effeithiol ac effeithlon o ddarpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru.
- 5 Mae'r Grŵp Gweithredu yn parhau i weithio fel y gellir gweithredu'r Cydgytundeb o 1 Medi 2025 ar sail cynllun peilot.
- 6 Mae'r Cydgytundeb wedi'i atodi fel Atodiad A.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 7 Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i gyflwyno i'r Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio.

ARGYMHELLIAD

- 8 Bod yr Aelodau'n:
- i) **Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys;**
 - ii) **nodi bod cynnydd wedi'i wneud yn sgil y ffaith fod Undeb y Brigadau Tân wedi llofnodi'r Cydgytundeb;**
 - iii) **gwerthfawrogi ymdrechion parhaus yr holl barfïon i ddatblygu datrysiad a chyflwyno cynllun peilot i ddangos hunangynhaliaeth y lefelau staffio yn y gorsafoedd tân amser cyflawn presennol; a**
 - iv) **nodi, drwy ddangos yr hunangynhaliaeth hon, bod lle i gyflwyno cynlluniau peilot i ddefnyddio'r cyllidebau ar gyfer y nifer presennol o swyddi i wella'r model darpariaeth frys ar draws rhannau gwledig Gogledd Cymru.**

CEFNDIR

- 9 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, ymgynghorodd yr Awdurdod â'r cyhoedd ar dri opsiwn posibl ar gyfer darparu ei ymateb brys i gymunedau Gogledd Cymru yn y dyfodol. Gwnaed penderfyniad gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2023 i beidio â gweithredu unrhyw un o'r cynigion ar y pryd ond i barhau i weithio ar amrywiadau i'r cynigion. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad, fodd bynnag, yn parhau i fod yn fyw.
- 10 Cyfarfu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys 16 o gydweithwyr a oedd yn gweithio ar wahanol lefelau ac mewn gwahanol orsafoedd ac adrannau ledled GTAGC, gan gynnwys cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân, ar 12 achlysur rhwng Chwefror a Thachwedd 2024, ac yn ystod y cyfnod hwnnw fe wnaethant drafod ac ymchwilio i sawl model ymateb brys.
- 11 Cafodd sawl opsiwn eu cwmpasu gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan gynnwys gwahanol fodelau ar gyfer cynnwys staff ar y rhestr ddyletswyddau mewn ffyrdd gwahanol er mwyn rhyddhau'r swyddi sydd eu hangen i'w lleoli mewn lleoliadau ychwanegol i gefnogi darparu model darpariaeth frys mwy effeithlon ac effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys sut y gallai'r trefniadau rhestr ddyletswyddau presennol fod yn fwy hunanwydn. Felly, nid syniad newydd yw'r sail ar gyfer y Cydgytundeb ond un y mae'r is-grŵp wedi ailymweld ag ef cyn i gynigion o'r ymgynghoriad cyhoeddus gael eu hailystyried.

- 12 Ar 17 Rhagfyr 2024, cyfarfu'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân ag arweinwyr y ffrydiau gwaith a Chadeirydd Undeb y Brigadau Tân i gadarnhau'r sefyllfa hon ac i ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu gwaith caled a'u diwydrwydd.
- 13 Yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2025, ailddatganodd yr Awdurdod ei ymrwymiad i ddarparu model darpariaeth frys mwy effeithiol ac effeithlon ar draws Gogledd Cymru i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn ystod yr adolygiad o'r ddarpariaeth frys a oedd yn cydnabod heriau darparu darpariaeth frys mewn ardaloedd gwledig a sut roedd angen addasu'r defnydd o adnoddau heb unrhyw gynnydd i'r gyllideb.

GWYBODAETH

- 14 Mae'r Cydgytundeb wedi diwygio'r amseroedd dechrau a gorffen ar gyfer pob gorsaf 24 awr a Chriw Dydd. Byddai hyn yn dechrau ar 1 Medi 2025, yn amodol ar rywfaint yn rhagor o waith ar y cyd o amgylch polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig rhestr ddyletswydd ac absenoldeb. Bydd y cynllun peilot 12 mis llawn cyntaf gydag 08:00 fel amser cychwyn ar gyfer shifft diwrnod 10 awr yn dechrau ar 1 Ionawr 2026. Byddai hyn yn cyd-fynd â dechrau'r flwyddyn wyliau a byddai'n rhedeg am 24 mis.
- 15 Anfonwyd memorandwm mewnol at yr holl bersonél gweithredol ym mis Mehefin 2025 yn manylu ar y newidiadau i amseroedd dechrau a gorffen yn unol ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol er mwyn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i bersonél allu gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol. Mae storfa ganolog o wybodaeth a dogfennau canllawiau gan gynnwys Cwestiynau Cyffredin wedi'i chreu gan y Grŵp Gweithredu ar Hwb y Gwasanaeth er budd yr holl bersonél yr effeithir arnynt.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Rhaid i ganlyniadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Cyllideb	Rhaid i unrhyw ateb fod o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.
Cyfreithiol	Amh.
Staffio	Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithio gyda staff a'u cyrff cynrychioliadol a bydd yn parhau i wneud hynny. Darperir diweddariadau rheolaidd yn y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi a thrwy'r Crynodeb Wythnosol yn ogystal â thrwy ymweliadau â gorsafoedd gan swyddogion.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Mae Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth wedi ymgysylltu â grwpiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy gydol yr ymgynghoriad. Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys o fewn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol gydag adborth hefyd yn cael ei gasglu ar hyn.
Risgiau	Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a gwaith y Grŵp Gweithredu a ddaeth yn ei sgil yn ceisio lleihau'r risgiau o beidio â gallu ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru.

Cydgytundeb



**Capasiti Gwydnwch y Systemau
Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn**

CYNNWYS

Byrfoddau a Diffiniadau.....	3
Manylion y Cydgytundeb.....	4
Cyflwyniad i Systemau Dyletswydd GTAGC	6
Trosolwg o System Shifftiau Dyletswydd Criwiau.....	6
Cynllun Amodau Gwasanaeth (Y Llyfr Llwyd) y System Shifftiau Dyletswydd Criwiau Dydd.....	7
Oriau Gwaith Criwiau Dydd.....	7
Trefniadau Gwyliu ar gyfer Criwiau Dydd.....	7
Lefelau Capasiti Gwydnwch Criwiau Dydd.....	8
Ffigyrau a Thabl Gwydnwch Criwiau Dydd.....	8
Trosolwg o'r System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn.....	9
Cynllun Amodau Gwasanaeth (Y Llyfr Llwyd) y System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn..	9
Oriau gwaith y System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn.....	10
Trefniadau Gwyliu'r System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn.....	10
Lefelau Capasiti Gwydnwch y System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn.....	11
Ffigyrau a Thabl Gwydnwch y Rhyl a Glannau Dyfrdwy.....	11
Ffigyrau a Thabl Gwydnwch Wrecsam.....	13
Casgliad.....	13
Gwella capasiti gwydnwch.....	14
Llofnodion.....	18

BYRFODDAU

DC	–	Criw Dydd
WDS	–	Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn
WT	–	Amser Cyflawn
GTAGC	–	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
AT	–	Yr Awdurdod Tân
FBU	–	Undeb y Brigadau Tân
NJC	–	Y Cyd-gyngor Cenedlaethol
WDSR	–	System Dyletswydd Amser Cyflawn Gwledig
TC	–	Gwneud lawn am Hyfforddiant
TIL	–	Amser i Ffwrdd yn lle Tâl
BH	–	Gŵyl y Banc
LS	–	Gwyliau Gwasanaeth Hir
GA	–	Gwyliau Presenoldeb Da

DIFFINIADAU

DIFFYGIION CRIWIO – mae hyn yn cynnwys pob gwyliau, bônt wedi eu cynllunio neu ddim, absenoldebau (yn unol â'r Llyfr Llwyd), ynghyd â gweithgareddau a gynlluniwyd ymlaen llaw, gan gynnwys hyfforddiant i ffwrdd oddi wrth yr wylfa. Mae'r Polisi Rhestr Ddyletswyddau yn rhoi eglurhad pellach.

SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN – Mae System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn GTAGC yn system shifftiau y mae'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol wedi cytuno arni ac sy'n cydymffurfio â'r Cynllun Amodau Gwasanaeth (Y Llyfr Llwyd). Mae'n seiliedig ar bersonél yn gweithio holl oriau eu dyletswydd yn yr orsaf heb unrhyw elfen o fod ar alw. Mae'r Llyfr Llwyd yn cyfeirio at hyn fel 'System Shifftiau Dyletswydd', gyda phob cyfnod o bedair awr ar hugain yn cael ei rannu'n shifft dydd a shifft nos. Felly, bydd y ddogfen hon yn defnyddio'r derminoleg hon ar gyfer y Rhyl, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam.

Y CYTUNDEB

1. Mae'r cydgytundeb hwn yn rhoi manylion y capasiti gwydnwch sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn dwy o'r Systemau Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn a ddefnyddir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), yn unol â'r hyn y mae'r Gwasanaeth ac Undeb y Brigadau Tân (FBU) wedi cytuno arno. Y rhain yw'r system Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn a ddefnyddir yng Nglannau Dyfrdwy, y Rhyl a Wrecsam, a'r system Shifftiau Dyletswydd Criwiau Dydd a ddefnyddir yng Nghaernarfon, Bangor, Caergybi, Llandudno a Bae Colwyn.
2. Mae'r cydgytundeb hwn yn egluro'r arferion gweithio ar hyn o bryd, ynghyd â newidiadau iddynt a fydd yn gwella gwydnwch ar draws y systemau dyletswydd hyn ac yn rhyddhau capasiti ar gyfer cynnal model ymateb sy'n fwy effeithiol ac yn fwy gwydn ar gyfer Gogledd Cymru gyfan.
3. Mae'r cytundeb hwn yn drech na'r cytundebau blaenorol, lle bo'n berthnasol.

GWEINYDDU'R CYTUNDEB

4. Cyfrifoldeb y Pennaeth Ymateb a'r Prif Swyddog Tân, ar y cyd â chyrff cynrychioliadol, fydd gweinyddu'r cytundeb hwn. Wrth weithredu'r cydgytundeb hwn, bydd y Pennaeth Ymateb a'r Prif Swyddog Tân yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau dros gydraddoldeb yn y gweithle.

DIBEN Y CYTUNDEB

5. Cynlluniwyd y cytundeb hwn mewn Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn manylu ar drefniadau gwaith a chapasiti gwydnwch presennol dwy o'r systemau Dyletswydd Amser Cyflawn a ddefnyddia'r Gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae'r cytundeb hefyd yn cynnwys eglurhad o'r arferion gwaith ar hyn o bryd ynghyd â diwygiadau i'r arferion gwaith a fydd, gyda'i gilydd, yn dangos sut y gellir sicrhau hunanwydnwch yr wyth gorsaf Amser Cyflawn bresennol sydd gan GTAGC gan ddefnyddio'r sefydliad presennol o 178 o swyddi. Bydd hyn yn galluog rhyddhau'r capasiti ychwanegol o fewn y sefydliad o 208 o swyddi i ddarparu model ymateb sy'n fwy gwydn ac yn fwy effeithiol ar gyfer Gogledd Cymru gyfan.

CWMPAS

6. Bydd y cydgytundeb hwn yn berthnasol i holl bersonél ochr weithredol y System Dyletswydd Amser Cyflawn sydd wedi'u lleoli yn yr wyth gorsaf GTAGC a grybwyllwyd uchod.

DYDDIAD GWEITHREDU

7. Mae manylion yr arferion gwaith sydd wedi'u cynnwys yn y cydgytundeb hwn i'w cael ym Mholisi a Gweithdrefn y Rhestr Ddyletswyddau Amser Cyflawn (a bydd angen eu hadolygu'n rheolaidd trwy gydol y cynllun peilot hwn, ar y cyd â chyrff cynrychioliadol). Caiff ei weithredu ar 1 Medi 2025, ynghyd â'r Polisi Rhestr Ddyletswyddau diwygiedig a'i ddogfennau cysylltiedig, ar ôl i'r cydgytundeb hwn gael ei lofnodi gan y Gwasanaeth a'r cyrff cynrychioliadol, a bydd yn cael ei fonitro a'i adolygu fel a ganlyn.

MONITRO'R CYTUNDEB (i ddechrau'n llawn ar 1 Ionawr 2026)

8. Bydd gweithrediad y system yn cael ei adolygu o leiaf bob chwarter, a hynny gan y Pennaeth Ymateb a'r Prif Swyddog Tân ar y cyd â chyrff cynrychioliadol, a chaiff adborth ei rannu gyda'r holl staff. Bydd yr Awdurdod Tan yn cael adroddiadau diweddar rheolaidd. Diben yr adolygiad fydd ystyried cynnydd, perfformiad a materion eraill sy'n ymwneud â:
 - a.) Lles staff
 - b.) Staffio a gwydnwch
 - c.) Argaeledd pypiau
 - d.) Rheoli presenoldeb (gan gynnwys darpariaeth pan fo salwch tymor byr a hirdymor)
 - e.) Amseroedd dechrau a gorffen shifftiau
 - f.) Adleoliadau dros dro
 - g.) Dyraniad gwyliau
 - h.) Taliadau gwydnwch/adleoliad dros dro/goramser
 - i.) Hyfforddiant
9. Bydd y PST ac Ysgrifennydd Brigâd Undeb y Brigadau Tân yn gyfrifol am hwyluso'r adolygiadau, ond cadwant yr hawl i ddirprwyo i Swyddog arall pan fo'n briodol.
10. Mae'r PST neu Ysgrifennydd Brigâd Undeb y Brigadau Tân yn cadw'r hawl i adolygu unrhyw agwedd ar y cytundeb hwn, yn dilyn trafodaethau priodol, er mwyn darparu model ymateb mwy gwydn a mwy effeithiol ar gyfer Gogledd Cymru gyfan.

CYFLWYNIAD

11. Ar hyn o bryd, mae GTAGC yn rhedeg dwy system shifftiau dyletswydd sy'n benodol ar gyfer Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn yn wyth Gorsaf Dân Amser Cyflawn bresennol y Gwasanaeth. Y rhain yw'r System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn a'r System Shifftiau Dyletswydd Criwiau Dydd, ac mae'r ddwy wedi cael cytundeb Llyfr Llwyd y Cyd-gyngor Cenedlaethol. Cytunwyd yn lleol ar system ddyletswydd ychwanegol ar gyfer Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn, sef y System Dyletswydd Amser Cyflawn Gwledig (WDSR). Mae GTAGC hefyd yn rhedeg System Dyletswydd Dydd, ynghyd â phatrwm shifftiau Rheolwr Darparu Hyfforddiant arbennig ar gyfer swyddi Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn sydd ddim wedi'u lleoli mewn gorsafoedd. Byddai angen i'r cyrff cynrychioliadol gytuno ar unrhyw system ddyletswydd ychwanegol yn lleol.
12. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn a'r System Shifftiau Dyletswydd Criwiau Dydd yn unig, a hynny er mwyn dangos sut y gallai glynu at y gweithdrefnau dyletswydd presennol sicrhau hunanwydnwch wyth gorsaf Amser Cyflawn GTAGC o fewn y sefydliad presennol o 178 o swyddi.
13. Trwy ddangos hyn, gall unrhyw swyddi ychwanegol at y cyfanswm hwn o 178, hyd at yr uchafswm sefydliad presennol o 208, gael eu defnyddio i ddarparu model ymateb mwy gwydn a mwy effeithiol i Ogledd Cymru gyfan.

TROSOLWG O'R SYSTEM DDYLETSWYDD CRIWIAU DYDD

14. Mae system ddyletswydd criwiau dydd GTAGC yn system shifft sydd â chytundeb Llyfr Llwyd y Cyd-gyngor Cenedlaethol ac mae'n seiliedig ar weithio cyfuniad o oriau mewn gorsaf ac oriau ar alwad o leoliad.
15. Rhoddir darpariaeth ar alw trwy fyw, boed hynny fel perchennog neu denant, mewn eiddo sydd o fewn ardal/amser ymateb yr orsaf sy'n defnyddio'r system dyletswydd Criwiau Dydd (oddeutu pum munud) (a darparu'r cyfeiriad).
16. Mae'r trefniant hwn o oriau mewn gorsaf ac oriau ar alwad yn galluogi personél i ymateb ar unwaith i ddigwyddiadau yn ystod oriau'r orsaf, ac i ymateb mewn tua phum munud yn ystod oriau ar alwad.
17. Ar hyn o bryd, mae GTAGC yn gweithredu pum gorsaf system ddyletswydd Criwiau Dydd ar draws y Gwasanaeth, gyda phob gorsaf yn defnyddio system dwy wylfa a chanddynt saith person ar bob gwylfa, a hynny yng Nghaernarfon, Bangor, Caergybi, Llandudno a Bae Colwyn.

Mae Cynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd-gyngor Cenedlaethol (Y Llyfr Llwyd) yn nodi:

The hours of duty of full-time employees on this system shall be an average of forty-two per week. The hours of duty of part-time employees shall be pro-rata. The rota will be based on the following principles:

- 1. An average of thirty-five hours per week shall be worked at the station.*
- 2. An average of seven hours per week shall be on standby at home. Staff members are required to respond to any emergency call received during this standby period.*
- 3. Staff members on this system may be requested to undertake retained duties outside the hours at 1 and 2.*
- 4. There shall be at least two complete periods of twenty-four hours free from duty each week.*
- 5. One hour per day shall be specified as a meal break. Account shall be taken of meal breaks interrupted by emergency calls.*

ORIAU GWAITH CRIWIAU DYDD

18. Rhaid i staff weithio 182.5 shifft y flwyddyn, ar gyfartaledd, ac eithrio'r gwyliau blyneddol a gyfrifir o'r patrwm shifft o weithio pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod i fwrdd.
19. Diffinnir un shifft fel cyfnod o 24 awr. Rhannir y shifftiau hyn yn oriau mewn gorsaf ac oriau ar alwad.
20. Ar hyn o bryd, y drefn ar gyfer holl orsafoedd dyletswydd Criw Dydd y Gwasanaeth yw gweithio yn yr orsaf rhwng 12.00 a 22.00 o'r gloch, ac i weithio ar alwad rhwng 22.00 a 12.00 o'r gloch (yn ôl y Llyfr Llwyd).
21. Mae'r cyfnod wrth gefn rhwng 22.00 a 12.00 o'r gloch wedi'i isddosbarthu yn 'oriau positif', a hynny er mwyn cydymffurfio â phwynt (2) o Gynllun Amodau Gwasanaeth y Llyfr Llwyd. Rhaid i weithwyr ymateb i unrhyw alwad frys a geir yn ystod y cyfnod wrth gefn hwn.
22. Dan y trefniadau presennol, rhaid i bersonél dyletswydd Criw Dydd weithio pedwar cyfnod olynol ar ddyletswydd ac yna dreulio pedwar diwrnod oddi ar ddyletswydd (yn unol â'r Llyfr Llwyd).

TREFNIADAU GWYLIAU AR GYFER CRIWIAU DYDD

23. Yn unol ag amodau gwasanaeth Llyfr Llwyd y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) a gweithdrefnau GTAGC, mae gan Reolwyr Gwylfa, Rheolwyr Criw, a Diffoddwyr Tân hawl i'r gwyliau canlynol:

Gwyliau Graddfa A	-	25 diwrnod (3 x bloc o 7 diwrnod, 1 x bloc o 4 diwrnod, h.y. 16 diwrnod dyletswydd wedi'u cymryd mewn 4 bloc)
Gwyliau Graddfa B	-	5 diwrnod
Gwyliau Cyhoeddus	-	8 diwrnod
*Gwyliau Gwasanaeth Hir		3 diwrnod
*Gwyliau Presenoldeb Da		1 diwrnod (Caiff oddeutu 50% o staff hwn)

Mae gwyliau gwasanaeth hir yn berthnasol i weithwyr sydd, ar ddechrau'r flwyddyn wyliau, wedi rhoi pum mlynedd o leiaf o wasanaeth amser llawn neu ran-amser parhaus o dan y cynllun amodau gwasanaeth hwn

Bydd gwyliau presenoldeb da yn cael ei roi i staff sydd ddim wedi cymryd absenoldeb salwch yn y 12 mis blaenorol

CAPASITI GWYDNWCH CRIWIAU DYDD

24. Rhaid i staff weithio 182.5 shifft ar gyfartaledd bob blwyddyn cyn y rhoddir unrhyw wyliau. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r patrwm shifftiau pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod i ffwrdd.
25. Ar hyn o bryd, mae 14 swydd ym mhob un o bum gorsaf dyletswydd Criw Dydd y Gwasanaeth, sef cyfanswm o 70 swydd.
26. Mae'r uchod yn rhoi 2100 o shifftiau posibl y flwyddyn i'r Gwasanaeth ym mhob un o'r pum gorsaf Criw Dydd (cyfartaledd o 150 shifft ar gyfer pob un o'r 14 aelod criw, ar ôl tynnu gwyliau).
27. Mae'r weithdrefn bresennol i gael pum aelod o bersonél y dydd ar beiriant, 365 diwrnod y flwyddyn, yn gofyn am 1825 shifft lawn y flwyddyn os am gael criw 'delfrydol'.
28. Mae'r uchod felly yn gadael gwarged cychwynnol o 275 shifft y flwyddyn ar bob un o bum gorsaf dyletswydd Criw Dydd y Gwasanaeth, yn ddarostyngedig i amodau. Mae hyn yn cyfateb i 137.5 shifft fesul gwylfa.
29. Mae'r tabl a'r wybodaeth isod yn manylu ar yr uchod.

TABL A FFIGYRAU Y SEFYDLIAD CRIW DYDD YM MHOB GORSAF

Y model gweithredu presennol ar gyfer Dyletswydd Criw Dydd			
Gorsaf	Peiriannau Llawn-amser	Swyddi	Model y Rhestr Ddyletswyddau
Bae Colwyn	1 Amser Cyflawn	14	Criw Dydd Cyfredol
Llandudno	1 Amser Cyflawn	14	Criw Dydd Cyfredol
Bangor	1 Amser Cyflawn	14	Criw Dydd Cyfredol
Caernarfon	1 Amser Cyflawn	14	Criw Dydd Cyfredol
Caergybi	1 Amser Cyflawn	14	Criw Dydd Cyfredol
Cyfanswm staff angenrheidiol		70	

CYFRIFIADAU GORSAFOEDD CRIW DYDD

30. Ar ôl didyniadau ar gyfer gwyliau (32.5 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd), ac o ystyried y system ddyletswydd pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod oddi ar ddyletswydd a ddefnyddir, mae'r shifftiau canlynol ar gael i'r Gwasanaeth ym mhob un o'r pum gorsaf Criw Dydd.

14 personél x 150 shifft y flwyddyn (cyfartaledd)	2100 o shifftiau ar gael yn flynyddol
Angen 5 swydd y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn	Angen 1825 shifft y flwyddyn
Gwarged capasiti cychwynnol o 275 shifft y flwyddyn	Capasiti gwydnwch o 15%
Cyfradd gyfredol absenoldeb o bob math (2023–2024)	Absenoldeb o 8%**
Gwarged o 275 shifft y flwyddyn – 168 absenoldeb shifft	Gwarged capasiti o 107 shifft y flwyddyn
14 swydd gyda 5 diwrnod hyfforddi y flwyddyn	70 diwrnod hyfforddi bob blwyddyn
	37 shifft gwydnwch fesul gorsaf bob blwyddyn

Cyfanswm o 185 o shifftiau y flwyddyn ar draws pob gorsaf Criw Dydd, sy'n gwella gwydnwch os cânt eu rhannu

** Mae'r absenoldeb o 8% yn cynnwys pob absenoldeb, bônt wedi'u cynllunio neu ddim, gan gynnwys salwch tymor byr a hirdymor, absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, seibiannau gyrfa, absenoldeb profedigaeth, a dyletswydd rheithgor**

TROSOLWG O'R SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN

31. Mae System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn GTAGC yn system shifftiau sydd â chytundeb Llyfr Llwyd y Cyd-gyngor Cenedlaethol sy'n seiliedig ar bersonél yn gweithio'u holl oriau dyletswydd mewn gorsafoedd, heb unrhyw elfen o fod ar alwad. Mae tair o orsafoedd GTAGC yn defnyddio'r system ddyletswydd hon.
32. Mae Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl yn defnyddio system â phedair gwylfa, gyda saith person ar bob gwylfa.
33. Mae Wrecsam yn defnyddio system pedair gwylfa gyda 13 person ar bob gwylfa.
34. Mae'r trefniadau presennol ar bob un o'r gorsafoedd sydd ar system shifftiau dyletswydd 24 awr yn golygu bod rhaid i bersonél weithio dwy shifft dydd naw awr o hyd, yna dwy shifft nos 15 awr o hyd, yna pedwar diwrnod rota.

Mae Cynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd-gyngor Cenedlaethol (Y Llyfr Llwyd) yn nodi:

The hours of duty of full-time employees on this system shall be an average of forty-two per week. The hours of duty of part time employees shall be pro rata. The rota will be based on the following principles:

- 1. Each period of twenty-four hours shall be divided into a day shift and a night shift.*
- 2. The night shift shall not be less than twelve hours.*
- 3. There shall be at least two complete periods of twenty-four hours free from duty each week.*
- 4. Leave days shall change week by week in a regular progressive manner.*
- 5. No rota system shall include continuous duty periods of twenty-four hours.*
- 6. Three hours shall be specified for meal breaks in every twenty-four hours. The timing of these periods is at the discretion of the authority. Account shall be taken of meal breaks interrupted by emergency calls.*

ORIAU GWAITH Y SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN

35. Rhaid i staff weithio 182.5 diwrnod y flwyddyn, ar gyfartaledd, ac eithrio'r hawl gwyliau blyneddol a gyfrifir o'r patrwm shifft pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod i ffwrdd.

36. Ar hyn o bryd, mae un shifft yn cael ei chyfrif fel naill ai un shifft dydd naw awr neu un shifft nos 15 awr.
37. Mae'r trefniadau presennol yn golygu bod rhaid i bersonél ar y system shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn weithio dwy shifft dydd 9-awr, yna dwy shifft nos 15 awr, ac yna pedwar diwrnod i ffwrdd.
38. Yn GTAGC, mae'r shifft dydd yn dechrau am 0900, a'r shifft nos yn dechrau am 1800.

TREFNIADAU GWYLIAU'R SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN

39. Yn unol ag amodau gwasanaeth Llyfr Llwyd y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) a gweithdrefnau GTAGC, mae gan Reolwyr Gwylfa, Rheolwyr Criw, a Diffoddwyr Tân hawl i'r gwyliau canlynol ym mhob blwyddyn galendr:

Gwyliau Graddfa A - 25 diwrnod (3 x bloc o 7 diwrnod, 1 x bloc o 4 diwrnod, h.y. 16 diwrnod ar ddyletswydd wedi'u cymryd mewn 4 bloc)

Gwyliau Graddfa B - 5 diwrnod

Gwyliau Cyhoeddus - 8 diwrnod

*Gwyliau Gwasanaeth Hir 3 diwrnod

*Gwyliau Presenoldeb Da 1 diwrnod (Caiff oddeutu 50% o staff hwn)

Mae gwyliau gwasanaeth hir yn berthnasol i weithwyr sydd, ar ddechrau'r flwyddyn wyliau, â phum mlynedd o leiaf o wasanaeth amser llawn neu ran-amser parhaus o dan y cynllun amodau gwasanaeth hwn

Bydd gwyliau Presenoldeb Da yn cael ei roi i staff sydd ddim wedi cymryd absenoldeb salwch yn y 12 mis blaenorol

CAPASITI GWYDNWCH SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN – Y RHYL A GLANNAU DYFRDWY

40. Rhaid i staff weithio 182.5 shifft ar gyfartaledd bob blwyddyn cyn y cyfrifir unrhyw wyliau. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r patrwm shifftiau pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod i ffwrdd.
41. Mae 28 o swyddi wedi'u lleoli yng Ngorsaf Dân Glannau Dyfrdwy a 28 o swyddi yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

42. Mae Gorsafoedd Tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn gweithredu system pedair gwylfa, gyda saith person ar bob gwylfa.
43. Mae'r uchod yn rhoi 4200 o shifftiau posibl y flwyddyn i'r Gwasanaeth yng Nglannau Dyfrdwy a 4200 o shifftiau posibl yn y Rhyl (cyfartaledd o 150 shifft ar gyfer pob un o'r 28 aelod criw, ar ôl tynnu gwyliau).
44. Mae'r weithdrefn bresennol i gael 5 aelod o bersonél ar bob peiriant ar y shifft nos a'r shifft dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, yn gofyn am 3650 shifft lawn bob blwyddyn (1825 dydd a 1825 nos).
45. Felly, mae'r uchod yn gadael gwarged cychwynnol o 550 o shifftiau y flwyddyn yng Ngorsaf Dân Glannau Dyfrdwy ac yng Ngorsaf Dân y Rhyl, yn ddarostyngedig i amodau. Mae hyn yn cyfateb i 137.5 shifft i bob gwylfa.
46. Mae'r tabl isod a'i wybodaeth gysylltiedig yn manylu ar yr uchod.

TABL A FFIGYRAU SEFYDLIAD SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN AR GYFER Y RHYL/GLANNAU DYFRDWY

Model gweithredu presennol 24 awr ar Shifft Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl			
Gorsaf	Peiriannau Llawn-amser	Swyddi	Model y Rhestr Ddyletswyddau
Glannau Dyfrdwy	1 Amser Cyflawn	28	System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn Cyfredol
Y Rhyl	1 Amser Cyflawn	28	System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn Cyfredol
Cyfanswm staff angenrheidiol		56	

FFIGYRAU SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN Y RHYL/GLANNAU DYFRDWY

47. Ar ôl didyniadau ar gyfer gwyliau (32.5 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd), ac o ystyried y system ddyletswydd pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod i ffwrdd a ddefnyddir, mae'r shifftiau canlynol ar gael i'r Gwasanaeth yng Nglannau Dyfrdwy a'r Rhyl.

28 swydd x 150 shifft dyletswydd y flwyddyn ar gyfartaledd 4200 o shifftiau ar gael y flwyddyn

5 swydd i bob shifft, 365 diwrnod y flwyddyn, x2 Angen 3650 shifft y flwyddyn

Gwarged capasiti cychwynnol o 550 shifft y flwyddyn Capasiti gwydnwch o 15%

Cyfradd gyfredol absenoldeb o bob math (2023–2024) Absenoldeb o 8%

550 shifft y flwyddyn – 336 absenoldeb shifft Gwarged capasiti o 214 shifft y

28 swydd gyda 5 diwrnod hyfforddi y flwyddyn 140 diwrnod hyfforddi bob blwyddyn

****74 shifft gwydnwch ym mhob gorsaf bob blwyddyn****

****Cyfanswm o 494 shifft gwydnwch y flwyddyn ar draws y tair gorsaf System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn, gan wella gwydnwch os cânt eu rhannu***

**** Mae'r absenoldeb o 8% yn cynnwys pob absenoldeb, bônt wedi'u cynllunio neu ddim, gan gynnwys salwch tymor byr a hirdymor, absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, seibiannau gyrfa, absenoldeb profedigaeth, a dyletswydd rheithgor****

CAPASITI GWYDNWCH Y SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN – WRECSAM

45. Rhaid i staff weithio 182.5 shifft ar gyfartaledd bob blwyddyn cyn y cyfrifir unrhyw wyliau. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r patrwm shifftiau pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod i ffwrdd.
46. Mae 52 swydd wedi'u lleoli yng Ngorsaf Dân Wrecsam.
47. Mae Gorsaf Dân Wrecsam yn defnyddio system pedair gwylfa gyda 13 person ar bob gwylfa.
48. Mae'r uchod yn rhoi 7800 shifft posibl y flwyddyn i'r Gwasanaeth (cyfartaledd o 150 shifft ar gyfer pob un o'r 52 aelod criw, ar ôl tynnu gwyliau).
49. Mae'r weithdrefn bresennol i gael 9 aelod o bersonél ar bob peiriant ar y shifft nos a'r shifft dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, yn gofyn am 6570 shifft lawn bob blwyddyn (3285 shifft dydd a 3285 shifft nos).
50. Mae'r uchod felly yn gadael gwarged cychwynnol o 1230 o shifftiau y flwyddyn, yn ddarostyngedig i amodau.
51. Mae'r tabl isod a'i wybodaeth gysylltiedig yn manylu ar yr uchod.

TABL A FFIGYRAU SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN – WRECSAM

Model gweithredu presennol 24 awr ar Shifft Wrecsam			
Gorsaf	Peiriannau Llawn-amser	Swyddi	Model y Rhestr Ddyletswyddau
Wrecsam	2 Amser Cyflawn	52	System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn Cyfredol
Cyfanswm staff angenrheidiol		52	

LEFELAU GWYDNWCH SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN WRECSAM

52 swydd x 150 shifft dyletswydd y flwyddyn, ar gyfartaledd	7800 o shifftiau ar gael y flwyddyn
Angen 9 swydd y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn x 2	Angen 6570 shifft y flwyddyn
Gwarged capasiti cychwynnol o 1230 shifft y flwyddyn	Capasiti gwydnwch o 18.5%
Cyfradd gyfredol absenoldeb o bob math (2023–2024)	Absenoldeb o 8% **
1230 shifft y flwyddyn – 624 absenoldeb shifft	Gwarged capasiti o 606 shifft y flwyddyn
52 swydd gyda 5 diwrnod hyfforddi y flwyddyn	260 diwrnod hyfforddi bob blwyddyn
	**Gwarged o 346 shifft y flwyddyn

**Cyfanswm o 494 shifft gwydnwch y flwyddyn ar draws y tair gorsaf Shifftiau Dyletswydd 24 awr, gan wella gwydnwch os cânt eu rhannu*

** Mae'r absenoldeb o 8% yn cynnwys pob absenoldeb, bônt wedi'u cynllunio neu ddim, gan gynnwys salwch tymor byr a hirdymor, absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, seibiannau gyrfa, absenoldeb profedigaeth, a dyletswydd rheithgor**

CASGLIAD

Mae'r ffigurau uchod yn dangos bod cyfanswm o 679 o shifftiau gwarged ar draws y system Shifftiau Dyletswydd 24 awr a'r systemau Shifftiau Dyletswydd Criwiau Dydd, gan ddangos, ar ffurf profi cysyniad, bod y systemau dyletswydd presennol a'r sefydliad o 178 o bersonél yn yr wyth gorsaf amser cyflawn bresennol yn cynnig gwydnwch digonol i ddarparu ar gyfer unrhyw ddiffygion criwio, a hynny gan ganiatáu ar gyfer absenoldeb o bob math. Ar ben hynny, bydd hyn hefyd yn rhoi digon o gapasiti gwydnwch i'r Adran Hyfforddi a Datblygu dynnu personél o'r rota am bum diwrnod y flwyddyn i ymgymryd â chysiau hyfforddi a datblygu tra byddant ar ddyletswydd.

Bydd gweithredu'r cydgytundeb hwn yn llwyddiannus yn caniatáu i GTAGC dreialu cynigion eraill ar gyfer darpariaeth frys effeithiol ar draws Gogledd Cymru gyfan.

GWELLA CAPASITI GWYDNWCH

Sicrhau bod y broses ddyrchafu yn cyd-fynd â'r flwyddyn wyliau

53. Mae'r trefniadau presennol yn golygu bod y broses dyrchafu goruchwyliol flynyddol yn digwydd ar ôl i geisiadau am wyliau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod gael eu cyflwyno a'u cymeradwyo. Digwydda'r broses rhwng Ionawr a Mawrth fel arfer, ac fel arfer mae'n cynnwys pob swydd, o Reolwyr Ardal i Ddiffoddwyr Tân.

54. Mae'r broses ddyrchafu bob amser yn arwain at symud personél i orsaf neu Wylfa wahanol, a hynny heb fod o wirfodd ar brydiau, gan olygu bod gwrthdaro o ran gwyliau yn anochel.
55. Pan ddigwydda hyn, y tueddiad fel arfer yw i'r gwyliau gael ei barchu, ond yn aml bydd yn achosi diffyg y bydd rhaid ei lenwi trwy wneud taliadau goramser i staff eraill.
56. Trwy symud y broses ddyrchafu a'i chynnal cyn i'r ceisiadau am wyliau gael eu gwneud, gallwn osgoi'r gwrthdrawiadau a geir ar hyn o bryd a rhyddhau capasiti gwydnwch.

Mynd ar ddyddiau hyfforddi neu wneud gweithgareddau eraill i'r Gwasanaeth ar ddiwrnodau rota

57. Dan y trefniadau presennol, rhaid i bersonél fynd ar sawl diwrnod hyfforddi bob blwyddyn, a hynny yn aml ar ddiwrnodau rota. Telir am hyfforddiant ar ddyddiau rota ar gyfradd o amser a hanner. Caiff hwn ei rannu'n ddiwrnod Gwneud lawn am Hyfforddiant (TC) ynghyd â 50% o Amser i Ffwrdd yn Lle Tâl (TIL).
58. Mae'r trefniant uchod wedi arwain at groniad sylweddol o Amser i Ffwrdd yn Lle Tâl ar draws personél y Gwasanaeth, yn ogystal â chroniad o ddiwrnodau Gwneud lawn am Hyfforddiant, a rhaid darparu ar gyfer y naill a'r llall. Mae hyn yn aml yn gadael Gwylfeydd yn brin o bersonél, a rhaid gwneud taliadau goramser i staff eraill er mwyn llenwi'r diffyg.
59. O dan y cytundeb hwn bydd y rhan fwyaf o gyrsiau hyfforddi a datblygu yn cael eu cymryd ar ddiwrnodau dyletswydd. Rhaid cymryd unrhyw ddiwrnodau hyfforddi a weithir ar ddiwrnodau rota fel goramser yn hytrach na TC/TIL.
60. Rhaid i bersonél sy'n gwneud gweithgareddau awdurdodedig eraill y Gwasanaeth ar ddiwrnodau rota, megis rhwydweithiau, grwpiau a fforymau staff, gymryd yr amser a gronnir fel goramser ac nid TIL.

Amseroedd dechrau shifftiau

61. Mae'r trefniadau ar gyfer personél ar hyn o bryd yn golygu bod y gwahanol systemau dyletswydd yn dechrau eu shifftiau ar wahanol adegau. Mae hyn yn creu rhwystr i wydnwch gan na all aelodau o griwiau gorsafoedd system ddyletswydd Criwiau Dydd gael eu hadleoli i lenwi diffyg mewn gorsaf System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn, ac i'r gwrthwyneb.
62. Mae'r uchod yn aml yn arwain at orsaf Criw Dydd, er enghraifft, sydd â 'chapasiti sbâr', h.y. chwech neu saith aelod o bersonél ar ddyletswydd ar ddiwrnod penodol, a dim modd rhyddhau'r capasiti hwnnw i orsaf System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn. Rhaid i'r diffyg, o ganlyniad, gael ei lenwi trwy wneud taliadau goramser i staff eraill.

63. Bydd aildrefnu'r patrymau shifft i ddechrau ar yr un pryd yn rhyddhau capasiti gwydnwch gan y bydd yn caniatáu i bersonél symud er mwyn llenwi diffygion ar draws ystod ehangach o orsafoedd, gan osgoi unrhyw gamau adfer a allai effeithio ar gymryd gwyliau neu gael criwiau sy'n llai na'r nifer ddelfrydol o bump ar bob peiriant.
64. O dan y cytundeb hwn a'i gynllun peilot, bydd amseroedd dechrau a gorffen y systemau shifftiau dyletswydd Amser Cyflawn a Chriwiau Dydd presennol yn cyd-fynd fel a ganlyn o 1 Medi 2025 hyd at ddiwedd 12 mis llawn cyntaf y cynllun peilot (1 Ionawr 2026 i 31 Rhagfyr 2026).

Amseroedd dechrau a gorffen mewn gorsafoedd System Dyletswydd Amser Cyflawn presennol o dan y cytundeb hwn			
Gorsaf	Shifft Dydd	Shifft Nos	Oriau positif
Y Rhyl, Glannau Dyfrdwy, Wrecsam	08.00 – 18.00	18.00 – 08.00	Amh.
Caernarfon, Bangor, Caergybi, Llandudno, Bae Colwyn	08.00 – 18.00	Amh.	** Cytunir yn lleol**

Trwy gytundeb lleol, gall pob gorsaf criw dydd ddarparu gwasanaeth yn ystod y ddwy awr positif ychwanegol y mae'n rhaid eu cael bob dydd, un ai ar ddechrau a diwedd yr amser y mae'n rhaid bod yn yr orsaf, neu fel awr bob ochr i'r amser shifft.

Bydd adolygiadau chwarterol yn caniatáu adborth gan bob parti ynghylch effaith y newidiadau hyn.

65. Gwerthuso'r Cynllun Peilot

Ar ôl i'r cyfnod peilot orffen (31 Rhagfyr 2026), bydd y rhai sy'n gyfrifol am fonitro'r cydgytundeb hwn yn cynnal gwerthusiad er mwyn penderfynu pa drefn fydd yn cael ei chyflwyno'n barhaol yn y dyfodol. Bydd y cydgytundeb hwn yn parhau i fod yn weithredol trwy gydol y cyfnod gwerthuso hwn.

Cymeradwyo gwyliau

66. Mae'r protocolau rhestr dyletswyddau presennol yn galluogi'r Gwasanaeth i sicrhau bod darpariaeth ar gael i wneud yn iawn am gyfran fawr o'r diffygion criw a welir mewn blwyddyn (naill ai oherwydd salwch tymor hir neu salwch byrdymor), a hynny trwy wneud adleoliadau dros dro, darpariaeth gwydnwch, neu drwy gael cymeradwyaeth fwy cadarn o wyliau 'nad ydynt yn sylfaenol' h.y. Gŵyl y Banc (BH) ac Amser i Ffwrdd yn Lle Tâl (TIL)
67. Bydd y modd y cymeradwyir gwyliau yn cael ei ddiffinio o fewn diweddariad i bolisi a gweithdrefn y rhestr ddyletswyddau amser cyflawn, a bydd yn dilyn y prosesau ymgynghori presennol.

Ailddosbarthu gwyliau (blwyddyn wyliau 2026 ymlaen)

68. Mae'r protocolau gwyliau presennol yn caniatáu i ddau aelod o bersonél fod i ffwrdd ar wyliau blynyddol (AL) ar unrhyw un adeg, ar wahân i wythnosau gwydnwch dynodedig, pan na chaniateir i fwy nag un fod ar wyliau. Yn Wrecsam, mae'r trefniant cyfatebol yn caniatáu i bedwar fod ar wyliau ar yr un pryd, a thri ar wythnosau gwydnwch dynodedig.
69. Mae'r trefniant uchod yn golygu bod rhai misoedd pan nad oes unrhyw gapasiti gwydnwch ar gael. Trwy ailddosbarthu Gwyliau Blynyddol Statudol yn gyfartal trwy gydol y flwyddyn, a thrwy gyflwyno Polisi Rhestr Ddyletswyddau diwygiedig, *bydd capasiti gwydnwch yn cael ei ddosbarthu'n fwy cyson ar draws y flwyddyn.*

Darpariaeth gwydnwch bresennol

70. Mae'r gweithdrefnau gwydnwch presennol yn nodi mai dim ond i gwmpasu diffyg oherwydd absenoldebau salwch tymor byr y gellir defnyddio hwn, sef absenoldebau am gyfnodau byrrach nag 16 diwrnod. Golyga hyn na ellir defnyddio capasiti weithiau, hyd yn oed os yw ar gael, oherwydd nad oes rhaid i'r orsaf dan sylw ryddhau'r aelod criw dan sylw os ydynt yn dewis cymryd gwyliau. O dan y cydgytundeb hwn, bydd y 'rheol' 16 diwrnod yn cael ei hadolygu, gyda pharamedrau newydd, i ganiatáu'r defnydd o'r ddarpariaeth gwydnwch i lenwi ystod ehangach o ddiffygion criwio.
71. Rhagwelir y bydd gwella'r capasiti gwydnwch yn lliniaru diffygion criw mewn gorsafoedd amser cyflawn. I wneud hyn, byddwn yn cytuno mewn partneriaeth gymdeithasol ar bolisi newydd ar gyfer y rhestr ddyletswyddau amser cyflawn, a fydd yn ceisio gwella diffygion criwio, trefniadau gwydnwch, a sut mae gwyliau'n cael ei ddosbarthu.
72. Mae'r cytundeb hwn yn symud tuag at ganiatáu'r defnydd o ddarpariaeth gwydnwch i lenwi ystod ehangach o ddiffygion criwio. Bydd caniatáu'r defnydd o'r ddarpariaeth gwydnwch i lenwi ystod ehangach o ddiffygion criwio yn cynyddu capasiti gwydnwch systemau dyletswydd presennol y gorsafoedd.

Diwygio'r canllawiau ar y rhestr ddyletswyddau amser cyflawn

73. Er mwyn cyflawni'r uchod, rhaid cael gwared ar unrhyw amwysedd o'r Polisi Rhestr Ddyletswyddau a'r dogfennau cysylltiedig, a hynny er mwyn rhoi eglurder i'r holl reolwyr a phersonél. I wneud hyn, bydd rhaid i'r dogfennau hyn gael eu hadolygu cyn y dyddiad cychwyn (1 Medi 2025). Byddai unrhyw adolygiad yn ddarostyngedig i gytundeb mewn partneriaeth gymdeithasol.

Bydd y Cydgytundeb lleol hwn yn rhan o'r contract cyflogaeth trwy gytundeb cydfuddiannol ar gyfer y personél hynny a gyflogir ar orsafoedd Criwiau Dydd Amser Cyflawn a gorsafoedd Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn yn GTAGC. Mae'r partïon isod wedi ymrwymo i'r cydgytundeb hwn.

Llofnod.....

Dyddiad.....

Ar ran Undeb y Brigadau Tân

Llofnod.....

Dyddiad.....

Ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	21 Gorffennaf 2025	
Swyddog Arweiniol	Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael	
Swyddog Cyswllt	Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael	
Pwnc	Datganiad Drafft o'r Cyfrifon 2024-25	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 I gyflwyno Datganiad o'r Cyfrifon heb eu harchwilio ar gyfer 2024/25, gan gynnwys sefyllfa refeniw a chyfalaf, sefyllfa'r fantolen, a symudiadau ariannol allweddol ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).
- 2 I geisio dirprwyo'r awdurdod i'r Panel Gweithredol i gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon wedi ei archwilio yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2025.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 3 Mae'r Awdurdod wedi cynnal sefyllfa ariannol gadarn er gwaethaf pwysau parhaus. Mae canlyniad refeniw 2024/25 yn dangos gwarged o £293k, gyda chronfeydd defnyddiadwy yn cynyddu i £10.879m. Mae'r cyfrifon llawn gan gynnwys yr adroddiad naratif wedi'u cynnwys yn Atodiad i.
- 4 Cyfanswm gwariant cyfalaf oedd £3.087m, gyda £2.589m wedi'i gario ymlaen. Mae'r cyfrifon yn ymgorffori mabwysiadu IFRS 16 a buddsoddiad parhaus mewn cynaliadwyedd, seilwaith hyfforddi, a gwytnwch gweithredol.
- 5 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys yr ymateb a ddarparwyd i Archwilio Cymru yn dilyn ymholiadau mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu sy'n berthnasol i'r Datganiad o Gyfrifo, wedi'i atodi fel Atodiad ii.

SYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

- 6 Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 16 Mehefin 2025, lle nododd yr Aelodau ei gynnwys ac fe wnaethant gymeradwyo'r. Codwyd ymholiad penodol ynghylch digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn ac a oeddent yn ddigonol i liniaru risgiau. Cadarnhawyd, yn egwyddorol, y gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio i wrthbwysu costau untro sy'n gysylltiedig â'r ardoll; fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar lefel y gweithgarwch yn aros yn gyson.
- 7 Mynegwyd gwerthfawrogiad gan y Cadeirydd a'r Swyddog Adran 151 am yr ymdrech sylweddol a fu'n gysylltiedig â chyhoeddi'r cyfrifon erbyn y dyddiad cau statudol ddiwedd Mai.

ARGYMHELLION

8 Argymhellir bod yr Aelodau:

- i) Cymeradwyo'r sefyllfa refeniw a chyfalaf heb eu harchwilio;**
- ii) Cymeradwyo'r sefyllfa mantolen heb ei harchwilio;**
- iii) Cymeradwyo'r symudiad i ac o gronfeydd wrth gefn; a**
- iv) Cymeradwyo dirprwyo'r awdurdod i'r Panel Gweithredol i gymeradwyo'r Datganiad Archwiliedig o Gyfrifon.**

CEFNDIR

- 9 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi datganiad o gyfrifon yn flynyddol. Mae'r amserlenni cyn-Covid a bennir yn y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad drafft o gyfrifon gael ei gyhoeddi erbyn 31 Mai, gyda therfyn amser archwilio o 31 Gorffennaf bob blwyddyn.
- 10 Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru, yn dilyn ymgynghoriad â Chymdeithas Trysoryddion Cymru ac Archwilio Cymru, y dylid paratoi'r datganiad drafft o gyfrifon ar gyfer 2024/25 erbyn 30 Mehefin 2025, ac y dylid archwilio'r datganiad o gyfrifon erbyn 31 Hydref 2025.
- 11 Ardystiwyd y Datganiad Drafft o Gyfrifon gan Drysorydd yr Awdurdod ar 30 Mai 2025 ac mae'r archwiliad allanol gan Archwilio Cymru yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Yn dilyn cwblhau'r archwiliad, cyflwynir y cyfrifon i'r Awdurdod Tân llawn i'w cymeradwyo'n derfynol.

GWYBODAETH

- 12 Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi'i baratoi yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ac mae'n darparu trosolwg cynhwysfawr o berfformiad ariannol a sefyllfa'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025.
- 13 Mae hefyd yn cynnwys Adroddiad Naratif, sy'n amlinellu cyd-destun gweithredol, blaenoriaethau strategol, a chyflawniadau allweddol yr Awdurdod. Pwrpas yr Adroddiad Naratif yw helpu rhanddeiliaid i ddeall y datganiadau ariannol a'r amgylchedd ehangach y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo.
- 14 Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cadarnhau bod balans terfynol cronfeydd defnyddiadwy yn £10.879m (Nodyn 8, tudalen 36) sy'n cynnwys y gwarged o £0.293m ar y gronfa gyffredinol a chynnydd o £1.540m mewn cronfeydd wrth gefn penodol.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol.
Cyllideb	Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal.
Cyfreithiol	Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodir.
Staffio	Dim
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Dim
Risgiau	Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod yn briodol, a'u hadrodd i'r Aelodau.

Dataganiad o Gyfrifon

2024-2025



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



DATGANIAD O GYFRIFON

TUDALEN

Adroddiad Naratif	2-18
Datganiad o Gyfrifoldebau	19
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	20-23
Dadansoddiad o Wariant a Chyllid	24
Datganiadau Ariannol Craidd	25-29
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd	30-67
Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân	68-69
Polisiâu Cyfrifyddu	70-83

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cynnal a chadw gwefan yr Awdurdod a sicrhau ei bod yn gywir; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn wreiddiol.

Adroddiad Naratif

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi'i baratoi yn unol â gofynion y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Ei nod felly yw rhoi gwybodaeth fel y gall aelodau o'r cyhoedd a thrigolion Gogledd Cymru, Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub, partneriaid, rhanddeiliaid, a phartïon eraill â diddordeb:

- Ddeall sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod a'r sefyllfa alldro ar gyfer 2024/25;
- Bod yn hyderus bod yr arian cyhoeddus sydd wedi'i roi yng ngofal yr Awdurdod wedi cael ei ddefnyddio mewn modd priodol a bod cyfrif priodol wedi'i roi amdano; a
- Bod yn sicr bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn gadarn ac yn ddiogel.

Mae arddull a fformat y cyfrifon yn cydymffurfio â safonau CIPFA. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y cyfrifon hyn yn cael ei chyflwyno mor syml a chlir â phosibl. Fodd bynnag, mae cyfrifon sefydliad fel Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ôl eu natur, yn dechnegol ac yn gymhleth.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys y datganiadau ariannol craidd, sef:

Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant (CIES) – yn dangos cost cyfrifyddu darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, yn unol â safonau cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu drwy drethiant.

Dadansoddiad o Wariant ac Ariannu (EFA) – yn dangos yr un wybodaeth â'r CIES ond hefyd yn darparu'r addasiadau cyfrifyddu sy'n cael eu dileu yn Nodiad 7 i sicrhau nad yw'r addasiadau hyn yn cael eu hariannu gan Drethdalwyr.

Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd (MIRS) – yn dangos symudiad y cronfeydd a ddelir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'u dadansoddi rhwng cronfeydd 'defnyddiadwy' a 'ddefnyddiadwy'. Mae'r datganiad yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod a sut mae'r costau hynny'n cael eu hariannu o'r cronfeydd amrywiol.

Y Fantolen – yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r asedau net yn cyfateb i'r cronfeydd a ddelir gan yr Awdurdod.

Datganiad Llif Arian – yn dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerthoedd arian parod yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd.

Rhagair gan y Cadeirydd

Fel Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2024/25. Er gwaethaf heriau ariannol parhaus, rwy'n hynod falch o sut mae'r Gwasanaeth, gyda chefnogaeth yr Awdurdod, wedi llwyddo i wasanaethu ein cymunedau'n effeithiol a chynnal sefydlogrwydd ariannol ar yr un pryd.

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymroddedig i sicrhau gwasanaeth tân effeithlon ac effeithiol sy'n cyd-fynd â'n cenhadaeth: *gwneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef*. Mae cyflawni hyn yn gofyn nid yn unig am gydbwyso'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol ond hefyd cynllunio ar gyfer dyfodol ariannol cynaliadwy. Rhan hanfodol o'r strategaeth hon yw buddsoddi mewn asedau a fydd yn cefnogi'r Gwasanaeth a'r gymuned am flynyddoedd i ddod.

Er bod y rhagolygon ariannol ar gyfer y dyfodol yn parhau i fod yn heriol, rwy'n hyderus y bydd y sefyllfa ariannol gref yr ydym wedi'i chynnal yn ein galluogi i lywio'r heriau hyn yn llwyddiannus.

Y Cyngorydd Dylan Rees
Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru



Cyflwyniad gan Dawn Docx, Prif Swyddog Tân

Bwriad y Datganiad Naratif hwn yw rhoi dealltwriaeth gliriach i ddarllenwyr o'r Awdurdod Tân ac Achub, ei amgylchedd gweithredu, a helpu i ddehongli'r Datganiad o Gyfrifon cysylltiedig.

Yn ogystal â gwybodaeth ariannol, mae'r Datganiad Naratif yn cynnig cipolwg ar weithgareddau gweithredol, mentrau strategol, a metrigau perfformiad yr Awdurdod. Mae'r trosolwg cynhwysfawr hwn yn helpu darllenwyr i werthfawrogi'r cyd-destun ehangach y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo.

Er bod y cyfrifon eu hunain yn gymhleth ac yn dechnegol, rwy'n eich annog i gymryd yr amser i'w hadolygu, ynghyd â'r Datganiad Naratif hwn, sy'n rhoi trosolwg manwl o'r flwyddyn ariannol a sefyllfa ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub ar 31 Mawrth 2025. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyfrifon, darperir manylion cyswllt yn y Datganiad Naratif hwn.

Dawn Docx
Prif Swyddog Tân



Cyflwyniad i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'r cyfrifon hyn yn ymdrin â'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Awdurdod yn gwasanaethu ardal ddaearyddol gyfan o 2,400 milltir sgwâr gydag amcangyfrif o boblogaeth o oddeutu 700,000 o bobl. Mae 44 o orsafoedd tân yng Ngogledd Cymru – 8 gorsaf amser llawn a 36 gorsaf ar alwad.

Yn ogystal ag ymateb brys, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddiogelwch cymunedol ac atal tanau. Rydym yn cydweithio ag ysgolion, busnesau, a grwpiau cymunedol lleol i gyflwyno rhaglenni addysgol ac ymgyrchoedd diogelwch.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr yn cael ei bennu gan boblogaeth ardal y Cyngor cyfansoddol. Mae mwy o wybodaeth am yr Awdurdod, ei aelodau a'i gyfrifoldebau ar gael [yma](#).

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys Uwch Swyddogion a Rheolwyr sy'n gyfrifol am adrannau sy'n gofalu am swyddogaethau gweithredol a chorfforaethol allweddol ein Gwasanaeth.

Ein hegwyddorion

Yn GTAGC, rydym yn cael ein harwain gan ein hegwyddorion sy'n llywio ein gweithredoedd a'n penderfyniadau. Sef:



Mae'r egwyddorion hyn yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a chynnal ymddiriedaeth a diogelwch y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

About Our Service Area



Adnoddau

 44 gorsaf dân
 54 injan dan rheng flaen
 43 peiriant arbennig gan gynnwys cychod achub a pheiriannau cyrraedd yn uchel
 878 o staff gyda 29% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl

Gweithgareddau Atal ac Amddiffyn

 Cwblhawyd 20,021 o Archwiliadau Diogel ac Iach
 Cynhaliwyd 320 o archwiliadau busnes
 133 o sgysiau diogelwch gyda 11,563 o blant a phobl ifanc
 22 o gysiau ffenics gyda 203 o gyfranogwyr yn cwblhau'r rhaglen

Gweithgareddau ymateb

 Deliwyd â 14,530 o alwadau brys
 Wedi mynychu 6,485 o ddigwyddiadau brys
 Mynychwyd 1,801 o danau gyda 43 ohonynt yn danau gwyllt
 3,263 fo alwadau diangen

Llywodraethu

Yn y flwyddyn ariannol 2024/25, fe wnaethom ganolbwyntio ar wneud ein gweithrediadau yn dryloyw, atebol, ac effeithlon. Mae ein fframwaith llywodraethu yn ein helpu i wneud penderfyniadau, rheoli risgiau, a monitro perfformiad.

Datblygiadau Llywodraethu Allweddol

Eleni, fe wnaethom newidiadau pwysig i'n strwythur llywodraethu:

- **Adolygiad o'r Strwythur Llywodraethu:** Fe wnaethom adolygu a diweddarau ein strwythur llywodraethu i ddiwallu ein hanghenion yn well. Roedd hyn yn cynnwys diweddarau rolau a chyfrifoldebau pwyllgorau allweddol.
- **Rheoli Risg:** Fe wnaethom wella ein rheolaeth risg trwy gynnwys asesiadau risg yn ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.
- **Archwilio Mewnol:** Rydym ar ail flwyddyn cynllun archwilio mewnol tair blynedd i adolygu ein rheolaethau mewnol a sicrhau ein bod yn dilyn polisiau a gweithdrefnau sefydledig.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol, sy'n dod gyda'r datganiadau ariannol, yn rhoi cyfrif manwl o'n fframwaith llywodraethu a'i effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn. Mae'n tynnu sylw at faterion llywodraethu allweddol a'r camau a gymerwyd gennym i wella arferion llywodraethu.

Mentrau Llywodraethu yn y Dyfodol

Wrth edrych ymlaen, rydym wedi ymrwymo i wella ein llywodraethu yn barhaus. Mae'r mentrau allweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cynnwys:

- **Hyfforddiant a Datblygu:** Byddwn yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu parhaus i aelodau a swyddogion er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu rolau llywodraethu yn effeithiol.
- **Monitro Perfformiad:** Byddwn yn gwella mecanweithiau monitro ac adrodd ar berfformiad er mwyn rhoi gwybodaeth amserol a chywir am ein perfformiad yn erbyn amcanion strategol.

Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth

Mae strwythur Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn cynnwys y Prif Swyddog Tân a Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol. Mae gweddill Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn cynnwys Rheolwyr Ardal a Phenaethiaid Adrannau, gan sicrhau fframwaith arweinyddiaeth cynhwysfawr ac effeithiol.

Model Gweithredu

Mae model gweithredu'r Awdurdod Tân yn esbonio sut yr ydym yn gweithio i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Mae'n dangos sut yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau, rheoli ein gwasanaethau, a chyrraedd ein nodau.

Mae ein prif wasanaethau'n cynnwys:

- **Ymateb Brys:** Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i danau, galwadau gwasanaeth arbennig, a digwyddiadau eraill.
- **Atal a Diogelu:** Hyrwyddo ac addysgu diogelwch tân, cwblhau arolygiadau, a gorfodi rheolau i leihau risg.
- **Ymgysylltu â'r Gymuned:** Gweithio gyda thrigolion, busnesau, a grwpiau lleol i hyrwyddo diogelwch a pharodrwydd.

Rydym yn gwirio ac yn addasu yn rheolaidd sut yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau i wneud yn siŵr ein bod yn cwrdd â'n nodau yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys adolygu ein cyllideb, ein staffio, a'n hanghenion offer, yn ogystal ag asesu ein perfformiad a'n heffaith.

Isod mae map o'n holl gyfleusterau ledled Gogledd Cymru.

Yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys

Yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr 2023 i beidio â bwrw ymlaen ar cynig gwreiddi (Opsw'n 1a, fel y'i cyflwynwyd ym mis Rhafyr 2023), sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys newydd ym mis Ionawr 2024.


Trwy gydol y flwyddyn, mae'r grŵp wedi archwilio argymhellion ychwanegol a gyflwynwyd yn ystod yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i wella elfen ymateb brys y model gweithredu.

Amcan allweddol yw gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd patrymau shift presennol a pheilota modelau newydd i ddiffoddwyr tân amser cyflawn allu gweithredu mewn ardaloedd gwledig allweddol i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer diffodd tanau.

Bellach, mae'r Prif Swyddog Tân ac Undeb y Brigadau Tân wedi dod i "Gytundeb ar y Cyd", gan nodi egwyddorion eang y newidiadau arfaethedig.

Mae'r Gwasanaeth bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni cynllun gweithredu, gyda cherrig milltir allweddol wedi'u cytuno a ffrydiau gwaith ar y gweill.

Map Cyfleusterau/Gorsafoedd GTAGC



Cynllun Rheoli Risg Cymunedol

Roedd eleni yn nodi diwedd swyddogol Cynllun Corfforaethol 2021–2024 a chyflwyno'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) newydd, sy'n ail-lunio sut mae'r Gwasanaeth yn nodi ac yn rheoli risgiau ledled Gogledd Cymru.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd yr Awdurdod Tân ei gynllun a'i amcanion tymor canolig newydd ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r rhain ar gael [yma](#).

Mae'r CRhRC, sy'n rhedeg o 2024 i 2029, yn amlinellu'r risgiau allweddol sy'n wynebu ein cymunedau ac yn nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael â nhw, gan barhau hefyd i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Er mwyn cefnogi'r CRhRC, rydym yn cynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol blynyddol. Mae cynllun 2024–2025, a gyhoeddwyd hefyd ym mis Gorffennaf, ar gael [yma](#). Mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn manylu ar y camau penodol y byddwn yn eu cymryd bob blwyddyn i gyflawni ein nodau a chadw ein cymunedau'n ddiogel. Mae hefyd yn cynnwys amcanion llesiant a gwella, yn unol â deddfwriaeth Cymru.



Perfformiad Blynyddol

Roedd Asesiad Perfformiad Blynyddol GTAGC, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024, yn nodi blwyddyn olaf y Cynllun Corfforaethol tair blynedd. Adolygodd berfformiad yn erbyn amcanion blynyddol a myfyrio ar gyflawniadau ar hyd oes y cynllun.

Yn ogystal ag adrodd ar dri dangosydd perfformiad statudol ar draws y sector gyfan, asesodd yr adroddiad gynnydd yn erbyn saith amcan gwella a llesiant. Roedd y rhain yn cynnwys gwella diogelwch a gwydnwch cymunedol, gwella cynaliadwyedd amgylcheddol, ac ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn caffael.

Roedd yr asesiad perfformiad blynyddol hefyd yn tynnu sylw at ymrwymiad yr Awdurdod i ddatblygu'r gweithlu, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac effeithlonrwydd gweithredol. Cynhwyswyd crynodeb o'r data perfformiad a'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer 2023/24 hefyd.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cysylltiedig (sy'n aros am gymeradwyaeth ar adeg cyhoeddi hwn) yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu ac yn nodi'r cynllun gwaith ar gyfer 2024/25

Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gael [yma](#).



Diwylliant a Gwelliant Sefydliadol

Yn ystod 2024/25, cyhoeddodd yr Awdurdod Adolygiad Diwylliannol Annibynnol, a gomisiynwyd ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Cafodd yr adolygiad ei gyflwyno gan Crest Advisory a'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2025, ac roedd yn cynnwys arolygon, cyfweiliadau, grwpiau ffocws, ac ymweliadau safle. Tynnodd sylw at gryfderau o ran ymrwymiad staff a gwasanaeth cyhoeddus, a nodi meysydd i'w gwella o ran gwelededd arweinyddiaeth, cyfathrebu, ac atebolrwydd.

Mewn ymateb, datblygodd y Gwasanaeth Gynllun Gwella Diwylliant wedi'i lunio trwy weithdai staff, a oedd yn cyd-fynd ag argymhellion yr adolygiad. Mae'r cynllun yn cael ei oruchwylio gan Bwrdd Diwylliannol, ac mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau o'r tîm arweinyddiaeth, Cadeirydd yr Awdurdod, Hyrwyddwr Aelod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), ac cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Mae cynnydd yn cael ei olrhain trwy amcanion CAMPUS ac adrodd yn rheolaidd.

Gofynnwyd am gefnogaeth hefyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i weithredu'r newidiadau. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i feithrin gweithle diogel, cynhwysol, sy'n cael ei arwain gan werthoedd.

Datblygu canolfan hyfforddi newydd.

Yn ystod 2024/25, gwnaeth yr Awdurdod gynnydd sylweddol wrth fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer canolfan hyfforddi tân ac achub newydd sy'n addas i'r diben.

Datblygwyd achos amlinellol strategol a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Hydref 2024. Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân Cynorthwyol, gyda'r Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu yn goruchwylio'r gwaith cyflawni gweithredol, gyda chefnogaeth tîm prosiect.

Cefnogir llywodraethu rhaglenni gan fframwaith strwythuredig sy'n cynnwys bwrdd rhaglen, grŵp rhaglen, is-grwpiau, a grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o blith staff, tîm cyfleusterau Heddlu Gogledd Cymru, Cynghorwyr, cynrychiolwyr Undebau Llafur, ac ymgynghorwyr allanol, gan sicrhau ymgysylltiad eang, tryloywder, a gwneud penderfyniadau cydweithredol drwy gydol datblygiad y rhaglen.

Mae'r ganolfan newydd yn elfen allweddol o strategaeth hirdymor yr Awdurdod i wella parodrwydd gweithredol, gwella gallu hyfforddi ac effeithlonrwydd wrth ddarparu hyfforddiant, a chefnogi cyflawni'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024–2029

Cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd

Yn 2024/25, parhaodd yr Awdurdod i weithredu ei Strategaeth Amgylcheddol (2023–2030), gan ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio ar draws y fflyd, ystadau a chaffael. Arweiniodd Gweithgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y gwaith o ddatblygu cynlluniau manwl i gefnogi targed Sero Net 2030 y Gwasanaeth.

Cwblhawyd prawf llwyddiannus o Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) fel dewis arall yn lle disel, gyda threial mewn gorsafoedd bellach ar y gweill. Mae cynlluniau ar waith i osod tanciau HVO ac offer dosbarthu mewn ugain safle.

Parhaodd y cynnydd ar System Rheoli Amgylcheddol bwrpasol sy'n cyd-fynd ag ISO 14001, gyda'r nod o wella perfformiad amgylcheddol trwy ddefnyddio adnoddau yn well a lleihau gwastraff. Disgwylir i'r gweithredu ddechrau ym 2026/27.

Gan weithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, datblygwyd cynllun datgarboneiddio gwresogi i lywio rhaglen dreigl o amnewid systemau, gan flaenoriaethu ar sail cyllid ac anghenion gweithredol. Mae gosodiadau cychwynnol wedi'u cynllunio ar gyfer gorsafoedd tân Llandudno a Chonwy.

Dyfarnwyd grant o £295k gan y Tîm Gwres Carbon Isel yng Ngwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ariannu 90% o'r gost o osod system wresogi carbon isel yng Ngorsaf Dân Llandudno, gyda'r 10% sy'n weddill yn cael ei dalu o gyllideb

gyfalaf yr Awdurdod. Sicrhawyd £131k ychwanegol trwy'r grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (EVCI), sy'n talu 75% o gyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â chaffael a gosod seilwaith gwefru cerbydau.

Yn ystod 2024/25, sicrhawyd £492k o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, y dyrannwyd £117k ohono i fentrau cynaliadwyedd, gan gynnwys prynu dau gar trydan a dwy fan drydan.



Perfformiad Ariannol

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau atal tân, gorfodi ac ymateb brys o ansawdd uchel. Yn 2024/25, parhaodd yr Awdurdod i lywio tirwedd ariannol heriol, gan gydbwyso costau cynyddol â'r angen i gynnal effeithiolrwydd gweithredol a diogelwch cymunedol.

Er mwyn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor, ailddatganodd yr Aelodau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chytuno i gynyddu cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol 8.9% i £48,322k, ochr yn ochr â'r defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a mesurau anghylchol i gynnal cyflwyno'r gwasanaethau.

Parhaodd yr heriau recriwtio, yn enwedig mewn rolau arbenigol ac ar alwad, er bod cynnydd wedi'i wneud wrth weithredu argymhellion y gweithlu a chyd-fynd â thrafodaethau cenedlaethol ar delerau ac amodau. Parhaodd y gwaith hefyd ar ddatblygu model Darpariaeth Frys diwygiedig, yn dilyn ymgynghoriad 2023.

Er gwaethaf pwysau parhaus, cynhaliodd yr Awdurdod sefydlogrwydd ariannol trwy fonitro'r gyllideb yn ofalus, rheoli swyddi gwag, a chynhyrchu incwm yn ystod y flwyddyn. Wrth edrych ymlaen, mae'r Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ar reoli costau pensiwn a chyflogres, gan sicrhau ar yr un pryd bod penderfyniadau ariannol yn parhau i gefnogi gwydnwch gweithredol a blaenoriaethau strategol.

Perfformiad Refeniw

Cofnododd yr Awdurdod danwariant o £293k yn 2024/25, ar ôl cymhwyso addasiadau cyfrifyddu statudol a throsglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn cymharu ag amcangyfrif canlyniad o £330k ddiwedd mis Mawrth.

Cynyddodd y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio £1,785k yn ystod y flwyddyn, gan ddod ar cyfanswm i £10,879k. Mae'r cronfeydd wedi'u neilltuo i gefnogi gofynion gwasanaeth parhaus gan gynnwys hawliadau yswiriant a chitiau tân. Rhagwelir y bydd y cronfeydd wrth gefn yn lleihau yn y blynyddoedd i ddod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nodyn 8.

Mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16

Fel rhan o'r newidiadau a gyflwynwyd o dan IFRS 16, mae'r Awdurdod wedi cydnabod y rhan fwyaf o gytundebau prydles—megis ar gyfer cerbydau ac offer—fel asedau ac atebolrwydd ar y fantolen. Mae'r newid hwn yn gwella tryloywder trwy ddangos gwerth llawn asedau ar brydles ac ymrwymïadau ariannol tymor hir yr Awdurdod, yn hytrach na thaliadau prydles blynyddol yn unig. Cyfanswm gwerth yr asedau a gydnabyddir oedd £904k.

Crynodeb Refeniw

2024/25	Cyllideb £000	Alldro £000	Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn £000	Cyfraniadau CERA £000	Cyfanswm £000	Amrywiant £000	Amrywiant %
Gweithwyr	35,429	33,937	525	0	34,462	(968)	-2.7%
Adeiladau	3,530	2,921	317	0	3,238	(292)	-8.3%
Trafnidiaeth	1,259	1,085	102	0	1,187	(72)	-5.7%
Cyflenwadau	6,622	6,305	596	0	6,901	279	4.2%
Taliadau Trydydd Parti	363	385	0	0	385	23	6.2%
Cyllid Cyfalaf a Thaliadau	2,989	2,397	0	1,459	3,856	866	29%
Incwm	(946)	(1,774)	0	0	(1,774)	(828)	87%
Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn	(924)	0	0	0	0	924	-100%
Is-Gyfanswm	48,322	45,257	1,540	1,459	48,256	(65)	-0.1%
Ardollau	(48,322)	(48,549)	0	0	(48,549)	(227)	0.5%
Sefyllfa Alldro					(293)	(293)	0.6%

Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy

Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	Balans 31 Mawrth 2024	Trosglwyddiadau (i mewn)/allan 2024/25	Balans 31 Mawrth 2025
	£000	£000	£000
Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	(7,398)	(1,540)	(8,938)
Cronfa Gyffredinol	(1,575)	(293)	(1,868)
Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	(48)	48	0
Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	(73)	0	(73)
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	(9,094)	(1,785)	(10,879)

Perfformiad Cyfalaf

Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf o £5,676k ym mis Ionawr 2024, yr oedd £1,100k ohono yn gyllid treigl o 2023/24. Cyfanswm y gwariant cyfalaf ar gyfer 2024/25 oedd £3,087k, gyda dadansoddiad manwl o'r cynlluniau isod. Yn gynwysedig, roedd y tir a brynwyd am £2,714k, a oedd yn rhan allweddol o strategaeth asedau tymor hir yr Awdurdod.

Oherwydd llithriant prosiectau, bydd tua £2,589k yn cael ei gario ymlaen i 2025/26 i gwblhau cynlluniau sy'n dal i fynd rhagddynt. Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro cyflawni cyfalaf yn fanwl, gyda gwell prosesau craffu a chynllunio bellach ar waith.

Ariannu Cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd yr Awdurdod hefyd gyllid grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau gweithredol allweddol. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer cael radios safleoedd tân newydd yn lle'r rhai presennol yn unol ag argymhellion Ymchwiliad Tŵr Grenfell, ac ar gyfer prynu cerbydau newydd i gefnogi cyflwyno'r gwasanaethau rheng flaen. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cyfrannu at ddiogelwch diffoddwyr tân a gwydnwch asedau tymor hir yr Awdurdod.

Cyllid	Swm £000
Benthyca Mewnol	710
Cyllid Grant	918
Cyfraniadau	1,459
Cyfanswm	3,087

Cynllun	Dyraniad £000	Gwirioneddol £000	Arian Treigl £000
Gwellianau TGCH	827	377	450
Tyrrau hyfforddi	305	34	271
Gwelliannau i orsafoedd	1100	394	706
Gwaith cynaliadwyedd	470	0	470
Uwchraddio cyfleusterau hyfforddi	300	0	300
Cerbydau tân	427	534	0
Cerbydau ysgafn	166	194	0
Cerbydau ysgafn arbenigol	632	570	0
Offer gweithredol	290	0	242
Offer fflyd	50	0	0
Treigl 2023/24			
Cerbydau tân	960	984	0
Gwaith cynaliadwyedd	150	0	150
Total	5,676	3,087	2,589
Tir	3,000	2,714	0
Grant	918	1,012	0

Yn ychwanegol at y dyraniad cyfalaf, derbyniwyd cyllid atodol o £918k gan wahanol gyrff, gyda £1,012k wedi'i wario — yn bennaf ar fentrau cynaliadwyedd. Mae hyn yn adlewyrchu blaenoriaethu cynlluniau a ariennir gan grantiau.

Mae gofyniad i drosglwyddo £2,589k i gefnogi cwblhau prosiectau sy'n dal i fynd rhagddynt, fel y nodir uchod.

Rheoli Trysorlys

Parhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â'i Strategaeth Rheoli Trysorlys drwy gydol 2024/25. Arhosodd benthyca a buddsoddiadau o fewn y terfynau cymeradwy, ac nid adroddwyd am unrhyw ddiffygdlu. Roedd incwm buddsoddiadau yn uwch na disgwyliadau'r gyllideb, ac roedd sefyllfa fenthyca net yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn £19,070k yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf.

Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio gydag cynghorwyr trysorlys Arlingclose i reoli risg cyfradd llog a'r strategaeth fenthyca yn effeithiol.

Costau Pensiynau

Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân oedd £4,906, gyda chyfanswm y taliadau i aelodau sydd wedi ymddeol yn £9,737. Mae'r cynllun yn parhau i fod yn gynllun nad yw'n cael ei ariannu ymlaen llaw, gyda'r atebolrwydd yn lleihau i £208,143 oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol.

O ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, arhosodd y cyfradd sylfaenol y cyflogwr yn 18.3%, gyda gostyngiad cyfradd eilaidd o £525k.

Rhagolwg

Llif Arian ac Ystyriaethau yn y Dyfodol

Cynhaliodd yr Awdurdod sefyllfa arian parod gref trwy gydol 2024/25, a hynny wedi'i gefnogi yn sgil cael praeseptau yn brydlon a gwaith rheoli trysorlys gweithredol.

Wrth edrych ymlaen, gall amseru prosiectau cyfalaf effeithio ar lif arian yn y dyfodol - yn enwedig datblygiad y Ganolfan Hyfforddi. Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro hylifedd yn fanwl, gan ddefnyddio buddsoddiadau tymor byr a chynllunio senarios i sicrhau digon o hyblygrwydd i fodloni ymrwymadau gweithredol a chyfalaf. Darperir cyngor arbenigol gan Arlingclose, gan gefnogi dull yr Awdurdod o wneud penderfyniadau trysorlys darbodus a gwybodus.

Ymrwymadau Allweddol

Cymeradwyodd yr Awdurdod ddyraniad o £2,940k i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer canolfan hyfforddi gyda'r cyllid yn cael ei gyflwyno'n raddol hyd at 2026/27.

Pwysau Cyllidebol a Lliniaru yn y Dyfodol

Mae'r Awdurdod yn parhau i wynebu pwysau cost cynyddol a mwy a mwy o alw am wasanaethau. Cymeradwywyd cyllideb 2025/26 gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i reoli diffygion yn y dyfodol trwy arbedion effeithlonrwydd, blaenoriaethu gwasanaethau, a defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ofalus.

Ystyriaeth o Adran 114

Yn unol â chanllawiau wedi'u diweddarau gan CIPFA ar gyfer 2024/25, adolygodd yr Awdurdod y risg o gyhoeddi hysbysiad Adran 114—cam ffurfiol a gymerir pan na all awdurdod lleol gydbwyso ei gyllideb. Er gwaethaf y pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn ehangach, cynhaliodd yr Awdurdod oruchwyliaeth ariannol gref trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys monitro rheolaidd ar gyllidebau, cronfeydd wrth gefn, a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Ni chafodd hysbysiad Adran 114 ei ystyried yn angenrheidiol ar unrhyw adeg. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdod i reolaeth ariannol gadarn a'i ddull rhagweithiol o ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau cynaliadwyedd tymor hir.

Gwybodaeth Bellach

Mae rhagor o wybodaeth am y cyfrifon hyn ar gael gan Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael ar gyfer Gwasanaeth Tân & Achub Gogledd Cymru, Ffordd Salisbury, Llanelwy, LL17 0JJ.

Mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb hawl statudol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau.

Mae argaeledd y cyfrifon i'w harchwilio yn cael ei hysbysebu ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

<https://www.tangogleddcymru.llyw.cymru/awdurdod-tan-ac-achub/ariannol/>

Diolchiadau

Wrth gloi, hoffwn fynegi fy nioch diffuant i gydweithwyr ar draws y sefydliad sydd wedi cyfrannu at baratoi'r adroddiad naratif hwn a'r Datganiad o Gyfrifon ehangach. Yn benodol, hoffwn gydnabod ymroddiad a phroffesiynoldeb y tîm Cyllid, y mae eu hymdrechion wedi sicrhau cwblhau'r adroddiadau ariannol eleni yn brydlon ac yn gywir.

Rydym hefyd yn parhau i fod yn ddiolchgar i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad parhaus drwy gydol 2024/25.

Dafydd Edwards

**Trysorydd a Swyddog Adran 151
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O GYFRIFON

CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

ARDYSTIAD YR AWDURDOD

Rwy'n cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2025.

Llofnod _____ Dyddiad _____

Y Cynghorydd, Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD

Y Trysorydd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- dethol polisiau cyfrifyddu addas, ac yn wedi eu defnyddio'n gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus
- cydymffurfio â'r Cod Ymarfer
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfoes
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

ARDYSTIAD Y TRYSORYDD

Rwy'n tystio bod y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2025, ynghyd â'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Llofnod  Dyddiad 30/05/2025

Trysorydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

Mae'r datganiad hwn yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau, cyfraniadau ac ati) gan awdurdodau lleol o'i gymharu ag adnoddau a ddefnyddir neu a enillir gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau yn unol â'r math o wariant yr eir iddo. Caiff Incwm a Gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP) eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2023/24				2024/25		
2023/24 £'000	Adjustments Between the Funding and Accounting Basis £'000	Net Expenditure in the Comprehensive Income & Exp Statement £'000		2024/25 £'000	Adjustments Between the funding and Accounting Basis £'000	Net Expenditure in the Comprehensive Income & Exp Statement £'000
43,123 (44,394)	(7,682) 10,557	35,441 (33,837)	Darparu Gwasanaethau Tân Incwm a Gwariant Arall	46,716 (48,549)	(9,309) 10,318	37,407 (38,231)
(1,271)	2,875	1,604	Diffyg (neu Warged) ar Ddarparu Gwasanaethau	(1,833)	1,009	(824)

2023/24				2024/25		
General Fund Balance £'000	Earmarked General Fund Reserves £'000	Total General Fund £'000		Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £'000	Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol -49,467
(1,480)	(6,341)	(7,821)	Dygwyd Ymlaen	(1,575)	(7,519)	(9,094)
(1,271)		(1,271)	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(1,833)		(1,833)
	37	37	Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso		48	48
1,176	(1,215)	(39)	Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Glustnodwyd	1,540	(1,540)	0
(1,575)	(7,519)	(9,094)	Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol	(1,868)	(9,011)	(10,879)

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost gyfrifo yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP), yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o gyfraniadau. Mae gwariant yr Awdurdod yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa cyfrannu yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

2023/24				2024/25			
Gwariant Gros £'000	Incwm Gros £'000	Gwariant Net £'000		Sylwer	Gwariant Gros £'000	Incwm Gros £'000	Gwariant Net £'000
36,878	(1,437)	35,441	Darparu Gwasanaethau Tân		39,181	(1,774)	37,407
36,878	(1,437)	35,441	Cost Gwasanaethau		39,181	(1,774)	37,407
(14)	0	(14)	Other Operating Expenditure		56	0	56
11,071	(429)	10,642	Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	9	11,362	(182)	11,180
0	(44,465)	(44,465)	Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	10	0	(49,467)	(49,467)
		1,604	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau				(824)
557	0	557	(Gwarged) neu ddiffyg ar Ailbrisio Eiddo, ac Asedau Offer	18	0	0	0
		1,096	Ailfesur yr Ymrwymiad Buddion Diffiniedig Net	18			(26,136)
		1,653	(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall				(26,136)
		3,257	Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr				(26,960)

DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr Awdurdod, wedi'i ddadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy' (sef y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) a chronfeydd eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion am hynny yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sydd angen eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sy'n cael ei hariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol. Mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol cyn i'r Awdurdod wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i'r cronfeydd a glustnodwyd ac ohonynt.

2023-24	Sylwer	Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000	Derbyniadau Cyfalaf a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000
Balans ar 31 Mawrth 2023		(1,575)	(7,398)	(48)	(73)	(9,094)	203,757	194,663
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023/2024								
Diffyg (neu Warged) ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau		(824)	0	0	0	(824)	0	(824)
(Incwm) a Gwariant Arall Cynhwysfawr		0	0	0	0	0	(26,136)	(26,136)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(824)	0	0		(824)	(26,136)	(26,960)
Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau	7	(962)	0		0	(962)	962	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd		(1,786)	0	0	0	(1,786)	(25,174)	(26,960)
Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	8	1,493	(1,540)	48	0	1	0	1
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24	6	(293)	(1,540)	48	0	(1,785)	(25,174)	(26,959)
Balans ar 31 Mawrth 2024		(1,868)	(8,938)	0	(73)	(10,879)	178,583	167,704

DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

2023-24	Sylwer	Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000	Derbyniadau Cyfalaf a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiwyd £'000	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000
Balans ar 31 Mawrth 2023		(1,480)	(6,222)	(85)	(34)	(7,821)	199,227	191,406
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023/2024								
Diffyg (neu Warged) ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau		1,604	0	0	0	1,604	0	1,604
(Incwm) a Gwariant Arall Cynhwysfawr		0	0	0	0	0	1,653	1,653
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		1,604	0	0		1,604	1,653	3,257
Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau	7	(2,877)	0		0	(2,877)	2,877	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd		(1,273)	0	0	0	(1,273)	4,530	3,257
Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	8	1,178	(1,176)	37	(39)	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24	6	(95)	(1,176)	37	(39)	(1,273)	4,530	3,257
Balans ar 31 Mawrth 2024		(1,575)	(7,398)	(48)	(73)	(9,094)	203,757	194,663

Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth, ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a'r ymrwymadau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymadau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Adroddir ynghylch cronfeydd mewn dau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd yw cronfeydd defnyddiadwy sef cronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (e.e. y Gronfa Dderbyniadau na ellir ond ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd yw'r rhai nad yw'r Awdurdod yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd yn cynnwys cronfeydd sy'n dal enillion na wireddwyd a cholledion (e.e. y Gronfa Ailbrisio), pryd na fyddai symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau os caiff yr asedau eu gwerthu; ac mae cronfeydd sy'n dal gwahaniaethau amseru yn cael eu dangos yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu o dan reoliadau.'

31 Mawrth 2024 £'000		Sylwer	31 Mawrth 2025 £'000
56,044	Eiddo, Peiriannau ac Offer	11	60,872
141	Asedau Anniriaethol	11	99
62	Dyledwyr Tymor Hir	14	102
56,247	Asedau Tymor Hir		61,073
614	Rhestrau Stoc	13	662
1,275	Dyledwyr Tymor Byr	14	2,527
0	Buddsoddiadau Tymor Byr	15	0
2,973	Arian a Chyferwerth Ariannol	15	2,523
4,862	Asedau Cyfredol		5,712
(3,830)	Benthyca Tymor Byr	12	(10,791)
(217)	Darpariaethau	17	(375)
(6,042)	Credydwy'r Tymor Byr	16	(6,258)
(10,089)	Ymrwymadau Cyfredol		(17,424)
(231,610)	Rhwymedigaeth Pensiwn	18	(208,143)
0	Darpariaethau Tymor Hir	17	0
0	Credydwy'r Tymor Hir	16	(466)
(14,073)	Benthyca Tymor Hir	12	(8,456)
(245,683)	Rhwymedigaethau Tymor Hir		(217,065)
(194,663)	Asedau Net		(167,704)
(9,094)	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	8	(10,879)
203,757	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio	18	178,583
194,663	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn		167,704

DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian a chyfwerth ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian a chyfwerth ag arian trwy gategoreiddio llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o'r gweithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu trwy gyfraniadau ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r gweithgareddau buddsoddi yn dangos y graddau y mae'r all-lifiadau arian wedi eu gwneud ar gyfer adnoddau sydd â'u bwriad o gyfrannu at y modd y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld ceisiadau o lifiadau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthycu) i'r Awdurdod.

2023/24 £'000		Sylwer	2024/25 £'000
1,604	(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau		(824)
(11,409)	Addasiadau i'r (Gwarged) neu Ddiffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau nad ydynt yn Arian	19	(4,773)
(263)	Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd yn y (Gwarged) neu Ddiffyg net wrth Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi neu Ariannu	19	(447)
(10,068)	Llifoedd Arian Net o Weithgareddau Gweithredu	19	(6,044)
2,240	Gweithgareddau Buddsoddi	20	7,508
9,032	Gweithgareddau Cyllido	21	(1,014)
1,204	(Cynnydd) neu Ostyngiad Net mewn Arian a Chyfwerth ag Arian		450
(4,177)	Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddechrau'r Cyfnod adrodd		(2,973)
(2,973)	Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddiwedd y Cyfnod adrodd	15	(2,523)

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r nodiadau'n rhoi gwybodaeth am sail y gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol a'r polisïau cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd. Maent yn darparu gwybodaeth nad yw'n cael ei chyflwyno yn unlle arall yn y datganiadau ariannol ac sy'n berthnasol er mwyn deall y cyfrifon.

1 SAFONAU CYFRIFYDDU SYDD WEDI CAEL EU CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI'U MABWYSIADU ETO

Pan fo Safon newydd wedi'i chyhoeddi ond heb ei mabwysiadu gan y Cod, rhaid i'r Awdurdod ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith y newid o ran cyfrifyddu. Dyma'r newidiadau a gyflwynwyd gan God 2025/26:

- a) **IAS 21 Effeithiau Newidiadau mewn Cyfraddau Cyfnewid Tramor (Diffyg Cyfnewidioldeb)** a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023. Mae'r diwygiadau i IAS 21 yn egluro sut y dylai endid asesu a yw arian cyfred yn gyfnewidiol a sut y dylai bennu cyfradd gyfnewid fanwl pan nad oes cyfnewidioldeb, yn ogystal â mynnu datgelu gwybodaeth sy'n galluogi defnyddwyr datganiadau ariannol i ddeall effaith arian cyfred nad yw'n gyfnewidiol.
- b) **IFRS 17 Contractau Yswiriant** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017. Mae IFRS 17 yn disodli IFRS 4 ac yn nodi egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant.
- c) Mae'r newidiadau i fesur asedau nad ydynt yn fuddsoddiadau o fewn Cod 2025/26 yn cynnwys addasiadau a dehongliadau o IAS 16 Eiddo, Peiriannau ac Offer ac IAS 38 Asedau Anamrwd. Mae'r rhain yn cynnwys nodi tri phroses ailbrisio ar gyfer eiddo, peiriannau ac offer gweithredol, mynnu mynegeo ar gyfer asedau diriaethol nad ydynt yn fuddsoddiadau a gofyniad i brisio asedau anamrwd gan ddefnyddio'r dull cost hanesyddol. Mae'r rhain yn cael yr un effaith â gofyn newid polisi cyfrifyddu oherwydd diwygiad i safonau, a fyddai fel arfer yn cael ei ddatgelu o dan IAS 8. Fodd bynnag, mae'r addasiadau hefyd yn cynnwys esemptiad rhag gofynion IAS 8 yn dilyn newid polisi cyfrifyddu fel y cadarnhawyd ym mharagraff 3.3.1.4.

Nid yw'n cael ei ragweld y bydd y diwygiadau uchod yn cael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn natganiadau ariannol yr Awdurdod.

2 DYFARNIADAU HOLLBWYSIG WRTH GYMHWYSO POLISIAU CYFRIFYDDU

Mae polisïau cyfrifyddu yn cyfeirio at yr egwyddorion, y sail, y confensiynau, y rheolau a'r arferion penodol a gymhwysir gan awdurdod wrth baratoi a chyflwyno datganiadau ariannol.

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn Atodiad 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau barnol ynghylch trafodion cymhleth neu rai sy'n cynnwys ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Y farn hanfodol yn y Datganiad Ariannol yw oherwydd y raddfa uchel o ansicrwydd ynghylch lefelau cyllido'r dyfodol ar gyfer llywodraeth leol yn ei chyfanrwydd.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i ddarparu arwydd y gallai asedau'r Awdurdod gael eu niweidio o ganlyniad i'r angen i ostwng lefelau darpariaeth gwasanaethau.

3 RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL O AMCANGYFRIF AC ANSICRWYDD

Mae'r datganiad o gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr awdurdod ynglŷn â'r dyfodol neu eu bod fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r prif eitemau ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2025, y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

Eiddo, Peiriannau ac Offer - Mae'r Awdurdod yn ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd. Mae'n bosibl y gallai gwerth eiddo barhau i amrywio, yn enwedig ar adegau o ansicrwydd economaidd. Mae prisiadau'n seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyflwr asedau, bywyd defnyddiol, gwerthoedd gweddilliol ac amodau'r farchnad. Mae'r dyfarniadau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael ac yn cael eu gwneud gan briswyr cymwys.

Cwblhawyd yr ailbrisiad llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2023. Oherwydd bod data pellach ar gael mewn perthynas â phrisio gorsafoedd tân, mae adolygiad wedi'i gwblhau, o holl adeiladau'r orsaf, ar 31 Mawrth 2024.

Ymrwymiad Pensiwn - Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu yn unol â hi, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac, ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr enillion a ddisgwyllir ar asedau'r gronfa bensiwn.

Penodir actiwariaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w cymhwyso. Darperir rhagor o wybodaeth o fewn cyfrif y gronfa bensiwn.

4 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi cael ei awdurdodi l'w gyhoeddi gan y Trysorydd ar 30 Fai 2025. Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau.

Lle bo digwyddiadau cyn y dyddiad hwn wedi darparu gwybodaeth am amgylchiadau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025, mae'r ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi'u haddasu ym mhob agwedd ddeunyddiol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau deunyddiol wedi digwydd ar ôl dyddiad y Fantolen.

Pan oedd digwyddiadau a gynhaliwyd cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am yr amodau sy'n bodoli ar 31 Mawrth 2025, mae'r ffigurau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau perthnasol ar ôl dyddiad y fantolen.

5 NODYN I'R DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

2024/25	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000	Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn £'000	Arall Addasiadau £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Darparu Gwasanaethau Tân	(1,443)	(8,064)	198	(9,309)
Cost Net Gwasanaethau	(1,443)	(8,064)	198	(9,309)
Incwm a Gwariant Arall				
Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu	(862)	10,733	447	10,318
Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau	(2,305)	2,669	645	1,009

2023/24	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000	Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn £'000	Arall Addasiadau £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Darparu Gwasanaethau Tân	(1,217)	(7,008)	543	(7,682)
Cost Net Gwasanaethau	(1,217)	(7,008)	543	(7,682)
Incwm a Gwariant Arall				
Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu	(85)	10,379	263	10,557
Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau	(1,302)	3,371	806	2,875

Addasiadau at ddibenion cyfalaf – mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac enillion a cholledion amhariad ac ailbriso yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

- Gwariant gweithredu arall – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf drwy drosglwyddo incwm wrth waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- Gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi - y newidiadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. didynnir isafswm darpariaeth refeniw a chyfraniadau refeniw eraill o wasanaethau gan nad yw'r rhain yn symiau y gellir codi amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

- Trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol - caiff grantiau cyfalaf eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o'r rhai y gellir eu derbyn yn y flwyddyn i'r rhai y gellir eu derbyn heb amodau neu y bodlonwyd amodau ar eu cyfer drwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cael ei gredydu â grantiau cyfalaf y gellir eu derbyn yn y flwyddyn heb amodau neu rai y bodlonwyd amodau ar eu cyfer yn y flwyddyn.

Newid net ar gyfer yr addasiadau pensiwn - Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm Buddiannau Cyflogeion IAS19 sy'n ymwneud â

- Ar gyfer gwasanaethau, mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel y'i caniateir drwy statud a disodli costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth a roddwyd.
- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi – codir y llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Addasiadau Eraill - Gwahaniaethau eraill rhwng symiau a ddebydwyd/credydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud:

- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi, mae'r golofn addasiadau statudol arall yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a gostyngiadau.
- Mae'r tâl o dan Drethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y gellir ei godi o dan reoliadau statudol y rhagamcanwyd y byddid yn ei dderbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm a gydnabyddir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Cod. Mae hwn yn wahaniaeth amseru gan y bydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei ddwyn ymlaen mewn Gwargedion neu Ddiffygion ar y Gronfa Gyffredinol yn y dyfodol.

6 DADANSODDI GWARIANT AC INCWM YN ÔL NATUR

2023/24 £0		2024/25 £000
	Gwariant	
24,003	Gweithwyr	25,888
10,079	Costau Gweithredu Eraill	10,312
318	Gwasanaethau Cefnogi	385
(14)	Enillion ar waredu asedau	56
11,071	Gwariant Ariannu a Buddsoddi	11,362
2,478	Costau Ariannu Cyfalaf	2,595
47,935	Cyfanswm y Gwariant	50,598
	Incwm	
(546)	Ffioedd, Taliadau & Incwm Gwasanaeth Arall	(792)
(429)	Incwm Llog a Buddsoddi	(182)
(44,394)	Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol	(48,549)
(962)	Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth	(1,899)
(46,331)	Cyfanswm yr Incwm	(51,422)
1,604	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	-824

7 ADDASIADAU RHWNG Y SAIL GYFRIFYDDU A'R SAIL ARIANNU YN ÓL STATUD

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i nodi'r adnoddau y mae darpariaethau statudol yn pennu eu bod ar gael i'r awdurdod i fodloni gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn nodi disgrifiad o'r cronfeydd wrth gefn y gwneir yr addasiadau yn eu herbyn.

Balans y Gronfa Gyffredinol

Y Gronfa Gyffredinol yw'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i holl dderbyniadau awdurdod gael eu talu iddi ac y mae holl rwymedigaethau'r awdurdod i'w talu ohoni, ac eithrio i'r graddau y gallai rheolau statudol ddarparu fel arall. Gall y rheolau hyn hefyd nodi'r flwyddyn ariannol lle dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar falans y Gronfa Gyffredinol, nad yw o reidrwydd yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol. Felly, mae balans y Gronfa Gyffredinol yn crynhoi'r adnoddau y mae'r awdurdod wedi'i rymuso'n statudol i'w wario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiad cyfalaf (neu'r diffyg adnoddau y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei adennill) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cronfa derbyniadau cyfalaf

Mae'r gronfa derbyniadau cyfalaf yn dal yr elw o waredu tir neu asedau eraill, sydd wedi'i gyfyngu gan statud rhag cael ei ddefnyddio heblaw am ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae'r balans ar y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i'w cymhwyso at y dibenion hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

Grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso

Mae'r cyfrif (cronfa wrth gefn) grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r awdurdod wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant. Mae'r balans wedi'i gyfyngu gan delerau grant o ran y gwariant cyfalaf y gellir ei gymhwyso yn ei erbyn a/neu'r flwyddyn ariannol y gellir gwneud hyn.

2023/24					Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu o dan y Rheoliadau	2023/24				
Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000	Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiwyd £'000		Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiwyd £'000	
(2,446)	0	0	(2,446)	2,446	Dibrisiant ac amhariad	(2,595)	0	(2,595)	2,595	
(32)	0	0	(32)	32	Colledion/enillion ailbriso/enillion ar Eiddo	0	0	0	0	
14	0	(39)	(25)	25	Gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol	(56)	0	(56)	56	
1,101	0	0	1,101	(1,101)	Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd/CERA	1,459	0	1,459	(1,459)	
71	0	0	71	(71)	Ariannu gwariant cyfalaf o grantiau	918	0	918	(918)	
1,902	0	0	1,902	(1,902)	Cyllid Ariannu (MRP)	1,949	0	1,949	(1,949)	
610	0	(39)	571	(571)		1,675	0	1,675	(1,675)	
10,532	0	0	10,532	(10,532)	Cyfraniadau a thaliadau Pensiwn Cyflogwyr i bensiynwyr	11,028	0	11,028	(11,028)	
(13,903)	0	0	(13,903)	13,903	Gwrthdroi buddion ymddeol yn y CIES	(13,697)	0	(13,697)	13,697	
(3,371)	0	0	(3,371)	3,371		(2,669)	0	(2,669)	2,669	
0	37	0	37	(37)	Addasiad i'r Gronfa Grantiau wrth Gefn	0	48	48	(48)	
(114)			(114)	114	Symuiad o ran cronni Absenoldeb Cronedig	(16)	0	(16)	16	
(2,875)	37	(39)	(2,877)	2,877	Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu o dan y rheoliadau	(1,010)	48	(962)	962	

8 CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o falans y Gronfa Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r symiau a drosglwyddwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i fodloni gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2023/24.

Cronfa	Diben y Gronfa Wrth Gefn	Balans 1 Ebrill 2023 £'000	Trosglwydd- iadau (i mewn) / allan 2023/24 £'000	Balans 31 Mawrth 2024 £'000	Trosglwydd- iadau (i mewn) / allan £'000	Balans 31 Mawrth 2025 £'000
Cronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth						
Cronfa Bensiwn	Costau pensiwn ychwanegol yn ymwneud â newidiadau i reolau pensiwn	(545)	0	(545)	(525)	(1,070)
Cronfa wrth gefn ar gyfer Llog	Gwrthbwysu cynnydd mewn cyfraddau llog a fyddai'n effeithio ar y gyllideb refeniw	(300)	0	(300)	0	(300)
Atgyweirio Hydrantau Tân	Ariannu ôl-groniad o ran atgyweirio hydrantau	(90)	0	(90)	0	(90)
PPE Gwisg / Stoc	Mwy o gostau gwisg oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth	(250)	(447)	(697)	(71)	(768)
Newid Trawsffurfio	Cyllid ar gyfer cyflawni prosiectau newid trawsnewidiol	(851)	0	(851)	0	(851)
Gwella Cyfleusterau	Sicrhau bod adeiladau'n cwrdd â'r safon ofynnol a gwella effeithlonrwydd ynni	(651)	0	(651)	(329)	(980)
Atebolrwydd Cyfreithiol	Ariannu rhwymedigaethau cyfreithiol yn y dyfodol ar gyfer hawliadau hysbys/ disgwylidig	(186)	(124)	(310)	0	(310)
Hyfforddiant	Gweithredu gofynion deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i ddarpariaeth hyfforddiant	(250)	0	(250)	0	(250)
Digwyddiadau mawr	Gwrthbwysu costau digwyddiadau mawr sy'n fwy na'r gyllideb	(150)	0	(150)	0	(150)
Gwella Systemau	Cyllid ar gael i weithredu gwelliannau i'r system	(711)	0	(711)	0	(711)
Chwyddiant	Gwrthbwysu costau chwyddiant sy'n fwy na'r gyllideb	(250)	0	(250)	0	(250)
Adolygiad o Strwythur Tân	Cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer trafodaethau parhaus ynghylch y strwythur tân ar gyfer dilyniant cyflog i staff	0	(473)	(473)	0	(473)
Cronfeydd Cyfalaf a Grantiau Wrth Gefn						
Prosiectau Cyfalaf	Cyllid ar gyfer cynlluniau lle ceir oedi a chostau cadw	(1,043)	129	(914)	(89)	(1,003)
Cynllun Radio	Uwchraddio'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys - gwrthbwysu rhai o'r costau ychwanegol	(750)	(261)	(1,011)	(526)	(1,537)
Gostyngiad Grant	Gwrthbwysu gostyngiad yn y cyllid Diogelwch Tân gan Lywodraeth Cymru	(195)	0	(195)	0	(195)
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		(6,222)	(1,176)	(7,398)	(1,540)	(8,938)
Cronfa Gyffredinol	Ar gael at ddibenion cyffredinol ac i ddarparu gwytnwch gweithredol	(1,480)	(95)	(1,575)	(293)	(1,868)
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Yn dal derbyniadau o werthu asedau, ar gael i ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol	(34)	(39)	(73)	0	(73)
Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	Yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Awdurdod wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant.	(85)	37	(48)	48	0
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		(7,821)	(1,273)	(9,094)	(1,785)	(10,879)

9 INCWM A GWARIANT ARIANNU A BUDDSODDI

2023/24 £'000		2024/25 £'000
692	Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg a godir	629
(429)	Llog a dderbynnir ac incwm tebyg	(182)
10,379	Llog Net ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig net	10,733
10,642	Cyfanswm	11,180

10 TRETHIANT AC INCWM GRANT AMHENODOL

2023/24 £'000		2024/25 £'000
7,478	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	8,063
4,403	Cyngor Sir Ynys Môn	4,871
7,914	Cyngor Gwynedd	8,295
6,064	Cyngor Sir Ddinbych	6,812
9,936	Cyngor Sir y Fflint	10,957
8,599	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	9,551
44,394	Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol	48,549
71	Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	918
44,465	Cyfanswm Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	49,467

11 EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER AC ASEDAU ANNIRIAETHOL

Gyda mabwysiadu IFRS 16 am y tro cyntaf yn 2024/25, nid yw'r balans agoriadol ar gyfer Eiddo, Peiriannau ac Offer wedi'i addasu ar gyfer yr asedau hawl-i-ddefnyddio yn unol â'r cod.

Mae'r asedau hawl-i-ddefnyddio a gydnabyddir yn ymwneud â cherbydau a adeiladau ar brydles, ac fe'u cyflwynir o fewn categorïau asedau 'Cerbydau' ac 'Adeiladau' yn y drefn honno. Ar 31 Mawrth 2025, mae'r canlynol wedi'i gynnwys yn y tabl isod ar gyfer asedau hawl-i-ddefnyddio:

Cydnabyddiaeth o Asedau Hawl-i-ddefnyddio Cerbydau	£310k
Cydnabyddiaeth o Asedau Hawl-i-ddefnyddio Adeiladau	£593k
Cyfanswm	£903k
Dibrisiant o Asedau Hawl-i-ddefnyddio Cerbydau	(£147k)
Dibrisiant o Asedau Hawl-i-ddefnyddio Adeiladau	(£110k)
Cyfanswm	(£257k)

11 EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER AC ASEDAU ANNIRIAETHOL

Symudiadau ar Falansau

2024-2025	Tir ac Adeiladau £'000	Cerbydau ac Offer £'000	Asedau Wrthi'n cael eu Hadeiladu £'000	Eiddo, Peiriannau ac Offer Cyfanswm £'000	Asedau Anniriaethol Cyfanswm £'000	Asedau a Gedwir i'w Gwerthu Cyfanswm £'000
Gwerth Llyfr Gros ar 31 Mawrth 2024	46,253	24,129	1,060	71,442	233	0
Cydnabyddiaeth o Asedau Hawl i Ddefnyddio	593	310	0	903	0	0
Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2024	46,846	24,439	1,060	72,345	233	0
Ailgategoreiddio asedau	483	577	(1,060)	0	0	0
Ychwanegiadau	3,402	2,366	766	6,534	0	0
Cynnydd / (gostyngiad) ailbrizio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrizio Wrth Gefn	0	0	0	0	0	0
Cynnydd / (gostyngiad) ailbrizio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau	0	(777)	0	(777)	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Arall	0	0	0	0	0	0
Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2025	50,731	26,605	766	78,102	233	0
Dibrisiant Cronedig & Amhariad						
Ar 1 Ebrill 2024	(43)	(15,355)	0	(15,398)	(92)	0
Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir	(984)	(1,569)	0	(2,553)	(42)	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrizio	0	0	0	0	0	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	0	0	0	0		
Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau	0	0	0	0	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Arall	0	721	0	721	0	0
Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2025	(1,027)	(16,203)	0	(17,230)	(134)	0
GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2025	49,704	10,402	766	60,872	99	0
GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2024	46,210	8,774	1,060	56,044	141	0

2023-2024	Land and Buildings	Vehicles and Equipment	Assets Under Construction	Property Plant & Equipment Total	Intangible Assets Total	Assets Held for Sale Total
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2023	47,289	24,721	85	72,095	431	0
Ailgategoreiddio asedau	0	36	(36)	0	0	0
Ychwanegiadau	414	758	1,011	2,183	0	0
Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	(1,352)	0	0	(1,352)	0	0
Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(95)	0	0	(95)	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau	(3)	(1,303)	0	(1,306)	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Arall	0	(83)	0	(83)	(198)	0
Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2024	46,253	24,129	1,060	71,442	233	0
Dibrisiant Cronedig & Amhariad						
Ar 1 Ebrill 2022	(4)	(15,250)	0	(15,254)	(209)	0
Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir	(897)	(1,468)	0	(2,365)	(81)	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio	795	0	0	795	0	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	63			63		
Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau	0	1,280	0	1,280	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Arall	0	83	0	83	198	0
Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2024	(43)	(15,355)	0	(15,398)	(92)	0
GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2024	46,210	8,774	1,060	56,044	141	0
GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2023	47,285	9,471	85	56,841	222	0

Dibrisiad

Dibrisir adeiladau gan ddefnyddio cydranu, lle gwneir amcangyfrif o oes ddefnyddiol pob cydran o'r adeilad ac yna defnyddir cyfartaledd pwysol i gyfrifo'r tâl blynyddol.

Mae asedau eraill yn cael eu cydnabod ar y gost hanesyddol, sy'n brocsi ar gyfer y gost bresennol ar asedau ag oes fer ac yn cael ei ddibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

Ailbrisiadau ac Amariadau

Mae'r awdurdod yn sicrhau bod yr holl eiddo, peiriannau ac offer y mae'n ofynnol eu mesur ar eu gwerth cyfredol yn cael eu hailbrizio'n ddigon rheolaidd fel nad yw eu swm cario yn sylweddol wahanol i'w gwerth presennol ar ddiwedd y flwyddyn, ac o leiaf bob pum mlynedd. Cyflawnwyd yr holl brisiadau'n fewnol. Cynhaliwyd prisiadau tir ac adeiladau yn unol â'r methodolegau a'r sail ar gyfer amcangyfrif a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Cynhaliwyd adolygiad o holl adeiladau'r gorsafoedd tân, fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2025, yn dilyn cyngor gan y priswyr bod y gost o godi adeiladau eraill yn eu lle wedi gostwng. Mae gorsafoedd tân yn cael eu prisio ar gost codi adeilad arall yn eu lle gyda dibrisiant. Cafodd y swyddfeydd a'r gweithdai eu hailbrizio yn 2023/24 ac maent wedi'u prisio ar sail gwerth eu defnydd presennol.

Mae prisiadau cerbydau, peiriannau ac offer yn seiliedig ar brisiau cyfredol lle mae marchnad ail-law weithredol neu'r prisiau rhestr diweddaraf wedi'u haddasu yn ôl cyflwr yr ased.

YMRWYMIADAU CYFALAF

Mae'r Awdurdod wedi ymrwyo i wariant cyfalaf mewn cyfnodau yn y dyfodol sy'n deillio o gontractau a oedd yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r gwariant cyfalaf yr ymrwymwyd iddo ar 31 Mawrth 2025 ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol yn cyfateb i £1,661k (2023/24: £3,804k). Mae'r ymrwymadau'n ymwneud â'r canlynol:

Disgrifiad	£'000
Gwaith Adeiladu	626
Cerbydau	1,035
Cyfanswm	1,661

ASEDAU DROS BEN (Eiddo, peiriannau ac offer nad ydynt yn weithredol)

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau perthnasol dros ben.

12 OFFERYNNAU ARIANNOL

Categoriâu Offerynnau Ariannol

Mae'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:

	Heb fod yn gyfredol		Cyfredol	
	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Asedau Ariannol ar Gost				
Arian parod a Chyfwertth ag arian parod	0	0	2,973	2,523
Dyledwyr	62	102	1,275	2,527
Rhwymedigaeth Ariannol ar Gost				
Amorteiddiedig:				
Llog Cronedig	0	0	(116)	(174)
Benthyciadau	(14,073)	(8,456)	(3,714)	(10,617)
Cyfanswm Benthyciadau	(14,073)	(8,456)	(3,830)	(10,791)
Credydwyr	0	(466)	(6,042)	(6,258)

Offerynnau Ariannol Enillion/Colledion

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabuwyd yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau canlynol:

	2023/24		2024/25	
	Ymrwymadau Ariannol Mesur ar gost amorteiddiedig £'000	Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £'000	Ymrwymadau Ariannol Mesur ar gost amorteiddiedig £'000	Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £'000
Gwariant llog	692		629	
Cyfanswm y gwariant yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	692		629	
Incwm llog		(429)		(182)
Cyfanswm yr incwm yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau		(429)		(182)
Enillion net/(colledion) am y flwyddyn	692	(429)	629	(182)

Gwerth Teg Asedau ac Ymrwymadau sy'n cael eu Cario ar Gost Amorteiddiedig

Mae'r ymrwymadau ariannol a'r asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a derbyniadau yn cael eu cario ar y Fantolen ar gost amorteiddiedig (mewn asedau/ymrwymadau tymor hir gyda llog cronedig mewn asedau/ymrwymadau cyfredol). Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- O ran benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a benthyciadau eraill sy'n daladwy, mae benthyciadau gan y Bwrdd wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwerth teg dan weithdrefnau ad-dalu dyledion y Bwrdd;
- O ran benthyciadau a dderbynnir, defnyddiwyd y cyfraddau farchnad meincnod cyffredinol i ddarparu'r gwerth teg;
- Ni chydabyddir ad-daliad cynnar nac amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu ymhen llai na 12 mis, neu pan fo'n swm masnach neu'n swm derbyniadwy arall, cymerir mai'r gwerth teg yw'r swm sy'n cario neu'r swm ar yr
- Cymerir mai gwerth teg swm masnach neu swm derbyniadwy arall yw'r swm ar yr anfoneb neu'r infois.

Dyma'r gwerthoedd teg a gyfrifir:

	31-Mar-24		31-Mar-25	
	Swm cario £'000	Gwerth teg £'000	Swm cario £'000	Gwerth teg £'000
Dyled y BBGC	(17,787)	(17,118)	(14,073)	(13,300)
Dyled nad yw'r BBGC	0	0	(5,000)	(5,000)
Cyfanswm Dyledion	(17,787)	(17,118)	(19,073)	(18,300)

Mae'r gwerth teg wedi ei gyfrifo gan gyfeirio'n benodol at ddyfynbrisiau a gyhoeddwyd mewn marchnad weithredol. Yn achos yr Awdurdod Tân ac Achub, maent yn seiliedig ar bremiymau a fyddai'n daladwy pe ildwyd benthyciadau'r BBGC ac maent yn darparu rhagamcan o'r llog ychwanegol sy'n daladwy i'w gymharu â'r un benthyciad ar gyfraddau cyfredol y farchnad â disgownt yn ôl i'r cyfnod presennol.

13 RHESTRAU STOC

	Prif Storfeydd		Stoc Fflyd		Cyfansymiau	
	2023/24 £'000	2024/25 £'000	2023/24 £'000	2024/25 £'000	2023/24 £'000	2024/25 £'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	451	413	187	201	638	614
Pryniadau	314	952	229	203	543	1,155
Dileuadau	-50	(3)	(1)	(1)	(51)	(4)
Cydnabyddir fel Gwariant yn y flwyddyn	-302	(925)	(214)	(177)	(516)	(1,103)
Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn	413	437	201	226	614	662

14 DYLEDWYR

2023/24 £'000		2024/25 £'000
	Tymor Hir	
62	Rhagdaliadau	102
62	Cyfanswm Tymor Hir	102
	Tymor Byr	
286	Symiau Derbyniadwy Eraill	445
488	Symiau Masnach Derbyniadwy	1,509
501	Rhagdaliadau	573
1,275	Cyfanswm Tymor Byr	2,527
1,337	Cyfanswm Dyledwyr Tymor Hir a Thymor Byr	2,629

15 ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

31-Mar-24 £'000		31-Mar-25 £'000
1,483	Balansau Arian Parod a Balansau Banc	2,517
1,480	Adneuon Tymor Byr	0
10	Imprest Arian Mân	6
2,973	Cyfanswm	2,523

16 CREDYDWYR

2023/24 £'000		2024/25 £'000
	Tymor Hir	
0	Dyledion Masnach	(466)
0	Cyfanswm Tymor Hir	(466)
	Tymor Byr	
(3,364)	Symiau Taladwy Eraill	(820)
(2,678)	Symiau Masnach Taladwy	(5,438)
(6,042)	Cyfanswm Tymor Byr	(6,258)
(6,042)	Cyfanswm	(6,724)

17 DARPARIAETHAU

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan yr Awdurdod ddarpariaethau yn werth £374k yn ymwneud ag ymrwymadau tuag at weithwyr cyflogedig. Defnyddir y ddarpariaeth hon yn erbyn gwariant refeniw, pan fydd yn digwydd:

	Balans Agoriadol £'000	Symudiadau I Mewn £'000	Symudiadau Allan £'000	Balans Terfynol £'000
Darpariaethau Tymor Byr	(217)	(175)	18	(374)
Darpariaethau Tymor Hir	0	0	0	0
Cyfanswm	(217)	(175)	18	(374)

18 CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31-Mar-24 £'000		31-Mar-25 £'000
(17,304)	Cronfa Ailbriso	(17,009)
(10,935)	Cyfrif Addasu Cyfalaf	(12,954)
231,610	Cronfa Pensiynau	208,143
386	Cyfrif Absenoldebau Cronedig	403
203,757	Cyfanswm	178,583

18a Cronfa Ailbriso

Mae'r Gronfa Ailbriso yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Offer.

Bydd y balans yn cael ei ostwng pan fo asedau gydag enillion cronedig yn:

- cael eu hailbriso am i lawr, neu'n cael eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli;
- cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a'r enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiad, neu'n cael eu gwaredu, a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Nid yw'r Gronfa ond yn cynnwys enillion cronedig ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa. Mae enillion cronedig sy'n deillio cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cyfuno yn y balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
(18,175)	Balans ar 1 Ebrill	(17,304)
0	Ailbriso asedau am i fyny	0
557	Ailbriso asedau a cholledion amhariad i lawr nas codir ar y gwarged/diffyg wrth ddarparu gwasanaethau	0
0	Addasiad o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf	0
314	Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol	295
(17,304)	Balans ar 31 Mawrth	(17,009)

18b Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sydd rhwng y trefniadau gwahanol ar gyfer rhoi cyfrif am dreuliant asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan y darpariaethau statudol.

Debydir y Cyfrif gyda chost caffael, adeiladu neu wella gan fod dibrisiad, colled amhariad ac amorteiddiad yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda chofnodion cyson o'r Gronfa Ailbriso i drosi ffigyrau gwerth teg yn sail cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif gyda'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel arian ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi, ac enillion a gydnabuwyd ar asedau rhoddedig sydd eto i gael eu defnyddio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion prisio a gronnwyd ar Eiddo, Peiriannau ac Offer cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa Ailbrisio ar gyfer dal enillion o'r fath.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
(10,013)	Balans ar 1 Ebrill	(10,935)
2,445	Taliadau am ddibrisiad ac amhariad asedau anghyfredol	2,595
25	Swm yr ased anghyfredol wedi'i ddileu wrth waredu neu werthu	56
32	Addasiad sy'n ymwneud ag ailbrisio asedau	0
(314)	Addasu symiau a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisio	(295)
2,188	Swm net a ddilëwyd o gost yr asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	2,356
(71)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a ddefnyddiwyd ar gyfer ariannu cyfalaf	(918)
(1,101)	Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol/ Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi	(1,459)
(36)	Defnydd o grantiau i ariannu cyfalaf o'r cyfrif grantiau cyfalaf nas defnyddiwyd	(49)
(1,902)	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	(1,949)
(3,110)	Ariannu Cyfalaf a Ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(4,375)
(10,935)	Balans ar 31 Mawrth	(12,954)

18c Cronfa Pensiynau

Mae'r gronfa pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n digwydd oherwydd y trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu buddion ôl-gyflogi a buddion ariannu yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddion ôl-gyflogi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddion yn cael eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynnyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddarau'r ymrwymadau a gydnabyddir i adlfewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac adenillion buddsoddiadau ar unrhyw adnoddau a neilltuir i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fuddion a enillir gael eu hariannu gan fod yr awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y pen draw yn talu unrhyw pensiynau y mae'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol. Felly mae'r balans debyd ar y gronfa pensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr blaenorol a chyfredol a'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi eu neilltuo ar eu cyfer. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn adea talu'r buddion.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
227,143	Balans Agoriadol ar 1 Ebrill	231,610
1,096	Ailfesur yr ymrwymiad budd diffiniedig net	(26,136)
13,903	Gwrthdroi eitemau yn berthnasol i fuddion ymddeoliad wedi'u debydu i'r Darpariaeth Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	13,697
(10,532)	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	(11,028)
4,467	Symudiad ar y Gronfa Pensiynau	(23,467)
231,610	Balans ar 31 Mawrth	208,143

18d Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn digwydd ar falans y Gronfa Cyffredinol o ganlyniad i absenoldebau digolledol a enillwyd ond chwymerwyd yn y flwyddyn e.e hawl i wyliau blynyddol wedi ei gario drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn mynnu bod yr effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio trwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r Cyfrif.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
272	Balans ar 1 Ebrill	386
(272)	Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	(386)
386	Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol	403
386	Balans ar 31 Mawrth	403

19 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

2023/24 £'000		2024/25 £'000
1,604	(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau	(824)
	Addasiadau i (warged)/diffyg net ar gyfer symudiadau anariannol	
(26)	Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Stoc	49
(3,736)	Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Dyledwyr	1,294
(1,754)	Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Credydwyr	(683)
(2,446)	Cost Dibrisio	(2,595)
39	Cyfraniadau a Dderbyniwyd/Derbyniadau Cyfalaf	0
(3,371)	Addasiadau Pensiwn IAS 19	(2,608)
(32)	Codi am Amhariad/Ailbrisio Asedau	0
(25)	Swm cario Asedau Anghyfredol wedi'u gwerthu neu eu dadadnabod	(56)
56	Cyfraniad (i)/o Wahanol Ddarpariaethau	(158)
0	Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu costio i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau	0
(114)	Cronfa wrth gefn Absenoldebau Cronedig	(16)
(11,409)	Llai Cyfanswm	(4,773)
	Addasiadau am eitemau sydd yn y (Gwarged) neu'r Diffyg net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu	
(692)	Llog a dalwyd	(629)
429	Llog a gafwyd	182
(263)		(447)
(10,068)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol	(6,044)

20 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

2023/24 £'000		2024/25 £'000
2,183	Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	6,534
(14)	Enillion o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	56
71	Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi	918
2,240	Llifau arian net o weithgareddau buddsoddi	7,508

21 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU ARIANNU

2023/24 £'000		2024/25 £'000
0	Derbyniadau arian parod o fenthycia tymor byr a thymor hir	(5,000)
8,769	Ad-dalu benthyca tymor byr a thymor hir	3,539
263	Taliadau eraill am weithgareddau ariannu	447
9,032	Llif arian net o weithgareddau ariannu	(1,014)

22 LWFANSAU AELODAU

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn:

2023/24 £		2024/25 £
84,804	Lwfansau Aelodau Etholedig	90,515
2,209	Treuliau Aelodau Etholedig	1,560
2390	Costau Aelodau Cyfetholedig	1,142
89,403	Cyfanswm	93,217

Aelodau Etholedig

Mae Aelodau Etholedig yr Awdurdod Tân ac Achub yn gymwys i dderbyn lwfansau fel cydnabyddiaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r lwfansau hyn yn cynnwys cyflog sylfaenol sy'n daladwy i bob aelod, ac, lle bo'n berthnasol, cyflogau uwch i'r rhai sy'n ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol megis Cadeirydd neu Is-gadeirydd yr Awdurdod neu ei bwyllgorau.

Yn ogystal â lwfansau, gall Aelodau Etholedig hawlio ad-daliad am dreuliau a gafwyd wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Fel arfer, mae'r treuliau hyn yn cynnwys costau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig ag ymweld â chyfarfodydd yr Awdurdod, sesiynau hyfforddi, a chyfarfodydd cymeradwy eraill.

Aelodau Cyfetholedig

Nid yw Aelodau Cyd-ethol, sydd wedi'u penodi i ddarparu mewnbwn annibynnol neu arbenigedd arbenigol—megis y rhai sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau—yn derbyn lwfans. Yn lle hynny, maent yn gymwys i dderbyn taliadau fel cydnabyddiaeth o'u cyfranogiad mewn cyfarfodydd swyddogol a gweithgareddau cysylltiedig.

23 TALIADAU SWYDDOGION

Mae'r taliadau a delir i uwch weithwyr yr Awdurdod wedi'i nodi yn y tabl canlynol. Enwir Uwch Swyddogion y mae eu cyflog yn £150,000 neu fwy.

Teitl Swydd	Blwyddyn	Cyflog (gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau) £	Cyfraniadau Pensiwn £	Cyfanswm y Taliadau £
Prif Swyddog Tân: Dawn Docx	2023/24	160,231	29,216	189,447
	2024/25	156,392	28,620	185,012
Dirprwy Brif Swyddog Tân	2023/24	127,594	34,833	162,427
	2024/25	125,114	38,785	163,899
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (wedi ymddeol Mehefin 2023)	2023/24	31,369	6,888	38,257
	2024/25	0	0	0
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (secondiad Mawrth 2024)*	2023/24	104,335	28,483	132,818
	2024/25	47,314	13,938	61,252
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	2023/24	120,176	21,912	142,088
	2024/25	117,294	21,465	138,759
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro (penodwyd ym mis Mawrth 2024)**	2023/24	6,530	1,421	7,951
	2024/25	101,921	25,901	127,822
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro (penodwyd ym mis Ionawr 2025)	2023/24	0	0	0
	2024/25	28,926	7,431	36,357
Trysorydd - Swyddog Adran 151 (15 diwrnod y flwyddyn)	2023/24	8,180	2,860	11,040
	2024/25	8,340	1,526	9,866

Mae ffigurau 2023/24 uchod yn cynnwys ôl-daliadau o £38k, o fis Ionawr 2022, oherwydd setliad dyfarniad cyflog Rheolwyr y Frigâd y cytunwyd arno ym mis Mai

*Prif Swyddog Tân Cynorthwyol ar secondiad dros dro i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel Prif Swyddog Tân, o 12 Chwefror 2024. Mae costau cyflog ar gyfer y cyfnod hwn, yn cyfanswm o £107,708, a chostau pensiwn o £22,423, wedi'u talu gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

** Daeth contract tymor penodol Prif Swyddog Tân Cynorthwyol i ben ddiwedd Rhagfyr. Yn dilyn hyn, oherwydd newidiadau yn argaeledd y prif swyddogion, cafodd ei ail-benodi'n dros dro ym mis Chwefror 2025.

Mae'r Swyddog. Monitro yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir y Fflint fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth felly ni ddangosir unrhyw gostau unigolyn yn y tabl uchod. Ceir rhagor o wybodaeth ar gostau'r Swyddog Monitro yn Nodyn 27 - Partion Cysylltiedig.

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill yr awdurdod a oedd yn cael cydnabyddiaeth o fwy na £60,000 ar gyfer y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

BAND TALIAD	2023/24 NIFER Y GWEITHWYR CYFLOGEDIG	2024/25 NIFER Y GWEITHWYR CYFLOGEDIG
£60,000 - £64,999	19	22
£65,000 - £69,999	6	6
£70,000 - £74,999	6	4
£75,000 - £79,999	1	2
£80,000 - £84,999	0	0
£85,000 - £89,999	2	2
£90,000 - £94,999	1	2

Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r gymhareb rhwng tâl y Prif Swyddog Tân a thâl canolrifol staff y Gwasanaeth Tân ac Achub:

2023/24 £		2024/25 (£)
160,231	Prif Swyddog Tân	156,392
36,226	Canolrif	37,675
4.42	Cymhareb	4.15

Mae'r staff a gyflogir o dan gontractau System Dyletswydd wrth gefn wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad ar eu pwynt graddfa Cyfwerth ag Amser Llawn yn hytrach nag enillion gwirioneddol. Mae'r data uchod yn cynnwys cyfanswm y cyflog a dalwyd ac mae hefyd yn cynnwys ôl-daliad ar gyfer y CFO sy'n ymwneud â 2023-24 sydd wedi adlewyrchu ar y gymhareb (ac eithrio cyfraniadau pensiwn).

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael yn 2023/24 a 2024/25.

24 COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a gynhelir gan yr archwilydd penodedig:

2023/24 £'000		2024/25 £'000
60	Gwaith archwilio ariannol	60
16	Gwaith Archwilio Perfformiad	17
76	Cyfanswm	77

25 GRANTIAU

2023/24 £'000	Credydwyd i Wasanaethau	2024/25 £'000
169	Lleihau Tanau Bwriadol	0
240	Offer Diogelwch yn y Cartref	250
322	Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan	304
141	Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ieuenctid	145
14	Operation Ugain	72
5	Hanfodion Seibr	0
0	Windrush Cymru	2
0	Pwysau Cyflog y Gwasanaeth Tân ac Achub	209
891	CYFANSWM	982
	Credydwyd i drethiant ac incwm a gwariant amhenodol	
71	Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan	0
	Radios	377
	Cerbydau Trydan	115
	Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan	131
0	Grant gwres carbon isel y sector cyhoeddus	295
71	CYFANSWM	918

26 GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru wrth weinyddu dau gynllun grant ar gyfer yr holl Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r grantiau cymeradwy yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sydd wedyn yn gyfrifol am ddosbarthu'r grantiau i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Fforwm Cadernid Lleol. Mae hon yn bartneriaeth amlasiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, y GIG, Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill. Mae cyfraniadau gan y cyrff cyhoeddus amrywiol yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Defnyddir y cyllid hwn i dalu am wariant y Fforwm. Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan yr Awdurdod gyllid o £11k yn ymwneud â'r Fforwm.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
3,144	Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan	3,117
266	Ymgysylltu â Phlant ac Ieuenctid	227
135	Fforwm Cydnerthedd Lleol	110
3,545	Cyfanswm	3,454

27 PARTION CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion o bwys gyda phartion cysylltiedig – cyrff neu unigolion a allai reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan yr Awdurdod. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi cael ei gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhwydd â'r awdurdod.

Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gryn ddylanwad dros weithrediad cyffredinol yr Awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r awdurdod yn gweithredu o'i fewn. Mae'n darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau (caiff y Grant Cynnal Refeniw ei dalu i awdurdodau cyfansoddol) ac mae'n rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan yr awdurdod â phartion eraill. Yn Nodyn 25, dangosir y derbyniadau grant a geir yn uniongyrchol, ac yn Nodyn 10 dangosir cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol.

Aelodau

Mae gan aelodau'r awdurdod reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol yr awdurdod. Yn Nodyn 22 gwelir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn 2024/25.

Mae pob Aelod wedi cwblhau ffurflen datganiad o fuddiant gyda phartion cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn 2024/25. Ac eithrio lwfanau a threuliau, ni nodwyd unrhyw drafodion eraill. Ni thalwyd dim gan yr Awdurdod yn ystod 2024/25, dan drefniadau o'r fath (2023/24: dim), ac nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2024/25 (2023/24: dim).

Mae rhestr o fuddiannau Aelodau Etholedig yn cael ei chadw gan y Swyddog Monitro ac mae ar gael i'w gweld ar y wefan - Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Awdurdod Tân ac Achub - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (gov.wales)

Uwch Swyddogion

Roedd yr Uwch Swyddogion wedi cwblhau datganiad buddiannau gyda phartion cysylltiol am y flwyddyn 2024/25. Yn Nodyn 23, dangosir cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Swyddogion.

Roedd un o'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol wedi datgan buddiant fel un o ymddiriedolwyr Pentre Peryglon. Mae'r elusen annibynnol yn rhedeg canolfan gweithgareddau addysg sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru. Roedd taliadau gwerth £13,300 wedi cael eu gwneud i Bentre Peryglon yn 2024/25 fel rhan o gyllid grant Llywodraeth Cymru (2023/24: £12,844). Hefyd, darperir cyllid ar gyfer cost gweinyddwr, sy'n werth £34,826 (2023/24: £32,258).

Roedd y Swyddog Adran 151 hefyd wedi'i gontractio fel Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd ar gyfer Cronfa Bensiwn Powys, ac fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd Adra, cymdeithas dai.

Nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2024/25 (2023/24: dim).

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu rôl Swyddog Monitro. Delir y swydd hon gan y Prif Swyddog (Llywodraethu)/Swyddog Monitro ac roedd taliadau yn £20k (2023/24: £19k).

Yn flaenorol, darparwyd gwasanaethau cyfreithiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyda'r trefniant yn dod i ben yn ystod 2023/24 (2023/24: £12k). Ar 31 Mawrth 2025, roedd £12k yn ddyledus.

Ers 1 Ebrill 2024, mae Mersey Internal Audit wedi darparu gwasanaethau archwilio mewnol, a thalwyd cyfanswm o £23k amdanynt. Ar 31 Mawrth 2024, nid oedd unrhyw daliadau'n ddyledus.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n gweithredu ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed, yn rheoli'r taliadau a wneir i ddiffoddwyr tân sy'n bensiwnwyr ar ran yr Awdurdod. Maent hefyd yn gyfrifol am reoli cofnodion pensiwnwyr presennol ac aelodau gweithredol y cynllun. Roedd y trafodion yn y flwyddyn yn £113k (2023/24: £91k). Ar 31 Mawrth 2025, nid oedd unrhyw daliadau'n ddyledus.

Trwy gytundeb secondiad, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn darparu Arweinydd Pensiwn Diffoddwyr Tân, ac yn ystod y flwyddyn talwyd £18k (2023/24: £2k) am hyn, a oedd heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau ar y cyd gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ogystal ag ystafell reoli a rennir. Cyfanswm cyfraniad yr Awdurdod tuag at reoli cyfleusterau oedd £234k (2023/24: £220k). Yn flaenorol, darparwyd cyngor caffael, gyda'r trefniant yn dod i ben yn ystod 2023/24 (2023/24: £7k). Ar 31 Mawrth 2025, roedd £7k yn dal heb ei dalu.

28 GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod, (gan gynnwys gwerth asedau a gaffaelwyd dan brydlesi ariannu a chytundebau PFI), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle y bwriedir ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy daliadau a godir ar refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan yr awdurdod, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y gofyniad ariannu cyfalaf, sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo'n hanesyddol gan yr awdurdod sydd eto i'w ariannu.

2023/24 £'000		2023/24 £'000
28,877	Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol	27,950
	Buddsoddiad Cyfalaf	
2,183	Eiddo, Peiriannau ac Offer	7,437
	Ffynonellau Cyllid	
(107)	Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth	(967)
(1,902)	Symiau wedi'u neilltuo o refeniw	(1,949)
(1,101)	Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol	(1,459)
27,950	Gofyniad Ariannu Cyfalaf Terfynol	31,012
(927)	Cynnydd/gostyngiad yn yr angen gwaelodol i fenthycu (heb gymorth ariannol gan y llywodraeth)	3,062
(927)	Cynnydd / (gostyngiad) mewn Gofyniad Ariannu Cyfalaf	3,062

29 PRYDLESI**Awdurdod fel lesddeiliad**

Cydnabyddir lesau fel asedau hawl i ddefnyddio gyda rhwymedigaeth gyfatebol o'r dyddiad y mae'r ased wedi'i lesio ar gael i'w ddefnyddio (neu ddyddiad pontio IFRS 16, os yn hwyrach). Mae'r lesau fel arfer ar gyfer cyfnodau penodol dros flwyddyn, ond gallant gynnwys opsiynau estyn.

Mae'r awdurdod wedi caffael cerbydau ac offer drwy gytundebau les nodweddiadol o bedair blynedd. Yn ogystal, mae'r awdurdod yn lesu tri adeilad gyda thelerau les nodweddiadol o bum mlynedd.

Mae'r tabl isod yn dangos y newid yn yr asedau hawl i ddefnyddio a ddelir o dan lesau gan yr Awdurdod.

	Tir ac Adeiladau	Cerbydau ac Offer	Cyfanswm
Balans ar 1 Ebrill 2024	593	310	903
Ychwanegiadau	0	0	0
Ailbrisio	0	0	0
Dibrisiant ac amorteiddiad	(108)	(143)	(251)
Gwarediadau	0	(3)	(3)
Balans ar 31 Mawrth 2025	485	164	649

Mae'r awdurdod wedi ysgwyddo'r treuliau a'r llif arian canlynol mewn perthynas â lesau:

	Tir ac Adeiladau	Cerbydau ac Offer	Cyfanswm
Datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr			
Treuliau llog ar rywmedigaethau les	29	17	46
Treuliau sy'n ymwneud â lesau tymor byr	0	4	4
Treuliau sy'n ymwneud â lesau eithriedig o eitemau	0	2	2
Datganiad llif arian			
Taliadau lleiaf les	115	155	270

Fel y caniateir gan y Cod, mae'r awdurdod yn eithrio lesau:

- ar gyfer eitemau gwerth isel sy'n costio llai na £10,000, yn unol â'r lefel gwariant de-minimus ar gyfer Eiddo, Planhigion ac Offer.
- gyda thymor byrrach na 12 mis.

Mae'r rhwymedigaethau les i'w setlo dros y bandiau amser canlynol (wedi'u mesur ar sail symiau heb eu disgowntio o daliadau arian disgwylidig):

	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Dim hwyrach na blwyddyn	444	437
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	1,182	466
Hwyrach na 5 mlynedd	72	0
Cyfanswm rhwymedigaethau heb eu disgowntio	1,698	903

30 CYNLLUNIAU PENSIWN BUDDION DIFFINIEDIG

Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy nes bod gweithwyr cyflogedig yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) a'u datgelu ar yr adeg y mae gweithwyr cyflogedig yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn cael ei weithredu o dan fframwaith reoleiddio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r CPLIL yn gynllun a ariennir â buddion wedi'u diffinio y mae'r Awdurdod yn aelod cyflogwr ohono o gronfa Bensiwn Clwyd. Cronfa Bensiwn Clwyd, Cyngor Sir y Fflint sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun hwn yn ei rinwedd fel Rheolwr y Cynllun a'r Awdurdod Gweinyddol.

Mae'r polisi yn cael ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Gronfa Bensiynau ac yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Pensiwn, gan gynnwys penodi'r rheolwyr buddsoddi. Prif risgiau'r cynllun i'r awdurdod yw'r rhagdybiaethau ynghylch hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu allan o'r cynllun ar raddfa fawr), newidiadau i chwyddiant, arenillion bond a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y

Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol ar gyfer ailbrisio actiwaraidd yn rheolaidd ac ar gyfer gosod cyfraddau cyfraniadau cyflogwr a gweithwyr. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn cael eu codi ar gost gwasanaethau yn seiliedig ar enillion cyflogai yn y cyfnod yn hytrach na phan delir y buddion fel pensiynau yn y pen draw.

Mae'r hyn a godir ar yr ardoll yn adlewyrchu'r taliadau pensiwn gwirioneddol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn unig. Fodd bynnag, i ddangos cost lawn buddion ymddeol, mae'r rhain yn cael eu cofnodi yn gyntaf yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac yna eu gwrthdroi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r cofnodion canlynol yn adlewyrchu'r addasiadau hyn.

Mae unrhyw fuddion yn ôl disgresiwn neu gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ymddeoliadau ar sail salwch yn gost heb ei ariannu ac yn cael eu codi ar wahân ar yr Awdurdod. I'r graddau y mae costau o'r fath yn hysbys, maent yn cael eu cynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb ac mae'r Awdurdod yn cadw cronfa wrth gefn i fynd i'r afael ag unrhyw gostau heb eu cynllunio ac i lyfnhau effaith newidiadau ar gyfraddau cyfraniadau'r

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS) yn gynllun heb ei ariannu â buddion wedi'u diffinio, sy'n golygu na ddelir buddsoddiadau i ariannu'r ymrwymadau. Mae cyfraniadau, ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru, a wneir gan y cyflogwr a'r cyflogeion ar enillion pensiynadwy yn cael eu cadw mewn cyfrif cronfa bensiwn. Mae buddion a delir i ymddeoledigion hefyd yn cael eu codi ar y cyfrif gydag unrhyw ddiffyg arian parod yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru neu ei dalu iddi.

Mae'r wybodaeth sy'n dilyn wedi'i thynnu o'r adroddiadau datgelu a ddarparwyd gan Mercer (ar ran cynllun pensiwn CPLIL) ac Adran Actiwari'r Llywodraeth (AALI) (ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS)). Mae'r manylion mwyaf perthnasol sy'n effeithio ar y cronfeydd Pensiwn isod:

Cyfartalu a Mynegeo Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP)

Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar fynegeo a chyfartalu Isafswm Pensiynau Gwarantedig (GMP), a'r cynnig yw ymestyn y "datrysiaid interim" i'r aelodau sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn Gwladol ar ôl 5 Ebrill 2021. Cafodd cost gwasanaeth blaenorol ei gynnwys yn natgeliadau 2019/20 ar gyfer ymestyn y cyfartalu i bawb sy'n ymddeol

Roedd dyfarniad llys pellach hefyd ar 20 Tachwedd 2020 ynghylch cyfartalu'r Cyfanswm Pensiwn Gwarantedig (GMP). Dyfarnodd y llys fod rhaid i ymddiriedolwyr cynlluniau ailedrych ar gyn-Werthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) er mwyn sicrhau bod GMP yn cael ei gyfartalu. Gallai hyn arwain at daliadau atodol ychwanegol pan fo cyfartalu GMP yn golygu nad yw aelodau wedi derbyn eu holl hawl. Ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, disgwylir y bydd y dyfarniad hwn yn cael ei weithredu ar draws cynlluniau, a bydd angen mewnbwn cyfreithiol.

Efallai y bydd hyn yn gofyn am ailedrych ar achosion CETV yn y gorffennol ar gyfer aelodau ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2016 ac a gymerodd CETV o'r cynllun cyn i CETV gael ei gyfartalu. Nid yw cwmpas unrhyw gostau wedi'i bennu eto. Nid yw data am CETV hanesyddol ar gael i amcangyfrif yr effaith bosibl. Disgwylir y bydd hwn yn godiad cymharol fach ar gyfer is-set gymharol fach o aelodau (h.y. y rhai a gymerodd CETV ac sydd o fewn y cwmpas ar gyfer ychwanegiad atodol).

Dyfarniad McCloud a rheolaeth gwerth y costau 2016

Yn dilyn achos Llys Apêl, cafwyd dyfarniad McCloud yn Rhagfyr 2018, a oedd yn dod i'r casgliad bod yr amddiffyniadau trosiannol a gyflwynwyd yn 2015 yn gwahaniaethu ar sail oedran. Yn dilyn hyn cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar draws cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus y DU yn cynnwys Cynllun

Mae costau gwasanaeth blaenorol wedi'u hamcangyfrif er mwyn ystyried effaith dyfarniad McCloud ac maent wedi'u cynnwys yn y Gronfa Bensiwn ers 2018/19. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r rhwymedi a amlinellwyd gan Lywodraeth y DU a'r newidiadau gofynnol i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a osodwyd gan Weinidogion Cymru a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023.

Rheoliadau Pensiynau'r Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth y Gellir ei Unioni) (Cymru) 2023 a osodwyd ac a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023, gyda'r nod o alluogi Rheolwyr Cynlluniau i weithredu'r newidiadau angenrheidiol i roi'r unioni ar waith. Rhaid cwblhau'r newidiadau hyn o fewn cyfnod o 18 mis. Oherwydd cymhlethdod a nifer y cyfrifiadau, ni lwyddodd y Gwasanaeth i gyrraedd y dyddiad cau o 31 Mawrth 2025 yn llawn.

O ganlyniad i'r methiant i gydymffurfio â gofynion statudol Adran 29 o Ddeddf Pensylinau Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Ombwdsmon 2022 (PSPJOA 2022), rhoddwyd gwybod am y mater i'r Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR). Gall TPR osod cosbau a dirwyon am fethu â chydymffurfio â'r dyddiad cau statudol. Y ddirwy leiaf y gall TPR ei osod am fethu â chydymffurfio â therfynau amser statudol yw £500. Gall y ddirwy hon gynyddu yn dibynnu ar fanylion yr achos, megis nifer yr aelodau yn y cynllun pensiwn. Ar hyn o bryd, nid yw gwerth na dyddiad unrhyw daliad allan yn hysbys.

O'Brien

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd y dyfarniad yn achos O'Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pan allai gweithiwr rhan-amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau cenedlaethol i staff sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar alwad ac y dechreuodd eu contract cyflogaeth cyn 1 Gorffennaf 2000 neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud diwygiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007 (Diwygiedig) i ddarparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafodd Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024, ei wneud a'i osod ym mis Ionawr a daeth i rym ar 1 Chwefror 2024. Bydd pob person cymwys yn cael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn ôl o fewn yr amserlenni a nodir yn y gorchymyn.

Ni ellir cyfrifo'n llawn effaith ariannol lawn y rheoliadau wedi'u diweddarau er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2020 rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD). □

Mae'r tablau isod yn darparu manylion pellach ynghylch y cronfeydd pensiwn:

LGPS	FFPS	Trosglwyddiadau'r Gronfa Gyffredinol	LGPS	FFPS
2023/24 £'000	2023/24 £'000		2024/25 £'000	2024/25 £'000
		Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
		Cost Gwasanaethau		
		Cost Gwasanaeth sy'n cynnwys:		
1,055	1,620	Cost cyfredol y gwasanaeth	1,033	1,870
0	0	Cost blaenorol y gwasanaeth	0	0
49	0	Costau Gweinyddu	51	0
		Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi		
69	10,310	Gwariant Llog Net	(16)	10,810
0	0	Trosglwyddiadau allan o'r cynllun	0	0
0	800	Trosglwyddiadau i mewn i'r cynllun	0	(10)
0	0	Cwtogiadau	0	0
1,173	12,730	Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar Ddarparu Gwasanaethau	1,068	12,670
		Buddion Ôl-gyflogaeth Eraill a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
		Ailfesur y budd/rhwymedigaeth net diffiniedig yn cynnwys:		
(1,852)	0	Adenillion ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio llog)	1,894	0
(331)	0	(Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Demograffig	(51)	(530)
(1,359)	(4,410)	(Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Ariannol	(6,176)	(25,240)
0	7,810	(Enillion) / Colledion Actiwaraid - profiad	0	(60)
(3,542)	3,400	Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(4,333)	(25,830)
		Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd		
(1,173)	(12,730)	Gwrthdroi costau net a wnaed i'r gwarged neu diffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau Buddion Ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod	(1,068)	(12,670)
		Symiau Gwirioneddol a godir ar y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn		
0	9,910	Buddion Ymddeol sy'n daladwy i Bensiynwyr	0	10,370
622	0	Cyfraniadau'r Cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun	658	0

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth yr Awdurdod mewn perthynas â'r cynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

LGPS 2023/24 £'000	FFPF 2023/24 £'000	Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gydabuwyd yn y Fantolen	LGPS 2024/25 £'000	FFPF 2024/25 £'000
(40,392)	(231,610)	Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(35,728)	(208,100)
41,630		Gwerth Teg asedau'r cynllun	40,950	0
1,238	(231,610)	Is-Gyfanswm	5,222	(208,100)
(1,238)		Effaith IAS19 / IFRIC 14	(5,265)	
0	(231,610)	Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(43)	(208,100)

LGPS 2023/24 £'000	FFPF 2023/24 £'000	Symudiad yng Ngwerth Asedau'r Cynllun	LGPS 2024/25 £'000	FFPF 2024/25 £'000
38,559	0	Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun	41,630	0
1,837	0	Incwm Llog	2,021	0
		Enillion / Colledion wrth Ailfesur		
1,852	0	Yr enillion ar asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net	(1,894)	0
622	11,520	Cyfraniadau gan y cyflogwr	658	12,440
419	0	Cyfraniadau gan weithwyr cyflogedigi'r cynllun	437	0
(1,610)	(11,520)	Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd	(1,851)	(12,440)
(49)	0	Costau Gweinyddu	(51)	0
41,630	0	Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun	40,950	0

LGPS 2023/24 £'000	FFPF 2023/24 £'000	Symudiad yng Ngwerth Teg Rhwymedigaethau'r Cynllun	LGPS 2024/25 £'000	FFPF 2024/25 £'000
(40,312)	(225,390)	Balans Agoriadol ar 1 Ebrill	(40,392)	(231,610)
(1,055)	(1,620)	Cost Cyfredol y Gwasanaeth	(1,033)	(1,870)
0	(800)	Trosglwyddiadau i mewn	0	(10)
(1,906)	(10,310)	Costau Llog	(1,944)	(10,810)
(419)	(1,610)	Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	(437)	(2,070)
		Enillion a Cholledion wrth Ailfesur		
331	(7,810)	Enillion / Colledion Actiwaraid - profiad	51	60
1,359	4,410	Enillion / Colledion Actiwaraid yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau demograffig	6,176	530
1,610	11,520	Enillion / Colledion Actiwaraid yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau ariannol	1,851	25,240
0	0	Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd	0	12,440
0	0	Cwtogiadau	0	0
0	0	Cost Blaenorol y Gwasanaeth	0	0
(40,392)	(231,610)	Balans ar 31 Mawrth	(35,728)	(208,100)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL): Asedau sy'n Cynnwys:

Quoted 2023/24 £'000	Gwerth Teg Asedau'r Cynllun
2,122	Arian a Chyfwert Arian
0	Cyfrifon Arian
	Buddsoddiadau Dros Dro
2,122	Is-gyfanswm Arian a Chyfwert Arian
	Gwarantu Ecwiti
5,787	Dyfynnwyd yn fyd-eang
0	Marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg
5,787	Is-gyfanswm Ecwiti
	Bondiau
4,205	Eraill Tramor
10,990	LDI
15,195	Is-gyfanswm Bondiau
	Eiddo
1,748	DU
167	Tramor
1,915	Is-gyfanswm Eiddo
	Dewisiadau amgen
2,040	Cronfeydd Ymddiogelu
6,119	Ecwiti Preifat
2,498	Seilwaith
167	Coed ac Amaethyddiaeth
4,746	DGF
1,041	Credyd Preifat
16,611	Is-gyfanswm Dewisiadau Amgen
41,630	Cyfanswm yr Asedau

Mae gan holl asedau'r cynllun brisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithre

Quoted 2024/25 £'000
0
0
0
6,296
0
6,296
5,409
9,685
15,094
1,550
209
1,759
6,298
3,239
123
4,808
1,380
1,953
17,801
40,950

edol.

Y Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau ac Ymrwymïadau

Mae gwerth yr ymrwymïadau wedi eu seilio'n actiwaraid gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol sy'n asesu ymrwymïadau'r cynllun yn y dyfodol gyda disgownt i'w gwerth presennol.

Mae gwerth Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi ei wneud gan Adran Actiwaraid y Llywodraeth.

Mae gwerth ymrwymïadau LGPS wedi ei wneud gan Mercer, sef cwmni annibynnol o actiwarïaid. Dyma'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau ac maent yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 1 Ebrill 2023.

2023/24	LGPS	2024/25
	Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau	
	Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol:	
21	Dynion	21.1
23.5	Menywod	23.6
	Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:	
22.4	Dynion	22.4
25.3	Menywod	25.4
	Rhagdybiaethau Eraill	
2.6%	Cyfradd Chwyddiant	2.6%
3.9%	Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau	3.9%
2.7%	Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau	2.7%
4.9%	Cyfradd Disgowntio Ymrwymïadau'r Cynllun	5.9%
2.6%	Cyfradd Ailbrisio CARE	2.6%

2023/24	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	2024/25
	Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau	
	Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol:	
21.3	Dynion	21.3
21.3	Menywod	21.3
	Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:	
22.9	Dynion	22.7
22.9	Menywod	22.7
	Rhagdybiaethau Eraill	
2.6%	Cyfradd Chwyddiant	2.7%
3.9%	Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau	3.5%
2.6%	Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau	2.7%
4.8%	Cyfradd Disgowntio Ymrwymïadau'r Cynllun	5.7%
3.9%	Cyfradd Ailbrisio CARE	3.5%

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymïadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraid a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod yn seiliedig ar newidiadau rhesymol bosibl i ragdybiaethau ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gyda phob un yn cael ei amrywio'n annibynnol. Er enghraifft, mae'r rhagdybiaeth ynghylch hirhoedledd yn ystyried newidiadau yn disgwyliad oes dynion a menywod. Er nad yw newidiadau unigol fel hyn yn debygol yn ymarferol, gall rhai rhagdybiaethau fod yn gysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn dilyn polisiâu cyfrifyddu'r cynllun—gan ddefnyddio dull credyd uned ragamcanol ar sail actiwaraid. Nid yw'r dulliau na'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wedi newid ers y cyfnod blaenorol.

Effaith Rhagdybiaethau ar yr ymrwymiad - LGPS

	Fel yr Adroddwyd	+0.5% gostyngiad y flwyddyn	+0.25% chwyddiant y flwyddyn	+0.25% twf cyflog y flwyddyn	Cynnydd o 1 flwyddyn mewn disgwyliad oes	+/-1% o newid yn enillion buddsoddi 2023/24	
	£000	£000	£000	£000	£000	+1% £000	-1% £000
Ymrwymadau	35,728	33,166	37,082	36,010	36,440	35,728	35,728
Asedau	(40,950)	(40,950)	(40,950)	(40,950)	(40,950)	(41,356)	(40,544)
Diffyg (gwarged)	(5,222)	(7,784)	(3,868)	(4,940)	(4,510)	(5,628)	(4,816)
Cost a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf	771	667	827	771	791	771	771
Cost Llog Net a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf	(327)	(519)	(247)	(310)	(285)	(351)	(303)

	Fel yr Adroddwyd	Cyfradd disgownt ar rwymedigaet h-au Cynnydd o 0.5%	Cynnydd mewn cyflogau Cynnydd o 0.5%	Disgwyliad oes Cynnydd o 1 flwyddyn	Cynnydd mewn pensiynau Cynnydd o 0.5%
	£000	£000	£000	£000	£000
FFPS	Effaith (208,100)	0.00% (194,574)	0% (210,181)	0.00% (221,627)	0% (212,262)

Effaith ar lif arian yr Awdurdod

Cydnabyddir cost buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan weithwyr cyflogedig, yn hytrach na phan delir y buddion ar ffurf pensiynau yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r taliad sy'n rhaid ei godi yn erbyn yr ardoll yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth / buddion ymddeol ei gwrthdroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

31 NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau ar waith i reoli risgiau ariannol. Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 mewn cyfarfod ar 15 Ebrill 2024. Mae'r Strategaeth yn nodi'r Dangosyddion Darbodus (PI) ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn mae adroddiadau chwarterol yn manylu ar y cynnydd o'i gymharu â'r strategaeth ac, os oes angen, adolygiad o'r Dangosyddion Perfformiad.

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae adroddiad terfynol yn nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Ceir manylion ynghylch sut mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol yn adroddiadau'r trysorlys a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ac maent ar gael o wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru -

Mae gweithgareddau'r awdurdod yn ei amlygu i amrywiaeth o risgiau ariannol, gan gynnwys:

Risg Credyd

Dyma'r posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod.

Buddsoddiadau sy'n peri'r risg credyd uchaf ac mae'r rhain yn cael eu rheoli drwy Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol ac yn pwysleisio bod blaenoriaeth i'w rhoi i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Polisi'r Awdurdod ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw rhoi arian sydd dros ben yn y tymor byr mewn cyfrifon galw mewn banciau hyd nes y bydd ei angen. Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau tymor hir. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor byrrach yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, gyda banciau dethol o ansawdd uchel, i leihau'r risg o

Risg Hylifedd

Dyma'r posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod ddigon o arian ar gael i fodloni ei ymrwymïadau i wneud taliadau.

Mae'r Awdurdod yn monitro ei falans arian parod i sicrhau bod arian parod ar gael yn ôl yr angen. Os bydd symudiadau annisgwyl yn digwydd, gall yr Awdurdod gael gafael yn rhwydd ar fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ac felly nid oes unrhyw risg canfyddedig na fyddai'r Awdurdod yn gallu codi'r arian i fodloni ei ymrwymïadau dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod wedi ei rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo cyfraddau llog yn anffafriol.

Risg y Farchnad

Dyma'r posibilrwydd y gallai colled ariannol ddigwydd i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan yr Awdurdod fenthyciadau marchnad o £5m (2023/24: dim).

Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa agored i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod, yn dibynnu sut mae cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn symud ar draws gwahanol gyfnodau offerynnau ariannol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn cael yr effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y gost llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi;
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y benthycia yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);
- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi; a
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar eu gwerth teg ar y fantolen, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar benthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar Warged neu Ddiffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy neu a dderbynnir ar benthyciadau a buddsoddiadau ar gyfradd amrywiol yn cael eu gosod yn y Warged neu Ddiffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

Mae gan yr awdurdod nifer o strategaethau ar gyfer rheoli risg cyfraddau llog. Yn ystod cyfnodau pan fo cyfraddau llog yn gostwng, a lle mae amgylchiadau economaidd yn ei gwneud yn ffafriol, bydd benthyciadau ar gyfradd sefydlog yn cael eu had-dalu'n gynnar i wneud yr Awdurdod yn llai agored i golledion.

32 RHWYMEDIGAETHAU ANNISGWYL

Hawliadau Pensiwn

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd y dyfarniad yn achos O'Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pan gallai gweithiwr rhan-amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau cenedlaethol i staff sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar alwad ac y dechreuodd eu contract cyflogaeth cyn 6 Ebrill 2000 neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud diwygiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007 (Diwygiedig) i ddarparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafodd Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 ei wneud a'i osod ym mis Ionawr a daeth i rym ar 1 Chwefror 2024. Bydd pob person cymwys yn cael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn ôl o fewn yr amserlenni a nodir yn y gorchymyn.

Ni ellir cyfrifo'n llawn effaith ariannol lawn y rheoliadau sydd wedi'u diweddarau er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2020 o rwymedigaethau cynllun pensiwn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

Contract Gwasanaethau Brys Airwave

Ym mis Hydref 2021, agorodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ymchwiliad i wasanaethau rhwydwaith radio symudol oherwydd pryderon efallai nad oedd y farchnad yn gweithio'n dda. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad oes gan wasanaethau brys y DU unrhyw ddewis ar hyn o bryd ond parhau i ddefnyddio Rhwydwaith Airwave Motorola, oherwydd diffyg darparwyr eraill. O'r herwydd, cododd Motorola brisiau sydd ymhell uwchlaw lefelau cystadleuol ar y Swyddfa Gartref - sy'n negodi contractau ar ran y gwasanaethau brys - gan arwain at gostau uwch i'r gwasanaethau brys.

Er mwyn lleihau'r costau hyn, gosododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gap prisiau ym mis Gorffennaf 2023, a ddaeth â'r pris i lawr i lefel y gellid ei ddisgwyl mewn marchnad gystadleuol sy'n gweithio'n iawn.

Apeliodd Motorola Solutions Limited yn erbyn y penderfyniad hwn ac ym mis Rhagfyr 2023, fwnaeth y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth, mewn penderfyniad unfrydol, gadarnhau canfyddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd bod Motorola yn prisiau'n ormodol oherwydd ei fonopoli bron heb gyfyngiadau ar ddarparu gwasanaethau rhwydwaith cyfathrebu i wasanaethau brys y DU.

Mae Motorola Solutions wedi apelio ynghylch y mater i Llys Apêl y DU a wrthododd gais Motorola am ganiatâd i apelio ar 30 Ionawr 2025, a hynny'n unfrydol, ar y ddwy sail roedd yn pledio arnynt, ble roedd yn honni fod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) wedi gwneud camgymeriadau wrth asesu'r gystadleuaeth yn y farchnad berthnasol ac ym mhroffidioldeb y Rhwydwaith Airwave yn 2021.

Yn 2024/25, o ganlyniad i'r cap prisiau, bu gostyngiad o £526,000 yn y costau (2023/24: £262,000), fodd bynnag, gan y gall Motorola apelio yn Llys Hawliau Dynol Ewrop, mae'r swm hwn wedi'i neilltuo mewn cronfeydd wedi'u clustnodi wrth gefn, rhag ofn y bydd yn rhaid adalu hyn.

Materion Perthnasol Cyfreithiol

Gall yr Awdurdod wynebu her mewn perthynas ag ystod o faterion a allai fod yn destun ymgyfreitha ar unrhyw adeg. Ar ddiwedd y flwyddyn mae'r holl hawliadau hysbys yn cael eu hadolygu a'u hasesu. Os asesir bod atebolrwydd tebygol ac y gellir gwneud amcangyfrif rhesymol, rhoddir cydnabyddiaeth i ddarpariaeth ar gyfer symiau y byddai'r Awdurdod yn gorfod eu hysgwyddo. Pan fo'r tebygolrwydd o setliad yn isel neu pan na ellir amcangyfrif yr atebolrwydd yn rhesymol, ni chydabyddir rhwymedigaeth. Fodd bynnag, mae'r posibilrwydd bod hawliadau yn codi yn y dyfodol o ganlyniad i weithredoedd yn y gorffennol sydd naill ai'n anhysbys ar ddyddiad y Fantolen neu lle mae'r canlyniad mor anrhagweladwy o ran canlyniad neu rwymedigaeth ariannol fel na ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth. Mae'r Awdurdod yn cadw cronfa wrth gefn ar gyfer materion o'r fath.

Tribiwnlys Cyflogaeth

Ar ddiwedd y flwyddyn nid oedd unrhyw faterion a oedd angen cydnabyddiaeth ariannol.

33 ASED ANNISGWYL

Cartél Tryciau

Ym mis Gorffennaf 2016, roedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi dirwy o €2.9 biliwn i weithgynhyrchwyr tryciau Ewropeaidd am drefnu prisiau a gweithgareddau cartél eraill rhwng 1991 a 2001. Roedd DAF, Daimler, Iveco, MAN, a Volvo/Renault wedi cyfaddef eu bod yn euog gan gadarnhau eu bod wedi gwneud y canlynol:

- Ar lefel uwch reolwyr y Pencadlys, wedi pennu prisiau gros sefydlog ac weithiau prisiau
- Wedi alinio prisiau rhestr gros yn Ewrop gan gynnwys y DU ar ddechrau'r cartél.
- Wedi lleihau ad-daliadau pan gyflwynwyd yr Ewro.
- Oedi cyn cyflwyno technolegau Ewro 3, 4, 5 a 6 mwy effeithlon o ran
- Cytunwyd ar y gost y dylai gweithredwyr ei dalu am dechnolegau Ewro.

Ni wnaeth Scania gymryd rhan yn y weithdrefn setlo a chyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei benderfyniad yn canfod bod Scania wedi cymryd rhan yn yr un cartél gan roi dirwy o €880 miliwn i Scania. Mae Scania wedi defnyddio pob un o'i apeladau yn erbyn y Penderfyniad, a oedd yn aflwyddiannus.

Mae'r mater hwn yn cynnwys unrhyw dryciau 6 thunnell a throsodd, a brynwyd yn llwyr, ar gytundeb ariannu neu a brydleswyd rhwng 1997 a 2011. Mae achos cyfreithiol bellach yn mynd rhagddo yn y sector cyhoeddus i adennill peth o'r arian a gollwyd oherwydd y trefnu prisiau yma gan y cartél. Nid yw'r gwerth penodol, y ganran na'r tebygolrwydd wedi'u cyfrif eto ac mae'r amserlenni'n parhau i fod yn aneglur. Fodd bynnag, mae'r treial ar gyfer yr Ail Don Hawliadau Tryciau wedi'i osod ar gyfer Medi 2026.

O dan y Cytundeb Cyllido Ymglyfreitha, dim ond y TAW sy'n daladwy gan yr Awdurdod am y costau cyfreithiol. Cyfanswm y taliadau cyfredol ar gyfer 2024/25 oedd £5,268 (2023/24: £671)

CYFRIF CRONFA BENSIWN DIFFODDWYR TÂN

Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, gan nodi a oes gan yr Awdurdod falans sy'n daladwy neu'n dderbyniol gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y cyfrif yn gytbwys. Yn ogystal, mae'n darparu gwybodaeth am asedau net y gronfa.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
	Cyfraniadau a Dderbynnir:	
(4,055)	Cyfraniadau arferol y cyflogwr	(4,906)
0	Tâl afiechyd y cyflogwr	(156)
0	Cyfraniadau ôl-ddyddiedig y cyflogwr	0
(1,928)	Cyfraniadau arferol yr aelodau	(2,067)
(122)	Cyfraniadau ôl-ddyddiedig yr aelodau	(88)
(798)	Trosglwyddiadau i mewn	(321)
(6,903)	CYFANSWM	(7,538)
	Buddion yn Daladwy:	
9,005	Taliadau Pensiwn	9,737
1,596	Gohirio Pensiynau a Chyfandaliadau buddion ymddeol	2,593
0	Taliadau Gohirio Ôl-ddyddiedig	0
	Taliadau i Ymadawyr ac ar eu rhan:	
195	Trosglwyddiadau allan	88
10,796	CYFANSWM	12,418
3,893	Diffyg am y flwyddyn cyn i grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru	4,880
(3,893)	Grant atodol a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru	(4,880)
0	SWM NET (TALADWY)/A DDERBYNNIR AR GYFER Y FLWYDDYN	0

Datganiad Asedau Net ar 31 Mawrth 2025

2023/24 £'000		2023/24 £'000
	Asedau cyfredol	
(2,320)	Swm sy'n ddyledus (gan) / i'r Gronfa Gyffredinol	(655)
(2,320)	Cyfanswm Asedau Cyfredol	(655)
	Ymrwymadau Cyfredol	
2,320	Grant atodol yn daladwy (gan) / i Lywodraeth Cymru	655
2,320	Cyfanswm Ymrwymadau Cyfredol	655

Nodiadau i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 2007, dan Orchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, ac mae'n cynnwys Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, 2007 a 2015 ac fe'i gweinyddir gan yr Awdurdod. Mae'r cynllun yn un nad yw'n cael ei ariannu, nid oes ganddo asedau buddsoddi, a bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy'n daladwy a'r cyfraniadau derbyniadwy yn cael ei ateb gan Grant Atodol gan Lywodraeth Cymru.

Telir cyfraniadau cyflogai a chyflogwr i'r Gronfa, a gwneir taliadau ohoni i bensiynwyr. Mae lefelau cyfraniadau gweithwyr a chyflogwr yn seiliedig ar ganrannau o dâl pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ac yn amodol ar ailbrisio gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) bob pedair blynedd neu fel y cyfarwyddir fel arall gan Drysorlys EM.

Trosglwyddiadau i'r cynllun yw trosglwyddo buddion pensiwn o gynllun pensiwn arall ar gyfer gweithwyr newydd neu bresennol, a throsglwyddiadau allan yw trosglwyddo buddion i weithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod ac wedi ymuno â chynllun pensiwn arall.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am dalu cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa. Dyma'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwneir asesiad ynghylch swm y Grant Atodol sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru. Mae'r amcangyfrif yn cynnwys asesiad o nifer y diffoddwyr tân sydd i fod i ymddeol o fewn y flwyddyn, yn seiliedig ar oedran a blynnyddoedd o wasanaeth.

Cyfraddau Cyfraniadau

Ar 1 Ebrill 2022, trosglwyddwyd holl gyfranogwyr y cynllun i Gynllun 2015. Yn unol â Rheoliadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, bydd cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar gyfer Cynllun 2015 yn 31.0% o'r cyflog pensiynadwy, yn weithredol o 1 Ebrill 2024 (i fyny o 27.3% yn 2023/24). Bydd cyfradd cyfraniad y gweithiwr yn amrywio yn seiliedig ar fandio'r cyflog

Band Cyflog Pensiynadwy	Cyfradd Cyfraniad % 2024/25
Hyd at £27,818	11.0
£27,819 i £51,515	12.9
£51,516 i £142,500	13.5
Mwy na 142,501	14.5

Nid yw Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cymryd ystyriaeth o'r ymrwymadau am bensiynau a buddion eraill wedi diwedd y cyfnod, gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hyn. Mae manylion am yr ymrwymadau pensiwn tymor hir i'w cael yn Nodyn 30 o'r datganiadau ariannol craidd.

POLISI'AU CYFRIFYDDU

1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2025. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n gofyn bod y cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn, o dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25 a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i haddasu drwy ailbrisio categorïau penodol o asedau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol.

2. CRONIADAU O INCWM A GWARIANT

Yn y cyfrifon refeniw, cyfrifir am incwm a gwariant heb TAW (oni bai bod y TAW yn anadferadwy), yn y flwyddyn y maent yn codi, nid pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Mae hyn yn cyd-fynd ag IAS 1, sy'n gorfodi cyfrifyddu ar sail gronïadol i sicrhau cymhariaeth a golwg gywir a theg ar berfformiad a'r sefyllfa ariannol.

- **Treuliau:** Yn cael eu cofnodi pan dderbynnir gwasanaethau, nid pan fydd taliadau'n cael eu gwneud. Mae incwm gan gwsmeriaid yn cael ei gydnabod pan gaiff nwyddau neu wasanaethau eu darparu.
- **Cyflenwadau:** Yn cael eu cofnodi fel treuliau pan gânt eu defnyddio. Os cânt eu derbyn ond eu bod heb eu defnyddio eto, maent yn cael eu cario fel stocrestrau ar y Fantolen.
- **Llog:** Yn cael ei gyfrif gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, yn hytrach na'r llif arian a bennir yn y contract.
- **Dyledwyr a Chredydwyr:** Os cydnabyddir refeniw a gwariant ond nad yw arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr yn y Fantolen. Os yw'n bosibl na fydd dyledion yn cael eu setlo, caiff balans y dyledwyr ei nodi a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na fydd o bosibl yn cael ei gasglu.

3. ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol y gellir eu tynnu allan heb gosb o fewn 24 awr. Mae buddsoddiadau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael ac y gellir eu trosi'n rhwydd yn arian parod heb fawr ddim risg.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chyfwerth ag arian parod heb orddrafftiau banc sy'n ad-daladwy yn ôl y galw ac sy'n rhan o system rheoli arian parod yr Awdurdod.

4. **ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISIÂU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU**

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifyddu neu i gywiro gwallau materol. Mae newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu'n cael eu hystyried yn rhagolygol, gan effeithio ar y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod, ac nid ydynt yn arwain at addasiadau cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol y gwneir newidiadau mewn polisiâu cyfrifyddu, neu os yw'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Rhoddir y newidiadau hyn ar waith yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer cyfnodau blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi bod ar waith erioed. Caiff gwallau materol sy'n cael eu darganfod mewn ffigurau cyfnod blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

5. **TALIADAU A GODIR AR REFENIW AM ASEDAU ANGHYFREDOL**

Codir amcangyfrif o'r gost o ddal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn ar wasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu. Mae hyn yn cynnwys:

- **Dibrisiant:** Yn briodoleddig i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol.
- **Ailbrisio a Cholledion Amhariad:** Ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronedig yn y gronfa ailbrisio wrth gefn i wrthbwysu'r colledion.
- **Amorteiddiad:** Asedau anniriaethol priodoleddig i'r gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod godi ardoll i ariannu'r costau hyn. Yn hytrach, mae'n gwneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at leihau ei ofyniad benthyca cyffredinol, wedi'i gyfrifo ar sail ddarbodus. Caiff dibrisiant, ailbrisio a cholledion amhariad, ac amorteiddiad eu disodli gan y cyfraniad hwn ym malans y Gronfa Gyffredinol (MRP), trwy drafodiad addasu gyda'r cyfrif addasu cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

6. **BUDDION I WEITHWYR**

Buddion sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Buddion cyflogeion tymor byr yw'r rhai hynny sydd i'w setlo o fewn 12 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol ac maent yn cynnwys tâl, cyflogau, gwyliau â thâl, taliadau bonws a buddion heb fod yn ariannol (e.e. ceir). Mae'r rhain yn cael eu cydnabod fel treuliau yn y flwyddyn y mae gweithwyr yn darparu gwasanaethau i'r Awdurdod.

Gwneir croniad am gost yr hawliau gwyliau (neu unrhyw fath o wyliau, e.e. amser i ffwrdd yn lle oriau ychwanegol a weithiwyd) y mae gweithwyr wedi'u hennill ond heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac y gall gweithwyr eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad hwn ar y cyfraddau tâl a chyflog sy'n berthnasol yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol. Caiff y croniad ei godi ar y gwarged neu'r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau, ond caiff wedyn ei wrthdroi trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn i'r cyfrif absenoldebau cronedig, gan sicrhau bod hawliadau gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- **Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân:** Gweinyddir y cynllun hwn gan Gronfa Bensiwn Dyfed, Cyngor Sir Gâr.
- **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:** Gweinyddir y cynllun hwn gan Gyngor Sir y Fflint

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig (cyfansymiau wrth ymddeol a phensiynau) a enillir wrth i weithwyr weithio i'r Awdurdod.

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS)

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu a heb unrhyw asedau nac incwm buddsoddi.

- **Rhwymedigaethau:** Wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig, yn seiliedig ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaethau, trosiant gweithwyr, ac enillion rhagamcanedig.
- **Cyfradd Ddisgownt:** Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio i brisiau cyfredol gan ddefnyddio cyfradd sy'n seiliedig ar arenillion bondiau'r Llywodraeth ynghyd ag elw ychwanegol.

Cost y Gwasanaeth:

- **Cost Gyfredol y Gwasanaeth:** Cynnydd mewn rhwymedigaethau o wasanaeth a enillwyd yn y flwyddyn, a ddyrannwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) i'r gwasanaethau y gweithiodd gweithwyr iddynt.
- **Cost y Gwasanaeth yn y Gorffennol:** Cynnydd mewn rhwymedigaethau yn sgil diwygiadau neu doriadau yn y cynllun sy'n gysylltiedig â blynyddoedd cynharach, wedi'u debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- **Llog Net:** Traul sy'n codi dros amser ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net. Fe'i cyfrifir trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod. Codir y gwariant hwn ar y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yn ei hanfod, mae'n cynrychioli cost llog bod â rhwymedigaeth pensiwn dros amser.

Ailfesuriadau:

- **Enillion a Cholledion Actiwaraid:** Newidiadau mewn rhwymedigaeth pensiwn net o ganlyniad i ragdybiaethau neu ddigwyddiadau a ddiweddarwyd nad ydynt yn cyfateb i ragdybiaethau actiwari blaenorol, a godir ar y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- **Cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa:** Arian parod a dalwyd fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa pensiwn i setlo rhwymedigaethau; nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn pennu mai'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa pensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn sy'n cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau

cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau'n cael eu gwneud i mewn i'r Gronfa Bensiynau ac allan ohoni i ddileu'r debydau a'r credydau tybiedig ar gyfer buddion ymddeol a'u disodli â debydau am yr arian a delir i'r gronfa bensiynau a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans negyddol sy'n codi yn y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag wrth i weithwyr ennill buddion.

Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei ystyried yn gynllun buddion diffiniedig:

- **Rhwymedigaethau:** Wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig, yn seiliedig ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaethau, trosiant gweithwyr, ac enillion rhagamcanedig.
- **Cyfradd Ddisgownt:** Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio i brisiau cyfredol gan ddefnyddio cyfradd sy'n seiliedig ar fondiau corfforaethol.
- **Asedau:** Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd y gellir eu priodoli i'r Awdurdod wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:
 - Gwarannau a ddyfynnwyd: pris cyfredol
 - Gwarannau heb eu dyfynnu: amcangyfrif proffesiynol
 - Gwarannau unedol: pris cyfredol
 - Eiddo: gwerth y farchnad

Caiff y newid yn y rhwymedigaeth bensiynau net ei ddadansoddi yn ôl y cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth sy'n cynnwys:

- **Cost Gyfredol y Gwasanaeth:** Y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni, wedi'u clustnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio iddynt.
- **Cost y Gwasanaeth yn y Gorffennol:** Y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi cynllun sy'n gysylltiedig â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd cynharach, wedi'i ddebydu i'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- **Llog Net ar y Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig Net (Ased):** Y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased) oherwydd treigl amser, a godir ar linell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn cael ei gyfrifo trwy gymhwysu'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased) ar ddechrau'r cyfnod, gan ystyried unrhyw newidiadau yn ystod y cyfnod oherwydd cyfraniadau a thaliadau buddion.

Ailfesuriadau sy'n cynnwys:

- **Enillion ar Asedau'r Cynllun:** Ac eithrio symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased), a godir ar y gronfa bensiynau wrth gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall.
- **Enillion a Cholledion Actiwaraid:** Newidiadau yn y rhwymedigaeth bensiynau net oherwydd nad yw digwyddiadau'n cyd-fynd â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad

actiwaraiddd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïau wedi diweddarau eu rhagdybiaethau, sy'n cael eu codi ar y gronfa bensiwn wrth gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall.

- **Cyfraniadau a Dalwyd i Gronfa Bensiwn Clwyd:** Arian parod a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau, nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Darpariaethau Statudol

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn gofyn bod y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn yn cael ei godi ar falans y Gronfa Gyffredinol, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau'n digwydd i mewn i'r gronfa bensiynau wrth gefn ac allan ohoni i ddileu'r debydau a chredydau tybiedig ar gyfer buddion ymddeol â'u disodli â debydau am yr arian a delir i'r gronfa bensiynau a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans negyddol yn y gronfa bensiynau wrth gefn yn mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag wrth i weithwyr ennill buddion.

Buddion Disgresiynol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeol yn ôl ei ddisgresiwn os bydd gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Caiff unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod o ganlyniad i ddyfarniad o'r fath eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a'u cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau ag sy'n berthnasol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

7. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Digwyddiadau ar ôl cyfnod adrodd y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad terfynu'r Fantolen a'r dyddiad pan gaiff y datganiad cyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu dosbarthu'n ddau fath:

- **Digwyddiadau sy'n Darparu Tystiolaeth o Amodau ar Ddiwedd y Cyfnod Adrodd** – Os yw'r digwyddiad yn rhoi tystiolaeth o amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd, caiff y datganiad cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath
- **Digwyddiadau sy'n Nodi Amodau a Gododd ar ôl y Cyfnod Adrodd** - Os yw'r digwyddiad yn nodi amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd, ni fydd y datganiad cyfrifon yn cael ei addasu. Fodd bynnag, pe bai'r digwyddiadau hyn yn cael effaith sylweddol, caiff eu natur a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig eu datgelu yn y nodiadau.

8. OFFERYNNAU ARIANNOL

Diffinnir Offeryn Ariannol fel 'unrhyw contract sy'n creu ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i un arall'.

Mesur Cychwynnol a Swm Cario:

- **Rhwymedigaethau Ariannol (Benthyciadau):** Wedi'u mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario ar gost amorteiddio. Mae'r llog blynyddol a delir yn seiliedig ar swm cario'r benthyciad wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol.
- **Asedau Ariannol (Buddsoddiadau):** Wedi'u mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario ar gost amorteiddio. Mae'r llog blynyddol a dderbynnir yn seiliedig ar swm cario'r benthyciad wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol.

Ar gyfer yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau, y symiau a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n weddill ynghyd ag unrhyw log cronedig am y flwyddyn.

Cydnabod a Mesur

- **Rhwymedigaethau Ariannol:** Yn cael eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol. Wedi'u mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario ar gost amorteiddio. Mae taliadau blynyddol am log sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n disgowntio taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol yn union dros oes yr offeryn i'r swm a oedd yn berthnasol pan gafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan yr Awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Asedau ariannol

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu ar sail dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r Awdurdod yn dal asedau ariannol a fesurir ar sail:

- Cost wedi'i Hamorteiddio
- Gwerth Teg Drwy Elw neu Golled (FVPL)

Model busnes yr Awdurdod yw dal buddsoddiadau er mwyn casglu llif arian cytundebol, felly caiff asedau ariannol eu dosbarthu fel costau wedi'u hamorteiddio.

Asedau ariannol a fesurir ar sail cost wedi'i hamorteiddio

Caiff asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol. Maent yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg.

Wedi hynny fe'u mesurir ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog derbyniadwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau ariannol sydd gan yr Awdurdod, y swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig), a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi o ddatgydnabod ased ariannol yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

9. TRAFODION ARIAN TRAMOR

Pan fydd yr Awdurdod yn ymrwymo i drafodiad mewn arian tramor, caiff y trafodiad ei drosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid ar y dyddiad y mae'n digwydd. Os oes symiau mewn arian tramor sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn, maent yn cael eu haildrosi ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar 31 Mawrth. Caiff unrhyw enillion neu golledion sy'n deillio o hyn eu cydnabod yn llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

10. CYFRIFO AM GRANTIAU'R LLYWODRAETH

Caiff grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti eu cydnabod fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol y bydd:

- yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau, ac
- y bydd y grantiau neu'r cyfraniadau yn cael eu derbyn.

Cydnabod: Ni chaiff symiau sy'n cael eu cydnabod fel rhai sy'n ddyledus eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nes bod yr amodau sydd ynghlwm â'r grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni.

Amodau heb eu Bodloni: Caiff arian a gafwyd fel grantiau a chyfraniadau nad yw'r amodau wedi'u bodloni ar eu cyfer eu cario yn y Fantolen fel credydwy.

Amodau wedi'u Bodloni: Lle bodlonir yr amodau, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw y gellir eu priodoli) neu Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol (ar gyfer grantiau refeniw heb eu neilltuo a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei roi yn y Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio. Lle mae wedi'i ddefnyddio, caiff ei roi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Caiff symiau yn y Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf pan fyddant wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

11. ASEDau ANNIRIAETHOL

Caiff gwariant ar asedau anariannol sydd heb sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiadau'r gorffennol, ee trwyddedau meddalwedd, ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Awdurdod.

Caiff asedau anniriaethol eu mesur ar sail cost i ddechrau. Dim ond os gellir pennu eu gwerth teg trwy gyfeirio at farchnad weithredol y cânt eu hailbrisio. Yn ymarferol, nid oes unrhyw asedau anniriaethol sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod yn bodloni'r maen prawf hwn, felly maent yn cael eu cario ar sail cost llai'r dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad cronedig.

Bydd swm dibrisiedig ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros gyfnod ei oes ddefnyddiol i'r llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae ased yn cael ei brofi am amhariad pryd bynnag y mae arwydd o amhariad posibl. Caiff unrhyw golledion a gydnabyddir eu postio i'r llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion sy'n codi ar ôl gwaredu neu adael ased anniriaethol yn cael eu postio i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fydd gwariant ar asedau anniriaethol yn cyfrif fel gwariant cyfalaf at ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amharu ac enillion a cholledion gwaredu effeithio ar falans y Gronfa Gyffredinol. Caiff yr enillion a'r colledion hyn eu gwrthdroi o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r cyfrif addasu cyfalaf. Ar gyfer unrhyw enillion gwerthu sy'n fwy na £10,000, mae'r symiau'n cael eu postio i'r gronfa derbyniadau cyfalaf

12. RHESTRAU STOC

Mae rhestrau stoc wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail pa bynnag un sydd isaf, y gost ynteu'r gwerth gwiredadwy net. Caiff cost rhestrau stoc ei phennu gan ddefnyddio'r fformiwla costio 'y Cyntaf i Mewn, y Cyntaf Allan' (FIFO).

13. LESOEDD

O 1 Ebrill 2024, mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o brydlesi gael eu cyfrif fel rhan o'r model caffael. Mae hyn yn golygu cydnabod ased hawl-i-ddefnyddio ar y fantolen, gan adlewyrchu hawl y lesddeiliad i ddefnyddio'r eitem brydlesol.

Bydd prydlesi a ddosbarthwyd fel prydlesi ariannol ar 31 Mawrth 2024—lle mae'r brydles yn trosglwyddo bron pob risg a budd perchnogaeth i'r lesddeiliad—yn parhau i gael eu trin fel prydlesi ariannol.

Bydd pob prydles arall a ddosbarthwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredu, yn amodol ar unrhyw eithriadau cymwys, yn cael eu hailddosbarthu fel asedau hawl-i-ddefnyddio gyda rhwymedigaeth brydles cyfatebol wedi'i chofnodi ar y fantolen.

Lle mae prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, asesir pob elfen ar wahân at ddibenion dosbarthiad.

Yn ogystal, bydd trefniadau nad ydynt yn gyfreithiol yn ffurfio prydles ond sy'n rhoi'r hawl i ddefnyddio ased penodol yn gyfnewid am daliad hefyd yn dod o dan y polisi hwn, ar yr amod bod y trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau a nodwyd.

Lesoedd Cyllid

Mae lesioedd yn cael eu dosbarthu'n lesioedd cyllid pan fo telerau'r les yn trosglwyddo'n sylweddol holl risgiau a gwobrwyon perchnogaeth i'r lesddeiliad; caiff pob prydles arall eu trin fel prydlesi gweithredu.

Ar gyfer prydlesi ariannol, cydnabyddir yr ased prydlesol ar y Fantolen ar y gwerth isaf rhwng ei werth teg neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf, gyda rhwymedigaeth brydles gyfatebol. Ychwanegir unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a phremiymau prydles at yr ased neu defnyddir hwy i leihau'r rhwymedigaeth. Caiff rhenti amodol eu costio wrth iddynt gael eu hysgwyddo.

Rhennir taliadau prydles rhwng:

- Ad-daliad cyfalaf sy'n lleihau'r rhwymedigaeth brydles, a
- Thâl ariannol a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cyfrifir am eiddo, peiriannau, ac offer a gydnabyddir o dan lesioedd cyllid gan ddefnyddio'r un polisiâu ag ar gyfer asedau eraill, gyda dibrisiant yn cael ei godi dros dymor y les oni bai bod perchnogaeth yn trosglwyddo i'r Awdurdod.

Nid oes angen i'r Awdurdod godi ardoll i dalu am ddibrisiant neu ailbrizio a cholledion amhariad ar asedau les. Yn hytrach, gwneir cyfraniad blynyddol darbodus o gronfeydd referniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig, yn unol â gofynion statudol. Caiff hyn ei adlewyrchu drwy addasiad rhwng y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Lesau Gweithredu

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu IFRS 16 o 1 Ebrill 2024. Mae Eiddo, Peiriannau ac Offer sy'n dod o dan gwmpas IFRS 16 bellach yn cael eu dosbarthu fel asedau hawl-i-ddefnyddio ar y fantolen.

Lle ystyrir bod y brydles weithredu yn un o werth isel (cost wreiddiol yr ased yn is na £10k) neu fod llai na 12 mis yn weddill ar y brydles, ni fydd y rhain yn cael eu cydnabod ar y fantolen. Yn yr achosion hyn, caiff rhent a dalwyd o dan brydlesi gweithredu ei godi fel cost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) i'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, y peiriannau neu'r offer prydlesol. Caiff y taliadau eu rhannu'n gyfartal dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (e.e., cyfnod rhent am ddim ar ddechrau'r brydles).

IFRS16: Bydd polisi IFRS16 yr Awdurdod yn berthnasol i'r lesioedd hynny lle mai'r Awdurdod yw'r lesddeiliad a bydd yr ymdriniaeth ganlynol yn cael ei mabwysiadu.

Eithriad cost isel: Caiff yr eithriad cost isel ei osod i ddechrau ar £10,000, yn unol â'r lefel gwariant de-minimis ar gyfer Eiddo, Peiriannau ac Offer. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i addasu gan ddefnyddio cyfradd CPI mis Mawrth, wedi'i thalgrynnu i'r £1,000 agosaf. Bydd lesioedd is na'r gwerth hwn yn cael eu heithrio o IFRS16.

Defnydd o bortffolio o lesoedd gyda nodweddion eithaf tebyg: Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r portffolio hwyluso ar gyfer llungopïwyr a pheiriannau tebyg (ee peiriannau aml-swyddogaeth, peiriannau ffrancio) Mae gan y lesoedd hyn nodweddion tebyg o ran swyddogaeth, cost, a chytundebau, a byddant yn dod o dan yr eithriad cost isel.

Contractau cyfredol ar y dyddiad gweithredu: Ni fydd yr Awdurdod yn ailasesu contractau cyfredol ar y dyddiad gweithredu (1 Ebrill 2024) i benderfynu a ydynt yn cynnwys les. Bydd contractau newydd o'r dyddiad hwn yn cael eu hasesu am drefniadau les.

Lesoedd ar gyfer asedau anniriaethol: Ni fydd IFRS16 yn cael ei gymhwyso i drefniadau les ar gyfer asedau anniriaethol (e.e. trwyddedau meddalwedd).

Lesoedd sydd â llai na blwyddyn yn weddill ar y dyddiad gweithredu: Bydd yr eithriad bywyd byr yn cael ei gymhwyso i lesoedd cyfredol gyda llai na blwyddyn yn weddill ar y dyddiad gweithredu. Bydd y driniaeth gyfrifyddu bresennol yn parhau oni bai bod addasiad ar ôl y dyddiad gweithredu, ac yn yr achos hwnnw bydd y les yn cael ei hystyried yn les newydd

Yr Awdurdod fel Rhentwr

Dylid dileu asedau a wareddwyd o dan brydlesi ariannol o'r Fantolen, a dylid cydnabod swm fel dyledwr derbyniol ar y Fantolen sy'n adlewyrchu'r buddsoddiad net yn y brydles fel y'i diffinnir gan y safon gyfrifyddu briodol.

Dylid cyfrif elfen gyfalaf o unrhyw rent sy'n ddyledus o dan brydles ariannol fel derbyniad cyfalaf, gan leihau'r dyledwr a'r rhwymedigaeth gyfatebol gan y swm hwnnw. Dylid trin yr elfen ariannol fel incwm refeniw.

14. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Mae asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol yn cael eu dosbarthu'n Eiddo, Peiriannau, ac Offer.

Cydnabod

Caiff gwariant ar gaffael, creu, neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y manteision economaidd neu'r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur y gost yn ddibynadwy. Bydd gwariant sy'n cynnal ond nid yn ychwanegu at botensial yr ased (e.e. atgyweirio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul wrth iddo ddigwydd.

Mae lefel gwariant de-minimis o £10,000 wedi'i gosod ar gyfer Eiddo, Peiriannau, ac Offer. Ni fydd gwariant o dan y lefel hon yn ddarostyngedig i ofynion cyfrifyddu cyfalaf. Os caiff ased ei ailbrisio o dan £10,000, bydd unrhyw wariant a dibrisiant cysylltiedig yn cael ei ysgrifennu allan, a bydd yr ased yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Asedau Sefydlog.

Mesur

Mae asedau'n cael eu mesur i ddechrau ar gost, sy'n cynnwys y pris prynu, unrhyw gostau sy'n angenrheidiol i ddod â'r ased i'w leoliad a'i gyflwr arfaethedig, ac amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu ac adfer safle. Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthyca sy'n codi tra bo asedau'n cael eu hadeiladu. Ystyrir mai cost yr asedau sy'n cael eu caffael rywfodd heb eu prynu yw eu gwerth teg.

Mae asedau'n cael eu cario ar y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Tir ac Adeiladau: Swyddfeydd/Gweithdai – gwerth cyfredol (Gwerth Defnydd Presennol)
- Tir ac Adeiladau: Gorsafoedd Tân – gwerth cyfredol (Cost Amnewid Ddibrisiedig)
- Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- Yr holl asedau eraill – gwerth cyfredol, wedi'i bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV).

Lle nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth cyfredol oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewid ddibrisiedig (DRC) i amcangyfrif ei werth cyfredol. Mewn perthynas ag asedau heb fod yn eiddo sydd â bywydau defnyddiol byr neu werth isel, defnyddir cost hanesyddol ddibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol.

Caiff cynnydd mewn gwerth ei gredydu i'r gronfa ailbrisio wrth gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Mewn achosion eithriadol, gellid credydu enillion i'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau os ydynt yn gwrthdroi colled a godwyd ar wasanaeth yn flaenorol.

Lle dynodir gostyngiadau mewn gwerth, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- pan fo balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio wrth gefn, mae swm cario'r ased yn cael ei ostwng yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronodig)
- lle nad oes balans yn y gronfa ailbrisio wrth gefn neu os nad oes balans digonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei ostwng yn erbyn y llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Amhariad

Mae asedau'n cael eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ar gyfer arwyddion o amhariad. Os oes arwyddion a bod y gwahaniaethau'n sylweddol, amcangyfrifir y swm y gellir ei adennill o'r ased. Os yw hyn yn llai na'r swm cario, cydnabyddir colled amhariad am y diffyg.

Mae colledion amhariad yn cael eu cyfrif trwy ostwng swm cario'r ased yn erbyn unrhyw enillion ailbrisio yn y gronfa ailbrisio wrth gefn (hyd at swm yr enillion cronodig). Os nad oes gweddill yn y gronfa ailbrisio wrth gefn neu os nad oes gweddill digonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei ostwng yn erbyn y llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Os caiff colled amhariad ei gwrthdroi wedyn, caiff hynny ei gredydu i'r llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer y dibrisiant y byddid wedi codi amdano pe na bai'r golled wedi cael ei chydabod.

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Peiriannau, ac Offer trwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy'n systematig dros eu hoes ddefnyddiol. Mae oes economaidd ddefnyddiol asedau fel a ganlyn

Tir	Diddiwedd (dim dibrisiant)
Adeiladau	Oes ddefnyddiol yr eiddo (yn ôl amcangyfrif y prisiwr)
Adeiladau (a lesir)	Tymor y les
Cerbydau, Peiriannau ac Offer	5 - 20 mlynedd
Asedau Anniriaethol	5 mlynedd

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth, gyda chaffaeliadau'n cael eu dibrisio yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. Codir am ddibrisiant blwyddyn gyfan yn ystod y flwyddyn waredu. Mae adeiladau'n cael eu dibrisio trwy eu rhannu'n gydrannau, gan amcangyfrif oes ddefnyddiol holl gydrannau'r adeilad, a defnyddir cyfartaledd wedi'i bwysoli i gyfrifo'r tâl blyneddol. Y canrannau a ddefnyddir yw:

Adeiladau – gorsafoedd tân	2.05% - 2.22%
Adeiladau – swyddfeydd/gweithdai	1.98% - 2.15%

Codir am ddibrisiant o fewn y cyfrif incwm a gwariant. Mae'r swm hwn yn cael ei gredydu i Falans y Gronfa Gyffredinol ac mae'n cael effaith niwtral ar y cyfraniadau a wneir gan yr awdurdodau cyfansoddol. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud cyfraniad blyneddol o'i referniw tuag at ostwng ei ofyniad benthyca cyffredinol.

Caiff dibrisiant, ailbriso, a cholledion amhariad ac amorteiddiad eu disodli gan y cyfraniad hwn o Falans y Gronfa Gyffredinol (MRP), trwy drafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae enillion ailbriso hefyd yn cael eu dibrisio, gyda'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a dibrisiant cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r gronfa ailbriso wrth gefn i'r cyfrif addasu cyfalaf.

Gwaredu

Pan fydd yn debygol y bydd swm cario'r ased yn cael ei adennill yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu'n ased sy'n cael ei ddal i'w werthu. Caiff yr ased ei ailbriso'n union cyn ei ailddosbarthu a'i gario wedyn ar ba bynnag un sydd isaf, y swm hwn neu'r gwerth teg, llai costau gwerthu. Caiff gostyngiadau dilynol i'r gwerth teg llai costau gwerthu eu postio i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd swm unrhyw golledion cydnabyddedig blaenorol yn y gwaged neu'r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau y bydd

enillion o ran gwerth teg yn cael eu cydnabod Ni chodir am ddibrisiant ar asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu.

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddatgomiysu, caiff swm cario'r ased yn y Fantolen ei ddileu a'i nodi ar y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu'r golled wrth waredu. Mae derbyniadau o warediadau yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu'r golled wrth waredu. Bydd unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio wrth gefn yn cael eu trosglwyddo i'r cyfrif addasu cyfalaf.

Mae symiau o fwy na £10,000 a dderbynnir am waredu yn cael eu dosbarthu'n dderbyniadau cyfalaf. Bydd balans y derbyniadau'n aros yn y gronfa derbyniadau cyfalaf a dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir ei ddefnyddio, neu ei roi o'r neilltu i leihau angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthycu. Caiff derbyniadau eu priodoli i'r gronfa wrth gefn o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth gwarediadau a ddilëwyd yn dâl yn erbyn yr ardoll, gan y darperir yn llawn am gost asedau anghyfredol o dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Caiff symiau eu priodoli i'r cyfrif addasu cyfalaf o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

15. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU AMODOL AC ASEDAU WRTH GEFN

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd ar ddyddiad y Fantolen neu ynghynt:

- sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfredol i'r Awdurdod
- y mae'n debyg y bydd angen ei setlo drwy drosglwyddiad buddion economaidd neu botensial gwasanaeth, a
- lle gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy.

Os nad yw'n glir a yw digwyddiad wedi digwydd ar neu cyn dyddiad y Fantolen, caiff ei ystyried fel rhwymedigaeth gyfredol, os, ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yw'n fwy tebygol na pheidio bod rhwymedigaeth gyfredol yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Gall y rhwymedigaeth fod yn gyfreithiol neu'n adeiladol.

Caiff tâl am ddarpariaethau ei godi fel traul ar y llinell wasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fydd gan yr Awdurdod rwymedigaeth. Maent yn cael eu mesur ar yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar ddyddiad y Fantolen, gan ystyried risgiau ac ansicrwydd perthnasol. Bydd setliadau amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Os daw'n llai tebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd (neu os gwneir setliad is), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Os disgwylir i rywfaent neu'r cyfan o'r taliad sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael ei adennill gan barti arall (e.e. trwy hawliad yswiriant), dim ond os yw fwy neu lai'n sicr y ceir ad-daliad os bydd yr Awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth y bydd yn cael ei gydnabod fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol.

Rhwymedigaethau Dibynnol

Bydd rhwymedigaeth ddibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi'r Awdurdod o dan rwymedigaeth bosibl, a fydd yn cael ei gadarnhau dim ond os bydd digwyddiadau yn y dyfodol, nad oes unrhyw sicrwydd yn eu cylch ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod, yn digwydd neu ddim yn digwydd. Bydd rhwymedigaethau dibynnol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth fel arall yn cael ei gwneud ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu nid yw'n bosibl mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau dibynnol eu cydnabod yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau Dibynnol

Bydd ased dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi ased posibl i'r Awdurdod, a fydd yn cael ei gadarnhau dim ond os bydd digwyddiadau yn y dyfodol, nad oes unrhyw sicrwydd yn eu cylch ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod, yn digwydd neu ddim yn digwydd.

Ni chaiff asedau dibynnol eu cydnabod yn y Fantolen ond byddant yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

16. CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r Awdurdod yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisiâu'r dyfodol neu i dalu am hapddigwyddiadau. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy drosglwyddo symiau allan o falans y Gronfa Gyffredinol. Pan fydd gwariant yn cael ei ariannu o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno, gan effeithio ar y gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff y gronfa wedyn ei throsglwyddo'n ôl i falans y Gronfa Gyffredinol, fel nad oes tâl net yn cael ei godi yn erbyn yr ardoll am y gwariant.

Cynhelir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, ymddeol, a buddion cyflogeion. Nid yw'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy i'r Awdurdod ac maent yn cael eu hegluro yn y polisiâu perthnasol.

17. TAW

Mae TAW sy'n daladwy wedi'i gynnwys fel traul, ond dim ond i'r graddau nas gellir ei adennill gan CThEF. Mae TAW derbyniadwy wedi'i eithrio o'r incwm.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	21 Gorffennaf 2025	
Swyddog Arweiniol	Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid	
Pwnc	Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2024-2025	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Cyflwyno drafft o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Fe'i cyflwynwyd i Archwilio Cymru ar 31 Mai 2025.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i ddangos:
 - Bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
 - Bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano yn briodol
 - Bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwasttraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol
- 3 Cyflwynwyd fersiwn ddrafft i Archwilio Cymru erbyn 31 Mai 2025 i gael eu hadborth, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.
- 4 Mae'r Datganiad drafft ar gyfer eleni wedi'i atodi.

ARSYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

- 5 Cyflwynwyd drafft o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio ar 16 Mehefin 2025, ac ni wnaed unrhyw arsylwadau.

ARGYMHELLIAD

- 6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
 - i) **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft**

CEFNDIR

- 7 Ers 2010/11 bu'n ofynnol i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, baratoi Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol a gyhoeddir fel rhan o'r cyfrifon statudol.
- 8 Pwrpas y Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol yw asesu a dangos bod system gadarn o lywodraethiant corfforaethol ar draws y sefydliad.

GWYBODAETH

- 9 Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, ychydig iawn o ddylunio fydd ar y Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol eleni.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod ac yn dangos y trefniadau llywodraethiant sydd ar waith i alluogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol.
Cyllideb	Dim
Cyfreithiol	Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol wedi'i baratoi yn unol â'r safonau rhagnodedig.
Staffio	Dim
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Dim
Risgiau	Mae fframwaith llywodraethiant cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod.



TÂN FIRE

**ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING**

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL AR REOLAETH FEWNOL

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

Paratowyd y Datganiad hwn yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac â'r canllawiau a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), sef fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' 2016. Mae'r berthynas rhwng y saith egwyddor ar gyfer llywodraethiant da yn y sector cyhoeddus i'w gweld isod.

Achieving the Intended Outcomes While Acting in the Public Interest at all Times




Fig. 1 Sut mae egwyddorion llywodraethiant da yn berthnasol i'w gilydd.

Ffynhonnell: international Framework-[Good Governance in the Public Sector](#)

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol hwn yn esbonio sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi cydymffurfio â'r fframwaith a'i saith egwyddor graidd llywodraethiant da er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio yn unol â pholisïau a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau:

- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd diwastraff, effeithlon, effeithiol a theg er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, sydd er budd pobl leol.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae Aelodau a'r Uwch-swyddogion yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethiant materion yr Awdurdod, ynghyd â stiwardiaeth o'r adnoddau sydd ar gael iddo, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod, ynghyd â'i amrywiol Bwyllgorau, paneli a gweithgorau, yn rhoi ac yn cyflawni arweinyddiaeth strategol, sy'n galluogi Aelodau i benderfynu ar y materion sy'n effeithio ar y gwaith o gynnal yr Awdurdod, yn unol ag egwyddorion atebolrwydd democrataidd a bod yn agored.

Diben y System o Reolaeth Fewnol

Er mwyn cyflawni ei ystod eang o swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod fodloni amcanion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Golyga hyn fod y cyfyngiadau a'r cymhellion allanol a mewnol sydd arno yn wahanol i'r rhai a geir yn y sector preifat, ac mae pob un ohonynt yn effeithio ar ei drefniadau llywodraethiant.

Un darn allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried y tymor hwy wrth wneud ei benderfyniadau, ac i gydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.

Felly, mae gan randdeiliaid ddiddordeb mewn materion fel:

- a yw'r allbynnau a gynlluniwyd gan yr Awdurdod wedi'u cyflawni a'r canlyniadau wedi'u sicrhau, ac
- a yw hyn wedi'i wneud mewn modd effeithlon, diwastraff, effeithiol a theg.

Er mwyn sicrhau llywodraethiant da yn y sector cyhoeddus, mae angen i gyrff llywodraethu yn ogystal ag unigolion sy'n gweithio i sefydliadau'r sector cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd trwy'r adeg pan fyddant yn ceisio cyflawni eu hamcanion, sy'n awgrymu mai'r flaenoriaeth yw'r budd i gymdeithas, a dylai hynny arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r Datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr wedi'i bennu gan boblogaeth yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am yr Awdurdod, ei aelodau a'i gyfrifoldebau ar gael [yma](#).

Rhaid i'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y system lywodraethiant yn gadarn. Dyma rai o'r prif bethau sy'n cyfrannu at y broses hon:

Bod â strwythur Awdurdod a phwyllgorau sydd:

- yn monitro effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg
- yn adolygu'r trefniadau llywodraethiant yn rheolaidd
- yn ystyried ac yn adolygu strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol
- yn adolygu, yn craffu ar ac yn cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blyneddol.

Bod â Phanel Gweithredol sydd:

- yn rhoi arweiniad o ran llywodraethiant
- yn cyfrannu at gwblhau ac at adolygu'r Datganiad Llywodraethiant Blyneddol
- yn darparu arweiniad clir i'r Gwasanaeth a'r uwch reolwyr.

Y defnydd o wybodaeth o wahanol ffynonellau i lywio'r trefniadau llywodraethiant, er enghraifft:

- adroddiadau byrddau gwella a pherfformiad
- trefniadau rheoli risg
- adroddiadau gan reoleiddwyr allanol
- adroddiadau archwilio mewnol

Mae cyfarfodydd arferol yr Awdurdod yn cael eu mynychu o bell. Mae cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn cael eu gweddarlledu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Mae pob cyfarfod ar gael i'r cyhoedd arsylwi arno, os ydynt yn gwneud cais i wneud hynny.

Yn gynnar yn 2023, sefydlodd yr Awdurdod ddau weithgor er mwyn cefnogi datblygiad dwy flaenoriaeth sefydliadol allweddol:

- Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, sydd bellach wedi'i ddisodli gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cytundeb ar y Cyd, gyda chynrychiolaeth gan yr Undebau Llafur, ond heb unrhyw gynrychiolaeth gan yr Awdurdod Tân bellach.
- Gweithgor newydd y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu.

Yn ogystal, mae aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn eistedd ar y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel aelod sy'n hyrwyddwr, ac yn dilyn adroddiad adolygiad diwylliannol CREST mae'r Prif Swyddog Tân bellach yn cadeirio Bwrdd Diwylliannol i reoli'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol, sydd i fod i gael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Tân yn fuan.

Ym mis Ebrill 2025 cymeradwyodd yr Awdurdod yr ail o'i Gynlluniau Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ([CGRhRC 2025/26](#)) i gyflawni yn erbyn yr amcanion a amlinellwyd yn y [Cynllun Rheoli Risg Cymunedol \(CRhRC\) pum mlynedd 2024-2029](#)

Nod Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) yw nodi'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu pum egwyddor er mwyn cadw cymunedau'n ddiogel, ac mae'r CRhRC:

- Yn cydnabod gofynion deddfwriaeth allweddol
- Yn ystyried gwaith parhaus y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Yn nodi'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau
- Yn amlinellu gweithgarwch yr Awdurdod i fynd i'r afael â'r risgiau hyn
- Yn egluro pa gamau y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf i liniaru'r risgiau hynny
- Yn cyd-fynd â chyllideb refeniw yr Awdurdod, ei gynllun cyfalaf a'i gynllun ariannol tymor canolog.


Ffig 2. Pwyllgorau'r Awdurdod Tân ac Achub

Mae'r Awdurdod wedi dirprwyo cyfrifoldeb am weithrediad y Gwasanaeth Tân ac Achub (y Gwasanaeth) o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân.

Mae'r Prif Swyddog Tân yn cael ei gefnogi gan y Grŵp Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Swyddogion (y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy a'r Swyddogion Tân Cynorthwyol), ac sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth strategol.

Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, yn cynnwys y Prif Swyddogion, y Rheolwyr Ardal a'r Penaethiaid Adran. Mae'n cyfarfod fel Bwrdd Perfformiad er mwyn craffu ar berfformiad, ac fel Bwrdd Gwella er mwyn herio ac i oruchwylio rhaglenni, prosiectau a pholisïau ar lefel uchel. Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn rhoi arweinyddiaeth sefydliadol ac yn cyflwyno'r gwasanaethau.

Mae Strwythur Llywodraethiant a Sicrwydd y Gwasanaeth, sef y pwyllgorau a'r grwpiau, sy'n adrodd i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, wedi'i ymgorffori ar draws y sefydliad, gan ddangos bod y llywodraethiant yn gadarn o ran adrodd, monitro, craffu a gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad.



Ffig 3. Strwythur Arweinyddiaeth y Gwasanaeth

Cyfranwyr Allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethiant

Cyfansoddiad	Diben y Cyfansoddiad yw nodi sut mae'r Awdurdod Tân yn gweithio a'r ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau, a hynny mewn iaith glir
Yr Awdurdod Tân	Mae'n darparu'r arweinyddiaeth strategol, y rhyngwyneb gwleidyddol a'r her gorfforaethol mewn perthynas â darparu gwasanaethau tân ac achub ledled Gogledd Cymru, gan annog cyfranogiad y cyhoedd a chan gynnal ei faterion mewn modd agored a thryloyw. Mae'n cytuno ar y Cynllun Gwella a Llesiant, a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf
Y Panel Gweithredol	Mae'n monitro perfformiad y Gwasanaeth a gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar ei bolisiâu allweddol, gan gynnwys y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Panel yn adolygu'r gofrestr risg strategol.
Y Pwyllgor Archwilio	Mae'n darparu adolygiad annibynnol o'r fframweithiau llywodraethiant, rheoli risg a rheoli, yn ogystal â goruchwyllo'r adroddiadau ariannol, gan gynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r cyfrifon blyneddol.
Y Pwyllgor Safonau	Mae'n hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau'r Awdurdod ac yn goruchwyllo polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo hynny'n bosibl yn statudol, mae'n cael adroddiadau a chwynion am Aelodau ac yn cynnal neu oruchwyllo ymchwiliadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod.
Gweithgorau'r Awdurdod Tân	Mae'n ymgymryd â gwaith manwl sy'n gysylltiedig â phroses cynllunio a phennu cyllidebau'r Awdurdod. Mae'n cyflwyno ei sylwadau i'r Panel Gweithredol sydd yn ei dro'n gwneud argymhellion ar gyfer gwella/lleihau risg/amcanion llesiant i'r Awdurdod.
Grŵp Gweithredol	Mae'n gweithredu'r fframwaith polisi a chyllidebol a bennir gan yr Awdurdod Tân, ac yn rhoi cyngor i'r Awdurdod Tân o ran datblygu materion polisi a chyllidebol yn y dyfodol.
Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Mae'n gosod safonau llywodraethiant ar draws y Gwasanaeth ac yn arwain y gwaith o'u gweithredu. Mae'n cael y cynllun gwella blyneddol ac yn cyfrannu at yr hunanasesiad blyneddol.
Swyddog Adran 151	Mae'n sicrhau bod penderfyniadau'n gyfreithlon ac yn ddarbodus yn ariannol. Mae'n gweinyddu materion ariannol. Mae'n atebol am ddatblygu a chynnal fframwaith llywodraethiant, risg a rheoli yr Awdurdod Tân. Mae'n cyfrannu at reolaeth a llywodraethiant corfforaethol effeithiol yr Awdurdod Tân
Swyddog Monitro	Mae'n adrodd ar achosion o fynd yn groes i unrhyw ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith. Mae'n adrodd ar unrhyw gamweinyddu neu anghyfiawnder pan fo'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol wedi cynnal ymchwiliad. Mae'n cynnal a diweddarau'r Cyfansoddiad. Mae'n cynnal cofrestrau o fuddiannau aelodau yn ogystal â rhoddion a lletygarwch. Mae'n cynghori Aelodau ar sut i ddehongli'r Cod Ymddygiad.
Archwilio Mewnol	Mae'n darparu sicrwydd annibynnol a barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheoli yr Awdurdod Tân. Mae'n cyflawni rhaglen flynyddol o weithgarwch archwilio ar sail risg, gan gynnwys gweithgaredd gwrth-dwyll ac ymchwilio. Mae'n gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau mewn rheoli risg.

Egwyddorion CIPFA - Sicrwydd Llywodraethiant

Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.

Cyhoeddir [Cenhadaeth a Gwerthoedd](#) yr Awdurdod yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol ac ar [wefan yr Awdurdod](#).

Mae'r [Cyfansoddiad](#) yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau ac mae'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion wedi'i gynnwys ynddo.

Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cyfansoddiad.

Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys y [Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau](#) ac mae hwn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau.

Pan fo angen, ceisir cyngor cyfreithiol i lywio penderfyniadau.

Mae Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion ar waith, sy'n gofyn am ddatgan buddiannau busnes a chofnodi rhoddion a/neu letygarwch a gafwyd. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o [broffil personol pob Aelod](#).

Mae polisiâu allweddol ar waith i atal ac i leihau risg twyll. Mae'r polisiâu'n cynnwys: Polisi Chwythu'r Chwiban, [Polisi Gwrth-dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredigaeth](#) a [Rheoliadau Ariannol](#) a [Rheolau Gweithdrefn Contractau](#). Pan amheuir afreoleidd-dra, mae trefniadau ar waith i sicrhau bod ymchwiliad trwyadl yn cael ei gynnal.

Mae'r polisi recriwtio a'r prosesau cynefino a hyfforddiant yn cynnwys ymddygiadau personol â gwerthoedd craidd.

Ailachrediad o'n dyfarniadau [Aur](#) a [Phlatinwm](#) gan raglen lechyd Corfforaethol lechyd Cyhoeddus Cymru, cynllun gwobrwyo sy'n cael ei redeg gan Cymru Iach ar Waith, ar ran lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwobrau hyn yn caniatáu i gyflogwyr arddangos polisiâu a gweithredoedd a ddyluniwyd i feithrin gweithluoedd hapusach ac iachach.

Sefydlwyd Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn 2022, a datblygwyd a chyhoeddwyd [Strategaeth Cydraddoldeb](#), [Amrywiaeth a Chynhwysiant](#) [Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant](#) bum mlynedd.

Bydd y broses o weithredu'r strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei llywio gan gynllun gweithredu blynyddol manwl, a fydd yn cael ei reoli ar sail perfformiad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n cyfarfod bob chwarter.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i gynnal safonau ac mae'n cymryd yr holl bryderon o ddifrif. Ymchwilir i achosion disgyblu ac i unrhyw honiadau o gamwedd yn unol â Llawlyfr Disgyblu'r Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth bellach wedi recriwtio dau Swyddog Disgyblaeth a Chwynion Cyflogaeth, gan sicrhau bod honiadau'n cael eu hymchwilio'n brydlon ac yn broffesiynol.

Cyhoeddir [Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg](#) ar wefan yr Awdurdod, sy'n manylu ar gydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r Safonau.

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Gymraeg, mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff gyrraedd o leiaf Lefel 2 yn eu sgiliau Cymraeg a Lefel 3 ar ôl cael dyrchafiad.

Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, sy'n cynnwys amcanion Gwella a Llesiant, yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd ac â rhanddeiliaid. Bydd y Cynllun Pum Mlynedd a Chynllun Gweithredu 2024-25 yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, wedi iddynt gael eu cymeradwyo. Mae hyn yn bodloni ein rhwymedigaethau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae polisi a gweithdrefn Diogelu ar waith i gyfeirio unrhyw bobl agored i niwed y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â nhw at asiantaethau eraill.

Mae'r holl gynlluniau a pholisïau adrannol, lle bo'n berthnasol, yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Safecall, gwasanaeth proffesiynol, cyfrinachol ac annibynnol, yn rhoi modd i unrhyw aelod o staff adrodd am bryderon 24/7, 365 diwrnod o'r flwyddyn, ac mae'n cael cyhoedduswydd eang ar draws y Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynnig gwasanaeth adrodd ac ymgysylltu dienw mewn sefyllfaoedd sensitif.

Mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, ac wedi adeiladu ar y trefniadau sefydledig hynny sydd rhwng y Gwasanaeth a'r cyrff sy'n cynrychioli staff er mwyn ymgynghori ar amcanion ac ar benderfyniadau strategol ynghylch sut mae'n bwriadu cyflawni'r amcanion hynny. Cymeradwywyd yr [Adroddiad Blynyddol cyntaf ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol](#) i'w gyhoeddi a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ym mis Ebrill 2025.

Egwyddor B: Sicrhau ein bod yn agored a bod gennym ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.

Mae pob cyfarfod yn cael ei hysbysebu ac mae cyfarfodydd llawn yr Awdurdod yn cael eu gweddarlledu. Mae agendâu a phapurau i'w cael ar wefan yr Awdurdod.

Cyhoeddir gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod fel rhan o'r cynllun cyhoeddi. Darperir fersiynau Darllen/Dweud a fersiynau Cymraeg o ddogfennau.

Mae trefniadau ymgynghori cyhoeddus ar waith i wahodd barn rhanddeiliaid cyn i newidiadau allweddol gael eu datblygu a'u gweithredu. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar yr Amcanion Gwella o fewn Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25.

Mae'r [Sefydliad Ymgynghori wedi cydnabod yn y gorffennol bod gan yr Awdurdod 'Arfer Da'](#) ym mhob elfen o'r ymgynghoriad cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad parhaus o'r Ddarpariaeth Frys.

Mae'r ymrwymiad i fod yn agored hefyd yn cael ei ddangos trwy:

- gwblhau asesiadau effaith ar gyfer pob penderfyniad allweddol;
- y Weithdrefn Cwyno a Chanmoliaeth, sy'n cynnwys y gallu i uwchgyfeirio materion pwysig;
- y Strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd;
- ymgysylltu â Chyrff Cynrychioliadol y Cyflogeion, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, drwy'r Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Thrafod, rhywbeth a fydd yn cael ei gryfhau ymhellach trwy fabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn y flwyddyn ariannol newydd;
- ymrwymiad unwaith bob dwy flynedd i ymgysylltu â staff drwy arolwg 'Teulu Tân'.
- aelodaeth o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Fforwm Arweinwyr Cydraddoldeb Gogledd Cymru, Race Council Cymru a Fforwm Rhyng-Ffydd Gogledd Cymru.

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu gan gynnwys:

- cyfathrebu wedi'i gyfeirio gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gyda chyfrifon ar Facebook ac X. Mae hyn yn cynnwys cyfrifon corfforaethol yn ogystal â'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a gynhelir gan staff gorsafoedd tân i ehangu ymgysylltiad mewn cymunedau lleol;
- y gallu i gofrestru ar y wefan i gael diweddariadau e-bost ar faterion penodol;
- ymgysylltu â phobl ifanc drwy raglen Ffenics, Cadetiaid tân ac ymweliadau ysgol;
- gwaith diogelwch cymunedol gyda deiliaid tai a busnesau;
- grŵp Gweithredu Cadarnhaol, dan gadeiryddiaeth y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, i gynllunio a chyfarwyddo digwyddiadau ar gyfer yr holl waith recriwtio diffoddwyr tân;

- mynd i ddiwrnodau agored/digwyddiadau - er enghraifft digwyddiadau wedi'u trefnu, fel yr Eisteddfod, yn ogystal â digwyddiadau gorsafoedd tân a drefnir gan staff;
- cyfathrebu mewnol, gan gynnwys cylchlythyr electronig y Crynodeb Wythnosol i staff;
- ymgyrchoedd cyfathrebu allanol, dan arweiniad y Rheolwyr Diogelwch Cymunedol.
- trwy weithgareddau Atal a Recriwtio, mae'r Gwasanaeth yn ymgysylltu â phobl o bob oedran a chefnidiroedd amrywiol.

Mae trefniadau partneriaeth yn eu lle ar gyfer:

- Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd Cymru Gyfan, sy'n cael ei gadeirio gan y PST ar hyn o bryd;
- Fforymau Gwydnwch Lleol;
- y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol;
- y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
- y Bwrdd Strategol Lleihau Tanau Bwriadol;
- y Byrddau Diogelu Oedolion Lleol a'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol;
- cydweithio â Gwasanaethau Brys eraill.

Egwyddor C: Diffinio canlyniadau o ran buddion cynaliadwy economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd yn pennu cyfeiriad strategol yr Awdurdod ac yn manylu ar yr amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a'r amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae polisiâu'r Awdurdod yn adlewyrchu egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nod y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, sy'n cynnwys Cynllun Cyfalaf 10-mlynedd, a phroses y gyllideb flynyddol yw sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at flaenoriaethau'r Awdurdod.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i sicrhau bod yr holl staff yn astudio'r e-ddysgu gorfodol mewn perthynas â'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Fel cyflogwr [Hyderus o ran Anabledd](#), mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i recriwtio a chadw pobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi llofnodi [Cyfamod y Lluoedd Arfog](#), sy'n addewid gan y genedl i sicrhau bod y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan bolisi Lluoedd Arfog, Milwyr Wrth Gefn a Chyn-filwyr

Mae'r Gwasanaeth yn talu [mwy na'r cyflog byw gwirioneddol](#).

Mae polisi a gweithdrefn diogelu ar waith er mwyn cyfeirio unrhyw bobl agored i niwed y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â nhw at asiantaethau eraill.

Mae'r gwiriadau cofnodion troseddol priodol yn hanfodol i'r Gwasanaeth i ddeall a lliniaru risg, i amddiffyn cydweithwyr a'r cyhoedd. Mae Awdurdodau Tân ac Achub bellach wedi'u rhestru yn Atodlen 1 Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974 (Eithriadau) ac felly mae'r holl gyfloggeion bellach yn gymwys i gael gwiriad DBS lefel sylfaenol, o leiaf, ac mae'r rhain bellach yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd.

Mae gan y Gwasanaeth ddyletswydd statudol i sefydlu trefniadau parhad busnes. Adolygir cynlluniau ar draws y Gwasanaeth yn flynyddol a cheir cydweithio parhaus â'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i wella cynllunio ac i ystyried y risgiau presennol.

Mae pob penderfyniad allweddol yn cael asesiad effaith integredig, sy'n ystyried cydraddoldeb; diogelu data; iechyd, diogelwch a lles; y Gymraeg; cyllid; cynaliadwyedd a staffio; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a bydd hefyd yn ystyried y Ddyletswydd Iechyd statudol y disgwylir iddi gael ei chyflwyno.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol sy'n nodi targedau perfformiad manwl a chadarn i leihau ein hallyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol sylweddol eraill.

Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf.

Cynhelir ymgynghoriadau cyhoeddus fel rhan o broses gosod amcanion yr Awdurdod, sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol.

Cyhoeddir asesiad o berfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei amcanion blynyddol ym mis Hydref bob blwyddyn.

Mae Polisi Rheoli Risg Strategol yr Awdurdod (sydd ar hyn o bryd yn cael ei adolygu yn sgil archwiliad mewnol) yn nodi'r broses a ddefnyddir i nodi ac i reoli amlygiad i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni'r amcanion neu'r gweithgareddau. Caiff ei adolygu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Cyflwynir adroddiadau perfformiad ac ariannol i'r Awdurdod a'i bwyllgorau, ar ôl i'r Grŵp Gweithredol gael cyfle i graffu arnynt.

Mae Adroddiad Monitro Perfformiad chwarterol yn cael ei baratoi er mwyn i'r Panel Gweithredol a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth graffu ar ddata sy'n ymwneud â'r galw i ddigwyddiadau, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac argaeledd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad, gan sicrhau bod materion yn cael eu nodi ac y cytunir ar ymyriadau priodol.

Mae'r prosesau cynllunio'r gyllideb, sy'n cynnwys arweinwyr y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod, yn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu dyrannu i gefnogi amcanion sy'n seiliedig ar risg a'u bod, ar yr un pryd, yn cydbwysu'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal ystadau, cerbydau ac offer. Mae Pwyllgor y Gyllideb, Monitro a Chaffael yn darparu'r llywodraethiant a'r oruchwyliaeth strategol angenrheidiol.

Mae'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn darparu goruchwyliaeth strategol a llywodraethiant ar y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol a'r Dysgu Gweithredol ar y Cyd sydd ar gael ac yn gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Rhoddir adroddiadau am ddigwyddiadau lechyd a Diogelwch, a chânt eu hadolygu a'u monitro er mwyn sicrhau bod diogelwch yr holl staff cystal ag y gall fod a bod y risgiau'n cael eu lleihau. Mae'r Pwyllgor lechyd, Diogelwch a Lles yn llywodraethu ac yn rhoi goruchwyliaeth strategol.

Mae'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan yn nodi saith ymrwymiad lefel uchel mewn perthynas ag atal ac ymateb i danau mewn anheddau. Rhoddir adroddiadau blynyddol arni fel rhan o Asesiad Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod.

Egwyddor E: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan o hynny.

Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn amlinellu rolau aelodau etholedig a swyddogion dynodedig i alluogi cyd-ddealltwriaeth o rolau ac amcanion.

Mae'r swyddi dynodedig yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Swyddog Monitro.

Mae cydweithio rhanbarthol a chenedlaethol yn bodoli, er enghraifft, mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn cymryd rhan yn y Fforwm Hyfforddiant ar Ymchwilio i Danau ar gyfer Cymru Gyfan, ac mae hynny'n cefnogi dysgu ar y cyd ac yn annog cysondeb yn y dulliau a ddefnyddir ar draws Cymru.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol Cymru Gyfan 2025-2028, a dyma sylfaen yr ymrwymiad i ddysgu gydol oes a chymhwysedd yn y gweithle.

Mae'r prosesau cynefino i Aelodau a chyflogeion yn cynnwys cyflwyniad i werthoedd craidd y sefydliad, y safonau ymddygiad, a gofynion y rôl.

Mae anghenion datblygu cyflogeion yn cael eu nodi trwy gyfarfodydd un-i-un.

Darperir cymorth iechyd a lles i gynnal lles corfforol a meddyliol. Mae ystod o fesurau wedi'u sefydlu i gyflawni hyn, gan gynnwys polisïau a chanllawiau AD, dull gweithio hyblyg, y gwasanaeth iechyd galwedigaethol a'r rhaglen cymorth i gyflogeion. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn darparu goruchwyliaeth strategol a llywodraethiant.

Mae gan y Gwasanaeth adran hyfforddi bwrpasol, gyda fframweithiau cymhwysedd ar gyfer staff gweithredol. Rhoddir hyfforddiant gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n cynnwys modiwlau e-ddysgu gorfodol ar gyfer rhai pynciau e.e. Diogelu Data. Mae'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn darparu goruchwyliaeth strategol a llywodraethiant.

Mae'r staff yn aelodau o gyrff proffesiynol perthnasol ac yn ymgymryd â'r datblygiad proffesiynol parhaus gofynnol.

Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod ei brosesau dyrchafu yn cyd-fynd â fframwaith arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC).

Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol fel sy'n ofynnol gan [Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972](#).

Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau y cydymffurfir â pholisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau sefydledig.

Mae'r Polisi Rheoli Risg Strategol (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd yn dilyn archwiliad mewnol) yn manylu ar y broses ar gyfer nodi a rheoli risgiau. Mae'r Adran Cynllunio Corfforaethol yn cadw cofrestr risgiau corfforaethol ac mae'n cael ei monitro drwy gydol y flwyddyn.

Mae adroddiadau i'r Awdurdod a'i bwyllgorau yn cynnwys asesiad effaith integredig i lywio ac i gefnogi penderfyniadau.

Mae trefniadau parhad busnes ar waith i sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol bob amser, a chânt eu hadolygu bob blwyddyn.

Mae Pwyllgor Archwilio'r Awdurdod yn sicrhau bod argymhellion gwella gan yr Archwilydd Allanol, Archwilio Cymru, a'r Archwilydd Mewnol yn cael eu cytuno a'u monitro.

Rhoddir [adroddiadau chwarterol](#) i Aelodau ac uwch reolwyr am welliant a pherfformiad y Gwasanaeth yn erbyn dangosyddion perfformiad a cherig milltir allweddol.

Mae gan yr Awdurdod drefniadau i gadw [cofrestrau o fuddiannau personol a busnes yr Aelodau a chofrestr o roddion a lletygarwch](#). Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o broffil personol pob Aelod.

Ceir polisiâu ar gyfer Gwrth-dwyll a Llygredd a Chwythu'r Chwiban sy'n cadarnhau ymrwymiad yr Awdurdod i weithredu mewn modd teg a thryloyw.

Mae polisiâu a threfniadau ar waith i reoli'r modd y caiff data ei drin. Y rhain yw'r Polisi Diogelu Data, y Polisi Rhyddid Gwybodaeth, y Polisi Cadw Data a'r Polisi Diogelwch Cyfathrebu a Gwybodaeth. Mae'r polisiâu hyn yn cael eu hategu gan hyfforddiant, ac mae'r modiwl e-ddysgu ar ddiogelu data yn orfodol i'r holl staff.

Datblygwyd a chytunwyd ar weithdrefnau rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid.

Mae rheolaeth ariannol yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau a newid trawsnewidiol yn ogystal â sicrhau stiwardiaeth dda. Cyflwynir [diweddariad ariannol](#) yn holl gyfarfodydd yr Awdurdod, gydag [adroddiadau](#) ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.

Mae'r trefniadau Rheoli Trysorlys yn dilyn arferion proffesiynol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan yr Aelodau.

Mae [Datganiadau Cyfrifon yr Awdurdod](#) a'i berfformiad yn erbyn meysydd risg a blaenoriaeth allweddol yn destun craffu drwy archwiliad allanol.

Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol.

Aeth Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ati ar y cyd i benodi Crest Advisory i hwyluso adolygiad diwylliannol annibynnol. Daw'r adolygiad ar ôl i Lywodraeth Cymru dderbyn cynnig gan y ddau Wasanaeth Tân ac Achub ym Mawrth 2024 i gael gwell dealltwriaeth o gynnydd y gwelliannau i ddiwylliant sefydliadol yn y ddau Wasanaeth.

Roedd y cynnig yn sail i ddatganiad ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pryd, Hannah Blythyn, y gellir darllen ei datganiad yn llawn [yma](#).

Cynhaliodd Crest Advisory yr adolygiad a chyhoeddi [adroddiad](#) ar eu canfyddiadau ym mis Ionawr 2025, a oedd yn cynnwys 32 o argymhellion.

Mae Cadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân wedi addo:

- Troi argymhellion yr adroddiad yn gamau gweithredu a fydd yn arwain gwelliannau i ddiwylliant y gweithle.
- Ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid ar bob lefel i feithrin ymwybyddiaeth a chyfranogiad, er mwyn sicrhau bod newid yn ystyrlon ac yn adlewyrchu anghenion pawb.
- Cynnal tryloywder ac atebolrwydd trwy ddiweddariadau rheolaidd a chyfleoedd adborth gyda staff a rhanddeiliaid ehangach.

Mae'r Awdurdod, gyda chymorth y Swyddog Monitro, yn goruchwyllo ac yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethiant a'r amgylchedd rheoli mewnol.

Mae agendâu a chofnodion [cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub](#) ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngwrdd, ynghyd â gweddarllediadau o gyfarfodydd yr Awdurdod.

Mae adroddiadau'r Awdurdod yn dilyn fformat strwythuredig sy'n sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno mewn modd clir a chyson i gynorthwyo penderfyniadau.

Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mewn perthynas â'i rwymedigaeth i gyhoeddi gwybodaeth benodol fel rhan o'i [gynllun cyhoeddi](#) ac ymateb i geisiadau am wybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd.

Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn dogfennu amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod ac mae'n cael ei adolygu gan Archwilio Cymru mewn cysylltiad â dyfarnu Tystysgrif Cydymffurfio.

Cynhyrchir y Datganiad Cyfrifon Blynnyddol mewn fformat hawdd ei ddefnyddio. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth glir am incwm a gwariant ac yn dangos y stiwardiaeth ar arian cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn. Cyflwynir y cyfrifon i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau statudol.

Mae'r [Datganiad Polisi Tân Blynnyddol](#) yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Telir cyflogau'r Aelodau yn unol â phenderfyniadau'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol ac adroddir amdanynt ar y rhyngwrdd.

Mae Aelodau ac uwch swyddogion yn datgan buddiannau perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r Awdurdod i nodi ac i roi gwybod am unrhyw drafodion parti perthynol.

Paratoir adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru bob mis Ionawr a mis Gorffennaf yn manylu ar faterion disgyblaeth, cwynion cyflogaeth a chwynion allanol. Yn benodol, mae'n tynnu sylw at achosion o gamymddwyn honedig/camymddwyn difrifol lle mae ymddygiad honedig unigolion yn cwestiynu diwylliant a gwerthoedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blyneddol yn darparu tryloywder ar y trefniadau llywodraethiant a'r camau gweithredu i wella llywodraethiant ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol a benodir drwy statud ac mae'n rhoi barn am y Datganiad Cyfrifon, a gyhoeddir ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion ac, yn ôl yr angen, yn cymryd camau cywiro.

Mae'r trefniadau Archwilio Mewnol yn cynnwys dull sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n rhoi sicrwydd bod risgiau allweddol yn cael eu rheoli. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion ac, yn ôl yr angen, yn cymryd camau cywiro.

Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau mewnol, penodwyd Archwilydd Mewnol newydd gan y Gwasanaeth ym mis Mehefin 2023, a hynny er mwyn cryfhau'r trefniadau sicrwydd.

Mae prosesau ar waith i sicrhau bod argymhellion gan gyrff arolygu a rheoleiddio yn cael eu gweithredu.

Sut aeth yr Awdurdod i'r afael â Chamau Gwella Llywodraethiant 2024/25

Maes Gwella o fewn Llywodraethiant	Cam Gweithredu a Gynlluniwyd	Fforwm	Cyfrifoldeb	Cynnydd erbyn mis Mawrth 2025
Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethiant	Gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i gynllunio proses flynyddol, sy'n cynnwys Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth a'r adran Archwilio Mewnol yn benodol , i asesu i ba raddau y mae egwyddorion y Fframwaith Llywodraethiant Da yn cael eu gweithredu.	Bwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Nodwyd arweinwyr o blith Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth ar gyfer pob un o saith Egwyddor CIPFA ac maent wedi adolygu'r trefniadau presennol yn erbyn pob un o'r is-egwyddorion.
Trefniadau Llywodraethiant	Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Drefniadau Llywodraethiant.	Awdurdod Tân ac Achub	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Cyflwynwyd yr Adroddiad i'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA) llawn ar 21 Hydref 2024, lle nodwyd yr adroddiad a'i argymhellion. Fel ymateb uniongyrchol i un o'r argymhellion, yn ymwneud â hyfforddiant, cyflwynwyd hyfforddiant risg strategol Lefel 4 i aelodau Panel Gweithredol yr ATA ar 17 Mawrth 2025 a darparwyd yr adnoddau hyfforddi i holl aelodau'r ATA.
Effeithiolrwydd Gweithgareddau Atal	Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Atal.	Awdurdod Tân ac Achub	Pennaeth Atal a Diogelu	Nid yw'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Ni chynhaliwyd yr Archwiliad fel yr oedd wedi'i drefnu'n wreiddiol ond mae bellach wedi'i gwblhau a disgwylir yr adroddiad gan Archwilio Cymru. Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei ddwyn ymlaen ar gyfer gweithredu ar unrhyw argymhellion yn ystod 2025/26.

Rheoli Risg Strategol	Gweithredu argymhellion yr adolygiad Archwilio Mewnol o Reolaethau Craidd Rheoli Risg	Bwrdd Gwella Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, roedd Adroddiad Aseiniad Adolygiad Rheoli Risg 2024/25 gan archwilwyr mewnol ym mis Mawrth 2025 yn rhoi sicrwydd cyfyngedig a chytunwyd ar bum argymhellid a byddant yn cael eu symud ymlaen i'w cwblhau yn 2025/26.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Y rhwymedigaeth statudol i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni.	Bwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Adroddodd Aseiad Perfformiad Blynnyddol 2023/24 ar amcanion lles a gwella 2023/24 yn ogystal â myfyrio ar y cyflawniadau yn erbyn Cynllun Corfforaethol tair blynedd yr ATA. Adroddwyd ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion llesiant, a gynhwyswyd yn y Cynllun Gwella Rheoli Risg Cymunedol cyntaf 2024-25, i Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, ac mae bellach wedi'i ymgorffori fel adroddiad chwarterol.
Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023	Ymgorffori egwyddorion a gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.	Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Mae'r Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid yn mynd i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi gyda chynrychiolwyr yr Undeb i drafod gosod amcanion yn y cam ffurfiannol a darperir diweddariadau a gwahoddir adborth gan gynrychiolwyr yr Undeb, gan arwain at gytundeb ar yr Adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol blynnyddol a gadarnhawyd gan yr ATA ar 28 Ebrill 2025.

Camau Gwella Llywodraethiant yr Awdurdod 2025/26

Maes Gwella o fewn Llywodraethiant	Cam Gweithredu a Gynlluniwyd	Fforwm	Cyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn
Effeithiolrwydd Gweithgareddau Atal	Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o waith Atal.	Awdurdod Tân ac Achub	Pennaeth Atal a Diogelu	Mawrth 2026
Pennu'r Amcanion Llesiant	Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o osod amcanion llesiant.			Rhagfyr 2025
Rheoli Risg Strategol	Gweithredu argymhellion yr adolygiad Archwilio Mewnol o Reolaethau Craidd Rheoli Risg.	Bwrdd Gwella Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Mawrth 2026
Diwylliant Sefydliadol	Ymateb i argymhellion adolygiad diwylliannol annibynnol CREST trwy ymgysylltu â staff a'r Awdurdod Tân ac Achub, gan arwain at gyhoeddi cynllun gwella.	Awdurdod Tân ac Achub	Prif Swyddog Tân	Gorffennaf 2026
Effeithiolrwydd Ymateb i Danau mewn Anheddau Domestig	Ymateb i argymhellion yn arolygiad Prif Gyngorydd ac Arolygydd Tân Cymru o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau domestig.	Awdurdod Tân ac Achub	Pennaeth Ymateb	Mawrth 2026
Canllawiau gwirio cyflenwyr a Gwrth-dwyll	Ymateb i argymhellion gan yr Archwilydd Mewnol mewn perthynas â rheolaethau prosesu ariannol allweddol 2024/25 gan gynnwys gweithredu Gwirio Cyflenwyr, Canllawiau Gwrth-Dwyll ac Adolygiadau Rheolaidd o Fandadau Banc.	Y Pwyllgor Cyllid a Chaffael	Pennaeth Cyllid	Mawrth 2026

Cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol

Cynlluniwyd Cod Rheoli Ariannol CIPFA (Cod RhA CIPFA) i gefnogi arfer da ym maes rheoli ariannol ac i gynorthwyo'r Awdurdod i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Mae Cod RhA CIPFA felly'n gosod safonau rheoli ariannol i'r Awdurdod.

Mae'r Cod yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a gefnogir gan safonau a datganiadau ymarfer penodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ddarparu'r sylfaen gref i:

- Reoli cyllid yr Awdurdod yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
- Rheoli gwydnwch ariannol er mwyn ateb y galw a ragwelir am wasanaethau
- Rheoli cyllid pan fo newidiadau annisgwyl yn eu hamgylchiadau ariannol.

Rhaid i bob Awdurdod ddangos bod gofynion y Cod yn cael eu bodloni.

Fel Swyddog Adran 151 mae gen i'r Cyfrifoldeb Statudol (gyda chefnogaeth Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod) dros sicrhau cydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA.

Rwyf wedi cynnal asesiad llawn o gydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a gallaf gadarnhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod yn y mwyafrif o feysydd yn fy marn i.

Llofnod:

(Trysorydd) 2025

Barn Llywodraethiant a Chasgliad

Mae'r Awdurdod yn cydnabod mai llywodraethiant da sy'n gosod y sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid, ac sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r systemau llywodraethiant a'r monitro a oedd ar waith ar gyfer 2023/24 a'r camau a gymerwyd i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod trefniadau llywodraethiant priodol ar waith ac mae'n parhau i fod yn ymroddedig i wella'r rhain drwy weithredu'r cynllun gweithredu ar gyfer 2024/25.

Llofnod

(Cadeirydd)

Llofnod

(Prif Swyddog Tân)



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
North Wales Fire and Rescue Authority

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	21 Gorffennaf 2025	
Swyddog Arweiniol	Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid	
Pwnc	Adroddiad Monitro Perfformiad, Ebrill 2024 – Mawrth 2025	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi data cymharol sy'n ymwneud ag 'Ein 5 Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau am weithgarwch, a gweithgarwch arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion.
- 2 Tynnu sylw at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran galw sydd ar gynnydd, yn gostwng neu sy'n newydd.
- 3 Bod yn sail i ddatblygu gweithgarwch newydd neu ddiwygiedig i liniaru unrhyw alw neu risg sydd ar gynnydd neu'n ymddangos o'r newydd

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 4 Mae nifer y digwyddiadau tân wedi cynyddu, gyda'r Gwasanaeth wedi mynd i 1,801 o danau - cynnydd o 8.5% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.
- 5 Mae nifer yr achosion o Alwadau Tân Diangen yn parhau i gynyddu, gyda'r Gwasanaeth wedi mynd i 3,263 o ddigwyddiadau - cynnydd o 12.4% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.
- 6 Arhosodd nifer y Tanau Damweiniol mewn Anheddau yr aethpwyd atynt yr un fath â'r llynedd, gyda'r Gwasanaeth wedi mynd i 338 o ddigwyddiadau.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 7 Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Panel Gweithredol ar 16 Mehefin 2025, lle nododd aelodau'r adroddiad. Cododd yr aelodau nifer o gwestiynau ar amrywiaeth o'r meysydd perfformiad gan gynnwys nifer yr Archwiliadau Diogel ac lach a gwblhawyd, argaeledd ar alwad a gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc, gan dynnu sylw at effaith gadarnhaol gweithgareddau atal y Gwasanaeth.

ARGYMHELLIAD

- 8 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
 - i) **Nodi cynnwys yr adroddiad Monitro Perfformiad.**

GWYBODAETH

- 9 Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ffigurau'n seiliedig ar bedwar chwarter blwyddyn ariannol 2024/25 wedi'u cyfuno, gyda chymariaethau'n cael eu gwneud â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2023/24).

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'n helpu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad yn erbyn yr amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25.
Cyllideb	Dim goblygiadau cyllidebol uniongyrchol. Fodd bynnag, mae adrodd yn caniatáu i'r ATA ystyried unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch annisgwyl o ran digwyddiadau.
Cyfreithiol	Yn cynorthwyo'r ATA, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i ddangos sut mae'n cymryd pob cam rhesymol, wrth arfer ei swyddogaethau, i gyflawni ei amcanion llesiant.
Staffio	Dim goblygiadau staffio. Fodd bynnag, bydd cysoni'r adrodd â Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yr ATA yn fwy effeithlon.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau.
Risgiau	Dim goblygiadau risg



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro: Ebrill 2024 – Mawrth 2025



Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel

POBL

ATAL

DIOGELU

YMATEB

AMGYLCHEDD

Cynnwys

Ein Hegwyddor Pobl	3
1 Absenoldeb Salwch	3
1.1 Pob Absenoldeb Salwch	4
1.2 Salwch Tymor Byr.....	5
1.3 Salwch Hirdymor.....	7
Ein Hegwyddor Atal.....	10
2 Pob Digwyddiad	10
3 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliant	11
4 Tanau Damweiniol mewn Cartrefi.....	13
5 Prif achos tanau damweiniol mewn cartrefi	14
6 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Cartrefi 15	
7 Synwryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi	16
8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (SSCs).....	18
9 Archwiliadau Diogel ac Iach	20
Ein Hegwyddor Diogelu	22
10 Galwadau Diangen	22
11 Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol	23
12 Galwadau System Larwm Awtomatig Ysbyty	24
13 CEF Berwyn.....	24
Ein Hegwyddor Ymateb	27
14 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad	27
15 Argaeledd 18 Pwmp Wedi'i Gynllunio	28
16 Dechnolegau Datblygol	0
Ein Hegwyddor Amgylchedd	1
17 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau	1
18 Tanau gwyllt	2
19 Llifogydd	3
Geirfa	4

Ein Hegwyddor Pobl



1 Absenoldeb Salwch

Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i wneud y mwyaf o'u presenoldeb yn y gwaith ond gan gydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch.


Mae cyfanswm yr amser a gollwyd oherwydd pob absenoldeb salwch ar gyfer GTAGC wedi gostwng i 4.51% yn ystod chwarter pedwar, sy'n ostyngiad yn yr amser a gollwyd ar draws y tri chwarter blaenorol yn 2024/25, ac mae hefyd yn ostyngiad o'i gymharu â chwarter pedwar yn ystod y flwyddyn flaenorol, a gofnododd 4.80% o amser a gollwyd oherwydd salwch.

Yn ôl Adroddiad Absenoldeb Salwch y Gwasanaeth Tân ac Achub Cenedlaethol rhwng Ebrill 2024 a Rhagfyr 2024, cyfradd gyfartalog absenoldeb gweithwyr yw 9.13 diwrnod gwaith/shifft fesul gweithiwr. (Casglodd yr adroddiad ddata gan 36 o Wasanaethau Tân ac Achub a gymerodd ran yn Lloegr.) Y gyfradd gyfartalog o absenoldeb tymor byr o fewn GTAGC yw 6.61 diwrnod fesul gweithiwr, sy'n nifer is o ddyddiau a gollwyd o'i gymharu â'r wybodaeth a gasglwyd yn yr adroddiad.

Roedd 949 o unigolion yn cael eu cyflogi gan GTAGC ar 31/03/2025, sy'n gynnydd o 43 o bobl o'r un cyfnod yn 2023/24; fodd bynnag, mae cyfanswm yr amser a gollwyd oherwydd pob absenoldeb salwch wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol, gan ddangos gwelliant cyffredinol yn lefelau absenoldeb salwch.

Sylwer, drwy gydol yr adroddiad, na fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma yn gyfanswm y chwarteri gan y bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri. Gall fod amrywiadau hefyd yn y niferoedd a adroddir o chwarter i chwarter o ganlyniad i newidiadau mewn data gweithwyr.

1.1 Pob Absenoldeb Salwch



Yn gyffredinol, yn chwarter dau y gwelwyd y nifer uchaf o ddyddiau a gollwyd oherwydd pob absenoldeb salwch tra bod chwarter tri â'r nifer uchaf o achosion o absenoldeb salwch. Er gwaethaf y rhifau brig a welwyd yn ystod chwarter dau a thri, mae nifer cyffredinol y dyddiau a'r achosion o absenoldeb wedi gostwng erbyn chwarter pedwar.

Roedd nifer y dyddiau absenoldeb tymor byr yn uchel yn ystod chwarter un ond yna fe ostyngodd a pharhau ar gyfradd debyg drwy gydol gweddill y flwyddyn. Er bod nifer yr achosion o absenoldeb tymor byr wedi gostwng yn chwarter dau ac yna wedi codi eto yn chwarter tri, mae hyn wedi gostwng eto yn chwarter pedwar. Mae nifer y dyddiau ac achosion o absenoldeb tymor byr yn chwarter pedwar ychydig yn is o'i gymharu â chwarter pedwar yn y flwyddyn flaenorol.

Mae **tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.


Mae **hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.

Efallai y bydd rhai systemau dyletswydd yn gweld canran uwch o amser wedi ei golli er bod llai o achosion o absenoldeb yn cael eu cofnodi. Y rheswm am hyn yw bod llai o staff o fewn y system ddyletswydd honno. Mae'r cyfrifiad o ganran absenoldeb salwch yn gymesur â nifer y staff o fewn y system ddyletswydd honno.

1.2 Salwch Tymor Byr

Ar gyfartaledd dros flwyddyn lawn 2024/25, mae absenoldeb tymor byr wedi cyfrif am 1.12% o'r holl amser a gollwyd.

Mae Salwch Tymor Byr wedi gostwng yn ystod chwarter 4, gan gyfateb i 1.02% o'r amser a gollwyd yn y cyfnod hwn, o'i gymharu â 1.47% o'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn ystod chwarter un. Mae hyn hefyd yn ostyngiad o'r chwarter blaenorol yn 2024/25 a hefyd yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.



(*Amser cyflawn - yn cynnwys yr holl staff gweithredol, megis swyddogion mewn gorsafoedd, swyddogion gwledig a swyddogion dyletswydd hyblyg)

(Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi ei rannu fel bod aelodau gweithredol y Tîm Arweinyddol yn cael eu cynnwys o fewn ffigurau amser cyflawn, ac mae Penaethiaid Adrannau wedi'u cynnwys o fewn ffigurau'r Adrannau Corfforaethol.)

Gwelodd chwarter un a chwarter dau gynnydd mewn absenoldeb tymor byr oherwydd nifer uchel o achosion o annwyd/ffliw a salwch stumog/norofeirws.

Adroddwyd bod 12% o'r achosion o salwch tymor byr yn ystod chwarter un o ganlyniad i salwch a dolur rhydd, o'i gymharu â 6% yn yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Adroddodd Llywodraeth y DU ar 28 Ebrill 2024 fod cynnydd anhymhorol mewn achosion norofeirws yn ystod wythnosau 16 ac 17 2024, i'w briodoli'n bennaf i gynnydd yn y nifer o achosion yr adroddwyd amdanynt ymhlith oedolion 65 oed a hŷn. Roedd hyn yn cyd-fynd â chofnodi mwy o achosion mewn lleoliadau ieuchyd a gofal cymdeithasol. Lledaenodd salwch norofeirws yn gyflym trwy gymunedau ac effeithiodd hefyd ar GTAGC; roedd absenoldeb gweithwyr fel arfer yn para pump i saith diwrnod oherwydd bod angen 48 awr yn glir o chwydu cyn dychwelyd i'r gwaith er mwyn lleihau lledaeniad y feirws.

Y 3 Prif Reswm dros Absenoldeb Salwch Tymor Byr (Achosion)

	Rheswm Dros Absenoldeb	Achosion	Amser a gollwyd %
1	Annwyd, Ffliw	44	21.08%
2	Cyhyrysgerberbydol – Anhwylderau Cefn ac Asgwrn Cefn	13	11.91%
3	Cyhyrysgerberbydol - Aelodau Isaf y Corff	6	11.45%

Mae 'amser a gollwyd %' yn seiliedig ar y dyddiau a gollwyd yn hytrach na niferoedd yr achosion


Er mai'r rhesymau uchod yw'r tri phrif reswm yn ystod chwarter pedwar ac ar draws pob math o ddyletswydd, mae'r rhesymau dros absenoldeb tymor byr wedi aros yn debyg drwy gydol y flwyddyn.

Roedd y nifer uchaf o achosion absenoldeb tymor byr o ganlyniad i resymau annwyd/ffliw, ac absenoldebau cyhyrysgerberbydol oedd ail a thrydydd uchaf yn ystod chwarter pedwar. Rhesymau annwyd/ffliw fu'r rheswm pennaf dros absenoldeb tymor byr drwy gydol y flwyddyn 2024/25.

1.3 Salwch Hirdymor

Ar gyfartaledd dros flwyddyn lawn 2024/25, mae absenoldeb hirdymor wedi cyfrif am 4.23% o'r amser a gollwyd.

Er bod chwarter dau a chwarter tri wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion a dyddiau salwch hirdymor, mae hyn wedi gostwng ar draws pob math o ddyletswydd yn chwarter pedwar. Roedd salwch hirdymor yn cyfrif am 3.49% o'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn chwarter pedwar, o'i gymharu â 5.31% yn chwarter dau, 4.67% yn chwarter tri a 3.61% yn chwarter pedwar yn y flwyddyn flaenorol.



Y 3 Phrif Reswm dros Absenoldeb Salwch Hirdymor (Achosion)

	Rheswm Dros Absenoldeb	Achosion	Amser a Gollwyd %
1	Cyhyrysgerbydol - Aelodau Isaf y Corff	15	23.96%
2	Iechyd Meddwl - Straen	7	13.49%
3	Methu Archwiliad Meddygol / Prawf Ffitrwydd	7	12.52%

Mae 'amser a gollwyd %' yn seiliedig ar y dyddiau a gollwyd yn hytrach na niferoedd yr achosion

Mae'r tri rheswm uchaf am absenoldeb salwch hirdymor wedi aros yr un fath drwy gydol y flwyddyn. Yn Adroddiad Absenoldeb Salwch y Gwasanaeth Tân ac Achub Cenedlaethol rhwng Ebrill 2024 a Rhagfyr 2024, roedd rhesymau cyhyrysgerbydol yn cyfrif am 30% o'r holl resymau absenoldeb salwch, gyda 22% o bob absenoldeb salwch yn digwydd yn sgil iechyd meddwl.

Yn gyffredinol, o fewn GTAGC, roedd absenoldeb oherwydd rhesymau cyhyrysgerbydol, sy'n cynnwys anhwylderau'r aelodau isaf, yr aelodau uchaf, y cefn a'r asgwrn cefn, y gwddf, yr asennau a'r glun yn cyfrif am 33% o'r holl absenoldeb. Mae hyn ychydig yn uwch na'r canfyddiadau yn Adroddiad Absenoldeb Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân; fodd bynnag, dylid nodi bod yr adroddiad ar gael ar gyfer y cyfnod Ebrill i Ragfyr 2024 yn unig ar adeg paratoi'r data hwn, tra bod data GTAGC am flwyddyn lawn.

Cyhyrysgerbydol – Mae absenoldeb oherwydd aelodau isaf y corff yn parhau i fod yn gyfrifol am y nifer uchaf o achosion ac amser a gollwyd. Mae absenoldebau oherwydd y rheswm hwn yn cynnwys gweithwyr sy'n aros am ymyriad llawfeddygol neu'n gwella ar ôl llawdriniaeth ond oherwydd natur gorfforol rolau gweithredol, rhaid i weithwyr fod wedi gwella'n llwyr cyn dychwelyd i'r gwaith er mwyn osgoi gwaethygu'r anaf neu achosi anaf arall.

Mae absenoldeb iechyd meddwl yn cael ei gofnodi ar wahân i nodi'r gwahanol resymau am les meddyliol gwael - straen, gorbryder, rhesymau eraill (sy'n cynnwys ffobia, profedigaeth, trawma/Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD), dibyniaeth) ac iselder yw'r rhesymau iechyd meddwl mwyaf cyffredin a gofnodwyd o fewn y Gwasanaeth. Yn gyffredinol, yn ystod 2024/25, roedd pob absenoldeb iechyd meddwl yn cyfrif am 19% o'r holl achosion absenoldeb; mae hyn yn is na'r hyn a adroddwyd yn adroddiad Salwch y Gwasanaeth Tân ac Achub Cenedlaethol rhwng Ebrill 2024 a Rhagfyr 2025.

Absenoldeb hirdymor oherwydd iechyd meddwl - mae straen yn parhau i fod ymhlith y tri rheswm uchaf am absenoldeb salwch hirdymor trwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, bu gostyngiad yn nifer yr achosion o absenoldeb oherwydd straen gyda'r amser a gollwyd yn gostwng i 13.49% yn chwarter pedwar o'i gymharu ag 17.4% yn ystod chwarter tri 2024/25.

Er bod y Gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn achosion iechyd meddwl, mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu ar draws y wlad, fel yr adroddwyd gan fwletin ystadegau misol y GIG. Mae nifer yr oedolion sy'n cael cymorth iechyd meddwl wedi cynyddu o 1.1 miliwn ym mis Gorffennaf 2023 i 1.4 miliwn ym mis Gorffennaf 2024.

Mae cefnogaeth yn cael ei darparu i weithwyr sy'n absennol oherwydd rhesymau iechyd meddwl a chyhyrysgerbydol, gan gynnwys mynediad at iechyd galwedigaethol, rhaglen cymorth i weithwyr a thriniaeth ffisiotherapi. Mae gweithwyr hefyd yn cael eu cyfeirio at asiantaethau allanol, fel Elusen y Diffoddwyr Tân, Parabl a gwasanaethau penodol eraill.

Cymhariaeth Cymru Gyfan

Nifer y dyddiau shifft cyfartalog a gollwyd fesul person ar gyfer pob absenoldeb (tymor byr a hirdymor) ar sail Cymru gyfan oedd 11.62 diwrnod shifft fesul person ar gyfer staff amser cyflawn mewn lifrai, 17.72 diwrnod shifft fesul person ar gyfer staff yr Ystafell Reoli, ac 14.76 diwrnod shifft fesul person ar gyfer staff anweithredol.

O'i gymharu â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru, Gogledd Cymru oedd â'r nifer isaf o ddyddiau shifft a gollwyd fesul person oherwydd absenoldebau hirdymor a thymor byr ar draws y tri math o ddyletswydd o blith y tri gwasanaeth.

Nifer y sifftiau/dyddiau a gollwyd oherwydd salwch	SWFRS	MAWWFRS	NWFRS
Staff Gweithredol Llawn Amser	13.54	9.54	9.02
Staff yr Ystafell Reoli	23.70	16.66	12.19
Staff Corfforaethol	21.24	10.40	10.09

Sylwer, mae data Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, gyda'r fersiwn diweddaraf wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2024, ac mae'n adrodd ar ddata absenoldeb ar gyfer staff amser cyflawn, staff yr ystafell reoli a staff corfforaethol yn unig ac nid yw'n cynnwys data am staff ar alwad.

Ein Hegwyddor Atal




2 Pob Digwyddiad

Pob Digwyddiad - aethpwyd at **6,485** o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn ariannol, sy'n cynnydd o 9.0% o 5,948. Mae hyn hefyd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 5,737. Mae ystadegau dros dro yn dangos mai GTAGC oedd yr unig Wasanaeth yng Nghymru i weld cynnydd yn nifer yr achosion yr aethpwyd atynt yn ystod y flwyddyn ariannol, gyda GTACGC yn dangos gostyngiad o 4.8% (o 13,104 i 12,480), a GTADC yn dangos gostyngiad o 0.7% (o 19,004 i 18,867).

Tanau – **1,801**, cynnydd o 8.5%. Mae hyn yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 1,852.


Galwadau Diangen – **3,263**, cynnydd o 12.4%. Mae hyn hefyd yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 2,699.

Galwadau Gwasanaeth Arbennig - **1,421**, cynnydd o 2.7%. Mae hyn hefyd yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 1,186.



3 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliant

Aethpwyd at **1,801** o danau: cynnydd o 8.5% o 1,660.



Prif Danau - 891


- **Damweiniol: 736**, 82.6%.
- **Bwriadol: 155**, 17.4%.

Tanau Eilaidd - 819

- **Damweiniol: 436**, 53.2%.
- **Bwriadol: 383**, 46.8%.

Tanau Simdde

- **91**, 5.1% o'r holl danau yr aethpwyd atynt - mae hyn yn gynnydd o 4.6% o 87.



Camau gweithredu hyd yma:

Cyfanswm yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd ar ddiwedd chwarter pedwar oedd **20,021**. Rydym wedi cyrraedd y targed ar gyfer y flwyddyn.

Cyflawnwyd hyn trwy barhau i weithio gyda'n hasiantaethau atgyfeirio er mwyn sicrhau ein bod yn cael atgyfeiriadau o'r ansawdd uchaf, ac er mwyn sicrhau bod y rhai sydd mewn mwy o berygl o dân yn cael eu cyfeirio at GTAGC.

Cyflwynwyd sesiynau diogelwch tân pwrpasol ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol, Cynnal Gofalwyr, y grŵp Cymorth ar gyfer y Digartref, a Myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor.


Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ymwelwyd â **133** o ysgolion gyda **11,563** o ryngweithiadau â phlant a phobl ifanc a gafodd gyngor diogelwch tân. Cynhaliwyd **22** o gyrsiau Ffenics gyda **203** o bobl ifanc.

Roedd yr ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu yn cynnwys, "Doeth i Danau Gwyllt", Diwrnod Dim Ysmygu, Dydd Mawrth Crempog a Diwrnod Rhyngwladol Cadeiriau Olwyn. Cynhaliwyd gwaith yn ymwneud â thargedu a lleihau tanau gwyllt o ganlyniad i gynnydd yn nifer y tanau gwyllt – roedd hyn yn cynnwys cyfweiliadau teledu a radio.

Mae'r Adran Atal wedi cefnogi'r cymunedau yng Ngogledd Cymru drwy ddarparu dŵr yfed i feddianwyr bregus a nodwyd ar ôl iddynt golli eu cyflenwad dŵr yng Nghonwy. Darparodd y staff Atal gyngor a gwybodaeth diogelwch tân yn ystod yr ymgysylltiad hwn.

4 Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

Aethpwyd at **338** o danau damweiniol mewn cartrefi. Dyma'r un nifer â'r flwyddyn ariannol flaenorol ac mae'n llai na'r cyfartaledd tair blynedd o 361.



5 Prif achos tanau damweiniol mewn cartrefi

Roedd nifer o brif achosion tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y flwyddyn ariannol. Gallai'r rhai sydd wedi dangos cynnydd y chwarter hwn fod yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, a'r costau sydd ynghlwm â gwresogi cartrefi erbyn hyn.


Er mai'r mwyaf cyffredin oedd 'Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell gwres (neu dân)', roedd hyn yn dal i ddangos gostyngiad o 9.2% o 76 i **69**.

Roedd y prif achosion eraill lle gwelwyd gostyngiad yn cynnwys:

- 'Coginio – coginio arall' a oedd yn dangos gostyngiad o 3.2% o 62 i **60**.
- 'Nam ar offer neu beiriant', a oedd hefyd yn dangos gostyngiad o 24.4% o 41 i **31**.

Er gwaethaf hyn, gwelodd ychydig o brif achosion gynnydd yn ystod y chwarter hwn. Roeddent yn cynnwys:


- 'Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan', a gynyddodd 34.5% o 29 i **39**.
- 'Arall', a gynyddodd 22.7% o 22 i **27**.
- 'Defnydd esgeulus o offer neu beiriant (ffynhonnell gwres)', a gynyddodd 86.7% o 15 i **28**.



6 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

Cafodd cyfanswm o **68** o bobl anafiadau mewn **53** o Danau Damweiniol mewn Cartrefi lle cofnodwyd anaf o unrhyw fath. Cofnodwyd **dwy** farwolaeth yn ystod y cyfnod.

Mae nifer y bobl a anafwyd (gan gynnwys marwolaethau) o ganlyniad i Danau Damweiniol mewn Cartrefi wedi gostwng 2.9%. Mae nifer y Tanau Damweiniol mewn Cartrefi lle cofnodwyd anaf hefyd wedi gostwng 5.4%.



O'r **68** a anafwyd, roedd **52** (76.5%) wedi eu 'Llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau gwenwynig; mygu', cafodd **pump** fân anafiadau llosgi, cafodd **tri** anafiadau llosgi difrifol, cafodd **dau** 'Anawsterau anadlu (heblaw 'Llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau gwenwynig; mygu)', cafodd **dau** 'Gyfuniad o losgiadau a'u llethu gan nwy/mwg', ac roedd **un arall** wedi dioddef 'Sioc/Sioc Anaffylactig'. Cofnodwyd math o anaf yr **un** sy'n weddill fel 'Arall'.


7 Synwryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

Synwryddion: roedd synwryddion mwg/gwres yn bresennol mewn **295** (87.3%) o danau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt.

Roedd larymau'n gweithredu ac wedi rhoi rhybudd mewn **196** (58.0%) o Danau Damweiniol mewn Cartrefi.

Nid oedd larymau wedi eu gosod mewn **44** o'r Tanau Damweiniol mewn Cartrefi yr aethpwyd atynt.

O'r 338 o Danau Damweiniol mewn Cartrefi yr aethpwyd atynt, roedd **295** wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, a **43** heb eu cyfyngu.



Camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i ddioddef tân yn eu cartrefi

Mae gorsafoedd Amser Cyflawn a Chriw Dydd yn ymgymryd ag awr o weithgarwch atal gan ddefnyddio data Exeter (data a rennir gan y GIG) i dargedu aelwydydd lle mae trigolion sy'n 65+ oed yn byw. Mae dotiau lliw gwahanol ar fap yn dynodi 65+, 75+ ac 80+ oed. Mae hyn yn galluogi criwiau i roi Archwiliadau Diogel ac lach i grwpiau oedran a allai fod mewn mwy o berygl o dân.

Mae gweithgareddau mewn mannau problemus yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau sy'n arwain at wahanol lefelau o ymateb ar ôl digwyddiad.

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd yn parhau i weithio gyda'r adran Cyfathrebu Corfforaethol i fynd ati yn rhagweithiol i hyrwyddo diogelwch tân, diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch dŵr ar draws pob plattfform cyfryngau.

Ymweliadau Addysgol ag Ysgolion yn Ch4

Ffigurau ysgolion diweddaraf Ch4 – Ionawr 1, 2025 – 31 Mawrth 2025

- Ysgolion Cynradd yr Ymwelwyd â Nhw = **17**
- Disgyblion = **1,113**
- Criw Craidd = **2**
- Disgyblion = **400**
- Ymweliad â Gorsaf = **1**
- Disgyblion = **20**
- Cylch Chwarae = **1**
- Disgyblion = **15**

Ffenics

- Pum cwrs gyda **57** yn astudio.

Ymyriadau Cyneuwyr Tân

- Cyflwynwyd **18** sesiwn Firesafe gan Pentre Peryglon
- Yn ystod y flwyddyn ariannol, derbyniwyd cyfanswm o **chwe** atgyfeiriad Cynllun Ymwybyddiaeth Tân i Blant (FACE).


Pentre Peryglon

Bu **6,414** o bobl ifanc yn bresennol yn sgil y senario Diogelwch yn y Cartref hyd at ddiwedd chwarter pedwar.

8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (SSCs)

Aethpwyd at gyfanswm o **1,421** o alwadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys Gwrthdrawiadau ar y Ffordd). Mae hynny'n gynydd o 2.7%.

Arhosodd nifer y Gwrthdrawiadau ar y Ffordd yr aethpwyd atynt yr un fath â'r llynedd, sef **255**.



Heblaw am Wrthdrawiadau ar y Ffordd, roedd y categorïau a welodd y **cynydd** mwyaf o ran ein presenoldeb yn cynnwys:

- **531** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' - cynnydd o 10.4% o 481.
- **92** digwyddiad 'Achub/rhyddhau personau arall' – cynnydd o 27.8% o 72.
- **78** digwyddiad 'Rhyddhau o Liff' - cynnydd o 62.5% o 48.

Er gwaethaf hyn, gwelodd categorïau eraill **ostyngiad** yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt. Roeddent yn cynnwys:

- **76** digwyddiad 'Llifogydd' - gostyngiad o 35.6% o 118.
- **77** digwyddiad 'Sicrhau mynediad/allanfa' - gostyngiad o 29.4% o 109.

Camau gweithredu hyd yma:

Ymgyrch Ugain

Yn ystod chwarter pedwar, rhoddwyd y cyflwyniad diogelwch ar ochr y ffordd i **169** o bobl a gafodd eu dal yn gyrru dros y terfyn cyflymder 20mya. Y ffigwr ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yw **3,183**.

Stori Olivia

Cyflwynwyd Stori Olivia drwy gydol chwarter pedwar i **800** o bobl 16 i 25 oed.

Mae Stori Olivia yn parhau i gael ei chyflwyno gan Reolwyr Gwylfa Diogelwch Tân ac mae'n parhau i fod yn gyfredol ac yn hynod effeithiol. Mae'r sesiynau yn aml yn cael eu cefnogi gan Heddlu Gogledd Cymru.

9 Archwiliadau Diogel ac Iach


Cwblhawyd cyfanswm o **20,021** o Archwiliadau Diogel ac Iach, ac o'r rhain:

- Roedd **5,089** (25.4%) yn archwiliadau blaenoriaeth Uchel, gyda **2,689** (52.8% o'r archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd) yn dod o asiantaeth bartner.
- Roedd **4,310** (21.5%) yn archwiliadau blaenoriaeth Ganolig, gyda **426** (9.9% o'r archwiliadau blaenoriaeth ganolig a gwblhawyd) yn dod o asiantaeth bartner.
- Roedd **10,622** (53.1%) yn archwiliadau blaenoriaeth Isel, gyda **606** (5.7% o'r archwiliadau blaenoriaeth isel a gwblhawyd) yn dod o asiantaeth bartner.

Cafodd cyfanswm o **3,721** o Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan Asiantaeth - mae hyn yn gyfystyr ag 18.6% o'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd.

Er y bu cynnydd o **0.8%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, bu gostyngiad o **15.6%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel a gwblhawyd. Dyma'r nifer isaf ond un o archwiliadau blaenoriaeth uchel a gynhaliwyd yn ystod y pum mlynedd ariannol ddiwethaf. Cafwyd gostyngiad o **4.0%** hefyd yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth isel a gwblhawyd.

Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd yn werthfawr, ac mae cyfanswm yr archwiliadau blaenoriaeth ganolig wedi cynyddu **55.8%** o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Dyma'r nifer uchaf o archwiliadau canolig a gofnodwyd yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.



Camau gweithredu hyd yma:

Mae aelodau'r tîm Atal wedi bod yn mynd i orsafoedd Dyletswydd Amser Cyflawn a Chriw Dydd, ac wedi dechrau ymuno â'r gweithgareddau atal dyddiol a ddyrannwyd i'r Gwylfeydd ar ddyletswydd. Bydd hyn yn helpu i rannu gwybodaeth ac yn helpu i hyrwyddo arfer gorau, ac mae wedi galluogi gwaith sicrwydd ansawdd i ddigwydd ar safon Archwiliadau Diogel ac lach, yn ogystal ag ar yr wybodaeth a roddwyd.

Parhaodd staff atal gyda sesiynau ymgysylltu â phartneriaid allanol er mwyn helpu i sicrhau mai dim ond yr atgyfeiriadau sydd wedi'u targedu fwyaf yr ydym yn eu cael ar gyfer Archwiliadau Diogel ac lach. Mae enghreifftiau o'r rhai yr ymgysylltwyd â hwy yn ystod chwarter pedwar yn cynnwys y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn Ysbyty Alltwen, Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, Therapyddion Galwedigaethol, cymdeithasau tai, a phrosiect "Hel Dal Cryfhau" Heddlu Gogledd Cymru.

Mae datblygiad ein staff atal yn parhau yn unol ag Amcanion yr Adran gydag o leiaf 2 sesiwn 30 munud bob mis gan ddefnyddio darparwyr allanol a mewnol. Mae'r hyfforddiant wedi cynnwys hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a Dad-ddwysáu.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r gyfradd gwblhau ar gyfer Archwiliadau Diogel ac lach blaenoriaeth uchel wedi gostwng oherwydd cyfuniad o ffactorau gweithredol a strategol. Mae'r Tîm Atal wedi bod yn gweithredu gyda llai o gapasiti yn dilyn absenoldeb un Gweithiwr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref a dyrchafiad dros dro un arall i gyflenwi rôl Rheolwr Partneriaethau. Mae hyn wedi rhoi straen ychwanegol ar yr adnoddau sy'n weddill.

Ar yr un pryd, rydym wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau partner i wella ansawdd atgyfeiriadau risg uchel. Gwnaed y penderfyniad strategol hwn er mwyn sicrhau bod atgyfeiriadau yn addas ac yn ddigonol, gan osgoi cael lluo o atgyfeiriadau o ansawdd isel a allai beryglu ein gallu i flaenoriaethu'n effeithiol. Trwy ganolbwyntio ar ansawdd yn hytrach na nifer, ein nod yw sicrhau bod ymweliadau'n cael eu cynnal o fewn y cyfnod targed o 28 diwrnod a'u bod yn ystyrlon o ran lleihau risg.

Yn ogystal, rydym yn cydweithio â chriwiau gweithredol i adolygu a gwella sut mae Archwiliadau Diogel ac lach yn cael eu sgorio. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i sicrhau cysondeb a chywirdeb wrth asesu risg. Rydym hefyd wedi trosglwyddo i ddefnyddio data Exeter, sy'n ein galluogi i dargedu unigolion 65 oed a hŷn yn well, sef y rhai mwyaf agored i risg tân.

Mae'r mesurau hyn yn rhan o ymdrech ehangach i wella effeithiolrwydd ac effaith ein gwaith atal, ac rydym yn rhagweld y bydd gwelliannau mewn perfformiad wrth i staffio sefydlogi ac wrth i fentrau hyfforddi gael effaith.

Camau Gweithredu Pellach:

O Ch1 2025/26, bydd gwylfeydd yn cynyddu i ddwy awr o weithgaredd atal fesul pwmp fesul shift dydd.


Ein Hegwyddor Diogelu




10 Galwadau Diangen

Aethpwyd at gyfanswm o **3,263** o alwadau diangen, sy'n gynnydd o 12.4%. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys galwadau diangen yr aethpwyd atynt ar draws pob math o eiddo.

Cofnodwyd cynnydd ar draws pob categori o alwadau diangen, gyda chynnydd o 12.4% mewn Larwm Tân oherwydd cyfarpar (1,712 i **1,924**), cynnydd o 60.0% mewn Galwadau Diangen Maleisus (40 i **64**), a chynnydd o 10.7% mewn Galwadau Diangen Diffuant (1,152 i **1,275**). Mae'r holl gategorïau galwadau diangen bellach ar eu lefelau uchaf o'i gymharu â'r pum mlynedd diwethaf.




Mae Tîm Rheoli'r Ystafell Reoli yn parhau i ddarparu canllawiau i Wylfeydd yr Ystafell Reoli ar yr arferion y mae angen cadw atynt wrth gofnodi categori galwadau diangen.



11 Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol


Derbyniwyd **1,908** o alwadau System Larwm Awtomatig Masnachol yn ystod y cyfnod adrodd, sef y nifer uchaf o alwadau a gafwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, aethpwyd at 0.8% ohonynt yn unig **(15)**.

Er gwaethaf y ffaith inni fynd at **15** galwad System Larwm Awtomatig Masnachol, cadarnhawyd bod rhai o'r rhain oherwydd bod y cyfeiriadau wedi'u heithrio o'r weithdrefn gan eu bod yn safle risg, ac wedi'u cytuno ymlaen llaw fel rhai wedi'u heithrio. Roedd yna hefyd un a oedd yn cael ei ystyried yn ddomestig; fodd bynnag, ar y ffordd daeth yn amlwg ei fod yn fasnachol.




12 Galwadau System Larwm Awtomatig Ysbyty

Cafwyd **360** o alwadau System Larwm Awtomatig Ysbyty, sy'n ostyngiad o 27.4% a'r nifer isaf o alwadau System Larwm Awtomatig ysbyty a gafwyd yn y pum mlynedd diwethaf. Aethpwyd at **131** ohonynt, gostyngiad o 37.0% o 208.



13 CEF Berwyn

Cafodd **63** o brif danau eu cynnau yn fwriadol yn CEF Berwyn, ac aethpwyd at **47** o'r rhain - mae hyn yn 74.1% yn fwy na llynedd.



Camau gweithredu hyd yma:

Ysbytai

Mae galwadau System Larwm Awtomatig Ysbyty wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda chydweithrediad rhwng GTAGC a BIPBC mewn perthynas â rheoli galwadau diangen yn flaenllaw o ran y gostyngiad hwnnw. Bydd GTAGC yn ymdrechu i fynd i unrhyw ddigwyddiad tân i gynorthwyo gyda chydymffurfiaeth â'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) a gostwng nifer y digwyddiadau pellach. Mae'r ddau barti yn ceisio adborth yn dilyn digwyddiadau o bwys ar arferion gwaith a sicrhau ymlyniad wrth weithdrefnau. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal, ac mae proses archwilio wedi'i rhaglennu yn cael ei thrafod.

CEF Berwyn

Mae nifer y digwyddiadau yn CEF Berwyn yn parhau i gynyddu. Rydym yn ymgysylltu ag Arolygydd y Goron ar gyfer Carchardai EF yn rheolaidd a byddwn yn ei gynorthwyo yn ei raglen arolygu yn CEF Berwyn ddiwedd mis Mai 2025. Mae'r digwyddiadau yn seiliedig ar fêps yn bennaf, trwy ddatgymalu'r dyfeisiau hynny a defnyddio'r batri fel ffynhonnell tanio. Yn ystod cyfarfodydd rydym yn ceisio mynd i'r afael â'r sefyllfa hon a'r ffynhonnell tanio drwy edrych ar ddewisiadau amgen gydag Arolygydd y Goron a'i gynorthwyo yn ei ymchwil i'r broblem hon. Mae nifer y digwyddiadau yn annhebygol o ostwng yn y tymor byr oherwydd y broblem hon.

Cynnydd mewn Digwyddiadau System Larwm Awtomatig

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) wedi sylwi ar gynnydd parhaus mewn digwyddiadau System Larwm Awtomatig dros y blynnyddoedd diwethaf, gyda chynnydd o 56.8% yng nghyfanswm y galwadau System Larwm Awtomatig ar draws pob math o eiddo rhwng 2020/21 a 2024/25. Mae cyfran sylweddol o'r galwadau hyn yn tarddu o anheddau, yn enwedig y rhai sy'n cael eu monitro gan ddarparwyr llinell gymorth fel Galw Gofal a Delta Wellbeing.

Mae'r duedd hon yn achosi heriau gweithredol a strategol. Er bod llawer o'r galwadau hyn yn cael eu hystyried yn alwadau diangen yn y pen draw, yn aml wedi'u sbarduno gan fwg coginio, diffygion mewn offer, neu ffactorau amgylcheddol fel stêm, mae dal angen ymateb argyfwng llawn arnynt, gan ddargyfeirio adnoddau o argyfyngau gwirioneddol a gwaith atal.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae GTAGC yn cymryd dull amlweddol.

- Dadansoddiad wedi'i Yrru gan Ddata: Rydym yn monitro tueddiadau o ran galwadau o Systemau Larwm Awtomatig yn fanwl, gyda phwyslais ar ffynonellau amllder uchel fel anheddau sy'n cael eu monitro gan linell gymorth. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiadau manwl yn ôl darparwr a rhanbarth (e.e., Sir y Fflint a Wrecsam).

- Ymgysylltu mewn Partneriaeth: Rydym yn parhau i weithio ar y cyd â darparwyr llinell gymorth er mwyn sicrhau mai dim ond galwadau hanfodol sy'n cael eu trosglwyddo i GTAGC. Mae Delta Wellbeing, er enghraifft, yn cynnal cyfradd drosglwyddo isel er gwaethaf sylfaen cleientiaid sy'n cynyddu, gan ddangos protocolau brysbennu effeithiol.
- Gwaith Atal wedi'i Dargedu: Trwy nodi achosion cyffredin—megis mwg coginio ac offer diffygiol—rydym yn datblygu negeseuon atal ac ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer trigolion agored i niwed.
- Effeithlonrwydd Gweithredol: Rydym yn adolygu ein protocolau ymateb ac yn archwilio cyfleoedd i leihau nifer yr achosion o anfon criwiau allan yn ddiangen heb gyfaddawdu diogelwch, yn enwedig mewn senarios risg isel.
- Addysg a Hyfforddiant Cyhoeddus: Rydym yn gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch sbardunau galwadau diangen cyffredin ac yn gweithio gyda thrigolion a darparwyr gofal i leihau nifer yr achosion o larymau'n seinio y gellir eu hosgoi.

Ein Hegwyddor Ymateb



14 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad

Mae'r tabl isod yn dangos faint o bympiau oedd ar gael ar gyfartaledd ar gyfer pob Gorsaf System Dyletswydd Ar Alwad rhwng 06:00 a 18:00. Mae'r argaeledd wedi'i rannu fesul mis, ac yn dangos argaeledd yn ystod dyddiau'r wythnos (Llun-Gwener) ac ar benwythnosau/gŵyl y banc.


Mae'r tabl yn cynrychioli'r holl wylfeydd system dyletswydd ar alwad nad ydynt wedi'u lleoli mewn gorsafoedd criw amser cyflawn neu griw dydd.

Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad ar Gyfartaledd 06:00-18:00												
Diwrnod/Mis	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth
Llun-Gwener	5	4	4	5	4	4	4	5	6	7	6	6
Penwythnos (gan gynnwys Gŵyl y Banc)	12	13	11	11	11	10	11	12	14	15	14	12
Cyfartaledd Cyffredinol	7	7	6	6	7	6	6	7	9	9	8	8

D.S. Mae'r argaeledd wedi'i dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

15 Argaeledd 18 Pwmp Wedi'i Gynllunio

■ Argaeledd Pwmp 100% wedi'i gyraedd ■ Argaeledd Pwmp 100% heb ei gyraedd



Nifer y Diwrnodau Pan Gyflawnwyd yr Argaeledd Wedi'i Gynllunio	
100% o Bymptau Ar Gael: Wedi'i Fodloni	
Llun-Gwener	63
Penwythnos/Gŵyl y Banc	27
100% o Bymptau Ar Gael: Heb ei Fodloni	
Amh.	0


16 Dechnolegau Datblygol

Wrth i dechnoleg ddatblygu ac i'n dibyniaeth fel cymdeithas arni gynyddu, mae wedi dod yn amlwg bod risgiau newydd a chymhleth yn wynebu ein Gwasanaeth Tân. Gall technolegau sy'n dod i'r amlwg fod ar amrywiaeth o ffurfiau, gan gynnwys pethau fel:

- Cerbydau Trydan
- Ffermydd Gwynt
- Dyfeisiau sy'n cynnwys Batris Ïon Lithiwm

Gan nad yw llawer o'r technolegau hyn wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, cynhelir chwiliadau geiriau allweddol ar logiau digwyddiadau er mwyn dod o hyd i'r digwyddiadau perthnasol. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Swyddfa Gartref a'r Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU i integreiddio'r technolegau hyn i'w system cofnodi digwyddiadau newydd, y Llwyfan Data Tân ac Achub (FaRDaP), gyda'r bwriad o gasglu'r data hwn o ddechrau Ch2 yn 2025/26. Bydd dal angen defnyddio chwiliadau geiriau allweddol i dynnu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gofnodwyd cyn y cyfnod hwn.

Mae'r tabl isod yn crynhoi digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn ymwneud â thechnolegau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r data hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Ionawr 2025 a Mawrth 2025 ac mae'n cynnwys pob categori o ddigwyddiad.




D.S. Mewn rhai achosion, mae'r achos wedi'i ragdybio yn hytrach na'i gadarnhau oherwydd natur y digwyddiad.

Ein Hegwyddor Amgylchedd




17 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau

Cofnodwyd **302** o danau glaswelltir, coetir a chnydau, cynnydd o 33.6% o 226. Er gwaethaf y cynnydd, mae cyfanswm y digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn dal i fod 15.4% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 357.




18 Tanau gwyllt

Aethpwyd at **43** o danau gwyllt, cynnydd o 207.1%, a 53.6% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 28. O ganlyniad, cynyddodd yr amser a dreuliwyd yn monitro digwyddiadau tanau gwyllt i dros 654 awr, o'i gymharu ag ychydig dros 479 awr yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.



19 Llifogydd

Aethpwyd at **76** o ddigwyddiadau llifogydd, gostyngiad o 35.6% o 118, a thri digwyddiad yn llai na'r cyfartaledd 3 blynedd o 79.



Rhoddwyd cyngor mewn **34** digwyddiad, ac fe aethpwyd at **15** o ddigwyddiadau er mwyn gwneud y lleoliad yn ddiogel.

Geirfa

Tanau	Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simdde.
Prif Danau	Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simdde, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafannau a threlars, storfeydd awyr agored, peiriannau ac offer, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr-agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati. Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categorioeddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, ac felly hefyd danau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân i'w trin.
Tanau Eilaidd	Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simdde nac yn brif danau. Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd i'r digwyddiad. Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn tu allan, goleuadau traffig, ac ati.
Tanau Simdde	Tanau mewn adeiladau a ddefnyddir gan bobl yw'r rhain, a'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simdde, hyd yn oed os yw gwres neu ddifrod mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simdde ei hun. Nid yw tanau simdde yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd i'r digwyddiad.
Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig	Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys: a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati; b) Trychinebau mawr; c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati; d) Trefniadau blaenorol i fynd i ddigwyddiadau, a all gynnwys rhoi cyngor a chynnal archwiliadau.
Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol)	Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad yn credu bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli. Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'n cael ei ystyried fel un y mae'r gwasanaeth wedi mynd iddo ac nid oes angen rhoi gwybod amdano.

Galwadau Diangen – Maleisus	Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad sydd ddim yn bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol ac amheus.
Galwadau Diangen – Diffuant	Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at dân go iawn neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig.
Galwadau Diangen – Systemau Larwm Awtomatig	Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm wedi'i seinio'n ddamweiniol neu pan fo larwm yn seinio a pherson yn galw'r GTA yn ôl yr arfer fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farnu', er enghraifft galwad gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad.
Adeilad – Cartrefi	Eiddo sy'n fan preswyllo, h.y. sy'n aelwyd lle mae pobl yn byw, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswyllo nad ydynt yn barhaol.
Adeilad – Dibreswyl	Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrioedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai.
Adeilad – Preswyl Arall	Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr.
Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall)	Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, cerbyd awyr, cwch.
Awyr agored	Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post.
Tanau gwyllt	Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr.
Salwch Tymor Byr (STS)	Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai.
Salwch Hirdymor (LTS)	Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy.

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	21 Gorffennaf 2025	
Swyddog Arweiniol	Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid	
Pwnc	Adroddiad Arolygiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad yn dilyn cyhoeddi adroddiad arolygiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru (CFRAIW), 'Arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau domestig'

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Cwblhaodd y Prif Gynghorydd ac Arolygydd arolygiadau thematig o effeithiolrwydd gweithredol Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn 2024, gan gyhoeddi adroddiadau'r arolygiadau ym mis Hydref 2024 a mis Ionawr 2025. Cynhaliodd arolygiad tebyg o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn gynnar yn 2025.
- 3 Arweiniodd y tri arolygiad hyn at argymhellion ar gyfer pob gwasanaeth a gellir rhannu'r argymhellion yn fras i dri categori: yr angen i weithredu argymhellion adolygiad thematig blaenorol y Prif Gynghorydd ac Arolygydd, angen y gwasanaethau i adolygu canllawiau gweithredol a rhaglenni hyfforddi mewn perthynas ag ymateb i danau mewn anheddau, a pholisi a phrosesau sicrwydd gweithredol y gwasanaethau.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 4 Cyflwynwyd Adroddiad yr Arolygiad i'r Panel Gweithredol ar 16 Mehefin 2025, lle cyflwynodd y Prif Gynghorydd ac Arolygydd Dan Stephens ei ganfyddiadau yn bersonol.

ARGYMHELLIAD

- 5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
 - i) **Nodi cynnwys yr adroddiad; a**
 - ii) **Nodi bod y cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith i ystyried argymhellion arolygiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd.**

CEFNDIR

- 6 Ym mis Ionawr 2025 dechreuodd y Prif Gyngorydd ac Arolygydd arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) drwy gwblhau adolygiad desg o bolisiâu diffodd tân a sicrwydd gweithredol y Gwasanaeth, ei weithdrefnau gweithredu safonol a'i becynnau hyfforddi.
- 7 At hynny, cwblhaodd y Prif Gyngorydd ac Arolygydd adolygiad manwl o gofnodion digwyddiadau tân mewn anheddau, rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2023, gan gynnal cyfweiliadau â swyddogion perthnasol, criwiau ar draws yr holl systemau dyletswydd a grwpiau ffocws a oedd yn cynnwys budd-ddeiliad allweddol.
- 8 Cyhoeddwyd adroddiad arolygiad y Gwasanaeth ym mis Mai 2025, ac roedd yn cyflwyno cyfanswm o chwe argymhelliad. Roedd cyfnod o amser ynghlwm â phob argymhelliad.
- 9 Bydd yr argymhellion yn cael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu a fydd yn cael ei ystyried a'i reoli drwy Bwyllgor Dysgu Sefydliadol y Gwasanaeth, dan gadeiryddiaeth y PSTC Justin Evans.
- 10 Nododd y Prif Gyngorydd ac Arolygydd yn benodol nad yw'r sylwadau a wnaed yn yr adroddiad wedi'u bwriadu fel beirniadaeth o Ddiffoddwyr Tân, Swyddogion na hyfforddwyr Gogledd Cymru, ac na ddylid eu hystyried yn feirniadaeth.

GWYBODAETH

- 11 Mae Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016 yn cynnwys y ddarpariaeth i'r Prif Gyngorydd ac Arolygydd gynnal adolygiadau a rhoi gwybodaeth a chanfyddiadau i Weinidogion Cymru, Awdurdodau Tân ac Achub ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 12 Dechreuodd y Prif Gyngorydd ac Arolygydd gyfres o arolygiadau gan ddechrau yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ym mis Gorffennaf ac Awst 2024 yn dilyn cais gan y Comisiynwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru. Cyhoeddwyd adroddiad arolygiad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ym mis Hydref 2024 gan gyflwyno cyfanswm o chwe argymhelliad i'r Gwasanaeth.
- 13 Gellir rhannu'r argymhellion yn fras i dri chategori: yr angen i weithredu argymhellion adolygiad thematig blaenorol y Prif Gyngorydd ac Arolygydd, angen Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i adolygu ei ganllawiau gweithredol a'i raglenni hyfforddi mewn perthynas ag ymateb i danau mewn anheddau, a'i angen i adolygu ei bolisi a'i brosesau Sicrwydd Gweithredol. Roedd cyfnod o amser ynghlwm â phob argymhelliad.

- 14 Yna aeth y Prif Gyngorydd ac Arolygydd ymlaen i gynnal Arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ym mis Hydref a mis Tachwedd 2024 gan ddilyn yr un fethodoleg. Cyhoeddwyd adroddiad arolygiad Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ym mis Ionawr 2025 gan gyflwyno cyfanswm o chwe argymhelliad. Roedd cyfnod o amser ynghlwm â phob argymhelliad.
- 15 Tynnodd y Prif Gyngorydd ac Arolygydd sylw at y tebygrwydd a ganfuwyd i adroddiad arolygiad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a gellir rhannu'r argymhellion yn fras i dri chategori yn yr un modd: yr angen i weithredu argymhellion adolygiad thematig blaenorol y Prif Gyngorydd ac Arolygydd, yr angen i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru adolygu ei ganllawiau gweithredol a'i raglenni hyfforddi mewn perthynas ag ymateb i danau mewn anheddau, a'r angen iddo adolygu ei bolisi a'i brosesau sicrwydd gweithredol.
- 16 Mae'r Prif Gyngorydd ac Arolygydd yn nodi ar gam cynnar y dylai pob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru geisio mynd i'r afael â'r tebygrwydd o fewn y ddau adroddiad arolygiad a gyhoeddwyd bryd hynny, heb geisio rhagweld canlyniad adroddiad arolygiad y Gwasanaeth.
- 17 Mewn ymateb i hyn a chyn ein harolygiad ein hunain, cymerodd y Gwasanaeth sawl cam cynnar.
- 18 Ymwelodd Pennaeth y Grŵp Dysgu Sefydliadol â Gwasanaeth Tân yr Iseldiroedd fel rhan o dîm adolygu Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. Pwrpas yr ymweliad oedd edrych ar sut mae'r Iseldiroedd wedi adolygu eu tactegau diffodd tân yn unol ag esblygiad deunyddiau adeiladu, a'r ymchwil diffodd tân a nodwyd yn yr adroddiadau blaenorol.
- 19 Dechreuodd y Gwasanaeth adolygiad o'i strategaeth gyffredinol ar dactegau diffodd tân ar sail "Cymru Gyfan". Cwrdd â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru, i leihau dyblygu ymdrech a sicrhau dull integredig "Cymru Gyfan" o rannu deunyddiau hyfforddi a dogfennau strategaeth.
- 20 Mae'r Gwasanaeth wedi dechrau cyflwyno mesuryddion llif ar bob peiriant tân newydd, a bydd rhaglen ar gyfer ôl-osod a chynyddu o bibellau dŵr 19 i 22ml ar beiriannau presennol yn cael ei chyflwyno yn unol â'r argymhellion.
- 21 Ar 10 Rhagfyr 2024, ysgrifennodd y Prif Gyngorydd ac Arolygydd at y Prif Swyddog Tân (PST) yn ei hysbysu o'i fwriad i gwblhau Arolygiad thematig o Effeithiolrwydd Gweithredol yn gynnar yn 2025, gan ddilyn yr un fethodoleg â'r ddau arolygiad blaenorol.

- 22 Cyhoeddwyd adroddiad arolygiad y Prif Gyngorydd ac Arolygydd o'r Gwasanaeth ar 20 Mai 2025.

Atodiad A - Arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau domestig, Mai 2025.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r papur hwn yn cyd-fynd â'r Egwyddorion Ymateb a Phobl o fewn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 -2029 gan ei fod yn cynnwys diogelwch diffoddwyr tân, cefnogi parodrwydd gweithredol a sicrhau cynaliadwyedd dros y tymor hwy.
Cyllideb	Bydd unrhyw ofynion cyllidebol, sy'n gysylltiedig â rheoli'r argymhellion, yn cael eu gwerthuso trwy'r prosesau rheoli cyllideb presennol.
Cyfreithiol	Mae rôl y Prif Gyngorydd ac Arolygydd wedi'i chynnwys ym mhennod 7, pwyntiau 7.12 a 7.13 Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016 ac Adran 28 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.
Staffio	Amh.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Amh.
Risgiau	Bydd yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r argymhellion yn cael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu a reolir gan aelodau Pwyllgor Dysgu Sefydliadol y Gwasanaeth.



Arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd
Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb
i danau mewn anheddau domestig

Mai 2025

Arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau domestig

Dan Stephens, Prif Gyngorydd Tân ac Achub ac Arolygydd, Llywodraeth Cymru

Cynnwys

Cynnwys	Tudalen 1
Crynodeb gweithredol	Tudalen 2
Cyflwyniad a chefnidir	Tudalen 5
Adran 1	
Adolygiad o'r data - System Cofnodi Digwyddiadau (SCD)	Tudalen 7
Esboniad o sut mae tân yn datblygu mewn ystafell mewn annedd	Tudalen 10
Sut mae'r tactegau a ddefnyddir gan y GTA yn effeithio ar ganlyniadau digwyddiad	Tudalen 15
Beth mae'r data yn ei ddangos ar gyfer GTAGC	Tudalen 21
Adran 2	
Polisi gweithredol - cefndir	Tudalen 23
Polisi gweithredol – <i>Aide Memoires</i> GTAGC	Tudalen 27
Dadansoddiad o gynnwys <i>Aide Memoires</i> GTAGC	Tudalen 29
Polisi gweithredol - crynodeb	Tudalen 35
Trefniadau sefydliadol ar gyfer cyflawni polisi gweithredol	Tudalen 36
Dadansoddiad o becyn hyfforddi GTAGC	Tudalen 37
Materion a godwyd mewn arolygiadau Adolygiad Thematig blaenorol	Tudalen 56
Trefniadau sefydliadol ar gyfer cyflawni polisi gweithredol - crynodeb	Tudalen 61
Trefniadau sefydliadol ar gyfer monitro, adolygu ac archwilio perfformiad gweithredol	Tudalen 64
Monitro digwyddiadau	Tudalen 68
Adolygu digwyddiadau ac ôl-drafodaeth	Tudalen 70
Trefniadau sefydliadol ar gyfer monitro, adolygu ac archwilio perfformiad gweithredol - crynodeb	Tudalen 72
Adran 3	
Argymhellion	Tudalen 75
Diolchiadau	Tudalen 78

Crynodeb gweithredol

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym mis Ionawr a Chwefror 2025 gan ddefnyddio'r un fethodoleg ag a ddefnyddiwyd wrth arolygu Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn 2024.
2. Pwrpas yr arolygiad oedd asesu effeithiolrwydd gweithredol y Gwasanaeth wrth ymateb i danau mewn anheddau domestig.
3. Y math o ddigwyddiad a ddewiswyd i'w ddadansoddi oedd tanau mewn anheddau lle cofnodwyd difrod yn sgil y tân a'r gwres y tu hwnt i'r ystafell lle dechreuodd y tân yn wreiddiol. Mae'r digwyddiadau hyn yn peri risg sylweddol i Ddiffoddwyr Tân, i breswylwyr sydd wedi'u dal yn gaeth ac i'r annedd ei hun.
4. Gwnaed dadansoddiad manwl o gyfanswm o 139 o ddigwyddiadau rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2023.
5. Mae canfyddiadau'r dadansoddiad o ddigwyddiadau yn gyson ag arolygiadau De Cymru a Gorllewin a Chanolbarth Cymru, a nodir yn yr adroddiadau a gyhoeddwyd ar 9 Hydref 2024 a 15 Ionawr 2025 yn y drefn honno.
6. O ystyried maint y dystiolaeth sydd ar gael i mi, rwyf o'r farn bod y tactegau gweithredol a ddefnyddiwyd gan y Gwasanaeth, mewn nifer sylweddol o ddigwyddiadau, wedi rhoi Diffoddwyr Tân mewn perygl diangen a/neu wedi arwain at ddifrod i eiddo y gellid bod wedi'i osgoi.
7. Y rheswm sylfaenol am hyn yw bod llawer o gynnwys yr hyfforddiant diffodd tanau strwythurol a ddarperir gan y Gwasanaeth yn adlewyrchu tactegau a gyflwynwyd yn rhannol ar ddiwedd y 1990au, ond nid oedd sawl un ohonynt wedi'u profi'n wyddonol ar y pryd nac wedi'u cynllunio i'w defnyddio yn y DU.
8. Caiff y sefyllfa yng Ngogledd Cymru ei gwaethygu yn sgil dileu trefn etifeddol Gorchmynion Gweithdrefnau a Pholisi Gweithredol y Gwasanaeth a'u disodli gan *Aide Memoires*. Mae hyn yn creu bwlch sylweddol mewn canllawiau gweithredol. Mae hefyd yn gadael y Gwasanaeth yn agored i bob math o ddigwyddiadau, gan gynnwys tanau anheddau, yn sgil absenoldeb Asesiadau Risg Gweithredol addas a digonol, sy'n ofyniad cyfreithiol.
9. Yr hyn sy'n peri cryn bryder yw'r diffyg adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaeth mewn perthynas â'i alluoedd rheoli ac ymateb gweithredol llawn amser. Mae nifer y Rheolwyr Canol yn seiliedig i raddau helaeth ar yr hyn sy'n ofynnol at ddibenion cyflenwad gweithredol o staff. Nid yw hyn yr un peth â'r lleiafswm gofynnol sydd ei angen i sicrhau adnoddau digonol yn yr holl rolau swyddogaethol hanfodol. Mae'r un peth yn wir am niferoedd Rheolwr Goruchwylio mewn rolau swyddogaethol.
10. Mae capasiti sylweddol yn bodoli yn nhrefn gwaith y gorsafoedd ar gyfer Diffoddwyr Tân llawn amser yng nghyd-destun y systemau shifftiau a chriwiau dydd. Dylid gweithredu argymhellion Adolygiad Thematis 2021 i gapasiti'r Gwasanaeth Tân

ac Achub ar fyrder er mwyn rhyddhau'r capasiti hwn yn ddiogel i gynyddu'r hyfforddiant angenrheidiol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn a gweithgareddau lleihau risgiau. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r capasiti hwn yn realistig i lenwi bylchau mewn meysydd swyddogaethol. Nid yw chwaith yn golygu bod digon o gerbydau llawn amser ar gael i'r Gwasanaeth i ddarparu model gweithredol effeithiol o ystyried yr heriau daearyddol a dosbarthiad y boblogaeth.

11. Mae problem adnoddau'r Gwasanaeth yn syrthio y tu allan i gwmpas yr arolygiad hwn ond mae'n destun pryder ac mae angen mynd i'r afael â hyn.

12. Ni all y cyfleusterau hyfforddi sydd ar gael i hyfforddwyr ail-greu'r senarios fyddai'n adlewyrchu'r amgylchedd tân modern yn llawn. Mae cyfle i'r Gwasanaeth wella cyfleusterau hyfforddi yn sylweddol drwy ddatblygu Canolfan Hyfforddi newydd. Dylid bwrw ymlaen â hyn fel blaenoriaeth.

13. Mae sicrwydd gweithredol yn her i'r Gwasanaeth yn enwedig mewn lleoliadau gwledig anghysbell. Mae'r trefniadau sicrwydd gweithredol yn y Gwasanaeth yn adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael iddo i raddau helaeth. Nid oes Tîm Sicrwydd Gweithredol pwrpasol i fynychu digwyddiadau yn llwyr at ddibenion monitro gweithredol ac i gynnal archwiliad ac adolygiad ar ôl digwyddiadau. Yn hytrach, y Swyddogion sydd ar ddyletswydd sy'n gyfrifol am gynnal gwaith monitro digwyddiadau'n weithredol.

14. Mae proses dda ar waith o gynnal ôl-drafodaethau poeth ac mae gan y Diffoddwyr Tân hyder yn y broses hon. Fodd bynnag, mae mynediad i'r canlyniadau yn sgil ôl-drafodaethau strwythuredig wedi'i gyfyngu i sianel Teams bwrpasol sy'n cyfyngu ar allu'r Diffoddwyr Tân yn yr orsaf i'w gweld.

15. Mae diffyg unrhyw adroddiadau o ddamweiniau fu bron â digwydd yn bryder.

16. Bu'n amhosibl osgoi dyblygu'r argymhellion yn adroddiadau De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn yr adroddiad hwn gan fod y materion a nodwyd yn union yr un fath.

17. Mae'r materion sylfaenol a amlygir ar draws yr holl arolygiadau yn ymwneud yn bennaf â'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol etifeddol. Dylai cyhoeddiad canllawiau gweithredol 'Foundation for Firefighting' a 'Firefighting' ym mis Hydref 2024 ynghyd â'r argymhellion perthnasol yn yr adroddiad hwn a'r adroddiadau arolygu blaenorol fod yn ysgogiad ar gyfer datblygu hyfforddiant a chanllawiau gweithredol Cymru gyfan yn seiliedig ar yr ymchwil fwyaf cyfredol ac wedi'u dylunio mewn modd sy'n sicrhau'r defnyddioldeb gorau posibl i Ddiffoddwyr Tân.

18. Mae'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â'r broses sicrwydd gweithredol yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaed i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gan fod yr heriau daearyddol yn debyg iawn.

19. Mae'n bwysig fy mod unwaith eto'n gwneud y pwynt nad yw'r sylwadau a wnaed yn yr adroddiad hwn wedi'u bwriadu, ac ni ddylid eu hystyried ychwaith, fel beirniadaeth ar Ddiffoddwyr Tân Gogledd Cymru, y Swyddogion na'u hyfforddwyr.

20. Roedd lefelau ymgysylltu â'r holl staff drwy gydol yr arolygiad yn rhagorol. Roedd Diffoddwyr Tân, swyddogion a hyfforddwyr yn barod iawn i fabwysiadu tactegau a gwelliannau i'r broses sicrwydd gweithredol ar sail tystiolaeth.

21. Dylid gweithredu ar yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn ddi-oed i sicrhau eu bod yn gweithredu yn ôl y systemau gwaith mwyaf diogel posibl.

Cyflwyniad a chefnidir

22. Yr arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn ystod mis Ionawr a Chwefror 2025 yw'r olaf mewn cyfres o dri arolygiad i ystyried effeithiolrwydd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wrth ymateb i danau mewn anheddau domestig. Mae cryn ddyblygu rhwng y tri adroddiad arolygu. Mae'r dyblygu hwn yn digwydd yn bennaf gyda'r esboniad o'r modd y mae tân mewn ystafell yn datblygu, sut mae'r tactegau a ddefnyddir gan y GTA yn effeithio ar ganlyniadau'r digwyddiad, ynghyd â disgrifiad o gefndir datblygiad y canllawiau gweithredol diweddar mewn GTAAu yn y DU. Mae dyblygu hefyd gyda'r canfyddiadau a'r argymhellion gan fod llawer o'r materion a nodwyd yr un fath.

23. Y math o ddigwyddiad sy'n peri'r risg fwyaf i Ddiffoddwyr Tân, aelodau'r cyhoedd a'u cartrefi yw tanau mewn anheddau domestig, boed wedi'u cychwyn yn ddamweiniol neu'n fwriadol. Caiff gwybodaeth yn ymwneud â'r digwyddiadau hyn ei chofnodi drwy'r System Cofnodi Digwyddiadau (SCD) ac fe'i cyhoeddir ar wefan StatsCymru Llywodraeth Cymru¹.

24. Er mwyn cynnal cysondeb, cynhaliais ddadansoddiad o'r un set ddata ag yr oedd gennyf ar gyfer arolygiadau De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r ffigurau ar gyfer GTAGC fel a ganlyn:

- 2020/21 (387 digwyddiad);
- 2021/22 (429 digwyddiad); a
- 2022/23 (380 digwyddiad).

25. Unwaith eto, canolbwyntiais yn benodol ar ddigwyddiadau tân mewn anheddau lle cofnodwyd difrod tân neu wres y tu hwnt i'r ystafell lle dechreuodd y tân. Cyfeirir at hyn fel yr ystafell wreiddiol o hyn allan. Y rheswm dros hyn yw dyma'r math mwyaf difrifol o ddigwyddiadau o'r fath.

26. Dros y cyfnod o 3 blynedd gwelwyd cyfanswm o 139 o ddigwyddiadau o'r fath, er wrth ddadansoddi pob log digwyddiad yn fanwl, gwelais fod 42 digwyddiad wedi'u codio'n anghywir gan adael cyfanswm gwirioneddol o 97 o ddigwyddiadau a oedd yn bodloni'r hyn roeddwn i'n ei ystyried yn wir ddiffiniad o ddifrod tân neu wres a ledodd y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol mewn annedd domestig.

27. Y pwynt cyfeirio diffiniol ar gyfer unrhyw ddigwyddiad yw'r log digwyddiadau a gedwir ar y system mobileiddio. Mae'r log digwyddiadau yn gofnod digidol sy'n cael ei gynhyrchu o'r alwad 999 gyntaf i'r Gwasanaeth ac mae'n cynnwys pob trafodiad unigol yn ymwneud â'r digwyddiad, gan gynnwys yr holl negeseuon a anfonwyd o safle'r digwyddiad. Cefais fynediad llawn at system mobileiddio GTAGC (CAD View) gan y Prif Swyddog Tân (PST). Er mwyn trioglu'r wybodaeth a gynhwysir yn y log digwyddiadau cefais fynediad at adroddiadau'r ymchwiliadau i danau a oedd ar gael.

¹ Tanau a galwadau ffug (llyw.cymru)

28. Cyn ymgymryd â gwaith maes yr arolygiad, adolygais yr holl ganllawiau gweithredol a'r deunyddiau hyfforddi cysylltiedig perthnasol y cefais fynediad atynt yn fyw drwy fewnwyd GTAGC (Hwb Tân) a System Ddysgu Gweithredol pdrPro/Learn Pro. Roedd hyn yn cynnwys Aide Memoires, y mae GTAGC wedi'u cyflwyno yn lle Gorchymynion Gweithdrefnau a Pholisi Gweithredol y Gwasanaeth (SOPPOs), Gorchymyn Gweithdrefnau a Pholisi Gweinyddol y Gwasanaeth (SAPPO) ar gyfer Sicrwydd Gweithredol, y Polisi a Gweithdrefn Sicrwydd Gweithredol drafft ynghyd â'r deunyddiau hyfforddi perthnasol.

29. Roedd y gwaith maes yn cynnwys grwpiau ffocws gyda hyfforddwyr Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol, Rheolwyr (Canol) Gorsafoedd a Grŵp yng nghyd-destun y system ddyletswydd hyblyg, cyfweiliadau strwythuredig gyda'r Rheolwr Canllawiau Gweithredol, y Rheolwr Datblygu Rhaglenni Hyfforddi, y Rheolwr Grŵp â chyfrifoldeb am ymchwilio i danau, y Rheolwr Grŵp sy'n gyfrifol am sicrwydd gweithredol ac ymweliadau â gorsafoedd ar 3 shift llawn amser, 3 gorsaf gyda chriw dydd llawn amser a 3 gorsaf system rhan amser /ar alwad (RDS).

30. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r arolygiad ac yn adeiladu ar yr argymhellion a wnaed mewn adroddiadau arolygu Adolygiadau Thematig blaenorol.

31. Mae **adran gyntaf** yr adroddiad yn cynnwys:

- adolygiad o'r data;
- esboniad o sut mae tân yn datblygu mewn ystafell;
- sut mae'r tactegau a ddefnyddir gan y GTA yn effeithio ar ganlyniad y digwyddiad; a
- beth mae'r data yn ei ddangos ar gyfer GTAGC.

32. Mae **ail adran** yr adroddiad yn cyd-fynd â chyhoeddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) HSG 65 Managing for health and safety (fersiwn cyn 2013) ac yn ystyried polisiâu gweithredol GTAGC lle maent yn bodoli drwy Aide Memoires, y trefniadau sefydliadol i gyflawni'r polisiâu gweithredol a'r modd y mae perfformiad gweithredol yn cael ei fonitro, ei archwilio a'i adolygu.

33. Mae **trydedd adran** yr adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion a gynlluniwyd i wella diogelwch Diffoddwyr Tân ac effeithiolrwydd gweithredol GTAGC.

Adran 1

Adolygiad o'r data - System Cofnodi Digwyddiadau (SCD)

34. Yn GTAGC Rheolwr Tân sy'n cwblhau'r SCD gyda gwybodaeth a roddwyd iddynt gan Gomander y Digwyddiad.

35. Mae'r SCD yn cofnodi hyd a lled y difrod a achoswyd gan y tân ynghyd â manylion am unrhyw anafiadau neu farwolaethau. Mae hefyd yn cofnodi lle nad oes unrhyw ddifrod strwythurol a dim camau gweithredu i ddiffodd tân. Enghraifft o hyn fyddai lle mae olew gweddilliol mewn gril yn tanio i gynhyrchu digon o fwg i weithredu larwm mwg, gan arwain at fobileiddio'r GTA. Dyma'r is-set unigol fwyaf o ddata sy'n cyfrif am rhwng 58% a 65% o'r holl ddigwyddiadau tân mewn anheddau y bu GTAGC yn ymateb iddynt yn ystod y cyfnod dan sylw ac fe'i dangosir yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Dim difrod strwythurol na chatau gweithredu i ddiffodd tân (% gyffredinol)

	2020/21	2021/22	2022/23
Cyfanswm digwyddiadau	387	429	380
Dim difrod strwythurol	227	249	247
Dim difrod strwythurol %	59%	58%	65%

36. Mae'r SCD yn cofnodi a yw difrod tân neu wres wedi'i gyfyngu i'r ystafell wreiddiol neu os yw wedi lledu y tu hwnt i'r ystafell honno. Mae hefyd yn cofnodi maint y difrod o ran tân neu wres wrth i'r GTA gyrraedd. Mae Tabl 2 isod yn dangos y % o danau mewn anheddau sydd wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol.

Tabl 2: Tanau mewn anheddau GTAGC wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol (% gyffredinol)

	2020/21	2021/22	2022/23
Cyfanswm digwyddiadau	387	429	380
Wedi'i gyfyngu i'r ystafell wreiddiol	339	375	330
Lledu y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol	48	54	50
Wedi'i gyfyngu i'r ystafell wreiddiol %	88%	87%	87%

37. Gellir mynd ymhellach a dadansoddi'r is-set o ddigwyddiadau lle mae difrod tân neu wres y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol yn ddigwyddiadau lle (a) nad oes difrod tân na gwres y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol wrth i'r GTA gyrraedd (h.y. mae'r tân yn dal yn yr

ystafell wreiddiol wrth i'r GTA gyrraedd ac yna'n lledu wedi hynny) neu (b) y cofnodir bod difrod tân a gwres y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol wrth i'r GTA gyrraedd.

38. Mae tabl 3 isod yn dangos dadansoddiad o ddifrod tân a gwres y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol wedi'i ddadansoddi fel difrod y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol wrth i'r GTA gyrraedd neu ddifrod tân a gwres wedi'i gyfyngu i'r ystafell honno yn unig wrth i'r GTA gyrraedd.

Tabl 3: Tanau mewn anheddau GTAGC oedd wedi lledu y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol

	2020/21	2021/22	2022/23
Yn yr ystafell wreiddiol wrth gyrraedd	6	5	3
Tu hwnt i'r ystafell wreiddiol wrth gyrraedd	37	45	43
Cyfanswm y tanau oedd wedi lledu y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol (SCD)	43	50	46

39. Fel y nodwyd yn flaenorol, o'r 139 o ddigwyddiad yn y set ddata, roedd 42 wedi'u codio'n anghywir oedd yn gadael cyfanswm cyffredinol o 97 o ddigwyddiadau a oedd yn dod o fewn paramedrau'r dadansoddiad. Enghraifft nodweddiadol o dân wedi'i godio'n anghywir o ddadansoddiad GTAGC oedd lle digwyddodd y tân mewn carafán yn hytrach na mewn tŷ neu fflat. Pan oedd achos o dân oedd wedi dechrau'r tu allan ac yna lledu i'r eiddo i achosi difrod tân neu wres mewn ystafell, a oedd wedyn yn lledu y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol, fe wnes i gynnwys y digwyddiadau hyn yn y dadansoddiad.

40. Mae Tabl 4 yn dangos dadansoddiad ar draws cyfnod cyfeirio 3 blynedd y 97 o ddigwyddiadau a oedd yn syrthio oddi mewn i baramedrau'r dadansoddiad, wedi'u rhannu rhwng yr ystafell wreiddiol wrth i GTAGC gyrraedd neu y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol wrth i GTAGC gyrraedd.

Tabl 4: Tanau mewn anheddau GTAGC fu'n destun dadansoddiad manwl yn yr adroddiad hwn

	2020/21	2021/22	2022/23
Yn yr ystafell wreiddiol wrth gyrraedd	5	5	2
Tu hwnt i'r ystafell wreiddiol wrth gyrraedd	25	27	33
Cyfanswm y tanau yn lledu y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol (Dadansoddiad yr arolygiad)	30	32	35

Esboniad o sut mae tân yn datblygu mewn ystafell mewn annedd

41. Bwriedir i'r canlynol fod yn eglurhad syml o sut mae tân yn datblygu mewn ystafell mewn annedd. Mae'n dyblygu'r adran gyfatebol yn adroddiad arolygu GTA De Cymru a GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024 a mis Ionawr 2025 yn y drefn honno ac fe'i darperir i osod cyd-destun i'r darlennydd heb fynd i ormod o fanylion. Mae'n ymwneud â thân sydd eisoes wedi cynnau mewn ystafell mewn annedd ac nid y mecanweithiau sy'n achosi'r tân i gynnau.

42. I gynnal tân, mae angen gwres, tanwydd, ocsigen ac adwaith cadwyn gemegol parhaus.

43. Ar ôl i'r GTA gyrraedd, bydd tân mewn ystafell mewn annedd mewn un o ddau gyflwr, wedi'i reoli gan danwydd neu wedi'i reoli gan yr awyru. Bydd gan y tân a reolir gan danwydd ddigon o ocsigen i'r graddau y bydd ei dwf yn gyfyngedig i'r eitem neu'r eitemau (tanwydd) sydd ar dân a'u cyfradd rhyddhau gwres.

44. Y gyfradd rhyddhau gwres yw faint o ynni thermol a gynhyrchir gan yr eitemau (tanwydd) sy'n gysylltiedig â'r tân, wedi'i fesur mewn cilowat (KW) neu fegawat (MW). Nid yw'r gyfradd rhyddhau gwres yr un peth â thymheredd. Er enghraifft, gall cadair sengl fodern wedi'i chlustogi, losgi gyda thymheredd fflam o 800 gradd canradd a chynhyrchu cyfradd rhyddhau gwres o 2MW, tra gall sofffa fodern 3 sedd hefyd losgi gyda thymheredd fflam o 800 gradd canradd ond cynhyrchu cyfradd rhyddhau gwres o 5MW. Mae deunyddiau modern, synthetig (plastig) yn cynhyrchu cyfraddau rhyddhau gwres sylweddol uwch na deunyddiau traddodiadol. Maent hefyd yn defnyddio tua dwywaith gymaint o ocsigen na deunyddiau traddodiadol i gynhyrchu'r gyfradd rhyddhau gwres uwch.

45. Mae ymchwil yn dangos y gall eitem ar dân gyda chyfradd rhyddhau gwres o 2MW (cadair sengl fodern wedi'i chlustogi), gyda chyflenwad digonol o ocsigen, achosi'r holl eitemau llosgadwy (tanwydd) mewn ystafell i gynnau ar yr un pryd². Gelwir y trawsnewidiad hwn yn fflachiad a bydd bron yn sicr yn arwain at ddifrod gwres neu dân y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol. Digon yw dweud bod yr amodau mewn ystafell lle cafwyd fflachiad bron yn sicr yn amodau lle na allai unrhyw ddeiliaid sy'n gaeth oroesi nac ychwaith Diffoddwyr Tân sy'n gwisgo cyfarpar diogelu personol ac offer anadlu³.

46. Yng nghamau cychwynnol tân, mae'r tân fwyaf tebygol o gael ei reoli gan danwydd.

47. Mewn cyflwr cyson, crynodiad yr ocsigen yn yr aer fydd 21%. Caiff tân ei reoli gan yr awyru pan fydd crynodiad yr ocsigen mewn ystafell sydd ar dân yn gostwng o 21%, i lai na 16%, oherwydd bod y tân yn defnyddio'r ocsigen yn gyflymach nag y caiff

² [Fire Dynamics in Structures| FSRI Safety Academy](#)

³ [Heat Transfer and PPE| FSRI Safety Academy](#)

ei ailgyflenwi gan aer sy'n cylchredeg o'r tu allan i'r ystafell. Ar y pwynt hwn ni all yr hyllogi â fflam gael ei gynnal ac mae'r tân yn pylu.

48. Mae'r ymchwil ryngwladol sylweddol a gynhaliwyd dros y 10 – 15 mlynedd diwethaf wedi dangos bod hyn yn digwydd mewn ystafelloedd wedi'u dodrefnu â deunyddiau synthetig o fewn 2-3 munud, a chyn i dân mewn ystafell gyrraedd pwynt fflachiad⁴. Yn ei hanfod, nid yw hyn yn wahanol i'r arbrawf gwyddonol lle bydd cannwyll sydd wedi'i chynnau y tu mewn i jar gwydr wyneb i waered yn diffodd ar ôl ychydig funudau, unwaith y bydd wedi defnyddio mwy o'r ocsigen yn y jar na'r hyn sydd ei angen i alluogi'r hyllogi.


49. Gall tân yn y cyflwr hwn fudlogi am gyfnod estynedig cyn y bydd yn hunanddiffodd yn y pen draw os na fydd newid i gyflenwad ocsigen y tân (y proffil awyru). Fodd bynnag, bydd tân o'r fath yn cynhyrchu llawer iawn o fwg sydd ei hun yn hyllog, ac a fydd yn cyfrannu at ddatblygiad cyflym y tân os bydd newid yn y proffil awyru.

50. Er bod y tân yn sefydlog cyhyd â bod y proffil awyru yn aros yn ddigyfnewid, mae'n dal i beri peryglon sylweddol iawn i ddeiliaid sy'n gaeth ac i Ddiffoddwyr Tân. Yn ôl pob tebyg, ni fydd yn ymestyn y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol heb ymyrraeth allanol (fel Diffoddwyr Tân yn dod i mewn drwy ddrws allanol ac yn cyflwyno ocsigen), ac ni fydd yn cyrraedd pwynt fflachiad.

51. Mae'r graff yn Ffigur 1 isod yn dangos cynnydd nodweddiadol tân mewn ystafell gyda llwyth tanwydd sydd â digon o gyfradd rhyddhau gwres fel bod yr ystafell yn cyrraedd pwynt fflachiad (gan ledu felly y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol).

⁴ [20150116-ba-ul-fsp-it-depends-descriptive-research-into-fire-growth-and-the-chances-of-survival.pdf](https://nipv.nl/20150116-ba-ul-fsp-it-depends-descriptive-research-into-fire-growth-and-the-chances-of-survival.pdf) (nipv.nl) (Ymchwil yn yr Iseldiroedd)/holl astudiaethau ymchwil UL FSRI

Ffigur 1: Cynnydd nodweddiadol tân mewn ystafell gyda llwyth tanwydd sydd â digon o gyfradd rhyddhau gwres fel bod yr ystafell yn cyrraedd pwynt fflachiad



Mae pwyntiau A - C yn dangos datblygiad tân mewn ystafell gaeedig o'r tanio hyd at y pwynt lle mae'r ocsigen yn yr ystafell yn gostwng o dan 16%.

Mae Pwynt C – D yn dangos gostyngiad yn y gyfradd rhyddhau gwres oherwydd nad oes digon o ocsigen yn yr ystafell i gynnal hylosgiad sy'n fflamio. Mae'r tân ar hyn o bryd yn cael ei reoli gan yr awyru. Os nad oes ymyrraeth allanol, bydd y tân yn pylu, yn mudlosgi ac yn hunan-ddiffodd yn araf, fel y dangosir gan y llinell werdd.

Mae pwynt D – F yn dangos newid yn y proffil awyru a all ddigwydd pan fydd Diffoddwyr Tân yn mynd i mewn i'r eiddo i ymladd y tân. Mae hyn oherwydd nad yw Diffoddwyr Tân yn aml yn sicrhau caead dros y drws y maent wedi mynd drwyddo i mewn i'r eiddo i reoli mewnlif yr ocsigen. Ar y pwynt hwn, mae'r gyfradd rhyddhau gwres a'r tymheredd yn cynyddu'n gyflym. Os na chaiff y llif aer i'r ystafell ei reoli neu os na chaiff digon o ddŵr ei gyfeirio at y tân neu'r ystafell sydd ar dân, yna gall yr ystafell gyrraedd pwynt fflachiad mewn llai na munud.

52. Mae hon yn sefyllfa hynod beryglus ac mae wedi arwain at anafiadau a marwolaethau i Ddiffoddwyr Tân yn y DU ac ar draws y byd.

53. Mae gwyddoniaeth yn mynnu y bydd y pwysedd uchel a gynhyrchir drwy ehangiad y nwyon sy'n cael eu gwresogi gan y tân yn symud tuag at y pwysedd is wrth agoriad yr awyru ac y bydd y nwyon tân poeth yn symud tuag at yr aer oerach wrth yr agoriad lle ceir yr awyru. Gall hyn osod Diffoddwyr Tân rhwng y tân a'r allfa (man gwacáu) ar gyfer nwyon y tân. Heb loches y tu ôl i ddrws caeedig, eu hunig amddiffyniad yn yr amgylchiadau hyn yw cyfradd llif uchel o ddŵr wedi'i gyfeirio at y tân.

54. Mae'r cyfuniad o awyriad heb reolaeth a/neu ddefnyddio tactegau diffodd tân aneffeithiol wedi bod yn ffactor ym mron pob un o farwolaethau Diffoddwyr Tân yn y DU a ddigwyddodd mewn tân mewn adeiladwaith yn ystod y 30 mlynedd diwethaf⁵.

55. Gall fod yn anodd iawn, os nad yn amhosibl, i'r Rheolwr Criw neu'r Wylfa sy'n cyrraedd gyntaf, benderfynu ar statws y tân wrth gyrraedd. Bydd hylosgiad â fflamau yn amlwg gyda tân a reolir gan danwydd. Fodd bynnag, mae tân a reolir gan yr awyru yn debygol o gynhyrchu llawer iawn o fwg afreolus a fyddai'n ei gwneud hi'n anodd iawn i'r Rheolwr Criw neu'r Wylfa sydd yno gyntaf benderfynu a oedd difrod tân neu wres y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol, hyd yn oed os byddent yn cynnal sganio thermol gyda Chamera Delweddu Thermol.

56. Fel y nodwyd o'r blaen, mae ymchwil wyddonol ryngwladol⁶ yn dangos y bydd unrhyw dân sy'n cynnwys eitem neu eitemau sydd â digon o gyfradd rhyddhau gwres fel bod yr adran yn cyrraedd pwynt fflachiad, yn cael ei reoli gan yr awyru o fewn 2-3 munud oni bai bod cyflenwad diderfyn o ocsigen ar gael.

57. Fel arfer, byddai hyn yn gofyn bod drws yr ystafell ar agor a drws i'r eiddo neu nifer o ffenestri mawr ar agor yn llawn. Yng ngogledd Cymru ac ar draws y DU, heblaw am y diwrnodau cynhesaf, mae hyn yn annhebygol. Mae hafaliadau 18 a 19 ar dud.91-92 y cyhoeddiad o wlad Sweden, 'Enclosure fires' gan Lars-Goran Bengtsson yn cyfeirio at reol Thornton a'r cyfrifiadau ar gyfer agoriadau awyru gofynnol i gynhyrchu cyfraddau rhyddhau gwres ($1\text{m} \times 1\text{m} = 1.5 \text{ MW}$, $2\text{m} \times 1\text{m} = 4.5 \text{ MW}$, $2\text{m} \times 10.5 \text{ m} + 1\text{m} \times 1\text{m} = 10.5 \text{ MW}$) Cyfeirir at gyfrifiadau tebyg yng nghyhoeddiad Brandweeraacademïe 2018 'The Renewed View of Firefighting'⁷ ar dud. 13 ('Per square metre (m²) surface area of an opening, 1.5–3 MW of heat release rate can be developed').

58. Felly, mae'n bosibl bod llawer o'r tanau yr edrychwyd arnynt yn y dadansoddiad hwn wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol ar yr adeg y cyrhaeddodd y GTA. Mae'n debygol bod rhai o'r tanau a ledodd y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol, wedi gwneud hynny oherwydd bod gweithredoedd Diffoddwyr Tân wedi ail-awyru'r tân cyn defnyddio digon o ddŵr, gan nad oeddent wedi rheoli'r drws yr aethant drwyddo i mewn i'r eiddo.

59. Yn yr adran ar ddadansoddi digwyddiadau, rwy'n tynnu sylw at nifer y digwyddiadau pan fydd y Rheolwr Criw neu'r Wylfa oedd wedi cyrraedd gyntaf yn disgrifio'r mwg oedd yn dod o'r eiddo yn hytrach na'u bod yn gweld fflamau. Byddai hyn yn arwydd o dân heb awyru digonol.

⁵ Adroddiadau digwyddiadau angheuol – tân Wealmoor Warehouse, tân Atherstone on Stour/ Balmoral bar, Edinburgh/Shirley Towers, Southampton/Bethnal Green Road, Llundain et al

⁶ Astudiaethau UL FSRI 2010 – presennol, Brandweeraacademïe (2014, 2015, 2016, 2018)

⁷ [20180423-BA-The-Renewed-View-on-Firefighting.pdf \(nipv.nl\)](#)

60. Er cywirdeb, dylwn dynnu sylw at y diffygion yn yr SCD yn y cyd-destun hwn. Mae Maes 8.20 o'r SCD yn gofyn, 'Beth oedd maint y difrod gan y fflamau a/neu wres wrth i chi gyrraedd?'. Yna mae cwymplen yn cynnig sawl dewis gan gynnwys 'Wedi'i gyfyngu i'r ystafell wreiddiol', 'Wedi'i gyfyngu i'r llawr gwreiddiol (nid yr adeilad cyfan)' yr holl ffordd i 'Yr adeilad cyfan'. Gan ddibynnu ar leoliad y tân mewn adran benodol o'r adeilad, mae'n bosibl y byddai difrod gwres mewn adran gyfagos heb fod y tân wedi ymledu, er enghraifft deunydd synthetig yn dechrau toddi. Er mwyn cael gwared ar unrhyw amwysedd efallai y dylid geirio'r cwestiwn hwn yn well 'Beth oedd maint y difrod tân wrth i chi gyrraedd?'.

61. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddigwyddiadau, roedd y negeseuon ar log y digwyddiad yn ei gwneud hi'n glir bod difrod tân a gwres y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol. Fel ymarfer diwydrwydd dyladwy, adolygais adroddiadau'r ymchwiliadau tân oedd ar gael ar gyfer y digwyddiadau lle cofnodwyd drwy'r SCD fod difrod tân a gwres y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol pan gyrhaeddodd y GTA.

62. Cadarnhaodd y dystiolaeth ffotograffig a oedd ar gael i mi yn dangos cynnydd y tân fod difrod tân sylweddol y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol. Yr hyn a ddangosodd y ffotograffau hefyd oedd y byddai'r tactegau cychwynnol a ddefnyddiwyd (riliau pibell pwysedd uchel sy'n gallu defnyddio cyfraddau llif isel mewn ymosodiad mewnol) wedi golygu risg ddiangen i Ddiffoddwyr Tân ac y byddent wedi cymryd mwy o amser i atal y tân na defnyddio pwysedd isel, llif uchel amgen (gan arwain felly at ddifrod diangen).

Sut mae'r tactegau a ddefnyddir gan y GTA yn effeithio ar ganlyniad y digwyddiad

63. Dros y cyfnod dadansoddi data 3 blynedd roedd cyfanswm o 1196 o ddigwyddiadau tân mewn anheddau domestig ledled Gogledd Cymru lle cofnodwyd difrod tân neu wres y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol mewn 139 o ddigwyddiadau.

64. Drwy fynediad at system mobileiddio GTAGC, bu modd i mi ddadansoddi cofnodion digwyddiadau pob un o'r 139 o ddigwyddiadau'n fanwl. Drwy'r dadansoddiad hwn, gwelais nad oedd 42 o ddigwyddiadau'n cwrdd â meini prawf difrod tân a gwres y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol, felly fe'u diystyrwyd o safbwynt unrhyw ddadansoddiad pellach gan adael cyfanswm o 97 o ddigwyddiadau.

65. Ar gyfer pob digwyddiad, cofnodais y wybodaeth ganlynol:

- Amser ymateb y cerbyd cyntaf yno (a gymerwyd o amser yr alwad i'r amser cyrraedd)
- Yr amser a aeth heibio o amser y cerbyd cyntaf yno hyd at amser y neges hysbysol gyntaf a oedd yn nodi'r tactegau gweithredol a oedd ar waith
- Yr amser a aeth heibio o amser y cerbyd cyntaf yno hyd at amser yr ail gerbyd yno
- Cynnwys yr wybodaeth hysbysol gyntaf a oedd yn nodi'r tactegau gweithredol a oedd ar waith (h.y. 2BA 1HRJ sy'n golygu tîm offer anadlu 2 berson gydag 1 rîl pibell pwysedd uchel)
- Unrhyw wybodaeth o bwys gan y galwr cyntaf neu'r cerbyd cyntaf yno (h.y. 'Mwg i'w weld' neu 'Eiddo ar dân')
- Ystafell wreiddiol a'r math o eiddo (hy cegin, ystafell fyw, ystafell wely, tŷ teras, tŷ pâr, tŷ ar wahân)
- Unrhyw wybodaeth berthnasol o'r neges Stop⁸ gan gynnwys maint y difrod cyffredinol

66. Roedd yr wybodaeth hon yn caniatáu imi sefydlu'r hyn yr oedd y galwr cychwynnol wedi'i weld a pha mor hir a gymerodd hi i'r cerbyd tân cyntaf gyrraedd o'r pwynt hwnnw. Er enghraifft, mae galwr sy'n rhoi gwybod am fwg trwm yn arwydd o dân a reolir gan yr awyru. Yn yr un modd, gallwn sefydlu'r hyn yr oedd y Rheolwr Criw neu'r Wylfa cyntaf yn ei weld er mwyn rhoi syniad i mi o gyflwr y tân ar y pwynt hwnnw a sut y gallai fod wedi datblygu o adeg yr alwad gyntaf.

67. Mae'r ystafell wreiddiol yn rhoi syniad o'r llwyth tanwydd, ac mae'r math o eiddo yn rhoi syniad o faint tebygol yr adrannau yn yr eiddo. Er enghraifft, gall sofffa 3 sedd mewn ystafell fyw neu fatres ar wely dwbl mawr mewn ystafell wely gynhyrchu cyfradd rhyddhau gwres o 5MW tra gall unedau cegin bwrdd sglodion ond gynhyrchu cyfradd rhyddhau gwres o 1.5MW. Felly, mae dwyster tân mewn ystafell wely neu ystafell fyw yn debygol o fod yn fwy na than mewn cegin.

⁸ Anfonir neges Stop o safle'r digwyddiad gan y Swyddog â Gofal i gadarnhau na fydd angen unrhyw adnoddau GTA pellach yn y digwyddiad

68. Mae'r neges hysbysol gyntaf yn rhoi gwybodaeth ddiffiniol am y tactegau a ddefnyddiwyd ar yr ymyriad cyntaf sy'n hanfodol i ddatblygiad dilynol, neu fel arall, y digwyddiad. Mae maint y difrod, a nodir fel arfer ar y neges Stop, yn cadarnhau faint o ddifrod cyffredinol a gafwyd yn yr annedd.

69. Ar adeg yr arolygiad hwn (Ionawr/Chwefror 2025), roedd Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol GTA ar gyfer tanau mewn anheddau wedi'u cynnwys yn bennaf yn yr adrannau 'Foundation for firefighting', 'Firefighting' a 'Fires in buildings'. Cyhoeddwyd 'Foundation for firefighting' a 'Firefighting' ar 1 Hydref 2024.

70. Y ffordd orau o ddisgrifio Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol y GTA yw eu bod fel asesiadau risg cyffredinol a gyflwynir ar ffurf datganiadau mesur a rheoli peryglon a ddatblygwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) ar gyfer llunwyr polisi ym mhob GTA i'w defnyddio fel sail i'r Gweithdrefnau Gweithredol Safonol (GGSau) lleol neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt. Mae'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol hefyd yn cynnwys nifer fach o gyhoeddiadau 'Sylfaen' sy'n darparu gwybodaeth dechnegol i gefnogi'r Canllawiau Gweithredol. Un enghraifft o'r fath yw 'Foundation for firefighting'.

71. Byddaf yn mynd i'r afael â'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol ac Aide Memoires GTAGC o ran tanau mewn anheddau yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ond at ddibenion yr adran hon rwy'n cynnig y diffiniadau canlynol sydd wedi'u symleiddio'n fwriadol ac nad ydynt yn rhagdybio unrhyw wybodaeth o safbwynt y darlennydd. Daw'r diffiniadau 'ymosodiad allanol ymosodol' ac 'ymosodiad mewnol ymosodol', o Fodel 4 Cwadrant yr Iseldiroedd⁹.

72. Mae terminoleg debyg wedi'i chyflwyno yn y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol 'Firefighting' (ymosodiad tân allanol rhagweithiol ac ymosodiad tân mewnol rhagweithiol) ond mae Model 4 Cwadrant yr Iseldiroedd wedi'i hen sefydlu, a'i gydnabod ac mae wedi bod mewn bodolaeth ymhell cyn y canllawiau gweithredol, 'Firefighting'.

73. Dylai Rheolwr Criw neu Wylfa sy'n gyfrifol am y cerbyd cyntaf i gyrraedd digwyddiad tân mewn annedd gynnal asesiad cychwynnol o'r safle i gasglu gwybodaeth am y peryglon er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch y tactegau mesurau rheoli y byddant yn eu rhoi ar waith i ddatrys y digwyddiad yn ddiogel.

74. Mae ymchwil ryngwladol¹⁰ yn nodi mai'r dacteg mesur rheoli fwyaf effeithiol i leihau'r risg i Ddiffoddwyr Tân a deiliaid sy'n gaeth mewn tân mewn annedd yw rhoi dŵr ar y tân neu o leiaf ar yr ystafell sydd ar dân yn yr amser byrraf posibl. Y dull cyflymaf o wneud hyn yw cyfeirio dŵr i'r ystafell o'r tu allan i'r strwythur gan ddefnyddio

⁹ [201411-BA-Quadrant-Model-for-Fighting-Structure-Fires.pdf \(nipv.nl\)](#)

¹⁰ [20170926-BA-The Offensive exterior approach \(nipv.nl\)/ymchwil All UL FSRI](#)

naill ai jet rîl pibell pwysedd uchel neu jet pwysedd isel ar ffrwd unionsyth sef drwy bibell gyflenwi 45mm i GTAGC (yn ddelfrydol yr olaf am resymau a eglurir ymhellach ymlaen yn yr adroddiad hwn). At ddibenion yr adroddiad hwn, byddaf yn cyfeirio at y dacteg mesur rheoli hon fel 'ymosodiad allanol ymosodol'. Er mwyn bod yn effeithiol, fodd bynnag, mae'n dibynnu ar ddefnyddio cyfradd llif digonol ochr yn ochr â'r technegau cywir i leihau cludiant aer a sicrhau'r lledaeniad gorau o ddŵr yn yr ystafell dan sylw.

75. Ymosodiad mewnol ymosodol yw pan fydd Diffoddwyr Tân, fel arfer mewn timau 2 berson, yn gwisgo offer anadlu (o hyn ymlaen cyfeirir atynt fel y tîm offer anadlu), yn mynd i mewn i'r eiddo dan sylw i ddod o hyd i'r tân ac yna ymladd y tân gyda rhyw fath o gyfryngau diffodd tân. Gall hyn gymryd mwy o amser i'w gyflawni, hyd yn oed pan fydd lleoliad y tân, a'r llwybr cyflymaf ato, yn hysbys.

76. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid i Ddiffoddwyr Tân symud ymlaen drwy fwg trwchus, gwres a lleithder wrth symud rîl pibell pwysedd uchel neu bibell ddosbarthu 45mm o dan bwysedd isel, weithiau drwy sawl ystafell ac o amgylch nifer o rwystrau.

77. Ar y pwynt hwn mae angen nodi'r gwahaniaeth rhwng galluedd y rîl pibell pwysedd uchel a'r bibell gyflenwi pwysedd isel 45mm.

78. Mae pob cerbyd tân yn GTAGC yn cario 2 rîl pibell pwysedd uchel. Cânt cael eu cadw mewn loceri ar y naill ochr i'r cerbyd tân ac wedi'u rholio ar drwm er hwylustod defnydd. Mae pob rîl pibell yn cynnwys 3 x 20m o bibell â diamedr o 19mm gyda darn olaf y bibell yn gorffen mewn cangen (y ddyfais sy'n rheoli llif y dŵr a ryddheir allan o ben y bibell, fel arfer ar ffurf carn pistol a mecanwaith ymlaen/diffodd sef corn neu bale). Maent yn gweithredu ar bwysedd rhwng 25 a 30 bar a gallant ddarparu llif hyd at 110 litr o ddŵr y funud. Dyma gyfradd y llif. Prif fantais y rîl pibell pwysedd uchel yw y gellir ei defnyddio'n gyflym a'i bod yn haws ei thrin na phibell ddosbarthu 45mm pwysedd isel. Yr anfantais sylweddol i hyn yw bod y gyfradd llif 110 litr y funud yn annigonol i atal tân sydd wedi datblygu'n llawn (ar ôl y pwynt fflachiad) mewn ystafell yn effeithiol.

Nodyn: Mae tiwb rîl pibell gyda diamedr o 22mm yn darparu bron i ddwywaith cyfradd llif tiwbiau rîl pibell 19mm ac mae'n cael ei ddefnyddio mewn sawl GTA yn y DU¹¹. Mae GTAGC yn ystyried darparu riliau pibell 22mm ar gerbydau rheng flaen

79. Mae pob cerbyd tân yn GTAGC yn cario hyd at 4 x 25m o bibell ddosbarthu pwysedd isel 45mm a hyd at 6 x 25m o bibell ddosbarthu pwysedd isel 70mm. Mewn gorsafoedd sydd â thyrrau uchel ar diriogaeth yr orsaf, caiff hyd ychwanegol 2 x 51mm eu cario mewn cyfluniad torch Cleveland. Ar un pen o'r bibell mae cyplu gwrywaidd ac ar ben arall y bibell mae cyplu benywaidd. Mae'r cyplu gwrywaidd ar y bibell gyntaf yn cael ei fewnosod mewn allfa (dosbarthu) ar y pwmp tân ac mae'r gangen yn cael ei fewnosod i'r cyplu benywaidd ar ben arall y bibell. Os oes angen mwy nag un darn

¹¹ Flow method | Fire Protection Association (thefpa.co.uk)

25m o bibell, mae'r cyplu gwrywaidd ar yr ail bibell yn cael ei fewnosod yn y cyplu benywaidd ar ddiwedd y bibell gyntaf ac yn y blaen nes cyrraedd yr hyd gofynnol. Y llinell yw'r enw a roddir ar gyfanswm hyd y bibell. Yn GTAGC mae fel arfer 3 allfa ddosbarthu i redeg llinellau pibell o'r cerbydau tân.

80. Defnyddir y bibell gyflenwi pwysedd isel 70mm i gyflenwi dŵr o hydrant tân i danc dŵr y cerbyd tân i ychwanegu at y cyflenwad dŵr neu i gychwyn llinell bibell cyn ychwanegu pibell ddosbarthu pwysedd isel 45mm ar ddiwedd y llinell i'w defnyddio ar ymosodiad mewnol, gan ei bod yn haws ei symud na'r un 70mm. Mae tanciau cerbydau GTAGC yn dal 1800 litr o ddŵr.

81. Mae pibell ddosbarthu pwysedd isel 45mm fel arfer yn gweithredu ar bwysedd rhwng 3 a 7 bar a gall lifo hyd at 685 litr y funud yn dibynnu ar y math o gangen a ddefnyddir. Prif fantais y bibell ddosbarthu 45mm pwysedd isel yw bod cyfradd y llif yn ddigonol i atal tân sydd wedi'i ddatblygu'n llawn (ar ôl pwynt fflachiad) mewn ystafell yn effeithiol. Serch hynny, mae'n anoddach ei symud na rîl pibell pwysedd uchel 19mm. Gall rheoli pibellau fod yn dasg gorfforol sy'n gofyn am ymarferion rheolaidd i'w chynnal yn effeithiol.

82. Mewn rhai GTAau yn y DU mae gan bympiau tân fesuryddion llif sy'n caniatáu i weithredwr y pwmp arsylwi ar y llif gwirioneddol y maent yn ei ddarparu i'r Diffoddwyr Tân drwy'r llinell bibell pwysedd isel. Ar hyn o bryd, nid oes gan bympiau GTACC fesuryddion llif, ond mae hyn yn rhywbeth mae'r Gwasanaeth yn symud tuag at ei ddarparu gan ei bod yn anodd i weithredwr pwmp amcangyfrif cyfraddau llif yn gywir hebddynt.

83. Ym mhob un o'r 97 o ddigwyddiadau, defnyddiwyd o leiaf un rîl pibell pwysedd uchel. O ddadansoddi'r logiau digwyddiadau, mae bron yn sicr mai'r rîl pibell pwysedd uchel oedd y cyfrwng ymladd tân a ddefnyddiwyd gyntaf ac yn ddilynol, ac ym mron pob un ond 11 digwyddiad mewn ymosodiad mewnol ymosodol. Er enghraifft, y neges hysbysol gyntaf mewn 86 digwyddiad oedd naill ai 2BA 1HRJ 4BA 2HRJ, neu mewn un digwyddiad 6BA 3HRJ, sy'n golygu tîm offer anadlu o 2 Ddiffoddwr tân â rîl pibell pwysedd uchel neu 2 neu 3 x tîm offer anadlu o 2 Ddiffoddwr tân, gyda rîl pibell pwysedd uchel yr un. Yn yr 11 digwyddiad oedd yn weddill nid oedd unrhyw gyfeiriad at offer anadlu yn cael ei ddefnyddio ar y neges hysbysol gyntaf sy'n awgrym'n gryf bod y tân yn cael ei ymladd yn allanol.

84. Dim ond mewn un digwyddiad y cofnodwyd defnydd pibell ddosbarthu 45mm pwysedd isel. Fodd bynnag, yn 85 o'r 97 digwyddiad, nododd y Rheolwr Criw neu'r Wylfa oedd yn darparu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad SCD fod difrod tân neu wres y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol ar ôl iddynt gyrraedd, sy'n dynodi tân oedd wedi datblygu'n llawn (ar ôl pwynt fflachiad).

85. Ar nifer fechan o negeseuon hysbysol cyfeiriwyd at jet diogelwch. Llinell o bibell ddosbarthu 45mm pwysedd isel yw jet diogelwch y dylid ei gyflenwi â dŵr yn barod ac sydd o hyd cyfartal i unrhyw linell bibell (pwysedd uchel neu isel) a ddefnyddir at ddibenion ymosodiad mewnol. Y bwriad yw ei bod ar gael i'w defnyddio pe bai unrhyw ddatblygiad andwyol gyda'r digwyddiad, yn enwedig un sy'n golygu bod prif linell yr ymosodiad yn anweithredol. Er bod y rhesymeg ar gyfer hyn yn gadarn, nid yw'n dileu'r

angen i brif linell yr ymosodiad allu delio'n effeithiol ag unrhyw dân y'i defnyddir ar ei gyfer.

86. Ni fydd jet diogelwch a ddefnyddir y tu allan i'r annedd, yn bennaf fel dyfais wrth gefn, o unrhyw ddefnydd i dimau offer anadlu sy'n cynnal ymosodiad mewnol gyda rîl pibell pwysedd uchel os bydd dirywiad yn amodau'r tân.

87. Erbyn i unrhyw dîm offer anadlu dilynol roi'r jet diogelwch ar waith, byddai'n rhy hwyr i liniaru effeithiau datblygiad tân cyflym ar unrhyw dimau offer anadlu sydd eisoes yn yr annedd.

88. Roedd nifer fach o logiau digwyddiadau lle nododd y neges hysbysol gyntaf yn benodol fod y tân yn cael ei ymladd yn allanol yn bennaf oherwydd difrifoldeb y tân (fy rhagdybiaeth i). Ar yr ymweliadau â'r gorsafoedd dywedodd y Diffoddwyr Tân wrthyf eu bod wedi ymosod ar danau mewn anheddau o'r tu allan pan oedd allfa'r tân drwy ffenestr ar ôl iddynt gyrraedd. Fodd bynnag, nid oedd ganddynt wybodaeth am y dechneg i'w defnyddio gyda'r dechneg mesur rheoli hon i gyflawni'r effaith oeri fwyaf posibl drwy fapio dŵr. Mae'r dadansoddiad o logiau digwyddiadau yn dangos ar yr 11 achlysur pan ddefnyddiwyd ymosodiad allanol fel opsiwn tactegol cychwynnol, defnyddiwyd rîl pibell pwysedd uchel (yn hytrach na llinell bibell pwysedd isel 45mm gyda chyfradd llif llawer uwch). Byddai hyn yn egluro pam mai llwyddiant cyfyngedig oedd i'r dacteg ac y byddai difrod tân a gwres wedi cael ei gofnodi y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol wedi hynny.

89. Gofynnais yn benodol i'r Diffoddwyr Tân sut roeddent yn ymosod ar dân mewn ymosodiad mewnol ymosodol. Roedd yr ymatebion yn amrywio yn dibynnu ar y lefelau o brofiad o danau mewn anheddau a gafodd y Diffoddwyr Tân dan sylw (ychydig iawn o brofiad a gafwyd yn bennaf) felly nid oedd yn bosibl i mi ddod i gasgliad diffiniol ynghylch y tactegau a ddefnyddir yn gyffredinol.

90. Dros y ddau ddegawd diwethaf mae Diffoddwyr Tân yn y DU wedi cael eu hyfforddi i oeri nwyon tân gan ddefnyddio pylsiadau o ddŵr gyda chwistrelliad o rîl pibell pwysedd uchel wrth iddynt symud ymlaen tuag at y tân. Bydd hyn bron yn sicr o fod yn aneffeithiol yn erbyn tân sydd â chyfradd rhyddhau gwres uchel. Gall arwain at Ddiffoddwyr Tân yn derbyn niwed thermol gormodol a difrod diangen yn cael ei achosi i'r eiddo oherwydd iddi gymryd mwy o amser i reoli'r tân.

91. Mae ymchwil yn yr Iseldiroedd yn dangos bod cyfeirio bwa ffrwd unionsyth o bibell gyflenwi llif uchel pwysedd isel yn sicrhau gostyngiadau gwell yn y tymheredd na phylsiadau o rîl pibell pwysedd uchel wrth symud ymlaen tuag at y tân¹². Yn ogystal, gwelwyd ei bod yn dechneg haws i'w chyflawni na phylsiadau ar batrwm chwistrell.

¹² [20211207-BA-When-water-goes-up-in-smoke.pdf \(nipv.nl\)](https://www.nipv.nl/20211207-BA-When-water-goes-up-in-smoke.pdf)

92. Gall pibell ddosbarthu pwysedd isel hefyd gyrraedd pellter sylweddol (mwy na'r hyn y gellir ei gyflawni gan rîl pibell pwysedd uchel) sy'n gosod mwy o bellter rhwng y Diffoddwyr Tân a'r tân gan leihau niwed thermol.

93. Dychwelaf at y materion hyn yn fanylach yn yr adroddiad hwn, fodd bynnag, mae un o egwyddorion yr Iseldiroedd a nodir yng nghyhoeddiad 2018 'The Renewed View of Firefighting' yn berthnasol yma:

'Gas cooling has limitations and is predominantly effective in small spaces (maximally 70 m² and with a maximum height of 4 metres) (Lambert & Baaij, 2011). It is important to keep the depth of the attack as short as possible and to apply water to the fire as quickly as possible. Extinguishing the fire is the best form of gas cooling'.

Beth mae'r data yn ei ddangos ar gyfer GTAGC

94. Er mwyn helpu i lywio fy nadansoddiad, creais dabl ar gyfer y set ddata 3 blynedd a oedd yn crynhoi gwybodaeth hanfodol oedd yn disgrifio cyflwr y tân o safbwynt y Rheolwr Criw neu'r Wylfa cyntaf i gyrraedd. Er bod yr union derminoleg ychydig yn wahanol, roeddwn yn gallu pennu dau grŵp gwahanol o ddata.

95. Y cyntaf oedd pan ddisgrifiwyd yr eiddo fel un oedd 'ar dân' neu eiriau i'r perwyl hwnnw. Roedd hyn yn arwydd i mi bod yno dân oedd wedi datblygu'n dda ar ôl fflachiad a allai fod wedi lledaenu y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol ar ddyfodiad y GTA. Roedd hyn yn cyfateb i 71 digwyddiad o'r cyfanswm o 97.

96. Yr ail oedd pan ddefnyddiwyd y term 'mwg i'w weld' neu eiriau i'r perwyl hwnnw. Roedd hyn yn arwydd i mi o dân a reolwyd gan yr awyru nad oedd yn debygol o fod wedi lledaenu y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol ar ddyfodiad y GTA. Roedd hyn yn cyfateb i 12 digwyddiad o'r cyfanswm o 97.

Tabl 5: Negeseuon o'r digwyddiad yn disgrifio cyflwr y tân wrth gyrraedd

	2020/21	2021/22	2022/23	Cyfanswm
Ar dân	15	27	29	71
Mwg i'w weld	8	3	1	12
				83

97. Ym mhob un o'r 71 o ddigwyddiadau pan ddisgrifiwyd yr eiddo fel un oedd ar dân, ymron ym mhob achos defnyddiwyd rîl pibell pwysedd uchel yn llifo, yn yr achos gorau, ar gyfradd o 110 litr y funud a bron bob amser mewn ymosodiad mewnol ymosodol. Mae ymosodiad mewnol ymosodol bron yn sicr wedi amlygu Diffoddwyr Tân i gyfraddau rhyddhau gwres, sydd, ar eu huchaf ymhell dros yr hyn y mae rîl pibell pwysedd uchel yn gallu ei atal yn effeithiol.

98. Ym mhob un o'r 12 digwyddiad pan ddisgrifiwyd mwg yn codi o'r eiddo wrth i'r GTA gyrraedd (oedd felly'n dynodi bod yno dân a reolwyd gan yr awyru yn yr ystafell wreiddiol) cofnodwyd bod difrod tân a gwres y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol wedi digwydd. Mae hyn yn awgrymu'n gryf bod tân yn yr ystafell yn ei chyfanrwydd a bod lledaeniad y tân wedi digwydd ar ôl i Ddiffoddwyr Tân gynnal ymosodiad mewnol ymosodol gan ddefnyddio rîl pibell pwysedd uchel. Mae'n debygol bod hyn wedi digwydd drwy ddiffyg rheolaeth drws ar y pwynt mynediad gan achosi i'r tân gael ei ail-awyru gyda'r cynnydd cyflym cyfatebol mewn tymheredd a chyfradd rhyddhau gwres sy'n anoddach ei hatal â rîl pibell pwysedd uchel sydd â chyfradd llif isel. Bydd y risg uwch i Ddiffoddwyr Tân a difrod ychwanegol i'r eiddo yn amlwg o dan yr amgylchiadau hyn.

99. Mewn 12 digwyddiad dywedodd y Rheolwr Criw neu'r Wylfa oedd yn darparu gwybodaeth i'r Rheolwr Tân i gwblhau'r adroddiad SCD fod y tân yn yr ystafell wreiddiol wrth iddynt gyrraedd ond ei fod wedi ymledu wedi hynny y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol. Ym mhob un o'r 12 digwyddiad, y dacteg gyntaf a ddefnyddiwyd oedd

ymosodiad mewnol ymosodol gan ddefnyddio rîl pibell pwysedd uchel. Mewn 5 o'r digwyddiadau defnyddiwyd yr ymadrodd 'ar dân' neu eiriau i'r perwyl hwnnw i ddisgrifio'r tân. Mae hyn yn awgrymu'n gryf fod pwysau ymosod annigonol ynghyd â diffyg rheolaeth ar yr awyru wedi cyfrannu at ddirywiad y digwyddiad yn dilyn dyfodiad y GTA. Bydd y risg uwch i Ddiffoddwyr Tân a difrod ychwanegol i'r eiddo yn amlwg unwaith eto o dan yr amgylchiadau hyn.

100. Mae'r testun canlynol wedi'i gopïo o 'The Renewed View of Firefighting' ac mae'n uniongyrchol berthnasol yma:

'Research shows that an attack with sufficient cooling capacity in the fire room, or as close to the fire room as is possible, is most effective. So if this can be done, this is the approach to take. As long as the building remains closed, there is still time. Therefore, the adage is: When everything is closed, the fire is at a pause. Creating an opening is to step on the accelerator'.

101. Bydd ocsigen yn cyrraedd y tân yn llawer cyflymach na Diffoddwyr Tân sy'n defnyddio ymosodiad allanol ymosodol os nad yw'r agoriad y maent yn mynd i mewn i'r adeilad drwyddo wedi'i reoli. Bydd hyn yn achosi i dân a reolir gan awyru dyfu'n gyflym. Caiff y sefyllfa ei gwaethygu gan Ddiffoddwyr yn defnyddio cyfradd llif o 110 litr y funud sef yr unig beth sydd ar gael iddynt. Mae hwn yn gyfuniad hynod beryglus ond yn sefyllfa y gellir ei hosgoi'n llwyr.

102. Mae ymarferoldeb system mobileiddio GTAGC yn cynnwys opsiwn hidlo i restru negeseuon hysbysol mewn trefn gronolegol. Ar nifer sylweddol o ddigwyddiadau, mae lledaeniad y tân o'r negeseuon hysbysol cyntaf i'r negeseuon hysbysol dilynol yn cael ei ddangos yn glir (h.y. lledaenu o'r llawr gwaelod i'r llawr cyntaf neu'r llawr cyntaf i'r atig).

103. O ystyried pwysau'r dystiolaeth sydd ar gael, rwy'n ystyried bod y tactegau mesurau rheoli a ddefnyddiwyd ar nifer sylweddol o achlysuron wedi arwain at Ddiffoddwyr Tân yn wynebu lefel ddiangen o berygl a allai fod wedi achosi anaf difrifol neu'n waeth a/neu fod difrod i eiddo wedi digwydd y gellid bod wedi'i osgoi.

104. Yn adran nesaf yr adroddiad hwn, rwy'n ystyried yr achosion sylfaenol a allai fod wrth wraidd hyn.

Adran 2

Polisi gweithredol – cefndir

105. Mae Rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn gosod dyletswydd ar gyflogwyr i wneud asesiad addas a digonol o'r risgiau iechyd a diogelwch a allai wynebu eu gweithwyr tra byddant yn y gwaith. Felly, mae'n ofynnol i GTAAu gynhyrchu asesiadau risg sy'n nodi peryglon a mesurau rheoli ar gyfer pob gweithgaredd gan gynnwys ymateb i danau mewn anheddau.

106. Mae'r NFCC yn cynhyrchu Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol ar ran y sector GTA ledled y DU. Y ffordd orau o ddisgrifio'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol yw eu bod fel asesiadau risg cyffredinol sy'n benodol i ddigwyddiadau a gyflwynir ar ffurf datganiadau mesurau peryglon a rheolaeth a ddatblygir yn genedlaethol ar gyfer llunwyr polisi ym mhob GTA i'w defnyddio fel sail i Asesiadau Risg Gweithredol, Gorchmynion Gweithdrefnau a Pholisi Gweithredol y Gwasanaeth Lleol neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt. Bwriad hyn yw cynorthwyo'r GTA i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Reoliad 3 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

107. Pan luniwyd y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol, y bwriad oedd disodli'r holl ganllawiau blaenorol a gyhoeddwyd yn genedlaethol (Asesiadau Risg Cyffredinol, Llawlyfrau'r Gwasanaeth Tân ac Achub, Llythyrau at Brif Swyddogion ac ati) gan grynhoi canllawiau mewn un man gyda strwythur a oedd yn syml i'w ddeall ac yn hawdd ei ddilyn. Daw'r disgrifiad canlynol o wefan y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol¹³:

'Operational Guidance spans a wide range of activity. There is a structure to make sense of it all; it uses the hazards encountered at incidents and the measures used to control or eliminate them. The guidance is structured so that it starts with the elements that affect all incidents, then explores the environments in which fire and rescue services work, and finally the activities that are carried out'.

108. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, 'Foundation for firefighting', 'Firefighting' a 'Fires in buildings' yw'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol perthnasol yng nghydestun yr arolygiad hwn. Mae 'Firefighting' a 'Fires in buildings' yn dod o dan adran 'Gweithgaredd' y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol.

109. Cyhoeddwyd 'Foundation for firefighting' a 'Firefighting' ar 1 Hydref 2024 i ddisodli'r canllawiau gweithredol etifeddol 'Fires and Firefighting'. Mae GTAGC yn darparu dolen i wefan y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol ar yr Hwb Tân lle gall unrhyw weithiwr sydd â chyfeiriad e-bost GTAGC greu cyfrif.

¹³ [About Operational Guidance - NFCC](#)

110. Mae cynnwys 'Fires and firefighting' yn seiliedig i raddau helaeth ar Lawlyfr y Gwasanaeth Tân 'Compartment Fires and Tactical Ventilation' a gyhoeddwyd gyntaf yn 1997 i ddisodli ymhlith eraill y gyfrol 'Manual of Firemanship Book 6a, Practical Firemanship' (mae'r Llawlyfrau etifeddol yn dyddio'n ôl flynyddoedd lawer sy'n egluro'r derminoleg benodol wrywaidd). Roedd cynnwys Llyfr 6a i raddau yn dal i fod yn seiliedig ar draethodau James Braidwood (sylfaenydd yr hyn sydd bellach yn Frigâd Dân Llundain a'r PST cyntaf i gyflwyno dulliau ymladd tân mewnol) a ysgrifennwyd yn y 1800au ac a oedd yn argymhell yn gryf dactegau fel rheoli llif ocsigen i mewn i strwythur (gwrth-awyru) ynghyd â defnyddio digon o ddŵr ar y tân yn yr amser byrraf posibl (yr holl dactegau o ran mesurau rheoli a awgrymir gan ymchwil ryngwladol ac sydd wedi'u hategu gan wyddoniaeth).

111. Dylanwadwyd yn gryf ar 'Compartment Fires and Tactical Ventilation' gan ddwy astudiaeth a gomisiynwyd gan y Grŵp Datblygu Ymchwil Tân ym 1994 ac y cyfeirir atynt yn adran 'Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol' yr adroddiad Adolygiad Thematig o Hyfforddiant Gweithredol¹⁴. Roedd yr adroddiadau hyn yn ystyried tactegau ymladd tân a ddatblygwyd yn Sweden a'r dull o awyru tactegol a ddefnyddid yn America ar y pryd. Roedd y ddau adroddiad yn argymhell y dulliau tactegol i'w mabwysiadu gan GTAAu y DU. Dylid nodi mai bwriad y ddau adroddiad oedd lleihau colledion i'r diwydiant yswiriant yn hytrach na sicrhau unrhyw welliannau i ddiogelwch Diffoddwyr Tân.

112. Datblygwyd dull Sweden¹⁵ gan Matts Rosander (hyfforddwr ymddygiad tân) a Krister Gisselson (peiriannydd tân) ddiwedd y 1970au mewn ymateb i nifer o farwolaethau diffoddwyr tân mewn digwyddiadau yn Sweden. Roedd hyn yn cynnwys system lawn yn cynnwys offer, tactegau a chyfleusterau hyfforddi newydd.

113. Dyluniwyd system Rosander a Giselsson yn bennaf i'w defnyddio mewn fflatiau yn Sweden a adeiladwyd o goncrit, a oedd wedi'u hinswleiddio'n dda, gyda ffenestri gwydr triphlyg y gellid disgwyl iddynt barhau i fod yn gyfan wrth i'r GTA gyrraedd. Bydd tanau yn yr amgylchiadau hyn bron yn sicr o fod wedi'u rheoli gan yr awyru. Yn wahanol i'r DU a GTAGC, mae timau offer anadlu yn Sweden yn cynnwys tri Diffoddwr Tân. Mae'r trydydd Diffoddwr Tân, sy'n cyflawni rôl arweinydd tîm, yn dal y drws ar gau y tu ôl i'r ddau Ddiffoddwr Tân arall yn y tîm i atal yr ocsigen rhag mynd i mewn i'r ystafell sydd ar dân, gan gyfyngu ar y cyfle i'r tân ddatblygu'n gyflym (nid oedd llenni mwg yn cael eu defnyddio'n helaeth ar yr adeg hon). Yn hanfodol, dim ond mewn adrannau preswyl bach gyda llwythi tân cyfyngedig (ac felly potensial cyfradd rhyddhau gwres cyfyngedig) y bwriadwyd defnyddio'r system, o'i gymharu ag adrannau masnachol neu ddiwydiannol mwy.

114. Wrth greu eu system, treuliodd Rosander a Giselsson ddwy flynedd yn gweithio gyda chwmni gweithgynhyrchu i ddatblygu'r gangen Fogfighter. Hon oedd y gangen

¹⁴ Adolygiad Thematig o hyfforddiant gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru

¹⁵ Tynnwyd y disgrifiad hwn o adroddiad cynhwysfawr ynghylch y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol a ysgrifennwyd yn 2017 gan Lee Johnston, Rheolwr Gorsaf, GTA Gortlewin Sussex.

diffodd tân a ddefnyddiwyd yn gyffredinol yn Sweden am dros 20 mlynedd. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau'r maint gorau posibl o ddiferion ar osodiad chwistrell at ddibenion oeri nwyon tân drwy bylsiadau chwistrell wrth i'r Diffoddwyr Tân symud drwy'r adeilad tuag at yr ystafell ar dân. Fe'i defnyddiwyd gyda phibell cyflenwi pwysedd isel 38mm a gall gyflawni cyfradd llif o 300 litr y funud, ac mae'n parhau i gael ei defnyddio felly. Y dull hwn o oeri nwyon tân drwy'r dechneg pylsio ynghyd â rheoli mewnlif ocsigen yw'r hyn, yn syml, sy'n atal tân a reolir gan awyru rhag datblygu mor gyflym fel y gwelir yn Ffigur 1 yn Adran 1 yr adroddiad hwn.

115. Unwaith y bydd y Diffoddwyr Tân yn nesáu at yr ystafell sydd ar dân, maent yn newid o batrwm chwistrellu pylsiadau o ddŵr yn y gangen i oeri a gwanhau'r nwyon i ffrwd unionsyth o ddŵr i ddiffodd y tân gyda'r gyfradd llif uchaf bosibl.

116. Yn GTAGC (ac ar draws rhan helaeth o'r DU), nid yw'r drws y mae Diffoddwyr Tân yn mynd i mewn i eiddo drwyddo'n cael ei reoli fel arfer i atal mewnlif ocsigen. Nodir goblygiadau hyn yn Adran 1 o'r adroddiad hwn.

117. Fel y dangoswyd drwy ddadansoddi data digwyddiadau yn Adran 1, y cyfrwng diffodd tân diofyn yn GTAGC yw'r rîl pibell pwysedd uchel 19mm sy'n gallu dosbarthu cyfradd llif o 110 litr y funud fel llif unionsyth ond yn ymarferol byddai'n cyflawni llawer llai na 110 litr y funud wrth ryddhau pylsiadau dŵr ar batrwm chwistrellu at ddibenion oeri a gwanhau nwyon wrth symud tuag at y tân. Y dechneg pylsio, er bod hyn gyda rîl pibell pwysedd uchel 19mm yn hytrach na phibell cyflenwi pwysedd isel, llif uchel, yw'r unig elfen sylweddol o system Rosander a Giselsson sydd wedi'i mabwysiadu a'i hymgorffori fel tacteg ledled y DU ac yn GTAGC.

118. Cymhlethir y sefyllfa wrth ystyried y dull gweithredu Americanaidd o awyru a hyrwyddir yn 'Compartment Fires and Tactical Ventilation', sef sicrhau fent yn gynnar ac yn aml yn ystod y broses, sy'n groes i'r hyn yr oedd GTAau y DU wedi'i ymarfer hyd at 1997 pan oedd awyru yn digwydd yn bennaf unwaith y diffoddwyd y tân.

119. Mae llawer o wahaniaethau rhwng GTAau yn y DU ac adrannau tân yn America. Fel arfer, Criwiau Peiriannau a Chriwiau Ysgolion yw'r criwiau mewn gorsafoedd tân yn America. Fel arfer, bydd y ddau yn cyrraedd digwyddiad ar yr un pryd.

120. Mae'r Criw Peiriannau yn darparu llawer iawn o ddŵr at ddibenion ymosodiad allanol neu fewnol ymosodol drwy bibellau dosbarthu pwysedd isel 1 ½, 1 ¾ o ddiamedr neu 2 fodfedd (38mm, 45mm neu 51mm). Yn America mae'r cyflenwad dŵr domestig yn dod o'r prif gyflenwad (400mm diamedr a mwy) sy'n groes i'r sefyllfa yn y DU lle mae hydrantau tân wedi'u lleoli ar y prif gyflenwad domestig (diamedr o 100mm) felly fel arfer nid oes prinder dŵr mewn ardaloedd trefol ledled America.

121. Mae Diffoddwyr Tân y Criw Ysgolion fel arfer wedi defnyddio eu cyfarpar (sy'n cyfateb i ysgol drofwrdd estynadwy yn y DU) i gael mynediad i'r to i dorri fent allfa fertigol (i wacáu) lle mae mwg a nwyon tân yn gadael y strwythur oherwydd eu hysgafnder naturiol. Pan gaiff hyn ei gydlyn ag ymosodiad mewnlif ymosodol i atal y tân mae hyn, yn ddi-os yn dacteg effeithiol, (er gwaethaf y difrod i'r to a wnaed drwy greu'r fent fertigol) a bydd yn arwain at amodau gwell i Ddiffoddwyr Tân a deiliaid sy'n gaeth. Fodd bynnag, os na fydd dŵr yn cael ei roi ar y tân ar yr un pryd ag y caiff y tân

ei awyru, yna mae'n anochel y bydd y tân yn datblygu'n gyflym yn dilyn hynny yng nghyd-destun cynnwys adeiladau modern sydd o darddiad synthetig, gan arwain at ddirywiad sylweddol mewn amodau.

122. Mae'n ddigon posibl y byddai'r dechneg hon wedi bod yn llwyddiannus yn y dyddiau pan fyddai cynnwys adeilad â chyfraddau rhyddhau gwres is wedi bod yn gysylltiedig â'r tân oherwydd mae'n ddigon posibl y byddai'r tanau wedi cael eu rheoli gan danwydd yn hytrach na gan yr awyru. Serch hynny, ychydig iawn o le sydd yna ar gyfer camgymeriadau gyda llwythi tân modern nodweddiadol heddiw wrth ddelio â tân a reolir gan yr awyru. O ganlyniad i ymchwil a wnaed gan Sefydliad Ymchwil Diogelwch Tân Labordai Tanysgrifenwyr (UL FSRI), nid yw llawer o Adrannau Tân yr Unol Daleithiau bellach yn defnyddio'r dacteg hon.

123. Nid yw awyru fertigol (creu fent allfa yn y to) yn dacteg sydd wedi ennill ei phlwyf yn y DU. Serch hynny, mae awyru llorweddol drwy agor drysau neu ffenestri yn llawer haws i'w gyflawni. Hyd at 1997 a chyhoeddi 'Compartment Fires and Tactical Ventilation' ni fyddai Diffoddwyr Tân yn y DU yn sicrhau awyriad fel arfer mewn tanau mewn adeiladau nes bod y tân wedi'i ddiffodd. Yn sicr, newidiodd hynny ar ôl 1997.

124. Roedd 'Compartment Fires and Tactical Ventilation' yn argymhell yn gryf fanteision awyru ond roedd yn llai eglur ynghylch yr anfanteision a'r rheidrwydd i ddefnyddio dŵr ar y tân ar yr un pryd ag y defnyddir yr awyru. I raddau adlewyrchwyd yn y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol 'Fires and firefighting' a 'Fires in buildings' er bod sawl cyfeiriad penodol at effeithiau awyru heb reolaeth ar dân heb ddefnyddio dŵr ar yr un pryd yn y Canllawiau hyn. Aethpwyd i'r afael â hyn i raddau yn 'Foundation for firefighting' a 'Firefighting'.

125. Daw'r canlynol o Gynodeb Gweithredol adroddiad 2017 a ysgrifennwyd gan Lee Johnston o GTA West Sussex o'r enw 'Fire fighting guidance in the UK: A proposal to move to an evidence-based strategy'.

'UK firefighting guidance underwent a complete transformation between 1994 and 1997. Following a programme of research aimed at reducing the financial losses from large fires, UK fire service guidance began advocating an American-style ventilation strategy combined with a Swedish-style suppression strategy.'

However – neither strategy was fully implemented; neither was fully suited to the UK fire environment; the two approaches had not been designed to work together; US ventilation theories were not based on scientific evidence and have since been disproved; and both the US and Sweden have moved on in many ways from the strategies that they used in the 1990s, while the UK has not'

126. Yn fy marn i, mae hyn yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa yn y DU ac yn GTAGC o safbwynt y tactegau mesurau rheoli a ddefnyddir fel arfer mewn tanau mewn anheddau a'r rheswm dros hynny.

Polisi gweithredol – Aide Memoires GTAGC

127. Mae canllawiau gweithredol yn GTAGC wedi'u cynnwys yn yr Aide Memoires sydd ar gael drwy'r dudalen Gweithrediadau Technegol ar yr Hwb Tân. Mae yna hefyd ddolen i wefan y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol ar y dudalen Gweithrediadau Technegol.

128. Yn hanesyddol, cyhoeddodd GTAGC Orchmynion Gweithdrefnau a Pholisi Gweithredol y Gwasanaeth a oedd wedi'u halinio â'r mynegai Asesiadau Risg Cyffredinol etifeddol a ddisodlwyd gan y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol. Mae GTAGC wedi archifo'r Gorchmynion Gweithdrefnau a Pholisi Gweithredol a'u disodli gydag Aide Memoires. Esboniodd y swyddogion wrthyf fod awydd cryf yn GTAGC i symleiddio a chyfuno canllawiau o sawl lleoliad i un porth pan gyflwynwyd y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol am y tro cyntaf. Ar y pryd rhagwelwyd y byddai'r 'Offeryn Integreiddio Gwasanaethau' sef cynnyrch gan y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol yn cynorthwyo'r broses hon. Ym marn y Swyddogion, byddai'r offeryn hwn, ynghyd â'r Aide Memoires wedi'u diweddaru, yn darparu'r athrawiaeth weithredol a'r polisi gweithredol priodol a fyddai'n dileu'r angen i ddiweddaru'r hyn a ystyriwyd yn gyfres o Orchmynion oedd wedi hen ddyddio. Buddsoddwyd ymdrech i ddiweddaru'r Aide Memoires gweithredol, fel eu bod yn adlewyrchu tactegau mesur rheoli lleol a chenedlaethol ac fel y byddai'r wybodaeth hon ar gael i griwiau ar safle'r digwyddiad. Fodd bynnag, mae'r oedi wrth gyflwyno'r Offeryn Integreiddio Gwasanaeth wedi gadael bwlch sylweddol i GTAGC. Byddaf yn dychwelyd at y pwynt hwn yng nghrynodeb yr adran hon.

129. Cyhoeddwyd yr Asesiadau Risg Cyffredinol gan Adran Arweiniol Llywodraeth y DU ar gyfer y GTAau sydd, ar wahanol adegau, wedi newid rhwng Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (a gwahanol fersiynau ohoni) a'r Swyddfa Gartref. Roedd pwrpas yr Asesiadau Risg Cyffredinol yn debyg, yn fras, i bwrpas y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol, sef darparu arweiniad i lunwyr polisi GTAau wrth ddatblygu Asesiadau Risg Gweithredol, Gorchmynion Gweithdrefnau a Pholisi Gweithredol lleol neu'r hyn oedd yn cyfateb iddynt.

130. Caiff Aide Memoires fel arfer eu cynnwys ar ddechrau Asesiad Risg Gweithredol neu Orchmynion Gweithdrefnau a Pholisi Gweithredol y Gwasanaeth i'w cyrchu trwy Derfynell Data Symudol ar y ffordd i ddigwyddiad neu wrth gyrraedd digwyddiad i weithredu fel ysgogiad i Gomander cyntaf y Digwyddiad ar beryglon a thactegau mesurau rheoli. Nid ydynt fel arfer yn hwy na dwy dudalen ac nid ydynt yn cynnwys y manylion a fyddai'n cael eu gweld mewn Asesiad Risg Gweithredol neu Orchmynion Gweithdrefnau a Pholisi Gweithredol y Gwasanaeth.

131. Mae GTAGC wedi cynhyrchu'r Aide Memoires canlynol sy'n berthnasol i wybodaeth am beryglon a thactegau mesurau rheoli diffodd tân mewn anheddau domestig:

- F (7) Fireground hydraulics & flow rates (5 tudalen)
- F (17) Fires in basements (2 dudalen)
- F (18) Fires in thatched roofs (2 dudalen)
- P (5) Positive pressure ventilation (1 dudalen)

- T (1) Timber framed building fires (2 dudalen)
- T (2) Fires in tall buildings (6 thudalen)

132. Mae fformat yr Aide Memoire wedi'i safoni i raddau helaeth ac mae'n cynnwys yr adrannau canlynol:

- Cyflwyniad
- Gwybodaeth am beryglon (neu beryglon a risgiau sylweddol)
- Mesurau rheoli (o dan y pennawd 'Dylai Comander y Digwyddiad')

133. Mae'r peryglon a restrir yn yr Aide Memoire yn cael eu dynodi gan symbol perygl o'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol (i nodi dyfyniad uniongyrchol o'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol). Mae'r mesurau rheoli a restrir yn yr Aide Memoire naill ai wedi'u dynodi gan symbol mesur rheoli o'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol (i nodi dyfyniad uniongyrchol o'r Canllawiau) neu symbol bathodyn GTAGC (i nodi mesur rheoli lleol).

134. At ddibenion yr arolygiad hwn, adolygais yr Aide Memoires canlynol gan fod ynddynt gynnwys sy'n uniongyrchol berthnasol i'r dadansoddiad hwn:

- F (7) Fireground hydraulics & flow rates
- F (17) Fires in basements
- F (18) Fires in thatched roofs
- P (5) Positive pressure ventilation
- T (2) Fires in tall buildings

Dadansoddiad o gynnwys Aide Memoires GTAGC

135. Nid oes gan GTAGC un Polisi diffiniol sy'n nodi ei safbwynt mewn perthynas â thactegau ymladd tân mewn anheddau neu unrhyw dân mewn strwythur. Yn hytrach, mae'r canllawiau ymladd tân strwythurol wedi'u rhannu ar draws yr Aide Memoires a restrir yn flaenorol. Mae Aide Memoires ar gyfer diffodd tân strwythurol yn gyfyngedig o ran eu cwrpas ac nid ydynt yn adlewyrchu'r holl wybodaeth am beryglon a'r mesurau rheoli a nodir yn y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol 'Firefighting' a 'Fires in buildings' neu'r 'Foundation for firefighting'.

136. Mae diffyg canllawiau trosfwaol ar gyfer diffodd tân strwythurol, neu unrhyw Asesiadau Risg Gweithredol sylweddol ar gyfer pob agwedd ar weithgarwch gweithredol tân ac achub (achub technegol, hazmat ac ati) yn hepgoriad sy'n gadael GTAGC yn agored i risg yn fy marn i. Yn dilyn fy adborth i'r Prif Swyddogion i'r perwyl hwn cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i weithredu datrysiad gan gydweithio â GTA De Cymru a GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru.

137. Ar bob ymweliad â'r gorsafoedd, roedd y Diffoddwyr Tân yn cydnabod bod Aide Memoires yn gyfyngedig o ran eu cwrpas gan fynegi'n gryf eu bod ffafrio un pwynt cyfeirio unigol ar gyfer canllawiau ymladd tân sy'n cynnwys manylion digonol a hollgynhwysfawr ar beryglon a thactegau mesurau rheoli. Fodd bynnag, dywedodd y Diffoddwyr Tân fod Aide Memoires yn bwynt cyfeirio defnyddiol ar gyfer gweithredu ar safle'r digwyddiad.

138. Mae Aide Memoire **F (7) Fireground hydraulics and flow rates** yn cynnig canllawiau i Ddiffoddwyr Tân ynghylch pwysau'r ymosodiad, sef mesur rheoli hanfodol.

139. Mae'r adran 'Cyflwyniad' yn cynnwys y testun canlynol:

At its simplest, the flow rate is the amount of extinguishing media being applied to a fire at any one time, referred to in litres per minute (L/min).

Required flow rate may be simply viewed as the amount of firefighting media required to control and ultimately extinguish a fire.

This introduces many variables; more precisely two flow rates need to be considered:

- *Critical Flow Rate (CFR): typically this would be the absolute minimum amount of firefighting media flow needed to fully suppress a fire at any given level of involvement*
- *Tactical Flow Rate (TFR): the target flow for a primary attack hose line or lines*

140. Mae hwn yn fersiwn gryno o'r testun sydd wedi'i gynnwys yn EuroFirefighter, Pennod 12, Adequate 'Firefighting Water' – you need this! (t. 235) a ysgrifennwyd gan y diweddar Paul Grimwood. Mae'r testun gwirioneddol yn EuroFirefighter fel a ganlyn:

Critical flow-rates, below which a developing fire is unlikely to be controlled during the growth or steady state periods. (2.0 L/min/m²)

Minimum flow-rates where suppression is achievable but Firefighters may be exposed to longer duration fires and more punishing conditions. (3.7 L/min/m²)

Optimum (adequate) flow-rates where control of the fire is achievable without unnecessary punishment to Firefighters. (6.0 L/min/m², two dwelling rooms totalling 32m²). 6.5 L/min/m² (commercial building fire 50-100m²)

Nodyn: 'Optimum' means the absolute minimum amount required to extinguish a certain sized fire effectively and safely. A secondary safety (back-up) line of at least equal flows should always be provided in addition, in support.

141. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng diffiniad Paul Grimwood o'r Gyfradd Llif Critigol a'r hyn a nodir yn yr Aide Memoire. Os yw'r diffiniad o Gyfradd Llif Critigol i aros yn yr Aide Memoire yna dylai adlewyrchu'r fersiwn yn EuroFirefighter.

142. Mae'r adran 'Gwybodaeth am beryglon' yn parhau gyda'r canlynol:

...The mathematical calculations for the amount of water required to extinguish a given fire are relatively complex. However, as a fire ground rule of thumb, for fires from 50 to 600m² the following calculation could be considered:

Optimum flow rate (L/min) = fire area (m²) x 5

143. Ar wahân i'r ffaith bod hyn yn wybodaeth ynghylch mesurau rheoli yn hytrach na gwybodaeth ynghylch peryglon mae'n fersiwn gryno unwaith eto o'r testun a gynhwysir yn EuroFirefighter, Pennod 12, Adequate 'Firefighting Water' – you need this! (t. 236/7). Mae'r testun ei hun fel a ganlyn:

Based on the author's earlier research from 100 fires in London in 1989 and the GCU research described here, a series of rough fire ground rule of thumb guides were developed for UK national operational guidance (NOG) as follows:

- *Area of fire (m²) multiplied by 5 (for fires involving between **100-500 m²** of floor area) $A \times 5 = \text{required flowrate (L/min)}$ - ($A = \text{Area of floor in m}^2$)*
- *One low flow handheld fire stream (350 L/min) (say 100 galls/min) per 75 m² of floor area fire involvement*

144. **Where the fire area is less than 120m² the fire-ground rule-of-thumb is inadequate** and where fire areas >600m² it begins to estimate very high flow-rates. Therefore, the fire-ground formula $A \times 5$ is only suited for use within the parameters as discussed above. **Where deployment is for a fire area less than 120m², the**

minimum target flow-rate on any primary attack hose-line should be 200-500 L/min (1 or 2 x 22mm hosereels) on high pressure or 350-500 L/min on low pressure. (Hefyd, gweler y canllawiau ym mhennod 3 – Fire Dynamics).

145. Fy mhwyslais i yw'r testun a amlygwyd mewn print trwm. Nid yw'r testun yn yr Aide Memoire yn nodi ar unrhyw bwynt y dylai'r isafswm cyfradd llif targed ar unrhyw linell ymosodiad sylfaenol fod rhwng 200 a 500 litr y funud, ac ni ellir cyflawni hyn gyda'r rîl pibell 19mm sy'n cael ei ddefnyddio yn GTAGC.

146. Mae'r graff yn Atodiad 1 yn dangos isafswm cyfradd llif o 200 litr y funud ar gyfer tanau anheddau preswyl, gwestai, swyddfeydd, siopau a thanau eraill ond efallai na fydd hyn yn amlwg i'r darlennydd. Nid oedd unrhyw Ddiffoddwyr Tân, Rheolwyr Criw na Gwylfa yn ymwybodol o'r atodiad pan ofynnais y cwestiwn wrth ymweld â'r gorsafoedd.

147. Dylid mynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth.

148. Mae cyflwyniad Aide Memoire **F (17) Fires in basements** yn nodi'r canlynol sy'n cael ei ddyfynnu'n uniongyrchol o'r adran 'Hazard Knowledge' ym mhennod 'Fires in basements' yn y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol 'Fires in buildings':

'Fire behaviour in basements is unpredictable and they may behave in a similar way to highly insulated buildings; the highly insulated space may allow for more intense and rapid fire growth'.

Ar ben ei hun, mae'r datganiad hwn yn gamarweiniol. Bydd gofod wedi'i inswleiddio'n dda yn cyfyngu ar faint o ocsigen sydd ar gael i'r tân a fydd yn ei dro yn cyfyngu ar dwf tân sydd i'r gwrthwyneb i *'more intense and rapid fire growth'*. Fe'i dilynir gan y frawddeg isod:

'There is likely to be a lack of ventilation within the basement, however some ventilation may be provided by means of pavement lights and doors. There is a risk of rapid fire development or backdraught during opening of such vents during firefighting operations'.

149. Gallaf ddeall pam mae hyn wedi'i gopïo'n uniongyrchol o'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol, ond nid yw wedi'i eirio'n dda iawn. Byddai'n llawer cliriach i'r darlennydd pe bai'n cael ei esbonio heb unrhyw amwysedd pam y bydd y gofod sydd wedi'i inswleiddio'n dda yn cyfyngu ar dwf y tân h.y. oherwydd prinder cyflenwad ocsigen, ond pan fydd ocsigen yn cael ei gyflwyno yna bydd twf cyflym yn y tân yn dilyn os nad yw'r tân yn cael ei atal ar yr un pryd. I ddileu unrhyw amwysedd, dylid cael brawddeg ychwanegol i esbonio bod inswleiddio yn cyfyngu ar gyflenwad allanol o ocsigen gan nodi'n glir y bydd awyru heb ei reoli i'r islawr yn arwain at dwf cyflym mewn tân gaiff ei reoli gan awyru os nad yw'n cael ei atal ar yr un pryd.

150. Dylai'r dyfyniad canlynol gan James Braidwood ffurfio'r egwyddor arweiniol mewn perthynas ag awyru ar gyfer unrhyw dân adrannol, mewn islawr neu fel arall:

The door should be kept shut while the water is being brought, and the air excluded as much as possible, as the fire burns exactly in proportion to the quantity of air which it receives - James Braidwood, 1866

Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am Asesiad Effaith Gweithredol neu ddatganiad rheoli peryglon a risg cyffredinol sy'n cwmpasu'r holl beryglon generig sy'n deillio o danau strwythurol, gan gynnwys tanau a reolir gan yr awyru a allai fod yn fwy tebygol o fod mewn isloriau, ond yn sicr nid ydynt yn gyfyngedig i isloriau.

151. Mae tudalen 2 o F (17) yn cynnwys rhestr o 6 ystyriaeth fesul brawddeg unigol i Gomander y Digwyddiad mewn perthynas â thactegau mesurau rheoli ar gyfer tanau mewn isloriau sy'n iawn ar gyfer Aide Memoire ond nid yw'n addas nac yn ddigonol ar gyfer Asesiad Risg Gweithredol cynhwysfawr o gwbl.

152. Rwyf wedi cynnwys **Aide Memoire F (18) Fires in thatched roofs** yn y dadansoddiad hwn gan fod sawl digwyddiad yn y dadansoddiad pan ledaenodd tanau naill ai o ystafelloedd o fewn yr annedd i doeau neu o'r to i'r annedd.

153. Mae Cyflwyniad F (18) yn nodi 'Thatched roofs are designed to repel water making traditional firefighting tactics ineffective'. Er bod hyn yn ymddangos yn amlwg, mae hyn yn parhau i fod yn arweiniad cadarn. Roedd sawl digwyddiad wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad o ddigwyddiadau yn Adran 1 a oedd yn ymwneud â thanau mewn toeau, ac ymddengys o'r negeseuon hysbysol, fod ymosodiad allanol wedi'i ddefnyddio ar bob un ohonynt, gan ddefnyddio'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn 'dactegau diffodd tân traddodiadol'.

154. Mae tudalen 2 F (18) yn cynnwys rhestr o ddeg ystyriaeth fesul brawddeg unigol ar gyfer Comander y Digwyddiad, ac mae tair ohonynt yn dactegau mesurau rheoli diffodd tân:

- *Consider creating a firebreak to prevent fire spread, considering the time to implement*
- *Consider separating burning material from the fire using heavy plant and extinguishing it*
- *Consider requesting or using lances to penetrate thatch – (i.e. Wildfire vehicle, Pinzgauer, Bremach)*

Mae hyn yn gwbl addas ar gyfer Aide Memoire ond nid yw'n addas nac yn ddigonol ar gyfer Asesiad Risg Gweithredol cynhwysfawr o gwbl.

155. Mae Aide Memoire P (5) **Positive pressure ventilation** yn cynnwys un dudalen a rhestr o bedwar pwynt bwled ar ddeg sy'n nodi'r meini prawf ar gyfer defnyddio awyru pwysedd positif wedi'u rhagflaenu gan ddatganiad mewn coch a llythrennau bras sy'n ei gwneud yn glir mai dim ond mewn sefyllfaoedd wedi tân y dylid defnyddio awyru pwysedd positif.

156. Mae hyn yn gwbl addas ar gyfer Aide Memoire ond nid yw'n addas nac yn ddigonol ar gyfer Asesiad Risg Gweithredol cynhwysfawr o gwbl.

157. Mae Cyflwyniad **T (2) Fires in tall buildings** yn nodi 'This Aide Memoire is to assist the initial Incident Commander with initial firefighting, command and sectorisation considerations'. Yna ceir 6 thudalen sy'n cynnwys nifer o bwyntiau bwled sy'n mynd y tu hwnt i fod yn ysgogiad ar gyfer Comander y Digwyddiad yn y lle cyntaf.

158. Yn yr adran 'Hazard Knowledge', rhestrir deg perygl gan gynnwys y canlynol sy'n benodol i gamau cychwynnol ymladd tân:

- *Failure of compartmentation*
- *Undetected fire spread*
- *Flashover and backdraught*
- *Torch and coandra (sic) effect*

159. Nid oes unrhyw fanylion pellach wedi'u darparu ynghylch beth yw'r peryglon hyn a sut y gellid eu hadnabod, sy'n iawn ar gyfer Aide Memoire ond nid yw'n iawn os nad yw manylion yr wybodaeth sylfaenol angenrheidiol ar gael i Ddiffoddwyr Tân mewn mannau eraill.

160. Dilynir hyn gan adran 'Camau Cychwynnol' sy'n manylu ar y camau sydd i'w cymryd gan gomander y cerbyd cyntaf sy'n cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys y cyfarwyddyd canlynol:

*'A fire suppression crew must **NOT** be committed until the safety crew/jet is established'*

Dilynir hyn gan adran Tactegau Gweithredol sy'n rhestru 23 o ystyriaethau gan gynnwys y canlynol:

- *Identify the location of the fire, materials involved and any potential for flashover or backdraught*
- *Ensure an adequate water supply based on the flow requirements of multiple jets being used at height*
- *Consider requesting aerial or special appliances to reduce risk, demand on resources or external main if internal mains fail*
- *Continually monitor and assess the fire development for signs/symptoms of escalation*
- *Consider the effect of firefighting tactics/flow path of smoke on evacuation routes*

Mae'r rhain i gyd yn ysgogiadau effeithiol ar gyfer Comandariaid Digwyddiadau a fyddai'n berthnasol i unrhyw dân strwythurol, twr uchel neu fel arall, ond dim ond yn yr *Aide Memoire* hwn maen nhw i'w gweld. Mae'r pwynt cynharach ynghylch diffyg gwybodaeth sylfaenol mewn mannau eraill yn berthnasol i hyn.

Fodd bynnag, y pwynt bwled canlynol sy'n peri pryder:

- *Use minimum extinguishing media considering the appropriate weight of attack*

161. Bydd pwysau priodol yr ymosodiad yn cael ei bennu gan y gyfradd llif tactegol y cyfeirir ato yn gynharach yn yr adran hon. Dylid un ai ddileu'r pwynt bwled hwn neu ei aralleirio i'w gwneud yn glir y dylid sefydlu pwysau priodol yr ymosodiad drwy ddefnyddio fformiwla safle'r tân yn gywir.

162. Yr hyn sy'n dilyn wedyn yw 'Further Considerations' yng nghyd-destun 'Access & egress', 'Tactical Ventilation' (y cyfeirir ato isod) a 'Control measures for entrapment' sy'n golygu mai hyd yr Aide Memoire yw 6 thudalen.

163. O dan y pennawd 'Further Considerations – Tactical Ventilation' rhestrir 11 ystyriaeth sy'n cynnwys y canlynol:

- *Consider the isolation or containment of the fire compartment*
- *Put covering jets in place prior to the creation of exhaust vents where possible*
- *Consider leaving unopened doors closed to prevent the unnecessary spread of smoke and fire gas travel whilst maintaining access, egress and ventilation*

164. Mae ynysu neu gyfyngu'r adran tân yn dacteg mesur rheoli dilys mewn unrhyw dân strwythurol fel ag y mae gadael drysau heb eu hagor, ar gau.

165. Ar y lloriau canol i uwch mewn tân mewn twr uchel, dim ond drwy fonitro o'r awyr neu o gangen llawr islaw y gellir cynnal jetiau gorchuddio ac nid yw GTAGC yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Dylid gwneud hyn yn glir yn y testun.

166. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r rhain oll yn ysgogiadau effeithiol ar gyfer Comanderiaid Digwyddiadau a fyddai'n berthnasol i unrhyw dân strwythurol, twr uchel neu fel arall, ond dim ond yn yr Aide Memoire hwn maen nhw i'w gweld. Mae'r ffaith nad oes canllawiau hollgynhwysfawr mewn perthynas â gwybodaeth am beryglon neu dactegau mesurau rheoli ar gael i Ddiffoddwyr Tân mewn mannau eraill, yn hepgoriad sylweddol. Byddaf yn dychwelyd at y pwynt hwn yn yr adran grynhoi.

Polisi gweithredol - crynodeb

167. Pwrpas Aide Memoire yw gweithredu fel ysgogiad i Gomandariaid Digwyddiadau ynglŷn â'r camau cychwynnol i'w hystyried tra eu bod ar y ffordd i ddigwyddiad neu pan fyddant yn cyrraedd y digwyddiad am y tro cyntaf. Heb os, mae lle i Aide Memoires. Ar ymweliadau â'r gorsafoedd dywedodd y Diffoddwyr Tân, a'r Rheolwyr Criw a Gwylfa i gyd eu bod yn bwynt cyfeirio defnyddiol mewn digwyddiadau. Fodd bynnag, ni allant ddisodli'r manylion a ddylai gael eu cynnwys mewn Asesiadau Risg Gweithredol neu ddatganiadau rheoli peryglon Gorchmynion Gweithdrefnau a Pholisi Gweithredol y Gwasanaeth sy'n cwmpasu pob agwedd ar ymladd tân strwythurol. Mae'r oedi wrth gyflwyno'r 'Offeryn Integreiddio Gwasanaethau' wedi gadael bwlch yng nghyfres GTAGC o ddogfennau polisi gweithredol y mae angen ei lenwi ar fyrder. Heb fynd i'r afael â hyn ar unwaith, bydd y Gwasanaeth yn methu o ran ei ddyletswyddau o dan Reoliad 3 o'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i ddarparu asesiad risg addas a digonol o'r risg i Ddiffoddwyr Tân mewn digwyddiadau.

168. Rwyf wedi hysbysu Prif Swyddogion GTAGC ynghylch hyn, ac er tegwch iddynt maent wedi cymryd camau ar unwaith i ymgysylltu â GTA De Cymru i gael mynediad at y canllawiau ymladd tân strwythurol a ddatblygwyd gan eu Swyddogion mewn ymateb i Argymhelliad 2 o adroddiad arolygu GTA De Cymru ym mis Hydref 2024, a'u mabwysiadu fel mesur interim hyd nes y bydd cydweithio pellach ar sail Cymru gyfan.

169. Caiff y canlynol ei ailadrodd o adroddiad arolygu GTA De Cymru.

Y 'National Fire Protection Association (NFPA) 1700 Guide for structural firefighting' yw fersiwn America o'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol 'Foundation for firefighting, 'Firefighting' a 'Fires and firefighting' a 'Fires in buildings'. Mae'r adran ar ystyriaethau tactegol ar gyfer rheoli a diffodd tân a nodir ym Mhennod 10 wedi'u datblygu o ymchwil UL FSR1 a gynhaliwyd dros y 15 mlynedd diwethaf ac y cyfeirir atynt yn helaeth yn yr adroddiad hwn.

Pennod 10 yw'r enghraifft orau a welais o fynegiant clir a diamwys o dactegau mesurau rheoli yn amrywio o'r hyn y cyfeirir ato ym Model 4 Cwadrant yr Iseldiroedd fel Ymosodiad Allanol Amddiffynnol, hyd at Ymosodiad Mewnol Ymosodol gydag esboniad hawdd ei ddeall o sut y caiff pob un ei weithredu'n ymarferol. Yr hyn y mae Pennod 10 hefyd yn ei wneud yw gwahaniaethu rhwng mesurau rheoli ymosodiad ymladd tân a mesurau rheoli awyru tactegol o dan y penawdau penodol 'Dŵr' ac 'Awyr'.

170. Mae'r canllawiau ymladd tân a ddatblygwyd gan GTADC yn ystyried hyn ac yn esiampl o arfer da. Heb os, mae'n sylfaen gadarn i'r tri GTA adeiladu dull safonol o lunio canllawiau gweithredol ledled Cymru. Ar bob ymweliad â gorsaf nododd y Diffoddwyr Tân y byddai'n ddefnyddiol cael un pwynt cyfeirio ar gyfer tactegau mesurau rheoli ymladd tân. Byddai'r canllawiau a gynhyrchwyd gan GTADC yn bodloni'r gofyniad hwnnw.

171. Yn unol â hynny, rwy'n gwneud argymhelliad i'r perwyl hwnnw yn Adran 3 yr adroddiad hwn.

Trefniadau sefydliadol ar gyfer cyflawni polisi gweithredol

172. Caiff y Polisi Gweithredol ei gyflwyno'n bennaf i Ddiffoddwyr Tân drwy eu hyfforddiant cychwynnol a'u hyfforddiant parhaus. Mae tri cham i hyfforddiant Diffoddwyr Tân yn GTAGC:

Cam 1 Caffael Sgiliau Cychwynnol – Mae Diffoddwyr Tân llawn amser yn ymgymryd â chwrs hyfforddi 14 wythnos cychwynnol sy'n cael ei rannu rhwng canolfan hyfforddi Dolgellau a chanolfan gorsaf dân y Rhyl sy'n cwmpasu'r holl sgiliau craidd. Caiff y rhaglen caffael sgiliau gychwynnol i Ddiffoddwyr rhan amser / ar alwad ei chyflwyno dros dri modiwl. Mae Modiwl 1 yn gwrs sgiliau diffodd tân cychwynnol 6 diwrnod o hyd, Modiwl 2 yn gwrs cychwynnol Offer Anadlu 10 diwrnod o hyd a Modiwl 3 yn gwrs damweiniau ar y ffyrdd 4 diwrnod o hyd. Mae'r cwrs cychwynnol llawn amser 14 wythnos a modiwl 1 a 2 i Ddiffoddwyr Tân rhan amser yn cynnwys mewnbwn ar wybodaeth am beryglon a thactegau mesurau rheoli peryglon ar gyfer diffodd tanau mewn anheddau.

Cam 2 Datblygu i fod yn Gymwys - Ar gyfer Diffoddwyr llawn amser a rhan amser (ar alwad) caiff hyfforddiant sgiliau cychwynnol ei ddilyn gan gyfnod o 24 mis lle mae disgwyl i'r Diffoddwr Tân llawn amser symud o ddatblygu i fod yn gymwys i ennill prentisiaeth diploma Sgiliau ar gyfer Tân ac Achub ac mae disgwyl i'r Diffoddwr Tân rhan amser ennill tystysgrif Sgiliau ar gyfer Tân ac Achub. Mae Diffoddwyr Tân llawn amser a rhan amser yn ymgymryd â 6 asesiad misol yn erbyn pob maes sgiliau craidd dros gyfnod o 24 mis.

Cam 3 Cynnal Cymhwysedd - Mae GTAGC yn defnyddio'r system cofnodi cymhwyseddau pdrPro i weithredu dull sy'n seiliedig ar risgiau i hyfforddi ac asesu'r broses o gynnal cymhwysedd. Mae'r system pdrPro yn gysylltiedig â'r System Rheoli Dysgu LearnPro sy'n cynnwys nifer cyfyngedig o becynnau hyfforddi damcaniaethol ar ddiffodd tanau strwythurol. Yn y cyfweiliad strwythuredig gyda'r Rheolwr Hyfforddi a Datblygu, cydnabuwyd bod cynnwys Learn Pro GTAGC ar gyfer diffodd tanau strwythurol islaw'r hyn oedd ei angen a'i fod yn y broses o gael ei adolygu. Mae pecynnau hyfforddiant cychwynnol i recriwtiaid ar gael drwy'r Hwb Tân. Mae hyn wedi'i ategu gan gyrsiau hyfforddi cynnal sgiliau strwythuredig cyfnodol a ddarperir gan hyfforddwyr yn Nolgellau a'r Rhyl, ac yn yr uned arddangos ymddygiad tân yn ffatri Airbus Brychdyn yn Sir y Fflint.

173. At ddibenion yr arolygiad hwn, adolygais y pecynnau hyfforddi canlynol a oedd, ar wahân i becynnau Awyru Tactegol, ar gael drwy'r tab Gweithredol ar dudalen gartref Learn Pro. Cyrchwyd y pecynnau Awyru Tactegol drwy dab Dysgu Ychwanegol yr Orsaf, hefyd ar dudalen gartref Learn Pro.

- Fire behaviour (5.08)
- Tactical ventilation (3.06)
- Tactical ventilation – NOG v2
- Fires in buildings: basements, tunnels, atriums – NOG
- Fighting fires in tall buildings – NOG
- Fireground hydraulics and flow rates

174. Adolygais hefyd y cyflwyniadau canlynol y cefais fynediad atynt drwy'r dudalen Hyfforddiant a Datblygu ar yr Hwb Tân:

- BA 14 Fire behaviour and compartment fires
- BA 15 CFBT fire attack

Dadansoddiad o becyn hyfforddi GTAGC

175. Mae'r cyflwyniad ar **Ymddygiad Tân (5.08)** yn dyddio o ddiwedd y 1990au ac mae'n seiliedig ar gynnwys Llawlyfr etifeddol y Gwasanaeth Tân o 1997 'Compartment Fires and Tactical Ventilation'.

176. Mae'n cynnwys sleid Nodau a Chanlyniadau Dysgu a 6 adran:

- Section 1: Mechanisms of Combustion
- Section 2: Compartment Fires
- Section 3: Key Control Measures
- Section 4: Branch Techniques and Operational Considerations
- Section 5: Firefighting at an Incident
- Section 6: Operational Considerations

177. Mae'r cyflwyniad yn gorffen gyda sleid Crynodeb ac yna asesiad.

178. Mae'r drefn o ran cyflwyno gwybodaeth braidd yn anghyson. Adran 2: Mae 'Compartment Fires' yn cynnwys 15 sleid, sydd gan fwyaf yn disgrifio gwybodaeth am beryglon. Ar y sleid o'r enw 'Flashover' mae dwy ddolen wedi'u hymgorffori, un ar gyfer 'Signs and symptoms' a'r llall ar gyfer 'Key control measures'. Nid yw hyn yn cael ei ailadrodd ar gyfer y sleid 'Backdraught'.

179. Mae'r 'mesurau rheoli allweddol' yn cynnwys:

- *Ensure proper protection...*
- *Stay low*
- *Use spray pulses at ceiling level...*

180. O ystyried y perygl eithafol i Ddiffoddwyr Tân yn sgil fflachiad, mae angen datgan yn benodol beth yw'r amddiffyniad priodol. Bydd aros yn isel a defnyddio pylsiau chwistrellu ar lefel nenfwd yn cynnig bron dim amddiffyniad i Ddiffoddwyr Tân rhag fflwcs gwres fflachiad.

181. Adran 3: Mae 'Key Control Measures' yn cynnwys un sleid â 11 pwynt bwled. Nid oes gwahaniaethu ar y sleid rhwng y mesurau rheoli ar gyfer fflachiad, ôl-ddrafft neu danio nwyon tân ac nid ydynt o reidrwydd yr un fath.

- *Ensure proper protection*
- *Keep door closed and cover with protective branch*
- *If possible, keep out of the room and ventilate from outside*
- *Ensure escape routes are protected*
- *Cool and ventilate outer compartments*
- *Plan escape route for gases before releasing them*
- *Stay low and to the side of the door*
- *Open the door slightly and direct spray upwards and into the room*
- *Cool the compartment as much as possible*
- *Keep out of the way of steam and hot gases*

- *Only enter room if required*

182. Y mesur rheoli allweddol cyntaf a restrir yw 'Sicrhau amddiffyniad priodol' ond unwaith eto, nid oes unrhyw fanylion ynghylch beth mae hyn yn ei olygu.

183. Mae cyfeiriad cyfyngedig at wrth-awyru ac nid oes unrhyw gyfeiriad o gwbl at gynnal ymosodiad allanol ymosodol. Byddai'r ddau yn fesur rheoli effeithiol i gyfyngu'r risg i Ddiffoddwyr Tân mewn senario fflachiad, ôl-ddrafft neu danio nwyon tân posibl.

184. Adran 4: Mae'r adran ar dechnegau cangen ac ystyriaethau gweithredol yn chwe sleid o ran hyd. Teitl yr ail sleid yw 'Extinguishing methods' ac mae'n nodi'r canlynol:

Extinguishing methods can be grouped under three main headings:

- *Gas Cooling*
- *Indirect*
- *Direct*

Dilynir hyn gan sleid a phob un yn nodi 'Purpose', 'Branch' ac 'Effect'.

Mae'r sleid o'r enw 'Indirect techniques' yn cynnwys y canlynol o dan y pennawd 'Branch':

- *Medium spray aimed above and around the fire*
- *Branch must be moved around with pulsations to ensure maximum coverage*

185. Yn y cyd-destun hwn gellir ystyried 'ymosodiad anuniongyrchol' fel ymosodiad ymosodol allanol (neu fewnol) pan na fydd yn bosibl efallai gyfeirio llif y dŵr at y tân. Mae'r dechneg a ddisgrifir yn dechneg sydd yn hollol groes i'r modd y dylid gweithredu ymosodiad allanol (neu fewnol) ymosodol. Dylid cadw ffrwd unionsyth (neu ffrwd solet os yn defnyddio cangen lyfn) yn sefydlog a'i chyfeirio ar ongl serth at nenfwd yr adran dan sylw i sicrhau'r cludiad aer lleiaf posibl a'r gorchudd dŵr mwyaf. Mewn senario ymosodiad mewnol ymosodol, byddai Diffoddwyr Tân yn gwneud yr un peth gan ddefnyddio cyrhaeddiad y ffrwd i sicrhau'r pellter mwyaf posibl rhyngddynt a'r tân.

186. O dan y pennawd 'Effect' mae'r pwynt bwled canlynol wedi'i gynnwys:

- *Lowers neutral plane, reducing vision and worsening conditions*

Mae ymchwil y cyfeiriwyd ati yn gynharach yn yr adroddiad hwn wedi dangos bod ymosodiad allanol neu fewnol ymosodol effeithiol yn gwella'r amodau'n sylweddol drwy atal y tân. Mae cynnwys o'r math hwn yn parhau â'r gred bod cyfeirio llif cyfeintiau uwch o ddŵr ar ffrwd unionsyth yn gwaethygu amodau pan fo'r gwrthwyneb yn wir. Dylid nodi hefyd y bydd cangen wedi'i gosod ar osodiad chwistrell sy'n cael ei symud o gwmpas yn cludo llawer mwy o ocsigen na ffrwd unionsyth a gedwir yn sefydlog.

187. Mae 'Section 5: 'Firefighting at an incident' yn bum sleid o hyd. Mae'r sleid gyntaf yn cynnwys y canllawiau canlynol:

When Firefighters are inside a compartment they should always consider one of the following three options:

- *Maintain position: Protect position using gas cooling.*
- *Move forward: Attack fire gases using gas cooling with short or long pulsations.*
- *Withdraw: If conditions deteriorate, withdraw protecting themselves using gas cooling.*

Firefighters should try to use the minimum amount of water as effectively as possible, ensuring the neutral plane is kept as high as possible, whilst cooling the maximum amount of fire gases...

188. Os yw Diffoddwyr Tân yn ceisio diffodd tân y tu mewn i adran tân, yna maen nhw'n cynnal ymosodiad mewdol ymosodol sy'n peri'r risg fwyaf iddynt. Nid yw'r opsiwn o ymosodiad allanol ymosodol yn cael ei grybwyll ar unrhyw adeg. Nid oes chwaith unrhyw ganllawiau penodol ynghylch gwrth-awyru (lleihau swm yr ocsigen i'r tân gan ddefnyddio rheolaeth o'r drws fel arfer ac felly cyfyngu'r gyfradd rhyddhau gwres). Yr unig dechneg gangen a gaiff ei hyrwyddo yw oeri nwyon gan ddefnyddio pylsiau sy'n cynnig yr amddiffyniad lleiaf i Ddiffoddwyr Tân gan mai dyma'r llif lleiaf o ddŵr.

189. Mae'r sylw 'Firefighters should use the minimum amount of water as effectively possible' yn peri cryn bryder. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai Diffoddwyr Tân ddefnyddio'r gyfradd llif tactegol sy'n ofynnol i atal y tân yn effeithiol, gan ddefnyddio cyrhaeddiad y ffrwd unionsyth i roi cymaint o bellter rhyngddynt a'r tân.

190. Mae'r cyflwyniad yn adlewyrchu canllawiau a gyflwynwyd ym 1997 sydd wedi cael eu disodli ers hynny. Mae hyn wedi dyddio'n arw ac, yn fy marn i, dylid ei dynnu oddi ar Learn Pro.

191. Mae'r cyflwyniad **Tactical Ventilation 3.06** hefyd yn dyddio o ddiwedd y 1990au ac mae'n seiliedig ar gynnwys Llawlyfr etifeddol y Gwasanaeth Tân 1997 'Compartment Fires and Tactical Ventilation'.

Mae'n cynnwys sleidiau ar Nodau a Chanlyniadau Dysgu a 14 adran bellach:

- Section 1: What is Ventilation?
- Section 2: Features of Smoke
- Section 3: Ventilation Types
- Section 4: The Effects of Wind
- Section 5: Assessing the Need for Ventilation
- Section 6: How Ventilation Will Be Achieved
- Section 7: Positive Pressure Ventilation
- Section 8: Considerations Prior to Ventilating
- Section 9: What is Positive Pressure Ventilation?

- Section 10: Incident Command - Initial
- Section 11: Operational Procedures
- Section 12: Sealed Rooms
- Section 13: Venting a dwelling
- Section 14: What to do if PPV does not Work

Mae'r cyflwyniad yn gorffen gydag asesiad.

Mae'r sleid gyntaf yn cynnwys y testun canlynol:

Welcome to the eDevelopment module on Tactical Ventilation Module.

Tactical ventilation is the well planned and controlled ventilation of a building. It dramatically aids Firefighters committed into the risk area, assisting them in dealing with the incident as well as making it far safer by reducing the chances of backdraught.

The content of this module is based upon Operational Risk Assessment 3.6 Fighting Fires using PPV and Fire Service Manual Volume 2 Compartment Fires and Tactical Ventilation.

Further reference should be sought in Service SOPs and Training Manuals

192. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae GRA 3.6 a Llawlyfr y Gwasanaeth Tân 'Compartment Fires and Tactical Ventilation' wedi cael eu disodli gan y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol 'Firefighting' a 'Fires in buildings'.

193. Nid yw'r diffiniad o Awyru Tactegol ar y sleid hon yn cyd-fynd â'r diffiniad yn y cyflwyniad Tactical Ventilation – NOG v2 a adolygwyd isod ac sy'n dod o'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol sydd mewn bodolaeth, 'Firefighting'. Mae hefyd yn honni ei fod yn gwneud yr ardal risg yn llawer mwy diogel drwy leihau'r siawns o ôl-ddrafft, fodd bynnag, ni ellir sicrhau hyn drwy awyru tactegol yn unig.

194. Mae 'Section 3: Ventilation Types' yn bedair sleid o hyd.

Mae gan y sleid 'Value of ventilation' lun o dân a reolir gan danwydd yn yr hyn sy'n edrych fel rig prawf ochr agored gyda'r testun canlynol:

What is the effect ventilation has had on this room?

Try to think about the conditions that can be seen in this vented room and what it would mean for a firefighting crew e.g.

- *Increased visibility*
- *Improved conditions for potential casualties*
- *Rapid discovery of the seat of the fire, quicker application of firefighting media to the seat of the fire*
- *Reduction in compartment temperature*

Gan dybio mai llun o rig prawf ochr agored yw hwn, ac mae'n annhebygol o fod yn unrhyw beth heblaw hynny, nid yw'r proffil awyru mewn unrhyw ffordd yn adlewyrchu ystafell nodweddiadol mewn annedd gan ei bod bron yn sicr na fyddai ganddi ochr agored a'r agoriadau awyru wedi'u cyfyngu i ddrws a ffenestri. Byddai awyru'r hyn a fyddai'n dân a reolir gan yr awyru neu'n dân cyfyngedig yn yr amgylchiadau hynny heb weithredu i'w atal ar yr un pryd bron yn sicr yn arwain at ganlyniad sy'n hollol groes i'r hyn a restrir uchod. Yn ogystal, defnyddir yr un darlun ar gyflwyniad **BA 14 Fire behaviour and compartment fires** a adolygir isod i ddangos fflachiad.

195. Teitl y sleid ganlynol yw 'Value of ventilation 2'. Mae'n cynnwys y testun canlynol:

As long as ventilation is carried out safely and effectively there are enormous benefits for firefighting crews and occupants.

However, great care must be exercised when employing tactical ventilation as a firefighting technique. This is because incorrect or random opening up of structures to facilitate ventilation could lead to uncontrolled fire spread!!

Nid oes unrhyw gyfeiriad at yr angen am weithrediadau atal ar yr un pryd â phwysau priodol yr ymosodiad, sef y modd o liniaru'r perygl o dân yn lledu'n afreolus, ar y sleid hon nac unrhyw sleid arall yn y cyflwyniad.

196. Teitl y sleid olaf yn yr adran hon yw 'When to use ventilation'. Mae'n cynnwys y canllawiau canlynol:

...In the majority of instances, tactical ventilation should not be used until the fire has been located and, in all cases, an assessment must be made of the likely effects of ventilation...

Bydd awyru heb wybod ble mae'r tân bron yn sicr yn arwain at dwf cyflym y tân. Dylid nodi hyn yn benodol ar ôl y frawddeg uchod fel nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch yr effaith debygol.

Mae 'Section 7: Positive Pressure Ventilation' yn cynnwys pum sleid. Mae'r sleid o'r enw 'Definition of ventilation' yn cynnwys y testun canlynol:

As you should have learnt in the first half of this module, the text book definition of ventilation is:

"The systematic removal of heated air, smoke or other airborne contaminants from a structure, and their replacement with a supply of fresh air."

Mae hyn yn groes i'r diffiniad a ddarperir ar y sleid agoriadol yn y cyflwyniad ac i'r diffiniad mwyaf cyfredol a gynhwysir yn y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol 'Firefighting' a gopiwyd isod:

Ventilation can be defined as the removal of heated air and products of combustion, which are replaced with a supply of cooler, cleaner air.

197. Mae'r sleid nesaf 'When to use positive pressure ventilation PPV' yn nodi'n glir:

In order to avoid dangerous conditions level 1 Positive Pressure Ventilation must only be used when the FIRE IS TOTALLY EXTINGUISHED.

Mae hyn yn gyson â pholisi GTAGC a nodir yn Aide Memoire **P (5) Positive pressure ventilation** sy'n gadarnhaol er bod llawer o gynnwys y cyflwyniad wedi'i ddyddio'n sylweddol.

198. Mae'r sleid o'r enw 'Significant hazards and risks of PPV' yn cynnwys y canllawiau canlynol:

The most significant risk when using PPV is the likelihood that either the occupants or Fire Service Personnel within the building involved may become trapped between the fire and the outlet vent.

Internal conditions can worsen as follows:

- *The tactics involved in using PPV should not be initiated until it is certain the fire has been extinguished and an outlet vent has been created*
- *Ineffective use of PPV is likely to result in increased intensity of a fire thereby causing serious danger to persons within the structure*

Mae hyn yn arweiniad cadarn sy'n berthnasol i awyru yn gyffredinol.

199. Mae'r adrannau sy'n weddill yn y cyflwyniad yn benodol i ddefnydd awyru pwysedd positif ar ôl tân ac felly'n parhau i fod yn berthnasol yng nghyd-destun polisi GTAGC.

200. O ystyried yr arsylwadau sy'n peri pryder yng nghyd-destun y cyflwyniad hwn, mae rhywfaint o gynnwys perthnasol y gallai GTAGC ddymuno ei gadw. Byddaf yn dychwelyd i'r pwynt hwn ar ôl adolygu **Tactical Ventilation – NOG v2**.

Pedair adran sydd i **Tactical Ventilation – NOG v2**:

1. Cyflwyniad (6 sleid)
2. Natural Ventilation
3. Forced Ventilation
4. Assessment

201. Mae'r sleid gyntaf o'r enw 'Introduction – What is ventilation?' yn cynnwys y diffiniad canlynol:

*In simple terms ventilation can be **defined** as:*

'The removal of heated air, smoke or other airborne contaminants from a structure or other location and their replacement with a supply of cooler, cleaner air'.

Mae hyn ychydig yn wahanol i'r fersiwn yn y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol 'Firefighting' presennol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024 ac yn hytrach mae'n dyddio i'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol 'Fires and Firefighting' etifeddol. Er nad yw'r gwahaniaeth yn sylweddol, mae'n tynnu sylw at yr angen i ddiweddarau deunyddiau hyfforddi pan fydd canllawiau'n cael eu diweddarau.

202. Mae'r ail sleid o'r enw 'Introduction – What is ventilation?' yn cynnwys y canlynol:

As part of an overall firefighting strategy, incident commanders should always have a clear and informed objective before commencing any form of ventilation activity. This will ensure that the full range of benefits of ventilating can be realised including:

- *Improving conditions for the survivability of building occupants*
- *Improving conditions for Firefighters to enter and search*
- *Reducing the potential for rapid fire development.*

Nid yw'n nodi'n benodol yn unrhyw le yn y cyflwyniad sut y caiff y buddion hyn eu cyflawni. Er mwyn i'r ddau bwynt bwled cyntaf gael eu cyflawni, bydd angen atal tân ar yr un pryd. Er mwyn cyflawni'r pwynt bwled olaf bydd angen defnyddio gwrth-awyru heb os (h.y. cau drysau a ffenestri i atal llif ocsigen i'r tân).

Byddai'n fuddiol iawn cynnwys esboniad syml i'r perwyl hwnnw.

203. Mae'r drydedd sleid o'r enw 'Introduction – When can tactical ventilation be applied?' yn cynnwys yr enghraifft ganlynol:

After control but before extinction

Example: A BA team are downstairs in control of the fire compartment (one seat of fire only) they do not want to necessarily extinguish the fire due to the excessive amounts of steam this may create within the building they have communicated that the fire is under control. A second BA team are searching on the first floor venting smoke filled rooms as they progress with their search for casualties.

Mae ymchwil UL FSRI yn gwrthbrofi unrhyw bryderon ynghylch stêm gormodol drwy atal tân¹⁶. Yn yr enghraifft hon efallai y byddai'n well nodi bod y tîm offer anadlu i lawr y grisiau yn ynysu'r adran drwy gau'r drws, sef gweithred o awyru tactegol ynddo'i hun (ynysu).

204. Teitl y bedwaredd sleid yn yr adran Cyflwyniad yw 'Introduction – flow paths' ac mae'n cynnwys y testun canlynol:

In a building that has an unobstructed flow path from the inlet to the fire compartment, cooler, denser air will be entrained towards the fire area allowing movement of heat and smoke (high pressure) to all other areas of lower pressure.

If an under ventilated fire is suspected and entry has to be made, crews should be aware that by gaining access and progressing towards the fire compartment they may introduce oxygen into the structure, the movement of denser cooler air being entrained will create a natural flow path and may assist in bringing fuel rich flammable gases back into their flammable range as well as increasing the intensity of the fire's development.

Where possible crews should use anti-ventilation tactics and take control of the flow path to ensure the amount of oxygen available to the fire is minimised.

Crews should try and stay out of any flow path, in particular between the fire and any potential exhaust vent, this includes any windows that may not have already failed.

205. Mae'r ddau baragraff cyntaf yn wybodaeth hanfodol am beryglon. Y trydydd paragraff yw'r achlysur cyntaf i wrth-awyru, sef tacteg mesur rheoli sylweddol, gael ei grybwyll yn y cyflwyniad. Dylid aralleirio'r pedwerydd paragraff i ddweud na ddylai criwiau **byth** (fy mhwyslais i) osod eu hunain rhwng y tân a fent gwacáu posibl. Byddai'n fuddiol iawn gosod sleid y llwybrau llif ar ddechrau'r cyflwyniad i roi cyd-destun i'r sleidiau sy'n dilyn.

206. Mae'r pumed sleid 'Introduction – Locating the fire' yn rhestru tair ystyriaeth, a nodir yr ail isod:

In the majority of incidents, ventilation should only be used when a fire has been located and an assessment of the likely impact of ventilation has been taken into account. However, in circumstances where the location of the seat of fire

¹⁶ [Study of the Impact of Fire Attack Utilizing Interior and Exterior Streams on Firefighter Safety and Occupant Survival | UL's FSRI – Fire Safety Research Institute](#)

is difficult for crews to establish, tactical ventilation may be used to clear adjacent compartments, corridors or staircases etc. to assist Firefighters in identifying the seat of fire, maintaining safe access and egress routes to and from a risk area and also mitigating or reducing the potential for phenomena such as fire gas ignition.

207. Rwy'n gwerthfawrogi'r anawsterau wrth eirio'r canllawiau hyn i'w gwneud hi'n hollol glir i'r darlennydd beth sydd wedi'i fwriadu. Er mwyn cael gwared ar unrhyw amwysedd efallai y byddai'n fuddiol petai'r ail frawddeg yn cael ei haralleirio fel a ganlyn (y testun print trwm yw fy mhwylysais i);

*...tactical ventilation may be used to clear and isolate compartments, corridors or staircases etc **confirmed to be not involved in fire**...*

208. Mae'r adran ar 'Natural Ventilation' yn cynnwys pedair sleid sy'n egluro agweddau awyru 'Natural', 'Offensive', 'Defensive' a 'Sequential' Ventilation yn y drefn honno.

209. Mae'r adran 'Forced Ventilation' yn cynnwys wyth sleid sy'n esbonio awyru gorfodol, dulliau o awyru gorfodol, pryd y gellir defnyddio awyru pwysedd positif (gyda'r cyfeiriad clir mai polisi GTAGC yw atal ar ôl tân yn unig), casglu gwybodaeth a chynllunio ymlaen llaw, technegau awyru pwysedd positif ar gyfer drysau unigol, agoriadau mwy, ystafelloedd wedi'u selio ac ystafelloedd wedi'u selio o fewn adran. Dilyniir hyn gan bum atodiad ac asesiad.

210. Fel y nodwyd o'r blaen, er gwaethaf y ffaith bod y cyflwyniad wedi dyddio, mae rhywfaint o gynnwys perthnasol yn Tactical Ventilation 3.06. Byddai'n fuddiol cynnwys y testun perthnasol a amlygwyd yn gynharach, yng Nghanllawiau Gweithredol Cenedlaethol Tactical Ventilation – NOG v2 er mwyn archifo'r cyntaf gan adael un pwynt cyfeirio ar gyfer y pwnc.

211. Mae **Fires in buildings: basements, tunnels, atriums – NOG** yn cynnwys tudalen gyflwyniad, naw adran cynnwys ac yna gwestiynau gwirio gwybodaeth ac asesiad. Mae hyn yn cynnwys adrannau sy'n cwmpasu cynlluniau cellog, cynlluniau cynllun agored, lledloriau, adeiladau treftadaeth ac awditoria. At ddibenion y dadansoddiad hwn roedd fy ffofws ar y cynnwys yn ymwneud ag isloriau oherwydd y perthnasedd i danau anheddau.

212. Mae'r sleid gyntaf yn yr adran ar isloriau sef 'Basements' yn cynnwys y testun canlynol:

'Fire behaviour in basements is unpredictable and they may behave in a similar way to highly insulated buildings; the highly insulated space may allow for more intense a rapid fire growth'.

'There is likely to be a lack of ventilation within the basement, however some ventilation may be provided by means of pavement lights and doors. There is a risk of rapid fire development or backdraught during opening of such vents during firefighting operations'.

Mae hyn yn dyblygu 'Cyflwyniad' **Aide Memoire F (17) Fires in basements** sy'n dod yn uniongyrchol o'r adran ym mhennod 'Fires in basements' yn y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol 'Fires in buildings':

213. Mae'r sylwadau a wnaed gennyf yn flaenorol o dan y pennawd adolygu canllawiau yr un mor berthnasol yn y fan hon. Gallaf ddeall pam mae hyn wedi'i gopïo'n uniongyrchol o'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol, ond nid yw'r cynnwys wedi'i eirio'n dda iawn. Byddai'n llawer cliriach i'r darlennydd pe bai'r testun yn esbonio heb unrhyw amwysedd pam y byddai y gofod wedi'i inswleiddio'n dda yn atal twf y tân oherwydd prinder cyflenwad ocsigen ond pan fydd ocsigen yn cael ei gyflwyno, yna bydd twf cyflym yn y tân yn dilyn os nad yw'r tân yn cael ei atal ar yr un pryd. I ddileu unrhyw amwysedd, dylid cael brawddeg ychwanegol i esbonio bod inswleiddio yn cyfyngu ar gyflenwad allanol o ocsigen gan nodi'n glir y bydd awyru heb ei reoli i'r islawr yn arwain at dwf cyflym mewn tân gaiff ei reoli gan awyru os nad yw'n cael ei atal ar yr un pryd.

214. Mae'r ail sleid o'r enw 'Shallow basements' yn cynnwys y pwynt bwled canlynol o dan y pennawd 'Inherent hazards'

- *Basements are highly insulated spaces allowing the possibility for more rapid-fire growth*

215. Mae'r sylwadau uchod yn berthnasol. Mae'r un pwynt bwled hwn yn cael ei ailadrodd ar y sleid nesaf o'r enw 'Deep basements'.

216. Ar y sleid 'Basements – Control measure – Appropriate intervention' mae'r pwynt bwled canlynol wedi'i restru o dan y pennawd 'Tactical Actions':

- *Use basement firefighting techniques according to service procedures and training*

217. Nid oes unrhyw ganllawiau mewn unrhyw Aide Memoire na phhecyn hyfforddi a adolygais sy'n nodi pa dechnegau ymladd tân mewn isloriau sydd gan GTAGC.

218. Ar yr un dudalen mae Rhybudd Gweithdrefnol PA 017 2020 o'r enw 'Initial means of attack at operational incidents'.

219. Mae Cyflwyniad PA 017 2020 yn nodi'r canlynol:

A Service wide trend has been identified by the Operational Learning Forum (OLF) as part of the Operational Assurance process. Incident Commanders of the initial attending appliance are defaulting to the use of a Hose Reel Jet as a first means of attack on all occasions. The purpose of this Procedural Alert is to ensure that Incident Commanders consider and deploy the appropriate weight of attack at the initial stages of an incident based on good situational awareness and a sufficient Dynamic Risk Assessment (DRA).

220. O dan y pennawd 'Narrative' darperir y canllawiau canlynol;

*Situational awareness represents the perception and understanding an IC has of an incident, including its hazards, risks and operational activities. It also consists of how an IC anticipates the incident will develop taking into account their actions. Good situational awareness is fundamental to being able to make good decisions. **For the majority of operational incidents attended by NWFRS the use of a HRJ would be deemed as an appropriate first means of attack i.e. when attending an average sized domestic dwelling. However, when attending a well-developed fire at i.e. a large industrial unit, it may be necessary to deploy a greater weight of attack at the initial stages, such as 45/70mm hose lines.** A DRA of this nature will result in a more effective response and ensure the safety of the crews in the immediate risk area. To accurately perceive a situation an IC should always accurately gather and understand information to enable them to anticipate how an incident may develop and what the impact of an intervention may be on its development...*

221. Nid yw hyn yn uniongyrchol benodol i ddigwyddiadau mewn isloriau, fodd bynnag, mae'n berthnasol mewn unrhyw dân adrannol mewn perthynas â phwysau priodol yr ymosodiad. Ystyrir bod y cyfeiriad at y ffaith bod HRJ yn briodol mewn annedd maint cyfartalog yn gwrth-ddweud yn uniongyrchol y dystiolaeth ymchwil a nodir yn y graff yn Atodiad 1 a gynhwysir yn Aide Memoire **F (7) Fireground hydraulics and flow rates** sy'n dangos bod angen isafswm cyfradd llif o 200 litr y funud i atal tân nodweddiadol mewn annedd ddomestig. Ni ellir cyflawni'r llif hwn gyda'r HRJ 19mm sy'n cael ei ddefnyddio gan GTAGC.

222. Mae'r cyflwyniad **Fighting fires in tall buildings – NOG** yn cynnwys cyflwyniad, tair adran cynnwys ar 'Stay put/evacuation procedures', 'Complex Fire Engineering (Fixed Installations)' a 'Fighting Fire' ac yna gwestiynau gwirio gwybodaeth ac asesiad.

223. Mae'r sleid o'r enw 'Fire Mains' yn yr adran 'Complex Fire Engineering – Fixed Installations' yn cynnwys disgrifiad syml o brif gyflenwad ar gyfer tân (pibell godi sych neu wlyb) a sut maen nhw'n gweithredu. Mae'r sleid hefyd yn cynnwys adran 'Hazard' sy'n rhestru'r pwyntiau canlynol:

Landing valves vandalised or left open can cause severe water damage and a reduction in pressure and flow to the fire floor

Possibility of over running water supply

Pressure at the branch will be reduced as height increases.

Where a single rising main is being used to supply multiple jets, opening branches will reduce the working pressure of other jets.

If fire mains fail, seek other alternatives, such as;

- *Utilising Aerial Ladder Platform as a rising main*

- *Hauling hose aloft*

224. Rwy'n tynnu sylw at hyn gan fy mod yn ei ystyried yn enghraifft o gynnwys deunydd hyfforddi da sydd o werth gwirioneddol i Ddiffoddwyr Tân. Mewn arolygiadau blaenorol, rwyf wedi tynnu sylw at sut mae pibell godi'r prif gyflenwad wedi cael ei rhestru fel perygl mewn deunyddiau canllaw a deunyddiau hyfforddi. Nodais nad yw pibell godi'r prif gyflenwad ynddo'i hun yn berygl; i'r gwrthwyneb mae'n ategu defnyddio mesurau rheoli effeithiol. Y pwynt a wnes wedyn yw mai methiant y prif bibell gyflenwad tân neu unrhyw gyfyngiadau sy'n deillio o'r defnydd o brif bibell gyflenwad tân yw'r perygl. Mae'r peryglon hyn wedi'u cofnodi'n gryno yn y rhestr uchod.

225. Yn yr un modd ar y sleid ganlynol o'r enw 'Hose reels', dilynir disgrifiad syml o ble y gellid eu darparu a'u pwrpas, gan y pwynt bwled isod o dan y pennawd 'Hazard':

Hose reels will not provide sufficient flow or pressure to deal with a well-developed compartment fire

226. Ar y sleid o'r enw 'Ventilation Systems' mae Rhybudd Gweithdrefnol wedi'i fewnosod sy'n tynnu sylw at ddigwyddiad a ddigwyddodd yng Ngorllewin Swydd Efrog lle lledaenodd tân o'r trydydd i'r chweched llawr mewn bloc o fflatiau saith llawr oherwydd nam ar y system Fent Agored Awtomatig. Dyma enghraifft arall o gynnwys deunydd hyfforddi da drwy ddarparu enghraifft byd go iawn o'r peryglon sy'n gysylltiedig â systemau o'r fath.

227. Teitl y sleid olaf yn yr adran 'Complex Fire Engineering (Fixed Installations)' yw 'Contingency Arrangements'. Mae'n cynnwys y testun canlynol:

As the failure of fixed installations can have serious consequences, suitable contingency plans should be developed. These plans should determine good practice and alternative actions in the event of failure or inappropriate operation.

Contingency arrangements may include:

...The use of aerial appliances to provide a temporary fire main

...Using hose lines as temporary rising mains

...Providing external firefighting equipment to surround the fire

Unwaith eto, mae hon yn wybodaeth gryno ynghylch mesur rheoli perthnasol sy'n werthfawr i Ddiffoddwyr Tân.

228. Mae'r adran 'Fighting Fires' yn cynnwys un sleid y gellir cyrchu cardiau cip ohoni. Mae'r testun rhagarweiniol fel a ganlyn:

Fighting fires in 'Tall Buildings' requires some additional control measures and specific equipment and techniques. The following 'cue cards' will detail some of these.

- *Psychological stress*
- *Internal navigation and search*
- *Limited space*
- *Tall building equipment pack*
- *Cleveland coil*
- *Cables*
- *Cable cutters*
- *People*

229. Mae'r rhestr yn cynnwys offer penodol (pecyn offer tyrrau uchel, torch Cleveland, torwyr ceblau) ond ni chyfeirir at unrhyw dactegau mesurau rheoli ychwanegol. Gan gydnabod nad oes gan gerbydau GTAGC ganghennau i'r lloriau islaw ar gyfer ymosodiad allanol ymosodol na llenni mwg ar gyfer rheoli awyru a diogelu tyllau grisiau, gellir cyflawni'r tactegau mesurau rheoli hyn (y gellir eu defnyddio mewn unrhyw dân strwythurol ond y gellid eu hystyried yn benodol ar gyfer tyrrau uchel) drwy ddulliau eraill (h.y drwy fonitro o'r awyr a rheoli drysau â llaw).

230. Pe bai'r hepgoriad hwn yn cael ei ddatrys, yna byddai hwn yn becyn hyfforddi da iawn. Byddaf yn ystyried datblygu, cynnal a chadw ac adolygu pecynnau hyfforddi yn yr adran grynhoi isod.

231. Mae'r cyflwyniad **Fireground hydraulics and flow rates** yn cynnwys saith sleid cynnwys ac yna sleid sy'n nodi deunydd darllen pellach.

232. Mae Sleid 2 yn disgrifio 'Critical Flow Rate', fodd bynnag, mae'n ailadrodd y diffiniad yn y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol a gynhwysir yn Aide Memoire **F (7) Fireground hydraulics and flow rates** yn hytrach na'r diffiniad yn EuroFirefighter. Mae fy sylwadau cynharach yn cyfeirio at hyn.

233. Mae Sleid 3 yn disgrifio 'Tactical Flow Rate'. Mae'r sleid hon yn cynnwys graff a gymerwyd o'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol, sef 'Modern Fire Development'. Er ei fod yn hollol gywir, nid yw'n glir pam mae wedi'i gynnwys.

234. Teitl Sleid 3 yw 'The Concept' ac mae'n rhoi esboniad o sut y gellir pennu cyfraddau llif naill ai drwy amcangyfrif y cyfraddau rhyddhau gwres neu drwy ddefnyddio fformiwla safle'r tân.

235. Teitl Sleid 4 yw 'Mathematical Calculations' ac mae'n nodi fformiwla safle'r tân i bennu'r gyfradd llif tactegol (y cyfeirir ato fel cyfradd llif optimaidd):

236. However, as a fire ground rule of thumb for fires from 50 to 600m², the following calculation could be considered:

$$\text{Optimum flow rate (L/min)} = \text{fire area (m}^2\text{)} \times 5$$

237. Fel yr amlygwyd yn flaenorol wrth adolygu cynnwys Aide Memoire F (7) Fireground hydraulics and flow rates, fe wnes i'r pwynt bod cyfrifiad safle'r tân yn creu amcangyfrifon llif annigonol pan fydd yr arwynebedd yn llai na 120m² fel yr eglurwyd yn y testun o gyhoeddiad EuroFirefighter a ysgrifennwyd gan Paul Grimwood:

'Where deployment is for a fire area less than 120m², the minimum target flow-rate on any primary attack hose-line should be 200-500 L/min (1 or 2 x 22mm hoses) on high pressure or 350-500 L/min on low pressure'.

238. Dylid diweddarau'r sleid i adlewyrchu'r uchod a nodi'n ddiamwys mai llinell 45mm yw'r dacteg mesur rheoli lleiaf ar gyfer tân sydd wedi'i gadarnhau mewn annedd.

239. Caiff cyflwyniad **BA 14 Fire behaviour and compartment fires** ei gyflwyno ar hyfforddiant cychwynnol ar gyfer Diffoddwyr Tân llawn amser a rhan amser ond mae ar gael ar yr hwb tân at ddibenion hyfforddiant cynnal sgiliau mewn gorsafoedd.

240. Mae 40 o sleidiau yn y cyflwyniad. Nod y cyflwyniad yw 'to provide students with an appreciation of the inherent dangers of compartment fires, specifically: Flashover and Backdraught conditions'.

241. Amcanion y cyflwyniad yw y bydd myfyrwyr yn gallu cyflawni'r canlynol erbyn diwedd y sesiwn:

- *Describe the basic mechanism of combustion*
- *Describe the characteristics of a compartment fire*
- *Identify the behaviour of fires in compartments*
- *Describe the signs and symptoms of flashover and backdraught*

242. Yn nhermau rheoli peryglon a risgiau, nodau ac amcanion y sesiwn yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r myfyrwyr am beryglon sy'n ymwneud â thanau adrannol. Mae'r rhain yn nodau ac amcanion cwbl briodol, ac, heb os, mae'n synhwyrol gosod mewnbyn gwybodaeth am beryglon cyn mewnbyn gwybodaeth am fesurau rheoli yn yr hyfforddiant cychwynnol.

243. Nid oes unrhyw nodiadau wedi'u cynnwys gyda'r sleidiau a fyddai'n awgrymu pa fanylion ychwanegol y gallai'r hyfforddwr eu darparu. Mae cynnwys y sleidiau yn ailadrodd i raddau helaeth yr hyn a geir yn y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol 'Fires and firefighting' sydd bellach wedi'i archifo, ac mae llawer ohono bellach ar gael yn y canllawiau 'Foundation for firefighting' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024.

244. Mae gan sleidiau 25 a 26 ar ddiwedd yr adran sy'n ymdrin â fflachiad, ddolenni at fideos na ellir eu cyrchu drwy'r Hwb Tân sy'n golygu na all Diffoddwyr Tân ar ddyletswydd yn yr orsaf wyllo'r fideos. Ni fu modd i mi weld y fideos chwaith, felly ni allaf fod yn sicr o'r cynnwys ond roedd y fideo ar Sleid 26 gan y Sefydliad Cenedlaethol Gwyddoniaeth a Thechnoleg, sydd wedi cyhoeddi sawl astudiaeth ardderchog yn ymwneud â fflachiad, felly byddai'r cynnwys yn ddi-os yn werthfawr iawn i Ddiffoddwyr Tân ar eu hyfforddiant cychwynnol neu wrth loywi sgiliau. Byddwn yn dadlau mai fflachiad yw'r perygl mwyaf sylweddol i Ddiffoddwyr Tân sy'n ymladd tanau adrannol felly dylid mynd i'r afael â diffyg argaeledd y fideos fel blaenoriaeth. Codais hyn gyda'r

hyfforddwyr yn ystod cyfarfod y grŵp ffocws. Roeddent yn ymwybodol o hyn ac roedd hyn yn amlwg yn rhwystredigaeth iddynt. Dychwelaf at y materion a godwyd gan hyfforddwyr yn ystod y grŵp ffocws ymhellach yn yr adran hon.

245. Mae'r un peth hefyd yn wir am y fideos sydd wedi'u hymgorffori yn Sleidiau 32 a 33 yn yr adran 'Backdraught' a Sleidiau 36 – 39 yn yr adran 'Fire Gas Ignition'.

246. Hepgoriad amlwg o'r cyflwyniad yw mewnbwn ar y gyfradd rhyddhau gwres gan gynnwys adeiladau modern a'r effaith ar y proffil awyru ynghyd â'r awyru ei hun. Cydnabuwyd hyn gan yr hyfforddwyr a fynegodd awydd gwirioneddol i ddatblygu eu gwybodaeth eu hunain am y pynciau i wella ansawdd yr hyfforddiant yr oeddent yn ei ddarparu.

247. Caiff cyflwyniad **BA 15 CFBT fire attack** hefyd ei gyflwyno yn ystod hyfforddiant cychwynnol ar gyfer Diffoddwyr Tân llawn amser a rhan amser ond mae ar gael ar yr Hwb Tân at ddibenion hyfforddiant cynnal sgiliau mewn gorsafoedd.

248. Mae 30 o sleidiau yn y cyflwyniad. Nod y cyflwyniad yw 'to provide students with an appreciation of the inherent dangers of compartment fires and the procedures and extinguishing techniques to safely deal with potential backdraught and flashover conditions when attending incidents'. Amcanion y cyflwyniad yw y bydd myfyrwyr yn gallu cyflawni'r canlynol erbyn diwedd y sesiwn:

- *Identify the behaviour of fire in compartments*
- *Identify the main differences between a flashover and a backdraught*
- *Describe the actions to be taken if a flashover is suspected*
- *Describe the actions to be taken if a backdraught is suspected*
- *Understand and recognise the importance of applying correct door and branch techniques*

249. Mae'r 14 sleid gyntaf yn rhoi crynodeb o'r cynnwys yn y cyflwyniad BA 14 Fire behaviour and compartment fires.

250. Mae sleidiau 15 - 17 yn ystyried technegau cangen rîl pibell ac yn benodol conau llydan neu gul (patrymau chwistrellu). Mae hyn yn peri pryder ar ddwy lefel. Yn gyntaf, byddwn yn disgwyl gweld mewnbwn ar gyfraddau llif tactegol a'r holl dechnegau ymosod ar dân yn hytrach na dim ond oeri nwyon, fel tactegau mesurau rheoli sylfaenol yn syth ar ôl y crynodeb ar beryglon. Nid oes unrhyw gyfeiriad o gwbl drwy gydol y cyflwyniad at gyfraddau llif tactegol sy'n hepgoriad difrifol. Yn ail, drwy ond ddangos rîl pibell a sut i newid rhwng patrymau chwistrellu llydan a cul, mae'n parhau â'r duedd i droi'n ddiofyn at rîl pibell ym mhob tân annedd waeth beth fo'r gyfradd rhyddhau gwres uchaf a'r llif gofynnol, sef yr hyn y mae dadansoddiad yr adroddiad hwn yn ei ddangos.

251. Caiff hyn ei gymhlethu ymhellach ar y sleid nesaf o'r enw '3 Phase Gas Cooling'. Mae'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol 'Firefighting' presennol yn hyrwyddo 4 dull tactegol sef, i bob pwrpas, y Model 4 Cwadrant o'r Iseldiroedd y cyfeirir ato yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Mae 'oeri nwyon fesul 3 cham' wedi'i gynnwys yn y

cwadrant olaf mewn ymosodiad mewnol ymosodol, sy'n peri'r risg fwyaf i Ddiffoddwyr Tân.

252. Mae cynnwys llawn y sleid fel a ganlyn:

- *Phase 1 – cooling prior to entry (door procedure)*
- *Phase 2 – entry and attack (gas cooling/indirect attack)*
- *Phase 3 – extinction and hot spots (direct attack) pencilling and painting*

253. Nid yw Sleid 19 'Door procedure' yn cynnwys unrhyw destun na darlun. Yn absenoldeb y nodiadau i gyd-fynd â'r sleid, rwy'n tybio y byddai'r hyfforddwyr yn rhoi arddangosiad ymarferol o weithdrefnau drws ar y pwynt hwn yn y cyflwyniad.

254. Mae sleid 20 'Phase 2 – indirect attack' yn cynnwys llun o dîm offer anadlu ar ochr chwith y sleid yn rhoi pwls o chwistrell i fwg uwchben yr hyn sy'n ymddangos fel silffoedd llyfrau mewn llyfrgell gyda tân cymharol fach a reolir gan danwydd ar ochr dde'r sleid.

255. Yn dechnegol, mae'r dechneg hon yn cynrychioli math o ymosodiad anuniongyrchol, er y gellid dehongli'r darlun fel cam oeri nwyon yn unig. Wedi dweud hynny, mae'r holl ymchwil y cyfeirir ati yn yr adroddiad hwn yn dangos mai'r dechneg fwyaf effeithiol ar gyfer ymosodiad anuniongyrchol yw cyfeirio ffrwd unionsyth uchel ar ongl serth at y nenfwd i sicrhau'r lleiafswm o gludiad aer a'r gorchudd dŵr mwyaf.

256. Dylid cynnwys y dechneg hon o dan y pennawd ymosodiad anuniongyrchol ynghyd ag esboniad y gellir ei defnyddio ar ymosodiad allanol neu fewnol.

257. Mae Sleid 21 'Branch techniques/water application' yn cynnwys y testun canlynol:

Branch techniques and water application "is a balance between enough water to control the fire without lowering the neutral plane, thereby protecting Firefighters from rising temperatures and steam, and helping to maintain vision"

258. Mae'r datganiad y bydd ymosod ar dân gyda llif uchel o ddŵr yn achosi i dymheredd godi, yn ffeithiol ac yn wyddonol anghywir fel y dangosir gan y gwaith ymchwil y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn. Y gwrthwyneb fydd yn digwydd. Er na fyddai'n bosibl gweld am ychydig, gellir dechrau awyru'n ddiogel ar unwaith ar ôl y cam atal. Mae ansawdd ac effeithiolrwydd cyfarpar diogelu personol modern, os caiff ei wisgo'n gywir, yn golygu na fyddai Diffoddwyr Tân yn debygol o ddioddef llosgiadau stêm beth bynnag.

259. Mae sleidiau 22 a 23 ill dau yn dwyn y teitl 'Water Application'. Mae Sleid 22 yn nodi'r canlynol:

"Water when heated creates steam at a ratio of 1700:1, 1.7 cubic meters of steam for every litre of water, this ratio further increases to 3400:1 when heated past 250 degrees C"

The contraction ratio of hot fire gases are greater than this expansion, meaning that when applied in moderation water will reduce the volume of the neutral plane”

260. Mae Sleid 23 yn cynnwys y pwyntiau bwled canlynol:

- Water applied into the gas layer, in moderation, will reduce the volume of fire gases improving conditions for casualties and Firefighters
- 3 phase approach is most effective

261. Mae gwaith ymchwil y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn yn dangos bod llifo cyfeintiau uchel o ddŵr ar ffrwd unionsyth ar ongl serth i mewn i'r adran dân (ymosodiad anuniongyrchol) neu'n uniongyrchol at y tân (ymosodiad uniongyrchol) yn sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn tymheredd a dyna yn y pen draw sy'n gwella'r amodau i Ddiffoddwyr Tân a dioddefwyr fel ei gilydd.¹⁷

262. Y gynulleidfa darged ar gyfer y cyflwyniad hwn yw Diffoddwyr Tân newydd. Mae'r sleidiau hyn yn argymhell isafswm defnydd o ddŵr heb ystyried unrhyw fath o reolaeth awyru. Y dull 3 cham yw'r lleiaf effeithiol yn erbyn tân a reolir gan yr awyru gyda'r potensial i drosglwyddo'r adran yn gyflym i sefyllfa o fflachiad ar ôl ei hawyru ac un sy'n peri'r risg fwyaf i Ddiffoddwyr Tân, dioddefwyr a'r eiddo.

263. Caiff hyn ei gymhlethu ymhellach ar Sleid 24 o'r enw 'Phase 3 - Painting'. Mae'r sleid yn cynnwys llun o dîm offer anadlu yn cyfeirio pwls o ddŵr gyda chorn (bale) y gangen yn rhannol agored ar dân bach a reolir gan danwydd ar y llawr yn yr un llyfrgell a ddangosir yn Sleid 20 gyda'r testun canlynol:

Minimal amounts of water should be applied up close and direct

Gall hyn fod yn effeithiol ar gyfer tân bach a reolir gan danwydd. Ond prin byddai hynny'n wir ar gyfer potensial cyfradd rhyddhau gwres uchel cyn neu ar ôl tân fflachiad. Dylai'r swm o ddŵr a ddefnyddir fod yr hyn a amcangyfrifir yn ddigonol i ddiffodd y tân ar ôl ei bennu yn ôl fformiwla safle'r tân neu amcangyfrif o'r gyfradd rhyddhau gwres.

264. Mae sleidiau 25 – 29, oll â'r teitl 'Operational Considerations' yn ailadrodd y dull 3 cham a ddisgrifir uchod.

265. Nod y cyflwyniad yw 'to provide students with an appreciation of the inherent dangers of compartment fires and the procedures and extinguishing techniques to safely deal with potential backdraught and flashover conditions when attending incidents'.

266. Nid oes unrhyw beth yng nghynnwys y cyflwyniad a fyddai'n rhoi hyder i mi y byddai'r nod hwn yn cael ei gyflawni.

¹⁷ Study of the Impact of Fire Attack Utilizing Interior and Exterior Streams on Firefighter Safety and Occupant Survival | UL's FSRI – Fire Safety Research Institute

267. Mae'r tactegau a ddatblygwyd o fewn y dull 3 cham yn adlewyrchu'r ffaith bod dull Rosander a Gisselson a ddisgrifir yn yr adran Polisi Gweithredol wedi'i fabwysiadu'n rhannol. Dylid dileu sleid 15 ac ymlaen a'u disodli gyda'r tactegau mesurau rheoli sy'n ymddangos ym mha bynnag ganllawiau gweithredol hollgynhwysfawr ar gyfer tanau strwythurol a gyflwynir gan GTAGC i fynd i'r afael â'r bwloch presennol a ddisgrifir yn flaenorol yn yr adroddiad hwn.

268. Yn fy marn i, dylai'r tactegau mesurau rheoli hyn ailadrodd yr Ystyriaethau Tactegol a amlinellir ym Mhennod 10 o NFPA 1700 'Guide to structural firefighting'. Byddaf yn dychwelyd at y pwynt hwn yn yr adran grynhoi isod.

Materion a godwyd mewn arolygiadau Adolygiad Thematig blaenorol

269. Mae'r 3 Adolygiad Thematig blaenorol rwyf wedi'u cynnal wedi codi materion sy'n berthnasol i'r arolygiad hwn ac i'r trefniadau sefydliadol y cyflawnir y polisi gweithredol drwyddynt.

270. Roedd argymhelliad 4 o ddogfen Adolygiad Thematig Dysgu o Grenfell¹⁸ (a gopiwyd isod) yn ymwneud â chyfraddau llif tactegol gan fy mod wedi nodi'r dacteg ddiofyn o ddefnyddio riliau pibell pwysedd uchel mewn digwyddiadau yn ystod yr arolygiad hwn.

271. Argymhelliad 4 – dylid cynnwys mewnbwn am gyfraddau llif tactegol ar gyfer ymdrechion diffodd tân a chyfrifiadau ar safle'r tân yn y maes llafur ar gyfer cyrsiau cychwynnol a gloywi ar Offer Anadlu ac Ymddygiad Tân Adrannol. Dylai hyn gael ei ategu gan fodiwl hyfforddiant ar-lein er mwyn cynnal sgiliau fel rhan o drefn waith yr orsaf.

272. Mae Aide Memoire a'r pecyn hyfforddi **(F 7) Fireground hydraulics and flow rates** yn cynnwys mewnbwn ar gyfraddau llif ond fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'n adlewyrchu'n gywir ganfyddiadau ymchwil Paul Grimwood, Prifysgol Glasgow Caledonia. Mae'r nodyn Rhybudd Gweithdrefnol PA 017 2020 'Initial means of attack at operational incidents' a gyhoeddwyd tua'r un pryd â gwaith maes arolygu'r Adolygiad Thematig yn cynnwys canllawiau sy'n gwrthddweud ei gilydd fel yr eglurwyd yn flaenorol.

273. Roedd argymhelliad 5 yn ymwneud â'r GTA yn sefydlu dull cadarn i sicrhau bod argymhellion yr Adolygiad Thematig wedi'u gwreiddio. Mae testun yr argymhelliad wedi'i gopïo isod:

274. Argymhelliad 5 - Petai'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn bwriadu derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, byddai angen diwygio'r broses Sicrwydd Gweithredol a ddefnyddir yn y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub i gasglu tystiolaeth benodol mewn perthynas â'r argymhellion er mwyn dangos eu bod yn cael eu rhoi ar waith mewn digwyddiadau. Fel arall, gallai'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub ddefnyddio proses Sicrwydd Thematig i dargedu'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn.

275. Cyhoeddwyd adroddiad Adolygiad Thematig Dysgu o Grenfell ar 25 Chwefror 2021. Mae data'r digwyddiadau a ddadansoddwyd yn yr adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2023 ac mae'n cynnwys dros 2 flynedd lawn ar ôl i'r argymhelliad hwn gael ei wneud. Ni cheir unrhyw dystiolaeth o'r dadansoddiad sy'n awgrymu bod y sefyllfa ddiofyn o ddefnyddio rîl pibell pwysedd uchel (yr opsiwn tactegol sy'n cynnig y gyfradd llif isaf ac felly'r lefel isaf o ddiogelwch i Ddiffoddwyr Tân) wedi newid mewn unrhyw ffordd yn GTAGC er gwaethaf hyn nac ychwaith

¹⁸ [Adolygiad thematig y Prif Gyngorydd Tân ac Achub: dysgu o argymhellion Ymchwiliad Tŵr Grenfell | LLYW. CYMRU](#)

cyhoeddi nodyn Rhybudd Gweithdrefnol PA 017 yn 2020. Rwy'n ystyried effeithiolrwydd proses sicrwydd gweithredol GTAGC yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

276. Yn yr Adolygiad Thematig ar ehangu rôl Diffoddwyr Tân¹⁹ a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 codais y pryder nad yw'r system shifftiau bresennol, sy'n dyddio o'r 1970au, yn caniatáu digon o amser ar gyfer hyfforddiant, ymarfer a gweithgareddau lleihau risg.

277. Yn ddiweddar, mae GTAGC wedi ffurfioli trefn waith mewn gorsafoedd ar gyfer y system shifft, fodd bynnag, nid yw hyn wedi rhyddhau'r lefel o gapasiti a nodwyd yn yr Adolygiad o ran cyfnodau gorffwys y shifft nos sy'n cyfrif am 14 awr o'r 48 awr a weithiwyd sydd ar gael ar draws y cyfnod cyfeirio 8 diwrnod (29.1%).

278. Mae unrhyw ymyrraeth â'r cyfnod gorffwys hwn, sy'n gymharol ragweladwy yn sgil galwadau brys, yn cynyddu'r risg o flinder gormodol i Ddiffoddwyr Tân ac nid oes mesur rheoli ar ei gyfer. Mae hyn yn fethiant ar ran y Gwasanaeth i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol o dan Reoliad 3 Rheoliadau Rheoli lechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

279. Mae hyn yn achos o gryn bryder, yn enwedig oherwydd y materion a nodwyd yn yr arolygiad hwn y gellir ond mynd i'r afael â nhw drwy gynnydd sylweddol mewn hyfforddiant ac ni ddylid ymgymryd â hyn ar draul gweithgarwch lleihau risgiau. Dylai'r Gwasanaeth bennu diogelwch Diffoddwyr Tân fel ei brif flaenoriaeth.

280. Yn adroddiad yr Adolygiad Thematig ar Hyfforddiant Gweithredol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022, codais nifer o bryderon sy'n parhau'n uniongyrchol berthnasol i'r materion a amlygwyd drwy gydol yr arolygiad hwn.

281. Y cyntaf oedd nad yw'r un o'r GTA yng Nghymru yn gwybod i sicrwydd faint o amser y dylid ei glustnodi o fewn trefniadau gwaith arferol yr orsaf i hyfforddiant cynnal sgiliau.

282. Mewn ymateb i Argymhellion 2a a 2b, cynhaliodd GTAGC adolygiad o'r amser a neilltuwyd i hyfforddiant (Adolygiad Sgiliau Craidd Gweithredol GTAGC), y rhannwyd ei ganlyniadau gyda mi ym mis Chwefror 2024. Ysgrifennais at GTAGC ar 6 Mawrth 2024 gyda dau sylw sylweddol ar y fethodoleg adolygu.

283. Dyrannodd yr adolygiad amseroedd i bob amcan ar gyfer y maes sgiliau craidd perthnasol fel y cânt eu cyflwyno yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Gall disgrifiadau nodau'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol fod yn eang a chwmpasu sawl tacteg neu dechneg mesur rheoli. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol hefyd yn methu â chyfleu'r ystod lawn o opsiynau tactegol sydd ar gael i'r GTA. Er enghraifft, nid yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn cyfeirio'n benodol (neu fel arall) at dactegau ar gyfer ymosodiad mewnol neu allanol ymosodol.

¹⁹ Capasiti'r gwasanaeth tân ac achub: adolygiad thematig | LLYW. CYMRU

284. Fy argymhelliad ar y pryd oedd y dylai GTAGC ymgymryd â'r dadansoddiad yn erbyn yr ystod lawn o dactegau a thechnegau mesur rheoli ar gyfer pob math o ddigwyddiad a ddylai fod wedi'u hamlinellu yng nghanllawiau gweithredol GTAGC. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, nid oes unrhyw ganllawiau hollgynhwysfawr ar gyfer ymladd tân strwythurol ar hyn o bryd yn GTAGC. Hyd nes y caiff hyn ei gywiro, nid yw'n bosibl i'r Gwasanaeth fodloni'r argymhelliad hwn. Mae Argymhelliad 2 adroddiad arolygu GTACAGC a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025 yn nodi y dylid datblygu canllawiau ymladd tân strwythurol hollgynhwysfawr Cymru gyfan er mwyn osgoi dyblygu ymdrech ddiangen ar draws 3 GTA Cymru.

285. Roedd y dyraniadau amser ar gyfer llawer o'r amcanion a gynhwyswyd yn nadansoddiad GTAGC ar gyfer un unigolyn, ond bydd criw gorsaf dân yn cynnwys o leiaf pedwar ac o bosibl pum Diffoddwr Tân. Yn ymarferol, felly, dylid defnyddio ffactor llusosi 4/5 (neu 2 mewn enghraifft sy'n ymwneud â thacteg neu dechneg mesur rheoli sy'n gysylltiedig â thîm offer anadlu) gyda'r gwerthoedd amser hyn. Er enghraifft, mae gan dechnegau oeri nwyon Nod 14 Matrics Sgiliau Craidd Offer Anadlu ddyraniad gwerth amser o awr dros gyfnod o flwyddyn. Ar wahân i'r ffaith mai oeri nwyon yw'r unig opsiwn tactegol sydd wedi'i gynnwys ar y matrics, dylid defnyddio ffactor llusosi 4/5 (yn dibynnu ar ragdybiaeth staffio cerbydau ddiofyn) gan y byddai angen i bob un o'r 4/5 aelod o'r criw ymarfer yn annibynnol ac yna ddangos cymhwysedd yn y dechneg hon. Rwy'n cydnabod bod driliau a senarios cyfunol yn caniatáu gweithgarwch ar yr un pryd a all leihau'r amser cyffredinol fel yr awgrymir yn yr adroddiad adolygu. Fodd bynnag, mae angen gwrthbwyso hyn gan y pwynt a wnes i uchod, er gwaethaf y realiti ei bod yn llawer anoddach i aseswr benderfynu a ddangoswyd y cymhwysedd wrth arsylwi gweithgareddau ar yr un pryd.

286. Fy argymhelliad ar y pryd oedd y dylid GTAGC gynhyrchu fideos hyfforddi o bob tacteg neu dechneg mesur rheoli sydd, yn ogystal â bod yn gymorth hyfforddi rhagorol, yn rhywbeth y gellir eu mesur i roi gwerth amser diffiniol er mwyn pennu'r dyraniad amser cywir. Byddai'r gwerth amser hwnnw yn cynnwys y criw yn gwylio'r fideo, pob aelod o'r criw yn ymgymryd ag ymarfer y dacteg neu'r dechneg mesur rheoli ac yna'n cael ei asesu'n unigol. Mae Argymhelliad 3 adroddiad arolygu GTACAGC a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025 yn nodi y dylid datblygu pecynnau hyfforddi ymladd tân strwythurol Cymru gyfan er mwyn osgoi dyblygu ymdrech ddiangen ar draws 3 GTA Cymru.

287. Mae argymhellion 5 a 6 yn uniongyrchol berthnasol i'r materion sylweddol a godwyd drwy gydol yr arolygiad hwn.

288. Rwy'n gwneud y pwynt yn yr Adolygiad Thematig ar Hyfforddiant Gweithredol fod heriau sylweddol i'r GTA wrth efelychu amodau tân modern y byd go iawn mewn amgylchedd hyfforddi.

289. Mae'r cyfleuster hyfforddi ymddygiad tân yn ffatri Airbus Brychdyn yn uned arddangos nad yw wedi'i chynllunio at ddibenion hyfforddi ar gyfer ymosodiadau tân. Mae gan y cyfleuster yn Nolgellau yr un cyfyngiadau â Phorth Caerdydd ac Earlswood o safbwynt y cyfraddau rhyddhau gwres a'r proffiliau awyru y gellir eu cyflawni, a'r angen i beidio â diffodd y tân er mwyn hwyluso cylchdroi mwy nag un garfan o fyfyrwr.

Mae hefyd yn llawer hŷn na chyfleusterau De a Chanolbarth a Gorllewin Cymru gyda'r holl heriau cysylltiedig sy'n dod gyda hynny. Mae GTAGC wrthi'n gweithio tuag at adeiladu canolfan hyfforddi newydd. Dylid mynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth.

290. Yn adroddiad yr Iseldiroedd 'When water goes up in smoke' y cyfeiriwyd ato ynghynt, defnyddiwyd rig pwrpasol i gynnal yr arbrofion i benderfynu ar y dull ymladd tân mwyaf diogel a mwyaf effeithiol o ran symud drwy'r eiddo tuag at yr ystafell sydd ar dân.

291. Mae'r testun a gopiwyd isod yn uniongyrchol o'r adroddiad yn disgrifio adeiladu'r rig prawf:

'One base scenario was applied to all experiments:

A major fire in a living room (6 – 8 MW) where the door from the fire room to the corridor is open, smoke is flowing into the adjacent corridor and the front door to the residence is open; no fire attack...

...In order to best approximate the real-life situation, the research was conducted in a brick building. The building was L-shaped, with the long part of the L-shape consisting of a 2- metre wide, 2.5 metre high and 20-metre long corridor. The fire room was located in the short part of the L-shape. This shape was chosen so that it would be impossible for the seat of the fire to be reached directly while carrying out the smoke cooling methods'.

292. Ymwelodd swyddogion o'r 3 GTA yng Nghymru â GTA yr Iseldiroedd ym mis Chwefror 2025 i weld hyn a'r chyfleusterau hyfforddi eraill. Byddai rig fel yr un a ddisgrifir uchod yn ychwanegiad ardderchog i ganolfan hyfforddi newydd a hyd y gwn i, hwn fyddai'r unig gyfleuster o'i fath yn y DU.

293. Yn yr Adolygiad Thematig ar Hyfforddiant Gweithredol, cyfeiriais at UL FSRI Hose Stream Prop. Mae'r testun a gopiwyd isod yn disgrifio ei esblygiad:

'The idea for the innovative Hose Stream Prop was sparked when FSRI research studies began to yield thought-provoking findings around the fundamentals of hose stream mechanics – specifically air entrainment and water mapping. These concepts are the ground-level building blocks needed to understand the impact of varying suppression tactics on the fireground. From these findings, FSRI research engineers began by building a prototype training prop to visualize and interactively demonstrate these concepts.

With the help of trusted fire service partners and live training demonstrations throughout the country, FSRI research engineers designed several enhancements to optimize usability, increase the suppression concepts able to be visualized with the prop and much trial and error – leading up to the final version and current construction plans'.

294. Mae UL FSRI wedi rhannu'r cynlluniau ar-lein i ganiatáu i wasanaethau tân ac achub adeiladu eu propiau eu hunain ynghyd â fideos hyfforddi a chynlluniau gwersi.

Pe bai GTAGC yn mabwysiadu dull canolfan a lloerennau o ddarparu hyfforddiant, byddai prop Llif Pibell ym ym mhob canolfan yn adnodd ardderchog.

Trefniadau sefydliadol ar gyfer cyflawni polisi gweithredol - crynodeb

295. Mae Rheolwyr Gorsafoedd unigol yn ymdrin â chanllawiau gweithredol a datblygu rhaglenni hyfforddi. Fel gyda phob Rheolwr Gorsaf a Grŵp yn GTAGC, maent hefyd yn ymgymryd â rôl Swyddogion Cymorth Gorsaf ar gyfer gorsafoedd tân RDS. Mae'r Swyddog Cymorth Gorsaf yn gyfrifol am yr holl faterion rheoli pobl, gan gynnwys y broses lle mae Diffoddwyr Tân dan hyfforddiant yn symud o ddatblygu i gymhwyso.

296. Mae'r Rheolwr Canllawiau Gweithredol yn gyfrifol am Aide Memoires a gweithredu'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol ynghyd â Dysgu Gweithredol Cenedlaethol a Dysgu Sefydliadol ar y Cyd. Mae'r Rheolwr Canllawiau Gweithredol wedi'i leoli yn yr Hwb Gweithrediadau Technegol yng nghanolfan gorsaf dân y Rhyl. Yr Hwb Gweithrediadau Technegol yw cyfrifoldeb y Rheolwr Ardal ar gyfer Gweithrediadau Technegol sy'n adrodd i Brif Swyddog Tân Cynorthwyol.

297. Mae'r Rheolwr Datblygu Rhaglenni Hyfforddi yn gyfrifol am bob agwedd ar y system cynnal a chofnodi cymhwysedd pdrPro ynghyd â'r System Rheoli Dysgu Learn Pro a'r cynnwys. Mae'r Rheolwr Datblygu Rhaglenni Hyfforddi wedi'i leoli yn yr Hwb Hyfforddi a Datblygu ac mae hefyd wedi'i leoli yng nghanolfan gorsaf dân y Rhyl. Y Rheolwr Ardal ar gyfer Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon ac mae'n adrodd i Brif Swyddog Tân Cynorthwyol.

298. Er gwaethaf eu bod mewn Hybiau swyddogaethol gwahanol, mae'r ddau Reolwr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd. Mae'r ddau yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y canllawiau gweithredol a chynnwys yr hyfforddiant yn gydnaws â'i gilydd. Yr her wirioneddol sydd ganddynt yw'r adnoddau sydd ar gael iddynt gyflawni hyn yn ymarferol. Nid oes gan y naill Reolwr Gorsaf dîm penodedig er gwaethaf y llwyth gwaith sylweddol y mae ysgrifennu, adolygu a datblygu canllawiau a deunyddiau hyfforddiant yn ei greu. Esboniodd y Rheolwr Canllawiau Gweithredol mai'r broses o ddatblygu'r Aide Memoires yw drwy ddyrannu pecyn gwaith i arbenigwyr pwnc y disgwylir iddynt ymgymryd â'r gwaith hwnnw ar ben eu rôl graidd. Cydnabu'r Rheolwr Datblygu Rhaglenni Hyfforddi yn ystod ein cyfarfod fod angen adolygiad sylweddol o gynnwys Learn Pro ond nad oes capasiti ar hyn o bryd ymhlith y garfan hyfforddwyr i gynnal adolygiad o'r fath.

299. Mae'r hyfforddwyr yn gweithio yn yr adran Cyflenwi Hyfforddiant ac maent wedi'u lleoli rhwng canolfan gorsaf dân y Rhyl a chanolfan hyfforddi Dolgellau. Mae'r Adran Cyflenwi Hyfforddiant yn gyfrifol am ddarparu'r holl hyfforddiant sgiliau craidd, yr Ysgol Rheoli Digwyddiadau a'r Ysgol Yrru. Mae'r Adran Cyflenwi Hyfforddi wedi'i lleoli yn yr Hwb Hyfforddi a Datblygu ynghyd â'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol.

300. Codais y materion yr wyf wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â chynnwys pecyn hyfforddi Learn Pro a'r Hwb Tân gyda'r hyfforddwyr yn y grŵp ffocws a gynhaliats yn y Rhyl. Tynnodd yr hyfforddwyr sylw at nifer o heriau sy'n ymwneud â datblygu cynnwys cyrsiau a chyflwyno hyfforddiant yn gyffredinol ac maent wedi'u crynhoi isod:

- *Diffyg diwrnodau DPP hyfforddwyr – nid yn unig at ddibenion safoni ond hefyd at hunan-hyfforddiant a datblygu cynnwys cyrsiau hyfforddi. Byddai trefnu siaradwyr gwadd neu arbenigwyr pwnc sydd â gwybodaeth am weithdrefnau ymosodiadau tân / offer anadlu yn helpu i ehangu gwybodaeth yr hyfforddwyr.*
- *Mae darparu hyfforddiant yn cymryd blaenoriaeth dros DPP hyfforddwr – mae'r Gwasanaeth yn chwarae'r gêm symiau i gadw pymplau ar waith yn hytrach na rhoi amser i hyfforddwyr ddiweddarau pecynnau hyfforddi / mynychu diwrnodau DPP ac ati.*
- *Gweithdrefnau sydd wedi dyddio - dylid rhannu'r gwersi yn dilyn mynychu'r hyfforddiant ar gyrsiau hyfforddwyr i ddarparu gwybodaeth weithredol i'w rhannu ledled y Gwasanaeth, yn hytrach na dim ond yr hyfforddwr yn derbyn cymhwyster.*
- *Yn ddiweddar, mynychodd rheolwyr canol sesiwn hyfforddi Cymru gyfan ar dechnegau ymosodiadau tân; fodd bynnag, ni wahoddwyd unrhyw hyfforddwyr i fynychu; byddai hyfforddwyr yn gwerthfawrogi ac yn elwa'n fawr o fod yn cymryd mwy o ran mewn sesiynau hyfforddi a dysgu.*
- *Byddai ymweliadau â chanolfannau hyfforddi a GTAAu eraill yn fuddiol i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw ddiwrnodau DPP / safoni yn y dyfodol. Byddai diwrnodau DPP yn unol â gwasanaethau cyfagos hefyd yn fuddiol i ddysgu a rhannu syniadau/gweithdrefnau a rhwydweithio â hyfforddwyr eraill.*
- *Byddai swyddogion cymorth gorsafoedd yn elwa o fynychu cyrsiau hyfforddi cychwynnol neu ddiwrnodau gloywi, a fyddai'n eu helpu i raeadru'r technegau hyfforddi cyfredol a chywir i'w gorsaf yn ystod yr ymweliadau hynny.*
- *Cyfleusterau annigonol gyda lleoliadau hyfforddi wedi'u gwasgaru ar draws y Gwasanaeth – nid oes un ganolfan hyfforddi sy'n golygu oriau ychwanegol yn teithio a threfnu offer/adnoddau ledled Gogledd Cymru.*
- *Offer annigonol ac anhawster o ran symud offer i leoliadau – mae offer a ddefnyddir ar gyfer hyfforddiant yn aml wedi cael ei wrthod gan orsafoedd ac mae'r offer hyfforddi yn offer sbâr o gerbyd hŷn, sy'n golygu bod Diffoddwyr Tân dan hyfforddiant yn dysgu gydag offer hen ffasiwn sy'n wahanol i'r hyn y byddant yn ei brofi ar ddyletswydd.*
- *Mae symud offer rhwng lleoliadau yn anodd ac yn beryglus, gan nad yw'r cerbydau a ddefnyddir yn briodol ar gyfer trosglwyddo offer. Nid oes gan y rhan fwyaf o gerbydau hyfforddi'r Gwasanaeth ofod yn y cefn / cab ar wahân, sy'n gwneud protocolau diheintio cab glân yn anodd eu dilyn.*

301. Nid oes gan GTAGC adnoddau da fel sefydliad. Mae nifer Rheolwyr Gorsafoedd a Grŵp yn seiliedig i raddau helaeth ar yr hyn sy'n ofynnol at ddibenion cyflenwad gweithredol o staff. Nid yw hyn yr un fath â'r isafswm niferoedd sy'n ofynnol i gwmpasu'r holl rolau hanfodol a dyna pam mae gan Rheolwyr Gorsafoedd a Grŵp gyfrifoldeb Swyddogion Cymorth Gorsafoedd am orsafoedd tân hefyd.

302. Mae maint GTA mewn perthynas â nifer y gorsafoedd a'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu yn academiaidd yng nghyd-destun canllawiau gweithredol a datblygu a chynnal deunyddiau hyfforddi. Mae Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol a'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'i weithredu, ei ddatblygu a'i gynnal yn lleol yr un fath ni waeth pa mor fawr neu fach yw'r GTA. Mae datblygu a chynnal canllawiau gweithredol a

deunyddiau hyfforddi o ansawdd yn drwm o ran adnoddau ac mae tu hwnt i allu Rheolwyr Gorsafoedd unigol waeth pa mor ymroddedig ydyn nhw. Mae hefyd yn ofyniad cyfreithiol. Byddai dull gweithredu Cymru gyfan yn gymorth heb os ond mae llwyth gwaith sylweddol yn y Gwasanaeth i'w reoli o hyd.

303. Mae ystyried cyllid GTAu Cymru y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Y sylw y byddwn i'n ei wneud yw, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr arolygiad hwn, mae gennyf bryderon difrifol nad yw GTAGC yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â darparu Asesiadau Risg Gweithredol addas a digonol ar gyfer pob math o ddigwyddiadau sy'n rhesymol rhagweladwy, gan gynnwys tanau mewn anheddau ac mewn perthynas â hyfforddi Diffoddwyr Tân i ddeall peryglon a thactegau mesurau rheoli priodol. Dim ond drwy gynyddu adnoddau yn sylweddol yn yr agwedd hon ar y Gwasanaeth y gellir mynd i'r afael â hyn.

Trefniadau sefydliadol ar gyfer monitro, archwilio ac adolygu perfformiad gweithredol

304. Mae proses sicrwydd gweithredol gadarn yn elfen hanfodol o unrhyw system rheoli perfformiad diogelwch. Ar gyfer y GTA mae'n cynnwys monitro digwyddiadau yn weithredol (naill ai o bell neu yn y fan a'r lle), archwiliadau ac adolygiadau safleoedd digwyddiadau gan gynnwys drwy gyfrwng y broses ôl-drafodaeth. Cefnogir hyn gan y rhaglen archwilio gorsafoedd lle cynhelir camau sicrwydd ansawdd yng nghyd-destun hyfforddiant cynnal sgiliau a phob agwedd ar barodrwydd gweithredol. O'i wneud yn iawn mae'n caniatáu i'r GTA wirio effeithiolrwydd gweithdrefnau gweithredol, offer a hyfforddiant yn barhaus a gwneud y newidiadau angenrheidiol. Mae'n hanfodol i Ddiffoddwyr Tân ac i ddiogelwch y cyhoedd, a dyna pam y mae mor amlwg yn yr arolygiad hwn.

305. **Y polisi ar gyfer sicrwydd gweithredol yn GTAGC yw'r Service Administrative Policy & Procedure Section 2 Order No. 11 – Operational Assurance** a gyrchir drwy'r adran Polisi ar yr Hwb Tân.

306. Cwmpas a phwrrpas y polisi yw:

To detail the specific elements of the Operational Assurance (OA) process, which is conducted to monitor the organisations operational activities and compliance with Performance Standards (PS).

307. Teitl adran 6 y polisi yw 'Internal/external related and other related documents' lle rhestrir Nodyn Canllawiau Iechyd a Diogelwch 65 (HSG 65) Successful health & safety management a **SAPPO Section 6, Order No 19 – Incident Debriefing Policy**. Cyhoeddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw HSG 65 ac mae ar gael ar eu gwefan. Ni fu modd imi ddod o hyd i gopi o **SAPPO Section 6, Order No 19 – Incident Debriefing Policy** ar yr Hwb Tân.

308. Teitl adran 7 y polisi yw 'Introduction'. Mae paragraff 7.1 yn nodi'n gywir mai agwedd hanfodol ar weithle diogel ac iach sy'n cydymffurfio â HSG 65 yw monitro gweithgareddau'n effeithiol. Mae'n mynd yn ei flaen i nodi bod: 'fundamental area, where monitoring and assessment of our activities is crucial, is during practical activities whether operationally, scenario or exercise based'.

309. Mae adran 8 y polisi yn disgrifio rôl y Tîm Safonau Perfformiad, fodd bynnag, nid yw'r Tîm hwn, a'r Tîm Safonau Gwasanaethau Proffesiynol a'i ddisodlodd, yn bodoli mwyach. Rwy'n dychwelyd at y trefniadau presennol ymhellach yn yr adran hon.

310. Mae adran 9 y polisi yn disgrifio'r weithdrefn ar gyfer Swyddogion sy'n cael eu mobileiddio i ddigwyddiadau at ddibenion rheoli digwyddiadau neu sicrwydd gweithredol. Mae'r agwedd hon ar y polisi yn parhau i fodoli ac yn rhoi disgrisiwn i'r Swyddog naill ai gymryd cyfrifoldeb am y digwyddiad neu gynnal camau sicrwydd gweithredol.

311. Teitl adran 11 y polisi yw 'Operational Assurance Process' ac mae egwyddorion hyn yn parhau i fodoli er bod y mecanweithiau casglu data wedi'u diweddarau.

312. Mae'r adran olaf, Adran 12 'Policy Review', yn nodi y bydd y Gorchmynion Gweithdrefnau a Pholisi Gweithredol y Gwasanaeth yn cael eu hadolygu bob 2 flynedd. Y dyddiad ar y polisi yw 12 Gorffennaf 2012. Does dim cofnodion ar y dudalen rheoli fersiwn i nodi ei fod wedi cael ei adolygu ers hynny.

313. Rhannodd y Rheolwr Grŵp sy'n gyfrifol am Sicrwydd Gweithredol (Rheolwr Grŵp Ymateb) bolisi a gweithdrefn Sicrwydd Gweithredol drafft gyda mi ac fe gadarnhaodd y bydd yn disodli **Service Administrative Policy & Procedure Section 2 Order No. 11 – Operational Assurance** ar ôl ei gymeradwyo.

314. Teitl y polisi drafft yw Operational Assurance (OA) of Operational and Control staff ac mae'n ddwy dudalen o hyd.

315. Mae'r datganiad polisi drafft yn adlewyrchu'r bwriad a gynhwysir yn y polisi presennol:

The Service is constantly seeking to improve its performance as an organisation.

A critical aspect of the management of a safe and healthy workplace, and compliance with Health and Safety Guidance Note 65 (HSG65), is the effective monitoring of activities.

OA is conducted to monitor compliance with current operational policies, procedures and adopted National Operational Guidance (NOG) relating to the mobilisation and attendance at operational incidents.

OA is a means of measuring and recording organisational, team and individual performances of uniformed operational and control staff during their response to operational incidents, training exercises, simulations and drills.

316. Mae'r manylion sylweddol sy'n sail i'r polisi drafft wedi'u cynnwys mewn gweithdrefn o'r un enw - **Operational Assurance (OA) of Operational and Control.**

317. Mae 'Cyflwyniad' y weithdrefn yn nodi aelodaeth a phwrpas y Tîm Sicrwydd Gweithredol a'r Grŵp Sicrwydd Gweithredol.

318. Mae'r Tîm Sicrwydd Gweithredol yn cynnwys yr 11 Rheolwr Gorsaf sy'n gyfrifol am 4 gorsaf dân (sef Rheolwyr Lleol) a'r 3 Rheolwr Grŵp Cyflenwi Gwasanaethau sy'n gyfrifol am 3 ardal y Gwasanaeth lle mae'r 44 gorsaf dân wedi'u lleoli ynddynt - y Dwyrain; y Gorllewin a'r Canol. Mae rôl Rheolwyr Lleol yn wahanol i rôl Swyddogion Cymorth Gorsafoedd. Mae Rheolwyr Lleol yn gyfrifol am bob agwedd ar y rhaglen Sicrwydd Gorsaf sy'n cynnwys archwiliadau a monitro gweithredol ar yr holl weithgareddau cynnal a datblygu cymhwysedd yn amrywio o arferion safonol unigol, driliau cyfansawdd, senarios i ymarferion tactegol. Mae Rheolwyr Lleol hefyd yn gweithredu fel Swyddogion Cymorth Gorsafoedd ar gyfer yr orsaf llawn amser yn eu grŵp o 4 gorsaf ac mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol am reoli perfformiad y grŵp.

Fel gyda'u cymheiriaid swyddogaethol, mae'r rhain â chwmpas mawr sy'n adlewyrchu'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Gwasanaeth.

319. I bob pwrpas, mae'r Tîm Sicrwydd Gweithredol wedi disodli'r Tîm Safonau Gwasanaethau Proffesiynol a gafodd ei ddiddymu yn 2022. Cyflwynwyd y Tîm Safonau Gwasanaethau Proffesiynol yn 2016. Roedd yn cael ei arwain gan Reolwr Ardal ynghyd â Rheolwr Grŵp a phum Rheolwr Gorsaf i sicrhau bod un aelod o'r Tîm Safonau Gwasanaethau Proffesiynol bob amser ar ddyletswydd. Y gwahaniaeth sylweddol rhwng y Tîm Sicrwydd Gweithredol a Thîm Safonau Gwasanaethau Proffesiynol yw bod gan y Rheolwyr Lleol gyfrifoldeb am 4 gorsaf ddynodedig tra bod yr ail yn adnodd pwrpasol i'r Gwasanaeth cyfan.

320. Mynegwyd safbwyntiau cymysg i mi ar yr ymweliadau â'r gorsafoedd ac mewn grwpiau ffocws ynglŷn â'r rhinweddau neu fel arall sy'n perthyn i'r trefniadau presennol o'u cymharu â'r trefniadau etifeddol. Byddaf yn ailymweld â'r mater hwn yn ddiweddarach yn yr adran hon.

321. Mae'r holl uwch swyddogion gweithredol yn GTAGC sy'n ymwneud â'r system ddyletswydd hyblyg y cyfeirir atynt fel 'Swyddogion' yn yr adroddiad hwn, yn gyfrifol am fonitro digwyddiadau gweithredol pan fyddant yn cael eu mobileiddio a phan fyddant yn gwneud y penderfyniad i beidio â chymryd rheolaeth ar y digwyddiad.

322. Er nad yw'n cael ei nodi'n benodol yn y weithdrefn, esboniodd y Rheolwr Grŵp Ymateb i mi mai pwrpas y Grŵp Sicrwydd Gweithredol yw ystyried canlyniadau monitro gweithredol ar ddigwyddiadau ac ymarferion ac o archwiliadau'r gorsafoedd a gynhaliwyd gan y Tîm Sicrwydd Gweithredol. Bydd y Grŵp yn cyfarfod o leiaf unwaith bob chwarter dan gadeiryddiaeth y Rheolwr Grŵp Ymateb. Mae aelodaeth y Grŵp Sicrwydd Gweithredol fel a ganlyn:

- 3 x Rheolwyr Grŵp Cyflenwi Gwasanaethau
- Aelod o'r Tîm Rheoli Rheoli Tanau sy'n gyfrifol am Sicrwydd Gweithredol ym maes Rheoli Tanau
- Rheolwr yr Orsaf ar gyfer Sicrwydd ac Adnoddau
- Rheolwr yr Orsaf ar gyfer Rheoli Digwyddiadau

323. Mae'r weithdrefn yn nodi y bydd y Rheolwr Grŵp Ymateb yn:

...compile a report to provide regular updates to the Operational Learning Committee (OLC) on Operational Assurance activity, identified issues and any additional work streams being undertaken by the Team or Group.

Caiff y Pwyllgor Dysgu Gweithredol ei gadeirio gan Brif Swyddog Tân Cynorthwyol ac mae'n cynnwys yr aelodau sefydlog canlynol:

- Pennaeth Ymateb
- Pennaeth Gweithrediadau Technegol
- Pennaeth Diogelwch Tân
- Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu

- Pennaeth Rheoli
- Cadeirydd y Grŵp Sicrwydd Gweithredol
- Cadeirydd y Grŵp Dysgu Gweithredol
- Cadeirydd y Grŵp Hyfforddiant a Datblygu Gweithredol a Rheoli
- Cadeirydd y Grŵp Polisi a Chanllawiau Gweithredol Cenedlaethol
- Cadeirydd y Grŵp Defnyddwyr Ymchwil ac Arloesi
- Cadeirydd y Grŵp Gwybodaeth Risgiau
- Rheolwr Gorsaf Gwytnwch Cenedlaethol
- Rheolwr Risgiau, Diogelwch a Hawliadau
- Cynorthwyr Gweithredol

Amcanion y Pwyllgor yw:

- *Monitro a chraffu ar ddysgu sefydliadol o ffynonellau mewnol i sicrhau gweithlu diogel ac effeithiol.*
- *Monitro a chraffu ar ddysgu sefydliadol o ffynonellau allanol i sicrhau gweithlu diogel ac effeithiol.*
- *Darparu cyfeiriad strategol amserol mewn perthynas â Dysgu sefydliadol i gynnal gweithlu diogel ac effeithiol;*
- *Darparu gwybodaeth a deallusrwydd strategol mewn perthynas â dysgu sefydliadol, o ffynonellau mewnol ac allanol, i gynnal gweithlu diogel ac effeithiol.*

324. Mae criwiau gweithredol yn cyflwyno sylwadau o ôl-drafodaethau poeth yn dilyn digwyddiad drwy gyfrwng y Ffurflen Ôl-ddigwyddiad.

325. Mae Swyddogion yn cyflwyno arsylwadau o waith monitro gweithredol mewn digwyddiadau ar ffurflen Sicrwydd Gweithredol ar pdrPro. Mae arsylwadau sy'n benodol i Gomandariaid Digwyddiadau unigol yn cael eu cyflwyno drwy'r system Rheoli Effeithiol.

326. Mae'r Rheolwr Gorsaf Sicrwydd ac Adnoddau yn cynnal taenlen tueddiadau Sicrwydd Gweithredol i gofnodi enghreifftiau o arferion cadarnhaol a negyddol a gyflwynir drwy wahanol systemau adroddiadau Sicrwydd Gweithredol electronig. Dyma elfen Sicrwydd Gweithredol y rôl. Mae'r elfen 'Adnoddau' yn ymwneud â phob agwedd ar gynnal criw gweithredol ar draws y Gwasanaeth a hyn sy'n cymryd y rhan fwyaf o amser y Swyddog hwn.

327. Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp Ymateb i mi mai craffu cyfyngedig a geir ar ffurflenni' Sicrwydd Gweithredol gan nad oes adnodd pwrpasol i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Monitro digwyddiadau

328. Mae gwaith monitro digwyddiadau yn cael ei gynnal gan Reolwyr Gorsafoedd a Grŵp yng nghyd-destun y system ddyletswydd hyblyg. Mae Rheolwyr Ardal a Phrif Swyddogion hefyd yn ymgymryd â gwaith monitro digwyddiadau mewn digwyddiadau mwy.

329. Oherwydd maint yr ardal a gwmpesir gan GTAGC, mae'r Rheolaeth Tanau yn mobileiddio'r Rheolwr Gorsaf neu Grŵp agosaf waeth beth fo'i statws i'r digwyddiad. Gellir mobileiddio Swyddogion i fod yn gyfrifol am reoli'r digwyddiad neu i ymgymryd â gwaith monitro gweithredol. Mae **SAPPO Section 2 Order No 11 Operational Assurance** yn nodi y bydd Swyddog yn cael ei anfon i bob digwyddiad lle bydd mwy nag un cerbyd tân yn bresennol a hynny wedi'i bennu ymlaen llaw ac eithrio gweithrediadau Larwm Tân Awtomatig. Yn y cyfarfod gyda'r Rheolwr Ardal (Pennaeth Ymateb) a'r Rheolwr Grŵp Ymateb, esboniwyd mai'r unig amrywiad i hyn yw pan fydd y Swyddog â Gofal y cerbyd tân ar hyfforddiant ac ar y rhestr fentora. Yn yr amgylchiadau hyn byddai Swyddog yn cael ei fobileiddio at ddibenion mentora hyd yn oed pe bai'r digwyddiad ond yn gofyn am bresenoldeb un cerbyd tân.

330. Unwaith y bydd yn bresennol, gall y Swyddog naill ai benderfynu cymryd rheolaeth ar y digwyddiad neu ar y safle i ymgymryd â'r gwaith Sicrwydd Gweithredol. Mae'r canllawiau yn y polisi yn nodi y dylai'r penderfyniad i gymryd yr awenau fod 'yn seiliedig ar faint, cymhlethdod a hyd y digwyddiad'.

331. Nid oes unrhyw sbardunau wedi'u penderfynu ymlaen llaw yn seiliedig ar rychwant y rheolaeth o ran pryd y bydd Swyddog yn cymryd yr awenau h.y. pan fydd pedwar neu fwy o gerbydau yn bresennol.

332. Rwy'n cydnabod yr heriau daearyddol sylweddol sy'n wynebu GTAGC wrth i'w Swyddogion ymateb i ddigwyddiadau mewn lleoliadau gwledig anghysbell. Wedi dweud hynny, rwyf o'r farn y byddai'n fuddiol cynnal dadansoddiad o rolau a chyfrifoldebau ar sail digwyddiadau i ragbennu'r pwynt lle mae'n debygol yr eir y tu hwnt i'r rhychwantau rheolaeth ar gyfer Comander y Digwyddiad. Byddai hyn fel arfer yn seiliedig ar nifer y cerbydau sy'n bresennol a byddai'n caniatáu i'r Rheolwr Tân anfon Swyddog at y diben penodol o gymryd yr awenau. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai Swyddog o'r radd uchaf nesaf yn cael ei hysbysu neu ei fobileiddio at ddibenion monitro digwyddiadau'n weithredol.

333. At ddibenion rheoli risgiau ar y ffyrdd, pan fydd unrhyw Swyddog yn cael ei fobileiddio i ddigwyddiad waeth beth fo'r diben, rwy'n argymhell yn gryf bod GTAGC yn ffurfioli'r broses o roi gwybod i Swyddog arall at ddibenion ymgymryd â gwaith monitro digwyddiadau'n weithredol. Byddai'r Swyddog a hysbyswyd yn mewngofnodi i'r system mobileiddio, yn ymgysylltu'n llawn â log y digwyddiad a datblygiad y digwyddiad ac yn monitro negeseuon safle'r digwyddiad neu ar y brif radio. Byddai hyn yn caniatáu i'r Swyddog sy'n ymateb o dan amodau ymateb brys ganolbwyntio'n llwyr ar yrru heb orfod ceisio monitro unrhyw ddatblygiadau gyda'r digwyddiad hefyd. Unwaith y byddant yn cyrraedd, byddent yn cysylltu â'r Swyddog sy'n gyfrifol am fonitro digwyddiadau'n weithredol a fyddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y digwyddiad ac yn rhannu eu harfarniad o'r datblygiadau ac unrhyw feysydd sy'n peri

pryder posibl. Rwy'n gwneud argymhelliad i'r perwyl hwn yn Adran 3 yr adroddiad hwn. Mae'r weithdrefn Sicrwydd Gweithredol ddrafft yn cynnwys canllawiau ar Sicrwydd Gweithredol mewn digwyddiadau ynghyd â rhestr wirio mentora.

Adolygu digwyddiadau ac ôl-drafodaeth

334. Ar yr ymweliadau â'r gorsafoedd fe gadarnhaodd y Diffoddwyr Tân a Rheolwyr Criw a'r Wylfa ei bod hi'n arfer safonol cynnal sesiwn ôl-drafodaeth boeth ar ddiwedd digwyddiad.

335. Roedd hi'n ddealltwriaeth gyffredin y byddai unrhyw arferion da neu faterion o bryder yn cael eu cofnodi ar y ffurflen ôl-ddigwyddiad. Ar bob ymweliad â'r gorsafoedd gwelwyd bod ymwybyddiaeth o'r ffurflen ôl-ddigwyddiad, ei phwmpas, ble y gellid dod o hyd iddi ac i ble y dylid ei chyflwyno. Fodd bynnag, nodwyd mai prin oedd yr achlysuron pan dderbyniwyd un ai cydnabyddiaeth neu adborth ar ôl cyflwyno ffurflen ôl-ddigwyddiad ar fater ymladd tân gweithredol ar ôl digwyddiad. Roedd y gwrthwyneb yn wir am faterion diffodd tân nad oedd yn rhai gweithredol, er enghraifft, y rhai oedd yn ymwneud â materion diogelwch cartref y dywedodd Diffoddwyr Tân fod ymateb iddynt bron bob amser.

336. Ni fu modd imi ddod o hyd i gopi o **SAPPO Section 6, Order No 19 – Incident Debriefing Policy** ar yr Hwb Tân.

337. O dan y pennawd 'Debrief management' mae'r **weithdrefn Sicrwydd Gweithredol** ddrafft yn nodi:

'Incidents of note, requiring a structured debrief will be identified by Locality Managers or requested via the OAT by attending FDS officers, CMT or attending ICs. A structured debrief will have the ability to record all information relating to an incident and produce data that can be used for scrutiny, discussion and action purposes'.

338. Mae'r weithdrefn yn mynd yn ei blaen i egluro y bydd Rheolwr yr Orsaf ar gyfer Sicrwydd ac Adnoddau yn gyfrifol am goladu gwybodaeth a threfnu ôl-drafodaethau strwythuredig yn dilyn digwyddiadau a nodwyd fel rhai sy'n cynnwys cyfleoedd dysgu mewnol a/neu allanol.

339. Mae adroddiadau ôl-drafodaethau strwythuredig wedi'u cyhoeddi ar yr Hwb Tân ar gael drwy'r dudalen Ymateb, fodd bynnag, y dyddiadau diweddaraf a nodwyd oedd 2017. Mae adroddiadau ôl-drafodaeth mwy diweddar ar y sianel Teams bwrpasol, fodd bynnag, mae caniatâd mynediad wedi'i gyfyngu.

340. Er mwyn sicrhau bod y materion a nodwyd mewn digwyddiadau yn cael eu cofnodi a'u hadolygu ar unwaith, dylai'r Rheolwr Grŵp Ymateb neu ei ddirprwy gynnal cyfarfodydd dyddiol wrth newid shift lle bydd pob swyddog tactegol sydd ar ddyletswydd yn bresennol ynddynt i adolygu pob digwyddiad a ddigwyddodd dros y 24 awr flaenorol. Byddai hyn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw ynghylch materion a nodwyd y gallent weithredu arnynt ar unwaith heb orfod aros i ffurflen ôl-ddigwyddiad neu ffurflen Sicrwydd Gweithredol gael ei chyflwyno drwy pdrPro. Rwy'n gwneud argymhelliad i'r perwyl hwn yn Adran 3 yr adroddiad hwn.

341. Nid oes unrhyw broses wedi'i nodi ar gyfer adolygu Asesiadau Risg Dadansoddol yn y weithdrefn Sicrwydd Gweithredol. Esboniodd y Rheolwr Grŵp

Ymateb i mi fod Asesiadau Risg Dadansoddol ar ffurf copi caled yn cael eu cwblhau ar safle'r digwyddiad. Ar ôl y digwyddiad cânt eu hanfon i'r Adran Weithrediadau lle cânt eu sganio a'u cadw ar ffeil. Ni chânt eu dadansoddi'n rheolaidd ond maent ar gael ar gais.

342. Mewn cyfarfod dilynol gyda'r Rheolwr Grŵp Ymateb, gofynnais faint o adroddiadau am achosion a fu bron â digwydd a gyflwynwyd ar gyfer materion a nodwyd mewn tanau mewn anheddau. Yr ateb a gefais oedd na chafwyd yr un sy'n ymwneud â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

343. Yn fy nghyfarfod gyda'r Rheolwr Grŵp sy'n gyfrifol am ymchwilio i danau, eglurais bwrpas gofyn am adroddiadau ymchwiliadau i danau, ac yn benodol mai datblygiad tanau oedd gennyf ddiddordeb ynddo yn hytrach nag achos a tharddiad y tân. Adolygwyd nifer o ffotograffau o olygfeydd o ddigwyddiadau yr oeddwn wedi tynnu sylw atynt drwy'r dadansoddiad ac roeddem yn gallu nodi tystiolaeth ddiamheuol o ddatblygiad a chynnydd tân yn enwedig mewn perthynas â llifoedd dwyffordd ac unffordd ar y pwynt lle aeth y Diffoddwyr Tân i mewn i'r eiddo. Pan gaiff hyn ei fapio yn erbyn y log digwyddiadau a'r datganiadau cyntaf, mae'n bosibl llunio dealltwriaeth gynhwysfawr o'r digwyddiad a sut mae'r tactegau a ddefnyddiwyd wedi cyfrannu at y canlyniad.

344. Byddai llawer o'r digwyddiadau hyn yn gwneud astudiaethau achos ardderchog ac yn tynnu sylw at y gwerth y gall swyddogion ymchwilio i danau ei gyflwyno i'r broses adolygu digwyddiadau.

Trefniadau sefydliadol ar gyfer monitro, archwilio ac adolygu perfformiad gweithredol - crynodeb

345. Mae GTAGC yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr. Ar wahân i Wrecsam sydd â dau gerbyd llawn amser ac un rhan amser/ar alw, mae'r ddwy orsaf shifft a chriw pum diwrnod amser llawn arall wedi'u lleoli ar hyd yr arfordir (un cerbyd llawn amser ac un rhan amser ym mhob un). Gorsafoedd rhan amser/ar alw sy'n cwmpasu'r ardaloedd mewndirol sy'n weddill. O ystyried maint yr ardal a dosbarthiad canolfannau poblogaeth mae hyn yn nifer cyfyngedig o gerbydau llawn amser ac fe gaiff hyn ei leihau ymhellach dros nos pan fydd y criw dydd yn newid i griw rhan amser/ar alw. Mae argaeledd Diffoddwyr rhan amser yn isel yn ystod y dydd fel sy'n wir ledled llawer o'r DU. Mae hyn yn arwain at wahaniaethau sylweddol yn yr ymateb brys sydd ar gael ledled Gogledd Cymru gydag amseroedd ymateb estynedig ar gyfer cerbydau a hyd yn oed yn hirach i Swyddogion Tactegol oherwydd y pellteroedd teithio. Felly, nid wyf yn tanbrisiu'r heriau sy'n wynebu GTAGC wrth sicrhau proses gadarn o sicrwydd gweithredol ac yn enwedig o ran monitro digwyddiadau'n weithredol.

346. Mae gan GTAGC broses sefydledig a dealladwy ar gyfer ôl-drafodaethau poeth, drwy gwblhau'r ffurflen ôl-ddigwyddiad. Fel y nodwyd yn flaenorol, ni fu modd imi ddod o hyd i gopi o **SAPPO Section 6, Order No 19 – Incident Debriefing Policy** ar yr Hwb Tân. Mae'r Sicrwydd Gweithredol gweithdrefn Weithredol a Rheolaeth yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Reolwyr Lleol i benderfynu a oes angen ôl-drafodaeth strwythuredig ynghylch digwyddiad.

347. Nid yw'r materion sy'n peri pryder rwyf wedi'u nodi yn Adran 1 yr adroddiad hwn ac i raddau y cyfeirir atynt yn Rhybudd Gweithdrefnol PA 017 2020 wedi'u nodi naill ai drwy'r broses ôl-drafodaeth boeth, cyflwyno cofnodion digwyddiadau fu bron â digwydd nac yn unrhyw un o'r adroddiadau ôl-drafodaeth strwythuredig a welais drwy'r Hwb Tân ac felly ni weithredwyd arnynt er mwyn newid y dull tactegol diofyn. Rwyf o'r farn bod hynny oherwydd y diffygion yr wyf wedi tynnu sylw atynt yng nghynnwys yr Aide Memoires a'r pecynnau hyfforddi yn ogystal â diffygion gyda'r broses sicrwydd gweithredol. Nid yw'r materion hyn yn cael eu cydnabod oherwydd nad yw'r wybodaeth sylfaenol yno.

348. Mae gan y Rheolwr Grŵp Ymateb gyfrifoldeb corfforaethol dros bob agwedd ar Sicrwydd Gweithredol sy'n cael ei gyflwyno drwy'r Tîm Sicrwydd Gweithredol (archwiliadau gorsafoedd) a charfan y Rheolwyr Gorsaf a Grŵp (monitro digwyddiadau gweithredol). Nid yw'n bosibl i un unigolyn gyflawni'r rôl hon, sy'n hanfodol i ddiogelwch, yn effeithiol ar ei ben ei hun waeth pa mor ymroddedig y gallai fod.

349. Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch rhinweddau'r trefniadau Sicrwydd Gweithredol presennol yn erbyn y trefniadau etifeddol drwy'r Tîm Safonau Gwasanaethau Proffesiynol.

350. Byddai'r Tîm Safonau Gwasanaethau Proffesiynol yn aml yn ymweld â gorsafoedd heb rybudd. Dywedwyd wrthyf bod Diffoddwyr Tân a Swyddogion Gwylfa yn 'ofni'r' Tîm Safonau Gwasanaethau Proffesiynol ac archwiliadau'r gorsafoedd. Cafwyd cydnabyddiaeth glir ar bob ymweliad â gorsaf, ac yn y grŵp ffocws a'r

cyfweiliadau strwythuredig nad oes lle i Dimau, nac unrhyw unigolion gael eu hofni yn y GTA.

351. Fodd bynnag, gwnaed llawer o sylwadau o blaid y Tîm Safonau Gwasanaethau Proffesiynol mewn perthynas â'i effeithiolrwydd wrth gyflawni Sicrwydd Gweithredol a chynnal safonau o'i gymharu â'r trefniadau presennol. Nodir rhai ohonynt isod:

... roedd sicrwydd bron pob pwynt darparu gwasanaethau ar waith, o gaffael sgiliau Diffoddwyr Tân i ddarparu hyfforddiant, archwilio cymhwysedd, cyflawni gweithdrefnol yn erbyn canllawiau cenedlaethol. Sicrhaodd rhaglen archwilio'r gorsafoedd fod pob maes iechyd a diogelwch yn y gwasanaeth yn cael eu cynnal a'u deall yn glir. Rhoddodd y tîm hefyd sicrwydd ynghylch data digwyddiadau yn ystod digwyddiadau gweithredol ac ar ôl hynny drwy'r broses ôl-drafodaeth a dysgu...

Fe wnaeth y newid i 3 Rheolwr Sicrwydd Gweithredol ardal wanhau gwaith Sicrwydd Gweithredol gan nad oedd unrhyw swyddogaeth ganolog ar waith na safoni ar draws ardaloedd oherwydd y logisteg a'r ardal cyflenwi gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd yn dal i allu rhoi rhywfaint o sicrwydd gydag archwilio gorsafoedd mewn dull cyflwyno llai ffurfiol...

Eleni rydym wedi symud i dîm Sicrwydd Gweithredol o 1.5 o bobl, gyda disgwyliad bod rheolwyr gorsafoedd yn cyflawni Sicrwydd Gweithredol. Nid yw hyn yn ymarferol mewn gwirionedd gan ei fod yn caniatáu inni farcio ein gwaith cartref ein hunain i bob pwrpas os a phan fydd y capasiti yn caniatáu hynny gan fod y rownd bapur mor fawr ar hyn o bryd.

352. Rwy'n credu y byddai llawer o werth mewn Tîm Sicrwydd Gweithredol pwrpasol neu o leiaf un Swyddog ychwanegol i gefnogi'r Rheolwr Grŵp Ymateb i fonitro, archwilio ac adolygu digwyddiadau gweithredol ochr yn ochr â chynnal archwiliadau gorsafoedd. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod fod yr heriau o ran adnoddau yn golygu nad yw hyn yn ymarferol ar gyfer GTAGC.

353. Mae'r trefniadau ar gyfer monitro digwyddiadau'n weithredol yn gwneud synnwyr o ystyried yr adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaeth a'r ddaearyddiaeth. Fodd bynnag, rwyf o'r farn y gellid cryfhau'r trefniadau hyn.

354. Pwrpas datgan modd tactegol ar y neges hysbysol gyntaf mewn digwyddiad yw cofnodi canlyniadau'r asesiad risg deinamig a gynhaliwyd gan Gomander y Digwyddiad. Mae'r neges hysbysol gyntaf hon yn gyfle i grisialu maint y peryglon y mae Comander y Digwyddiad wedi'u nodi a'r tactegau mesurau rheoli y maent yn bwriadu eu defnyddio i'w lliniaru ac i ddatrys y digwyddiad.

355. Cynnwys nodweddiadol neges hysbysol o'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yw '2BA, hose reel, offensive mode'. Mae hyn yn aml yn dilyn neges gychwynnol sy'n nodi geiriau i'r perwyl 'mwy yn codi' neu 'ar dân'.

356. Pe bai'n ofynnol i Gomander y Digwyddiad nodi'r prif berygl ochr yn ochr â'r tactegau mesurau rheoli, gallai hyn ymddangos fel a ganlyn:

'Ground floor fully involved in fire, offensive exterior attack using a 45mm jet, transitioning to an offensive interior attack using a 45mm jet once knockdown is achieved, offensive mode'

357. Byddai dau bwrpas i neges o'r fath. Yn gyntaf, o safbwynt monitro gweithredol byddai'n rhoi hyder i'r Swyddog sy'n monitro'r digwyddiad fod mesurau rheoli priodol yn cael eu defnyddio i liniaru'r perygl a nodwyd. Yn yr enghraifft a ddefnyddir uchod, pe bai'r opsiwn tactegol yn unrhyw beth llai na jet 45mm (hy rîl pibell pwysedd uchel 19mm), yna byddai cyfle i'r Swyddog sy'n monitro'r digwyddiad ymyrryd, er o bell. Byddai hefyd yn atgyfnerthu'r Broses Rheoli Penderfyniadau sy'n cael ei defnyddio gan Gomander y Digwyddiad ac osgoi'r posibilrwydd o fabwysiadu tacteg ddiodyn fel sy'n digwydd nawr, yn fy marn i, ond hefyd wedi'i hategu gan ddadansoddiad o'r tactegau a fabwysiadwyd yn y 97 o ddigwyddiadau a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn.

358. Yn ail, o safbwynt archwilio ac adolygu digwyddiadau ni fyddai unrhyw amheuaeth ynghylch y tactegau a oedd wedi'u defnyddio. Gellid asesu eu heffeithiolrwydd yn ôl maint y difrod ar ddiwedd y digwyddiad, a fyddai'n cael ei nodi ar y neges Stop, a thrwy ddadansoddi unrhyw adroddiad ymchwiliad tân.

359. Byddai angen i'r Gwasanaeth benderfynu sut y dylid llunio a mynegi neges o'r fath ond o'i gweithredu'n gyflym, credaf y byddai'n cael effaith uniongyrchol a buddiol ar ddiogelwch y Diffoddwr tân a diogelwch y cyhoedd. Am y rheswm hwnnw, rwy'n gwneud argymhelliad i'r perwyl hwn yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Adran 3

Argymhellion

360. Mae'r argymhellion o'r 3 Adolygiad Thematig blaenorol y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad hwn oll yn uniongyrchol berthnasol i faterion a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Mae GTAGC wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn erbyn yr argymhellion yn yr adolygiadau Dysgu o Grenfell a Hyfforddiant Gweithredol ond nid oes unrhyw gynnydd o gwbl yn erbyn yr argymhellion yn yr adolygiad Ehangu rôl Diffoddwyr Tân. O ystyried arwyddocâd y materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn, dylid gweithredu ar hyn fel blaenoriaeth.

Argymhelliad 1: Dylid gweithredu holl argymhellion yr Adolygiadau Thematig blaenorol yn llawn ac erbyn mis Rhagfyr 2025 fan bellaf.

361. Cyhoeddwyd canllawiau gweithredol 'Foundation for Firefighting' a 'Firefighting' ar 1 Hydref 2024. Mae'n rhaid i bob un o'r 3 GTA yng Nghymru nawr adolygu a diwygio eu canllawiau gweithredol ar gyfer diffodd tân. Nid yw'n rhesymegol i bob Gwasanaeth wneud hyn yn unigol. Yn unol â hynny, rwyf wedi diwygio Argymhelliad 2 o adroddiad arolygiad De Cymru yn adroddiad arolygu Canolbarth a Gorllewin Cymru i adlewyrchu nod Cymru gyfan. Rwy'n ailadrodd yr argymhelliad hwnnw yma.

362. Dylai'r canllawiau gweithredol a ddatblygwyd gan GTA De Cymru gael eu mabwysiadu gan GTAGC fel mesur interim i fynd i'r afael â'r bwlch a grëwyd drwy'r broses o drawsnewid o Orchmynion Gweithdrefnau a Pholisi Gweithredol y Gwasanaeth i Aide Memoires hyd nes y bydd canllawiau Cymru gyfan wedi'u datblygu.

Argymhelliad 2: Dylai GTAGC gydweithio â GTAau De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru i gynnal adolygiad sylfaenol ac ailysgrifennu'r canllawiau diffodd tân. Dylai'r adolygiad hwn sicrhau bod gwybodaeth am beryglon diffodd tân a thactegau mesurau rheoli yn wyddonol gywir, yn adlewyrchu'r ymchwil fwyaf cyfredol ac yn cael eu mynegi'n glir ac yn ddiamwys mewn un ddogfen ganllaw sy'n hygyrch i bob Diffoddwr Tân. Dylai'r gwaith ar yr argymhelliad hwn ddechrau ar unwaith gyda chanllawiau wedi'u diweddarau a'u cyhoeddi erbyn mis Gorffennaf 2025 fan bellaf.

363. Fel y nodwyd yn adroddiadau arolygu GTAau De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, dim ond y cam cyntaf tuag at newid arferion sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn fydd ailysgrifennu'r canllawiau gweithredol. Bydd angen rhaglen gynhwysfawr o ailhyfforddi i newid y dull diofyn cyfredol ac yna raglen barhaus o hyfforddiant gloywi. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol o ran amser ac ymdrech, ond mae'n hanfodol i wella diogelwch Diffoddwyr Tân a diogelwch y cyhoedd.

Argymhelliad 3: Ochr yn ochr ag Argymhelliad 2 rhaid datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr. Dylid gwneud hyn mewn cydweithrediad â GTAau De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Rhaid i becynnau gwybodaeth sylfaenol ar system LearnPro adlewyrchu'n llawn gynnwys y canllawiau

gweithredol fydd wedi'u diweddarau. Dylid datblygu deunydd micro-ddysgu ar gyfer pob tacteg mesur rheoli i roi'r llyfrgell adnoddau orau bosibl o gymhorthion hyfforddi i Reolwyr Criw a Gwylfa i ategu'r gwaith o ddarparu hyfforddiant gloywi sgiliau ymarferol ar ddyletswydd. Gyda'i gilydd, ac yn amodol ar astudiaeth amser a symudiad, bydd y pecynnau hyn yn golygu bod gwerth amser ystyrllon yn sail i ddyrannu blociau o amser yn nhrefniadau gwaith yr orsaf. Dylai'r gwaith ar yr argymhelliad hwn ddechrau ar unwaith gyda phecynnau hyfforddi yn cael eu diweddarau a'u cyhoeddi erbyn mis Tachwedd 2025 fan bellaf.

364. Mae'r trefniadau Sicrwydd Gweithredol yn y Gwasanaeth yn adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael i raddau helaeth. Nid oes Tîm Sicrwydd Gweithredol pwrpasol i fynychu digwyddiadau at ddibenion monitro digwyddiadau'n weithredol. Yn hytrach, y Swyddogion sydd ar ddyletswydd ar y pryd sy'n gyfrifol am gynnal gwaith monitro digwyddiadau'n weithredol. Y Rheolwr Grŵp Ymateb sy'n gyfrifol am y swyddogaeth sicrwydd gweithredol ond mae potensial am oedi cyn iddynt gael gwybod am achosion risg gritigol mewn digwyddiadau oherwydd yr amser y gallai gymryd i gyflwyno ffurflen ôl-ddigwyddiad neu ddiweddarau adran Sicrwydd Gweithredol pdrPro.

Argymhelliad 4: Er mwyn sicrhau bod y materion a nodwyd mewn digwyddiadau yn cael eu cofnodi'n syth, dylai'r Rheolwr Grŵp Ymateb neu'r swyddog sy'n dirprwyo ar eu rhan gynnal cyfarfodydd dyddiol wrth i'r shifft newid, gyda phob swyddog tactegol sydd ar ddyletswydd yn bresennol ynddynt i adolygu pob digwyddiad a ddigwyddodd dros y 24 awr flaenorol. Byddai hyn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Rheolwr Grŵp Ymateb ynghylch materion a nodwyd y gallent weithredu arnynt ar unwaith heb orfod aros i ffurflen ôl-ddigwyddiad gael ei chyflwyno neu i adran Sicrwydd Gweithredol pdrPro gael ei diweddarau.

365. Mae'r neges hysbysol gyntaf o ddigwyddiad lle caiff y modd tactegol ei ddatgan, yn gyfle i grisialu maint y peryglon y mae Comander y Digwyddiad wedi'u nodi a'r tactegau mesurau rheoli y maent yn bwriadu eu defnyddio i'w lliniaru ac i ddatrys y digwyddiad.

366. Pe bai'r neges hon yn nodi'r prif berygl a'r tactegau mesurau rheoli sy'n cael eu defnyddio ochr yn ochr â'r modd tactegol byddai hyn yn cael ei gofnodi ar log y digwyddiad ond gellid ei fonitro'n fyw drwy'r brif radio hefyd. Gallai unrhyw ddiffyg cyswllt amlwg rhwng y perygl a'r dacteg mesur rheoli gael ei nodi mewn amser real a gellid mynd i'r afael ag ef o bosibl cyn digwyddiad diogelwch andwyol.

Argymhelliad 5: Dylai GTAGC gyflwyno'r cysyniad o neges hysbysol gyntaf sy'n nodi'r prif beryglon a'r tactegau mesurau rheoli a ddefnyddir ochr yn ochr â'r modd tactegol. Byddai'r un peth yn berthnasol i unrhyw negeseuon hysbysol dilynol.

367. Mae maint daearyddol ardal GTAGC yn golygu y gallai fod yn rhaid i Swyddogion sy'n cael eu hanfon i ddigwyddiadau deithio pellteroedd gormodol, weithiau yn y nos ar ffyrdd gwledig. Byddai hysbysu ail swyddog i fonitro'r digwyddiad yn weithredol er mwyn caniatáu i'r Swyddog a oedd yn cael ei anfon i'r digwyddiad ganolbwyntio'n llwyr ar yrru, yn fesur rheoli effeithiol o dan yr amgylchiadau hyn.

Argymhelliad 6: At ddibenion rheoli risgiau ar y ffyrdd, dylai GTAGC ystyried ffurfioli'r broses o hysbysu Swyddog arall i gynnal gwaith monitro digwyddiadau yn weithredol. Byddai hyn yn caniatáu i'r Swyddog sy'n ymateb o dan amodau ymateb brys ganolbwyntio'n llwyr ar yrru heb orfod ceisio monitro unrhyw ddatblygiadau yn y digwyddiad hefyd. Unwaith y byddant yn cyrraedd, byddent yn cysylltu â'r Swyddog sy'n gyfrifol am fonitro digwyddiadau'n weithredol a fyddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y digwyddiad ac yn rhannu eu harfarniad o'r datblygiadau ac unrhyw feysydd sy'n peri pryder o bosibl.

Diolchiadau

368. Hoffwn gofnodi fy niolch i'r bobl ganlynol:

- Y Prif Swyddog Tân, Dawn Docx, GTAGC, am hwyluso'r arolygiad ac am roi mynediad llawn i mi i system mobileiddio GTAGC a'r Hwb Tân drwy liniadur GTAGC.
- Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Antony Jones, GTAGC am ryddhau gliniadur a rhoi'r caniatâd angenrheidiol i gael mynediad at system mobileiddio GTAGC a'r Hwb Tân ac ar gyfer trefnu grwpiau ffocws, cyfweiliadau strwythuredig ac ymweliadau â'r gorsafoedd.
- Antony Gardner, Cangen Dân Llywodraeth Cymru, am ei gefnogaeth ar yr ymweliadau â'r gorsafoedd.
- Swyddog yr Orsaf Gerard Mann, Achub Tân Victoria, am wirio ffeithiau technegol cynnwys yr adroddiad mewn perthynas ag ymchwil i ddiffodd tanau.
- Robert Scott QFSM, Prif Arolygydd EF Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban, am adolygiad cyfoedion yr adroddiad.

Adrodd i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	21 Gorffennaf 2025	
Swyddog Arweiniol	Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau	
Pwnc	Datganiad Polisi Disgresiwn Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y gofyniad i Reolwr y Cynllun, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gynhyrchu Datganiad Polisi Pensiwn y Diffoddwyr Tân.
- 2 Ceisio cymeradwyo'r penderfyniadau o fewn Datganiad Polisi Disgresiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân gan gynnwys y cynnig y bydd penderfyniadau'n cael eu dirprwyo o ddydd i ddydd i swyddogion y Gwasanaeth, ar ran rheolwr y cynllun.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 3 Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn rhoi'r cyfrifoldeb i'r Awdurdod wneud penderfyniadau ar elfennau penodol yn ôl disgrisiwn o'r cynllun. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod lunio a chyhoeddi polisi disgrisiwn sy'n nodi sut y bydd yr Awdurdod yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn. Cymeradwywyd y polisi disgrisiwn yn flaenorol yn 2020 ac yn unol ag arfer da mae wedi'i adolygu a'i adolygu.

YSTYRIAETH GAN Y BWRDD PENSIWN LLEOL

- 4 Trafodwyd y Datganiad Polisi Disgresiwn drafft gan aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn y cyfarfod ar 15 Mai 2025. Cymeradwyodd aelodau'r LPB y penderfyniadau o fewn y polisi drafft gan gynnwys dirprwyo i swyddogion y Gwasanaeth.

ARGYMHELLION

- 5 Argymhellir bod yr Aelodau:
 - i) **cymeradwyo'r penderfyniadau o fewn Datganiad Polisi Disgresiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân gan gynnwys, lle bo'n briodol, y dirprwyo i swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).**

CEFNDIR

- 6 Ar hyn o bryd mae pedwar cynllun pensiwn ar waith ar gyfer diffoddwyr tân, cynllun 1992 (FPS), cynllun 2007 (NFPS), cynllun pensiwn wedi'i addasu RDS 2007 (MPS) a chynllun 2015. Mae'r polisi hwn yn nodi'r disgresiwn sy'n berthnasol i'r cynlluniau y mae'n ofynnol i'r Awdurdod yn ei rhinwedd fel Rheolwr Cynllun benderfynu ar ei ddull a ddymunir.

HYSBYSRWYDD

- 7 Mae rheoliadau'r cynllun pensiwn diffoddwyr tân yn ei gwneud yn ofynnol i bob rheolwr cynllun:
- (i) cyhoeddi datganiad polisi ysgrifenedig ar sut y bydd yn arfer y gwahanol ddisgresiynau a ddarperir gan y cynlluniau pensiwn;
 - (ii) ei gadw dan adolygiad; a
 - (iii) ei adolygu yn ôl yr angen.
- 8 Mae crynodeb o'r elfennau disgresiwn ym mhob cynllun a'r dull a argymhellir wedi'i nodi yn y polisi disgresiwn drafft sydd ynghlwm yn Atodiad A.

GOBLYGIADAU

Amcanion Lles	Mae'r Polisi Disgresiwn yn rhoi eglurder ar gyfer gwneud penderfyniadau ar faterion pensiwn penodol sy'n cyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod.
Cyllideb	Gall penderfyniadau penodol effeithio ar y gyllideb o ran mwy o daliadau blwydd-daliadau cyflogwr a'r effaith ar brisiadau actiwaraid yn y dyfodol.
Cyfreithiol	Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu gweinyddu Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn darparu ar gyfer nifer o bwerau yn ôl disgresiwn ar ran yr Awdurdod Tân.
Staffio	Effaith bosibl ar lefelau staffio os yw disgresiwn penodol yn effeithio ar broses gwneud penderfyniadau ymddeol aelod. Effaith bosibl ar dderbyn hyrwyddiadau dros dro a gynigir.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Cymraeg	Dim
Risgiau	Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth

<u>Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân Cymru 2015</u>			
Rheoliad	Esboniad	Pend erfyni ad GC	Sylwadau
Rheoliadau 4A i 4D: Byrddau Pensiynau Lleol.	Rhaid i'r rheolwr cynllun sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol yn unol â Rheoliadau 4A i 4D Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2014 ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ac unrhyw gynllun cysylltiedig. Rhaid i reolwr y cynllun roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Byrddau Pensiynau Lleol, ond yr Awdurdod fydd yn dewis yr aelodau.	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheoliad 5 (2): Dirprwyo	Yn unol â Rheoliad 5(2) Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, caiff rheolwr y cynllun ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau gan gynnwys y pŵer i ddirprwyo.	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheoliad 16(2)(b): Optio allan o'r cynllun. Disgresiwn i bennu'r dyddiad y daw gwasanaeth pensiynadwy i ben.	Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i bennu'r dyddiad y daw gwasanaeth pensiynadwy person i ben os yw'r person yn optio allan o'r cynllun a bod yr Awdurdod yn ystyried bod y diwrnod cyntaf o'r cyfnod tâl cyntaf sy'n dechrau ar neu ar ôl y dyddiad yr arferwyd yr opsiwn yn amhriodol.	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheoliad 17(1)(d): Disgresiwn i ganiatáu i daliadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus gael eu trin fel rhai pensiynadwy.	Mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn o dan Reoliad 17(1)(d) Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 i ganiatáu i swm a dalwyd i aelod ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus gael ei drin fel tâl pensiynadwy.	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen Ei drin fel tâl pensiynadwy
Rheoliad 19 (c): Aelodaeth actif – absenoldeb awdurdodedig di-dâl.	Mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn i ganiatáu i berson ar gyfnod o absenoldeb awdurdodedig di-dâl gael ei drin fel aelod actif o'r Cynllun. (Ar yr amod bod y person hwnnw yn talu'r cyfraniadau gofynnol o dan Reoliad 111(4)).	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheoliad 28 (2): Sefydlu cyfrifon pensiwn: cyffredinol. Disgresiwn i'w gadw ym mha bynnag ffurf a ystyrir yn briodol gan y rheolwr cynllun.	Rhaid i'r rheolwr cynllun sefydlu a chynnal cyfrifon pensiwn ar gyfer aelodau'r cynllun, yn unol â Rhan 4 Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ond gellir eu cadw ym mha bynnag ffurf a ystyrir yn briodol gan y rheolwr cynllun.	Derby n	Bydd yr Awdurdod yn cadw cyfrifon pensiwn ar gyfer aelodau'r cynllun yn y ffurf y mae'r Awdurdod yn ystyried sydd fwyaf priodol.
Rheoliad 37(3), (4) a (5): Cau ac ailsefydlu cyfrif aelod actif. Disgresiwn y rheolwr cynllun i ddewis cyfrif priodol pan fo gan aelod fwy nag un cyfrif.	Os oes gan aelod actif fwy na dau gyfrif aelod actif ac yn rhoi'r gorau i wasanaeth pensiynadwy gyda llai na thri mis o wasanaeth cymwys mewn cysylltiad ag un cyfrif, rhaid cau'r cyfrif hwnnw, a chyfuno'r buddion gydag un o'r cyfrifon eraill; caiff yr aelod ddewis pa un. Os yw'r aelod yn methu â dewis, mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i ddewis.	Derby n	Os bydd aelod yn methu â dewis cyfrif i'w ddefnyddio er mwyn cyfuno'r buddion, bydd yr Awdurdod yn dewis y cyfrif y mae'r Awdurdod yn ei ystyried fel yr un mwyaf priodol. Mae'n debygol mai hwn fydd y cyfrif mwyaf cost effeithiol i'r Awdurdod, ond bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rheoliad 49(3) a (4): Cau cyfrif aelod gohiriedig ar ôl bwlch mewn gwasanaeth pensiynadwy nad yw'n hwy na phum mlynedd. Disgresiwn i ddewis pa gyfrif sydd i'w gau os oedd gan yr aelod gohiriedig fwy nag un cyfrif.	Os bydd aelod gohiriedig yn dychwelyd i wasanaeth pensiynadwy ar ôl bwlch o bum mlynedd neu lai, bydd rheolwr y cynllun yn cau cyfrif yr aelod gohiriedig ac yn ailsefydlu cyfrif yr aelod actif, gan drosglwyddo cofnodion o'r cyfrif gohiriedig. Os oedd gan y person fwy nag un cyfrif aelod gohiriedig perthnasol, rhaid iddynt ddewis – o fewn tri mis i'r dyddiad dychwelyd i gyflogaeth gynllun – pa un sydd i'w gau. Os ydynt yn methu â gwneud y dewis, rhaid i'r rheolwr cynllun ddewis ar eu rhan.	Derby n	Os oes gan aelod fwy nag un cyfrif gohiriedig a'i fod yn methu â dewis pa gyfrif i'w gau, bydd yr Awdurdod yn dewis y cyfrif y mae'r Awdurdod yn ei ystyried fel yr un mwyaf priodol. Mae'n debygol mai hwn fydd y cyfrif mwyaf cost effeithiol i'r Awdurdod, ond bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau.

Rheoliad 62(1) a (2): Ymddeoliad a ysgogir gan gyflogwr. Disgresiwn i ddyfarnu taliad pensiwn ymddeol ar unwaith heb ostyngiad.	Caiff y rheolwr cynllun, gan roi sylw i reolaeth ddarbodus, effeithiol ac effeithlon o'i swyddogaethau ac ystyried y costau sy'n debygol o godi mewn achos penodol, benderfynu o dan Reoliad 62 Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 y dylai aelod actif sydd yn 55 oed neu'n hŷn ond sydd heb gyrraedd yr oedran pensiwn arferol (60), ac yn cael ei ddiswyddo o gyflogaeth gynllun gan gyflogwr am reswm effeithlonrwydd busnes, neu pan derfynir ei gyflogaeth drwy gydsyniad cilyddol ar sail effeithlonrwydd busnes, gael taliad pensiwn ymddeoliad ar unwaith heb y gostyngiad am ymddeoliad cynnar. Yn unol â Rheoliad 120 o'r Rheoliadau, os yw'r rheolwr cynllun yn defnyddio'r disgresiwn hwn i dalu'r pensiwn ymddeol yn gynnar, bydd yn gyfrifol am dalu cyfraniad ychwanegol am ymddeoliad a ysgogir gan gyflogwr a gyfrifir yn unol â Rheoliad 120(2). Byddai hwn yn cael ei dalu i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn unol â Rheoliad 123. Os yw'r rheolwr cynllun yn ystyried gwneud dyfarniad o dan Reoliad 62 ar gyfer aelod cysylltiedig o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, rhaid iddo hefyd ystyried ymddeoliad a ysgogir gan gyflogwr o dan Ran 3, Rheol 6 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.	Derbyn	Ni fydd yr Awdurdod fel arfer yn caniatáu talu buddion yn gynnar at ddibenion effeithlonrwydd busnes nac yn hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraid, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ar ôl ystyried yr achos busnes; rhaid i'r Prif Swyddog Tân gytuno, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd.
Rheoliad 63 (5): Arfer yr opsiwn o ran-ymddeoliad	Fel y caniateir gan Reoliad 63 Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2014, os bydd aelod actif sy'n 55 oed neu'n hŷn yn dewis parhau mewn gwasanaeth pensiynadwy o dan y cynllun ond yn hawlio taliad o'r pensiwn a gronnwyd hyd at y dyddiad opsiwn yn un neu fwy o'u cyfrifon pensiwn aelod actif, ystyrir bod yr opsiwn o ran-ymddeoliad wedi ei arfer ar ba bynnag ddyddiad a gytunir rhwng yr aelod a'r rheolwr cynllun. Rheolwr y cynllun sy'n penderfynu ar ba ffurf y mae'n rhaid rhoi hysbysiad.	Derbyn	Os bydd aelod sy'n 55 oed neu'n hŷn yn dewis hawlio'r cyfan o'i bensiwn cronedig ond yn parhau mewn gwasanaeth pensiynadwy, bydd yr Awdurdod yn cytuno ar ddyddiad sydd fwyaf addas i'r Awdurdod, gan ystyried y gofynion gweithredol.
Rheoliad 68(1) a (2): Adolygu dyfarniad afiechyd neu daliad o bensiwn ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd. Disgresiwn i	Os gwneir dyfarniad ar sail afiechyd, rhaid i'r rheolwr cynllun gadw hawlogaeth y derbynnydd dan adolygiad os oedd y person o dan yr oedran pensiwn gohiriedig ar adeg yr adolygiad a'i fod wedi bod yn cael y pensiwn am gyfnod o	Derbyn	Bob 5 mlynedd bydd yr Awdurdod yn cynnal adolygiadau pensiwn afiechyd ar gyfer unigolion sydd o dan yr oedran pensiwn gohiriedig ac sydd wedi bod yn derbyn y dyfarniad am lai na 10 mlynedd a bydd yn adolygu taliad cynnar

ddewis amseriad priodol ar gyfer adolygu.	lai na 10 mlynedd. Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i benderfynu ar amseriad priodol ar gyfer yr adolygiad. Yn yr un modd, os bydd rheolwr y cynllun yn penderfynu y dylid talu pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd, rhaid iddo adolygu o bryd i'w gilydd hawl y derbynnydd i daliad parhaus o'r dyfarniad. Byddai adolygiadau o'r fath yn cael eu cynnal nes bod yr unigolyn yn cyrraedd oedran pensiwn gohiriedig ac mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn i benderfynu ar amseriad priodol yr adolygiad. Rhaid i'r rheolwr cynllun fod â pholisi ar gyfer adolygu yn ôl yr ysbeidiau y mae'n eu hystyried yn briodol,		pensiynau gohiriedig ar sail afiechyd cyhyd ag y bo'r derbynnydd yn iau na'r oedran pensiwn gohiriedig. Bydd dyfarnaliadau am anafiadau yn cael eu hadolygu yn unol â'r argymhelliad a wnaed gan yr ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol (YMCA) yn eu tystysgrif. Dylid cynnal ac adolygu polisi ysgrifenedig sy'n cynnwys manylion am ba mor aml y cynhelir yr adolygiadau
Rheoliad 69 (3): Canlyniadau adolygu	Yn dilyn adolygiad o bensiwn afiechyd haen is o dan Reoliad 68, os yw'r rheolwr cynllun yn penderfynu bod y derbynnydd yn gallu cyflawni'r dyletswyddau sy'n briodol i'r rôl yr ymddeolodd y person ohoni ar sail afiechyd, rhaid i'r cyflogwr ystyried a ddylai gynnig eu hailgyflogi ai peidio.	Derby n	Pan fydd aelod yn derbyn pensiwn salwch haen is ac yn gallu cyflawni'r dyletswyddau sy'n briodol i'r rôl y gwnaethant ymddeol ohoni, bydd yr Awdurdod yn ystyried cynnig eu hailgyflogi ar sail yr amgylchiadau unigol.
Rheoliad 70: Cychwyn pensiynau. Disgresiwn i bennu'r dyddiad y bydd y taliadau'n dechrau.	Yn unol â Rheoliad 70(1) a (2), pan nad yw aelod actif wedi hawlio taliad o'r pensiwn ymddeol cyn y dyddiad y mae'n ymddeol, rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu ar y dyddiad y bydd y taliad yn dechrau a bydd yn hysbysu'r aelod yn unol â hynny. Yn unol â Rheoliad 70(8), os bydd aelod yn gofyn am ohirio taliad pensiwn gohiriedig y tu hwnt i'r oedran pensiwn gohiriedig (Rheoliad 70(5)(a)), neu'n gofyn am daliad cynnar gyda gostyngiad talu'n gynnar cyn yr oedran pensiwn gohiriedig (Rheoliad 70(5)(b)), rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu ar y dyddiad talu ar ôl i'r hawliad am daliad gael ei wneud.	Derby n Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheoliad 72(3)(b) a (4): Dewisiad i ddyrannu. Disgresiwn i atal cydsyniad os nad yw'r rheolwr cynllun wedi ei fodloni bod y person a enwebwyd yn dibynnu'n sylweddol ar yr aelod.	Caiff y rheolwr cynllun atal cydsyniad i ddyrannu cyfran o bensiwn i ddibynnydd nad yw'n briod, yn bartner sifil nac yn bartner sy'n cyd-fyw ag aelod actif neu ohiriedig. (Gellir atal cydsyniad os nad yw'r rheolwr cynllun wedi ei fodloni bod y person a enwebwyd yn dibynnu'n sylweddol ar yr aelod actif).	Derby n	Cyn cydsynio â'r dyraniad, rhaid bodloni'r Awdurdod fod yr enwebai yn berson sy'n sylweddol ddibynnol ar yr aelod. Bydd yr Awdurdod yn ystyried tystiolaeth ariannol dros gyfnod o ddwy flynedd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rheoliad 73: Gwneud dewisiad i ddyrannu. Prawf fod gan yr aelod ddisgwyliad oes normal.	Rhaid i'r rheolwr cynllun fod yn fodlon bod gan aelod sy'n gwneud dewisiad i ddyrannu, ddisgwyliad oes normal ar adeg y cais. Rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu sut y dylid barnu hyn, e.e. yn ôl barn Meddyg Teulu'r aelod neu'r Meddyg Iechyd Galwedigaethol, neu yn ôl barn YMCA.	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud gan YMCA a benodir gan y Rheolwr Cynllun
Rheoliad 75 (1) a (2): Addasu budd a ddyrannwyd. Disgresiwn i addasu budd a ddyrannwyd os bydd aelod yn marw ar ôl cyrraedd 75 oed.	Os bydd aelod sydd wedi gwneud dewisiad i ddyrannu yn marw ar ôl cyrraedd 75 mlwydd oed, ac nad yw swm y pensiwn dyranedig sy'n daladwy i'r buddiolwr yn gymwys fel pensiwn cynllun dibynyddion o dan adran 167 Deddf Cyllid 2004 (rheolau budd-dal marwolaeth pensiwn), gellir addasu'r swm mewn modd sydd i'w benderfynu gan y rheolwr cynllun.	Derby n	Pan nad yw pensiwn dyranedig yn gymwys fel pensiwn cynllun dibynyddion, bydd yr Awdurdod yn addasu'r swm yn unol â hynny.
Rheoliad 76: Ystyr "partner sy'n goroesi": Disgresiwn i hepgor cyfnod cymhwyso ar gyfer pensiwn partner sy'n goroesi yn achos partner sy'n cyd-fyw.	Gellir ystyried partner sy'n cyd-fyw yn "bartner sy'n goroesi" ac o bosibl yn gymwys i gael pensiwn ar yr amod eu bod yn bodloni amodau penodol, ac un ohonynt yw bod yn rhaid iddynt fod wedi bod mewn "perthynas hirdymor" – cyfnod parhaus o ddwy flynedd o leiaf – ar y dyddiad y mae angen ystyried eu hawl. Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i ganiatáu i'r person fod yn gymwys os yw'r cyfnod yn llai na dwy flynedd.	Derby n	Os yw'r Partner sy'n Goroesi wedi bod mewn perthynas hirdymor am gyfnod parhaus o lai na dwy flynedd, ni fydd yr Awdurdod yn ystyried bod y person hwnnw'n gymwys oni bai mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rheoliad 85: Ystyr "plentyn cymwys". Disgresiwn o ran amseriad yr adolygiad os yw cymhwysra yn seiliedig ar anabledd parhaol	Os bydd pensiwn plentyn yn cael ei dalu oherwydd dibyniaeth y plentyn ar yr aelod ar sail anabledd parhaol ac, mewn adolygiad, yr ystyrir nad yw'r derbynnydd bellach yn anabl yn barhaol, bydd y pensiwn yn peidio â bod yn daladwy (oni bai y byddai gan y plentyn hawl i'r pensiwn o dan unrhyw delerau cymhwysra eraill).	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheoliad 95: Y person y mae cyfandaliad budd marwolaeth yn daladwy iddo. Disgresiwn y rheolwr Cynllun i ddewis derbynwyr.	Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn absoliwt i dalu unrhyw gyfandaliad o fudd marwolaeth i, neu er budd, enwebai'r aelod, eu cynrychiolydd personol neu unrhyw berson y mae'n ymddangos eu bod yn berthynas neu'n ddibynnydd yr aelod.	Derby n	Bydd yr Awdurdod yn defnyddio ei ddisgresiwn o ran pwy sy'n derbyn unrhyw gyfandaliad o fudd marwolaeth lle nad yw'r mater yn ymddangos yn un syml.
Rheoliad 100 (2): Talu pensiwn mewn cysylltiad â phlentyn cymwys o dan 18 oed. Disgresiwn sy'n ymwneud â thalu pensiwn plentyn.	Os yw pensiwn plentyn cymwys yn daladwy mewn cysylltiad â phlentyn cymwys o dan 18 oed, rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu i bwy y dylid ei dalu a bydd yn rhoi cyfarwyddiadau i'r person hwnnw ynghylch sut y dylid defnyddio'r taliad er budd y plentyn cymwys.	Derby n	Wrth dalu Budd Marwolaeth i blentyn cymwys o dan 18 oed, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol er mwyn penderfynu pwy ddylai gael y taliad a sut y dylai'r taliad gael ei ddefnyddio.
Rheoliad 101(2) a (93) Pensiynau partner sy'n goroesi a phensiynau plentyn cymwys. Disgresiwn i atal dros dro ac adennill.	Mae gan reolwr cynllun yr hawl i beidio â thalu pensiwn partner sy'n goroesi a/neu bensiwn plentyn cymwys ac adennill unrhyw daliad a wneir mewn perthynas â phensiwn lle mae'n ymddangos i'r rheolwr cynllun bod y derbynnydd wedi gwneud datganiad anwir, neu wedi celu yn fwriadol ffaith faterol mewn cysylltiad â'r dyfarniad. (Nid yw hyn yn effeithio ar hawl y rheolwr cynllun i adennill taliad neu or-daliad o dan unrhyw ddarpariaeth arall pan fo'r rheolwr cynllun o'r farn y byddai'n briodol gwneud hynny).	Derby n	Bydd yr Awdurdod yn rhoi'r gorau i dalu pensiwn partner sy'n goroesi a/neu bensiwn plentyn cymwys ac yn adennill unrhyw daliad a wnaed mewn perthynas â phensiwn os yw'n ymddangos bod datganiad anwir wedi'i wneud neu pan fydd ffaith faterol wedi'i chelu yn fwriadol.
Rheoliad 102: Dyfarniadau dros dro o bensiynau plentyn cymwys: Disgresiwn ar gyfer addasiadau diweddarach.	Os telir pensiwn plant i bersonau penodol ar y sail eu bod yn blant cymwys ac nad oedd unrhyw blant cymwys eraill, a'i bod yn ymddangos yn ddiweddarach nad oedd unrhyw un o'r plant hynny yn gymwys, neu fod plentyn arall yn gymwys ond heb dderbyn taliad, neu fod plentyn a aned ar ôl marwolaeth yr aelod yn blentyn cymwys, mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i addasu swm y pensiwn, yn ôl yr angen, o ystyried y ffeithiau fel y maent yn ymddangos wedi hynny. Gellir gwneud yr addasiadau yn ôl-weithredol.	Derby n	Pan fo plentyn yn gymwys/anghymwys i gael pensiwn plentyn, bydd yr Awdurdod yn addasu'r pensiynau yn unol â hynny. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.

Rheoliad 104(1)(a) a (2): Addasu buddion i gydymffurfio â Deddf Cyllid 2004 pan fydd farw aelodau dros 75 mlwydd oed.	Os bydd aelod yn marw ar ôl cyrraedd 75 oed ac na fyddai unrhyw ran o bensiwn y caiff person yr hawl i'w gael yn dilyn y farwolaeth yn gymwys fel pensiwn cynllun dibynyddion at ddibenion adran 167 Deddf Cyllid 2004 (y rheolau buddion marwolaeth pensiwn), mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i addasu'r budd sy'n daladwy i'r person fel y bo'n gymwys o dan yr adran honno o'r Ddeddf.	Derbyn	Gall yr Awdurdod addasu'r buddion sy'n daladwy i unigolion nad ydynt yn gymwys ar gyfer pensiwn cynllun dibynyddion o dan Ddeddf Cyllid 2004. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rheoliadau 110(5) a (7)(h): Cyfraniadau aelodau. Disgresiwn i bennu amgylchiadau lle bydd gostyngiad mewn tâl pensiynadwy yn cael ei ddiystyru at ddibenion penderfynu ar gyfraniadau'r aelodau.	Bydd y rheolwr cynllun yn penderfynu ar gyfradd berthnasol y cyfraniadau sy'n daladwy gan aelod o'r cynllun drwy gyfeirio at y "tablau bandio" tâl pensiynadwy yn Rheoliad 110 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a gofynion y Rheoliad hwnnw. Mae hyn yn ddarostyngedig i Reoliadau 111 i 113 (cyfraniadau yn ystod absenoldebau). Wrth nodi'r gyfradd gyfraniadau briodol, bydd y gostyngiad mewn tâl o dan rai amgylchiadau fel y'u rhestrir yn Rheoliad 110 yn cael ei ddiystyru. Yn ogystal, caiff y rheolwr cynllun, fel y caniateir gan Reoliad 110(7)(h) bennu'r amgylchiadau mewn achos penodol pan fydd gostyngiad mewn tâl pensiynadwy yn cael ei ddiystyru.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn asesu cyfraniadau pan fo newid i dâl pensiynadwy ac yn adolygu cyfraddau cyfraniadau yn unol â hynny. Mae'r broses asesu hon yn broses awtomatig trwy'r system Cyflogres sy'n cael ei defnyddio gan y Cyflogwr ac fe'i cynhelir bob tro y bydd cylchred y gyflogres yn cael ei gwblhau. Wrth nodi'r gyfradd gyfraniadau briodol, dylid diystyru gostyngiad mewn tâl o dan rai amgylchiadau fel y'u rhestrir yn Rheoliad 110.
Rheoliad 111(2), (3) a (4): Cyfraniadau yn ystod absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch, anaf, anghydfod undebol neu absenoldeb awdurdodedig. Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i aelod dalu cyfraniad y cyflogwr yn ychwanegol at gyfraniad y cyflogai.	Os yw aelod actif yn absennol oherwydd anghydfod undebol neu i ffwrdd o'r gwaith yn ystod cyfnod o absenoldeb di-dâl awdurdodedig, gall yr aelod ddewis talu cyfraniadau ar sail y tâl pensiynadwy tybiedig y trinnir yr aelod hwnnw fel pe bai'n ei gael. Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, os yw'r aelod yn dewis gwneud hynny, gall y rheolwr cynllun ddefnyddio ei ddisgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r aelod hefyd dalu cyfraniad y cyflogwr mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw o absenoldeb. Os yw aelod actif yn absennol o gyflogaeth gynllun oherwydd salwch neu anaf ac yn gymwys i dderbyn tâl pensiynadwy, bydd yn talu cyfraniadau ar y tâl a gaiff yn ystod yr absenoldeb gan gynnwys tâl statudol a bydd y	Derbyn Gwrt hod	Heb ei gynnwys o'r blaen Ar gyfer cyfnodau o absenoldeb di-dâl awdurdodedig neu gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i anghydfod diwydiannol ni fydd y Rheolwr Cynllun yn talu Cyfraniadau'r Cyflogwr, rhaid i'r Cyflogai dalu'r rhain, yn ogystal â thalu Cyfraniadau'r Cyflogai. Rhaid talu POB cyfraniad er mwyn i'r Gwasanaeth gyfrif tuag at ymddeoliad. Am gyfnodau o absenoldeb oherwydd salwch neu anaf, bydd y Rheolwr Cynllun yn talu Cyfraniadau'r Cyflogwr, os yw'r aelod yn dymuno prynu'r Gwasanaeth hwn yn ôl.

	rheolwr cynllun yn talu cyfraniad cyfatebol y cyflogwr. Os yw'r aelod actif yn absennol o gyflogaeth gynllun oherwydd salwch neu anaf ac nad oes hawl ganddo i gael tâl (gan gynnwys tâl statudol), caiff yr aelod hwnnw ddewis talu cyfraniadau ar sail y tâl yr oedd ganddo hawl i'w gael cyn i'r tâl gael ei atal. Os yw'r aelod yn dewis gwneud hynny, gall y rheolwr cynllun ddefnyddio ei ddisgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r aelod hefyd dalu cyfraniad y cyflogwr mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw o absenoldeb.		Mewn achosion o absenoldebau sy'n ymwneud â Phlant neu'n Wasanaeth yn y Lluoedd Wrth Gefn, RHAID i'r Cyflogwr dalu ei gyfraniadau os yw'r aelod yn dymuno prynu'r cyfnodau absenoldeb hyn yn ôl.
Rheoliad 114(1), (2) a (3): Didynnu a thalu cyfraniadau. Disgresiwn i ddod i gytundeb gyda'r aelod ar y dull o dalu cyfraniadau'r cyflogai.	Caiff y cyflogwr cynllun ddidynnu cyfraniadau aelodau sy'n ddyledus allan o bob rhandaliad o dâl pensiynadwy wrth iddo ddod yn ddyledus, oni chytunwyd ar ddull arall o dalu rhwng y rheolwr cynllun a'r aelod. Gellir didynnu cyfraniadau sy'n ddyledus mewn perthynas ag absenoldeb o'r gwaith ar absenoldeb gwasanaeth lluoedd wrth gefn allan o unrhyw daliad a wnaed o dan Ran 5 Deddf y Lluoedd Arfog Wrth Gefn ac Atodol (Diogelu Buddiannau Sifil) 1951. Caniateir talu cyfraniadau y mae'n ofynnol i'r aelod eu talu, neu y mae wedi gwneud dewisiad i'w talu o dan reoliadau 111 a 113 fel cyfandaliad neu drwy ddidyniadau o randaliadau o dâl pensiynadwy, fel y cytunir rhwng yr aelod a'r rheolwr cynllun.	Derbyn Derbyn Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y gellir didynnu cyfraniadau aelodau sy'n ddyledus o dan Reoliad 114 o bob rhandaliad o dâl pensiynadwy wrth iddo ddod yn ddyledus, oni chytunwyd ar ddull arall o dalu rhwng yr Awdurdod a'r aelod. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y gellir didynnu cyfraniadau aelodau sy'n ddyledus mewn perthynas ag absenoldeb o'r gwaith ar absenoldeb gwasanaeth wrth gefn allan o unrhyw daliad a wnaed o dan Ran 5 Deddf y Lluoedd Arfog Wrth Gefn ac Atodol (Diogelu Buddiannau Sifil) 1951. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y gall cyfraniadau y mae'n ofynnol i'r aelod eu talu, neu y mae wedi dewis eu talu, gael eu talu fel cyfandaliad neu drwy ddidyniad o randaliadau o dâl pensiynadwy fel y cytunir rhwng yr aelod a'r Awdurdod ar sail pob achos unigol.
Rheoliad 135(4): Datganiad o hawlogaeth gwerth trosglwyddo. Disgresiwn i ymestyn cyfnod y dyddiad gwarant.	Rhaid i'r rheolwr cynllun bennu mewn datganiad o hawlogaeth "ddyddiad gwarant" y caiff y cyfwerth ariannol neu'r gwerth trosglwyddiad clwb ei gyfrifo; rhaid i'r dyddiad hwn fod o fewn y tri mis sy'n dechrau ar ddyddiad cais yr aelod am y datganiad o hawlogaeth ac o fewn deg diwrnod sy'n dod i ben ar y dyddiad y rhoddir y datganiad i'r aelod. Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn, os yw'n credu bod hynny'n rhesymol, i ymestyn y dyddiad hwn i chwe mis o ddyddiad cais yr aelod os, am resymau y tu hwnt i reolaeth	Derbyn	Ni fydd yr Awdurdod yn ymestyn dyddiad cyfrifo'r gwerth trosglwyddo oni bai na ellir cael yr wybodaeth sydd ei hangen i gyfrifo'r gwerth trosglwyddo cyn diwedd y cyfnod o dri mis, neu pan fydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Ni fydd dyddiad yr estyniad yn cael ei ymestyn y tu hwnt i chwe mis o gais yr aelod.

	y rheolwr cynllun, na ellir cael yr wybodaeth sydd ei hangen i gyfrifo'r gwerth trosglwyddo cyn diwedd y cyfnod o dri mis.		
Rheoliad 141(3): Cais am dderbyn taliad trosglwyddo. Disgresiwn i ymestyn terfyn amser ar gyfer gwneud cais.	Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod i ystyried ymestyn y terfyn amser ar gyfer trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol ar ôl deuddeg mis ers ymuno oni bai: (i) bod aelod o'r cynllun wedi gwneud cais i ymchwiliadau ddechrau o fewn y terfyn amser o ddeuddeg mis, neu (ii) os oes lle i gredu na fyddai'r unigolyn wedi gwybod am yr angen i ofyn am ymchwiliad i'r posibilrwydd o drosglwyddo hawlogaeth pensiwn blaenorol o fewn y terfyn amser o ddeuddeg mis, a bod y ffeiliau AD a/neu bensiwn yn cefnogi hyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir cyfnod hirach cyn belled nad oes rheswm neu obaith hysbys y bydd y cyflogai yn cael mynediad at ei hawlogaeth pensiwn o fewn y 12 mis nesaf. Mae hyn hefyd yn berthnasol i geisiadau i drosglwyddo cynllun pensiwn galwedigaethol.	Gwrt hod	Mae terfyn amser o flwyddyn ar ôl dod yn aelod actif lle gall person wneud cais am daliad trosglwyddo o gynllun pensiwn analwedigaethol. Mae disgresiwn gan y rheolwr cynllun i ymestyn y cyfnod hwn. Dim ond mewn achosion o gamweinyddu y bydd estyniad yn cael ei ystyried.
Rheoliadau 142 a 144: Datganiad trosglwyddo a datganiad o werth trosglwyddiad clwb. Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i aelod ofyn i reolwr cynllun pensiwn arall ddarparu datganiad o werth trosglwyddiad.	Caiff y rheolwr cynllun ei gwneud yn ofynnol bod aelod actif yn gofyn i reolwr cynllun pensiwn blaenorol ddarparu datganiad o swm y pensiwn a drosglwyddwyd y byddai gan yr aelod hawl i'w gyfrif pe bai'r trosglwyddiad yn digwydd.	Derby n	Defnyddio'r disgresiwn hwn; bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.
Rheoliad 152: Rôl YMCA mewn penderfyniadau gan y rheolwr cynllun.	Os oes angen mynd i'r afael â mater meddygol, bydd y rheolwr cynllun yn ceisio, ac yn rhoi sylw i, farn ysgrifenedig Ymarferydd Meddygol Cymwysedig Annibynnol ("YMCA") a <u>ddewiswyd ganddynt</u> .	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheoliad 155 (2): Hysbysiad o apêl (Bwrdd y Canolwyr Meddygol).	Os yw aelod yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y rheolwr cynllun a bod eu cwyn yn ymwneud â'r farn feddygol oedd yn sail i'r penderfyniad, gall wneud apêl i Fwrdd y Canolwyr Meddygol. Rhaid rhoi hysbysiad o apêl,	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen

	sy'n nodi enw a chyfeiriad yr apelydd a sail yr apêl i'r rheolwr cynllun o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r aelod gael y dogfennau a ddarparwyd o dan Reoliad 154. Os na roddir hysbysiad o apêl o fewn y terfyn amser hwn, mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn o dan Reoliad 155(2) i estyn y terfyn amser am ba bynnag gyfnod y maen nhw'n ei ystyried yn briodol, heb fod yn hwy na chwe mis o'r dyddiad y darparwyd y dogfennau perthnasol yn ymwneud â'r penderfyniad yn unol â Rheoliad 154.		
Rheoliad 157(6) i (9): Y weithdrefn pan wneir apêl. Disgresiwn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Penodi person(au) i fod yn bresennol i gynrychioli'r rheolwr cynllun yn y cyfweiliad.	Os eir ymlaen i wneud apêl, bydd y rheolwr cynllun yn dilyn y gofynion sy'n ymwneud â'r cyfweiliad ar yr amser ac yn y lleoliad a bennir gan y Bwrdd Apeliadau Meddygol. Gallant gyflwyno unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig y maen nhw'n ei ystyried sy'n briodol ac ymateb i unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan yr apelydd yn unol â'r Rheoliad ac o fewn yr amserlenni penodol. Gallant hefyd benderfynu pwy ddylai gynrychioli'r rheolwr cynllun yn y cyfweiliad.	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheoliad 161(2), (3) a (3)(b): Ffioedd a lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd: treuliau pob un o'r partïon. Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu ffioedd a lwfansau o dan rai amgylchiadau.	Gall y rheolwr cynllun ei gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu swm sy'n cyfateb i gyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd o dan Reoliad 160(1) pan fo'r – • Bwrdd yn penderfynu apêl o blaid y rheolwr cynllun ac yn datgan bod yr apêl, ym marn y Bwrdd, yn wacsaw, yn flinderus, neu'n amlwg yn ddi-sail, neu pan fo'r • apelydd yn tynnu'r apêl yn ôl, yn gofyn am ei ddiddymu neu ohirio, gan roi llai na 22 diwrnod gwaith o rybudd cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y cyfweiliad, neu pan fo • gweithredoedd ac anweithiau'r apelydd yn peri i'r Bwrdd ddiddymu, gohirio neu oedi rhywfodd arall y cyfweiliad llai na 22 o ddiwrnodau gwaith cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y cyfweiliad hwnnw.	Derby n Derby n Derby n	Ym mhob un o'r amgylchiadau a nodir, bydd yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu'r uchafswm a ganiateir heb fod yn fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy.

Rheoliad 163: Apelau ar faterion eraill: gofyniad i ymdrin ag anghytundeb unigolyn trwy Weithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau. Disgresiwn i benderfynu ar weithdrefnau mewnol i ddatrys anghydfodau yn lleol.	Pan fo aelod yn anghytuno â phenderfyniad y rheolwr cynllun ar ddyfarniad ac nad yw'r anghytundeb yn ymwneud â mater o natur feddygol, gall yr aelod ei gwneud yn ofynnol bod y rheolwr cynllun yn ymdrin â'r anghytundeb o dan Weithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r rheolwr cynllun o fewn 28 diwrnod ar ôl cael y penderfyniad. Yn unol ag adran 50 Deddf Pensiynau 1995 (gofyniad bod trefniadau i ddatrys anghydfod) a Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau, Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2008, rhaid i'r rheolwr cynllun fod â Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau ar waith, ond gallant benderfynu pwy ddylai fod yn gwneud penderfyniadau yng Ngham Un a Cham Dau. Byddai'r trefniadau hyn hefyd yn berthnasol i faterion eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn uniongyrchol gan Reoliad 163, ond y gellir apelio yn eu herbyn o dan Adran 50 Deddf Pensiynau 1995.	Derbyn	Pan fo aelod yn anghytuno â dyfarniad yr Awdurdod o dan Reoliad 151 ac nad yw'r anghytundeb yn ymwneud â mater o natur feddygol, gall yr aelod ddilyn y Weithdrefn Fewnol i Ddatrys Anghydfodau i geisio datrysiaid. Yn unol â'r Weithdrefn Fewnol i Ddatrys Anghydfodau, PSC sy'n delio â Cham 1 a'r Awdurdod Tân (neu gorff/person dirprwyedig) sy'n delio â Cham 2
Rheoliad 165: Adennill gordaliad o fuddion. Disgresiwn i benderfynu ar ddulliau adennill gordaliad a ddigwyddodd o ganlyniad i ostyngiad canran mewn enillion mewn gorchymyn ailbrisio.	Os pennir gostyngiad canrannol mewn enillion, ar gyfer blwyddyn ariannol, mewn gorchymyn a wneir o dan adran 9 Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ("ailbrisio"), rhaid i'r rheolwr cynllun adennill unrhyw ordaliad o fuddion a ddigwyddodd o ganlyniad i gymhwyso'r addasiad mynegai ymddeol ar gyfer y flwyddyn honno. Gall rheolwr y cynllun benderfynu a ddylid adennill y gordaliad drwy leihau swm pob rhandaliad o bensiwn hyd nes bod swm y gordaliad wedi ei adennill, neu a ddylid hepgor talu unrhyw gynnydd yn swm unrhyw bensiwn sy'n ddyladwy hyd nes bo swm y gordaliad wedi ei adennill.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheoliad 167 (3): Cymudo pensiynau bach. Disgresiwn i gymudo.	Os nad yw hawlogaeth pensiwn aelod o'r cynllun, neu hawlogaeth pensiwn buddiolwr aelod yn fwy na'r uchafswm cymudo pensiynau bach, gall y rheolwr cynllun dalu'r hawlogaeth fel cyfandaliad. Fodd bynnag, byddai hyn yn amodol ar gydsyniad y derbynnydd a rhaid iddynt	Derbyn	Lle bo'n briodol bydd yr Awdurdod yn caniatáu cyfnewid pensiwn bach am gyfandaliad yn unol â'r terfynau ariannol a bennwyd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.

	gydymffurfio â'r darpariaethau cymudo sy'n gymwys yn yr amgylchiadau.		
Rheoliad 168: Disgresiwn ynghylch taliadau ar gyfer personau sy'n analluog i reoli eu busnes eu hunain	Os yw'n ymddangos i'r rheolwr cynllun fod hawl gan berson, ac eithrio plentyn cymwys, i gael taliad o fuddion o dan y cynllun hwn, ond bod y person hwnnw, oherwydd anallu meddyliol neu rywfodd arall, yn analluog i reoli ei fusnes ei hunan, caiff y rheolwr cynllun, yn unol â Rheoliad 168 o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2014 ac o ystyried amgylchiadau'r achos a'r canllawiau meddygol lle bo hynny'n briodol, ystyried – (a) talu'r buddion, neu unrhyw ran ohonynt i berson sy'n gofalu am y person sydd â hawlogaeth, neu i unrhyw berson arall y penderfynir arno gan y rheolwr cynllun, ar ôl cael ymrwymiad ysgrifenedig gan y person hwnnw bod y buddion a delir i'w defnyddio er budd y person â hawlogaeth yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr cynllun, neu (b) defnyddio'r buddion mewn modd a benderfynir gan y rheolwr cynllun, er budd y person sydd â hawlogaeth, neu unrhyw fuddiolwyr y person sydd â hawlogaeth.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pwy fydd yn derbyn unrhyw swm sy'n daladwy i berson nad yw'n gallu rheoli ei fusnes ei hun.
Rheoliad 169: Talu dyfarndaliadau – disgresiwn, yn dilyn marwolaeth person, o ran derbynnydd(derbynwyr) symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965.	Yn sgil marwolaeth person yr oedd taliad yn ddyledus iddo o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 cyn i'r taliad gael ei wneud, os yw'r cyfanswm sy'n daladwy mewn perthynas â'r ymadawedig o dan y Cynllun (ar hyn o bryd) yn llai na £5,000, caiff y rheolwr cynllun wneud taliad i'r person(au) y mae'n eu hystyried yn briodol heb fod angen cyflwyno Grant Profiant neu Lythyrau Gweinyddu.	Derbyn	Wrth dalu buddion marwolaeth i gynrychiolwyr personol, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol.
Rheoliad 171(1), (2), (3), (4) a (5): Disgresiwn o ran fforffedu: troseddau a gyflawnir gan	Caiff y rheolwr cynllun ystyried defnyddio ei bwerau i gadw pensiwn yn ôl, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro pan fo person sydd â hawl i bensiwn o dan y cynllun wedi'i gollfarnu am drosedd berthnasol fel y'i diffinnir	Derbyn	Wrth fforffedu pensiwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.

aelodau, partneriaid sy'n goroesi neu blant cymwys.	yn Rheoliad 171, os yw'r rheolwr cynllun yn penderfynu ei bod yn briodol yn unol ag amgylchiadau unrhyw achos sy'n dod o fewn telerau Rheoliad 171 ac yn ddarostyngedig i ardystiad yr Ysgrifennydd Gwladol pan fo angen. Pan fo pensiwn yn cael ei gadw yn ôl, rhaid i'r rheolwr cynllun ar unrhyw adeg, ac i'r cyfryw raddau ac am y cyfryw gyfnod a ystyria'n briodol, ddefnyddio'r pensiwn er budd unrhyw ddibynnydd yr aelod neu ei adfer i'r aelod.	Derby n	
Rheoliad 172(1) i (5): Fforffedu pensiwn mewn achos o lofruddiaeth a disgresiwn o ran fforffedu yn achos dynladdiad.	Os collfernir partner sy'n goroesi neu blentyn cymwys o lofruddiaeth aelod o'r cynllun, rhaid i'r rheolwr cynllun gadw'n ôl y cyfan o unrhyw bensiwn a fyddai, fel arall, yn daladwy iddynt mewn cysylltiad â'r aelod. Fodd bynnag, os collfernir partner sy'n goroesi neu blentyn cymwys o ddynladdiad yr aelod, neu unrhyw drosedd arall, ar wahân i lofruddiaeth, yr oedd lladd yr aelod yn anghyfreithlon yn elfen ynddi, gall y rheolwr cynllun ddefnyddio'r disgresiwn a ganiateir o dan Rheoliad 172 i atal yr holl bensiwn sydd dros ben unrhyw Isafswm Pensiwn Gwarantedig y mae hawl gan y person i'w gael o dan adran 17 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993. (Os diddymir y golffarn, rhaid i'r rheolwr cynllun adfer y pensiwn a thalu'r ôl-ddyled priodol hyd nes ac oni bai bod unrhyw golffarn diweddarach fel yr amlinellir yn y paragraff uchod.)	Derby n	Wrth fforffedu pensiwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rheoliadau 174 a 176: Fforffedu: disgresiwn i atal buddion mewn perthynas â rhwymedigaethau ariannol perthnasol a cholledion ariannol perthnasol.	Os oes gan aelod rwymedigaeth ariannol berthnasol neu os yw wedi achosi colled ariannol berthnasol, caiff y rheolwr cynllun, i'r cyfryw raddau ac am y cyfryw gyfnod yr ystyria'n briodol, gadw'n ôl buddion sy'n daladwy i'r person hwnnw o dan y cynllun hwn. Mae'n rhaid bod y rhwymedigaeth ariannol yn rhwymedigaeth ariannol a achoswyd i reolwr y cynllun ar ôl i'r person ddod yn aelod actif ac yn tarddu o, neu'n gysylltiedig â gwasanaeth yn y gyflogaeth gynllun y mae'r person yn aelod o'r cynllun hwn mewn cysylltiad â hi, a rhaid ei fod wedi tarddu o weithred neu anwaith troseddol, esgeulus neu dwyllodrus gan y person. Caiff	Derby n	Wrth fforffedu pensiwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.

	"rhwymedigaeth ariannol berthnasol" a "cholled ariannol berthnasol" eu diffinio yn y Rheoliad. Mae cyfyngiadau penodol, e.e. dim ond swm sy'n fwy nag isafswm pensiwn gwarantedig y person y gellir ei gadw yn ôl, ac ni chaiff y rheolwr cynllun weithredu ac eithrio pan nad oes anghytundeb ynglŷn â'r swm neu, pan fo gorchymyn llys neu ddyfarniad gan gymrodeddwr. Yn unol â Rheoliad 176, rhaid i'r rheolwr cynllun roi i'r aelod dystysgrif sy'n dangos y swm a gedwir yn ôl a'r effaith ar fuddion o dan y cynllun.		
Rheoliadau 175 a 176: Disgresiwn i wrthgyfrif rhwymedigaeth ariannol berthnasol yn erbyn hawlogaeth aelod i gael buddion o dan y cynllun.	Yn unol â Rheoliad 175 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, os oes gan aelod o'r cynllun rhwymedigaeth ariannol berthnasol – fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau – i'r rheolwr cynllun, caiff y rheolwr cynllun, yn unol ag amgylchiadau'r achos, wrthgyfrif y rhwymedigaeth ariannol yn erbyn hawlogaeth yr aelod i gael buddion o dan y cynllun. Mae cyfyngiadau penodol, e.e. dim ond swm sy'n fwy nag isafswm pensiwn gwarantedig y person y gellir ei gadw yn ôl, mae credydau trosglwyddo penodol wedi'u diogelu, ac ni chaiff y rheolwr cynllun weithredu ac eithrio pan nad oes anghytundeb ynglŷn â'r swm neu, pan fo gorchymyn llys neu ddyfarniad gan gymrodeddwr. Yn unol â Rheoliad 176, rhaid i'r rheolwr cynllun roi i'r aelod dystysgrif sy'n dangos y swm a gedwir yn ôl a'r effaith ar fuddion y person.	Derbyn	Pan fydd yr Awdurdod yn bwriadu atal buddion, dilynir y weithdrefn a nodir yn y Rheoliadau. Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol.
Rheoliad 184: Disgresiwn i ofyn am dystiolaeth o hawlogaeth.	Caiff rheolwr cynllun ddefnyddio ei ddisgresiwn o dan Rheoliad 184 i'w gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson sy'n cael pensiwn, neu a allai fod â hawlogaeth i gael pensiwn neu gyfandaliad o dan y Cynllun, yn darparu pa bynnag dystiolaeth ategol y gofynnir amdani'n rhesymol gan y rheolwr cynllun er mwyn cadarnhau enw'r person a	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

	chadarnhau hawl y person hwnnw, sy'n parhau neu yn y dyfodol i gael taliad o unrhyw swm o dan y cynllun. Os bydd person yn methu â chydymffurfio â gofynion y rheolwr cynllun yn hyn o beth, caiff y rheolwr cynllun gadw'n ôl y cyfan neu ran o unrhyw swm y mae, fel arall, yn ystyried ei fod yn daladwy o dan y cynllun.	Derby n	
(Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 4) Pensiwn ychwanegol Ni chaiff cyfanswm y pensiwn ychwanegol cronedig fod yn fwy na'r terfyn cyffredinol o bensiwn ychwanegol	Ni chaiff cyfanswm y pensiwn ychwanegol cronedig fod yn fwy na therfyn penodol. Caiff y rheolwr cynllun ddiddymu dewisiad gan yr aelod i wneud taliadau cyfnodol os yw'n ymddangos i'r rheolwr cynllun yr eir dros ben y terfyn (drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod). [Atodlen 1 Rhan 1, paragraff 4]	Derby n	Mae'n debygol y bydd yr Awdurdod yn canslo'r dewisiad pan fydd aelod wedi dewis gwneud taliadau cyfnodol sy'n debygol o fynd y tu hwnt i'r terfyn. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.
(Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 7) Dewisiad Aelodau i wneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol	Os yw aelod o'r cynllun yn dymuno gwneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol, caiff y rheolwr cynllun osod isafswm y mae'n rhaid ei dalu.	Derby n	Pan fo Aelod o'r Cynllun yn dymuno gwneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol, mae'r Awdurdod wedi gosod isafswm o £25 y mis y mae'n rhaid ei dalu.
ATODLEN 1: Rhan 2, Paragraffau 6 i 11. Taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol. Disgresiwn i osod isafswm, i gytuno ar ddull talu, ac i ymestyn y terfyn amser ar gyfer talu.	Bydd y rheolwr cynllun yn gweinyddu cais gan aelod i wneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol. Gall rheolwr y cynllun ddefnyddio ei ddisgresiwn i osod isafswm swm yn unol ag amgylchiadau'r achos. Fel arfer, caiff y taliadau cyfnodol fod yn daladwy drwy ddidynnu o dâl pensiynadwy yr aelod gan ei gyflogwr yn ystod y cyfnod taliadau cyfnodol ond os nad yw'r aelod yn dymuno talu trwy'r dull hwn, caiff y rheolwr cynllun gytuno ar ddull arall o dalu. Ar ôl cyfnod o dâl pensiynadwy tybiedig neu gyfnod o dâl gostyngedig, os bydd aelod yn dymuno awdurdodi'r rheolwr cynllun i ddidynnu'r taliadau cyfanredol y byddid wedi eu gwneud allan o dâl yr aelod yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i'r taliad gael ei wneud o fewn 6 mis i ddiwedd y cyfnod o dâl tybiedig neu dâl gostyngedig. Fodd bynnag, gall y rheolwr cynllun ddefnyddio eu disgresiwn i ymestyn y cyfnod os ydynt o'r farn y byddai hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau.	Derby n Gwrt hod Derby n	Pan fo Aelod o'r Cynllun yn dymuno gwneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol, mae'r Awdurdod wedi gosod isafswm o £25 y mae'n rhaid ei dalu. Ni fydd rheolwr y cynllun yn caniatáu i aelod wneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol ac eithrio drwy ddidyniad o dâl pensiynadwy. Oherwydd goblygiadau treth a chofnodi cyfraniadau yn briodol dros gyfnod o amser Ni fydd yr Awdurdod yn ymestyn y cyfnod o chwe mis ar gyfer taliadau yn ystod cyfnodau o dâl pensiynadwy tybiedig oni bai mewn amgylchiadau eithriadol.

ATODLEN 2: Rhan 1, Paragraff 3(3). Disgresiwn i bennu dyddiad diogelwch taprog mewn rhai achosion.	Yn unol â Pharagraff 3(3), caiff y rheolwr cynllun ddefnyddio eu disgresiwn i bennu dyddiad cau diogelwch taprog ar gyfer aelod diogelwch taprog o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2006 y mae Paragraffau 9(5) neu 21 yn gymwys iddynt (aelodau sy'n dychwelyd i wasanaeth pensïynadwy) yn unol ag amgylchiadau'r achos.	Gwrt hod	Hysbyswyd Aelodau'r Cynllun o'u dyddiadau diogelwch taprog pan gyflwynwyd cynllun 2015. Mae pennu dyddiadau taprog wedi'i nodi mewn rheoliadau a bydd y disgresiwn hwn yn berthnasol dim ond hyd nes y bydd y rhwymedi'n cael ei roi ar waith ar ôl penderfyniad y Rhingyll ynglŷn ag ymestyn y terfyn amser.

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

Dirprwyaethau Awdurdodedig

A: Yr Awdurdod Tân ac Achub neu'r Pwyllgor priodol o dan bwerau dirprwyedig.

B: Y Prif Swyddog Tân neu'r Prif Swyddog Cynorthwyol o dan bwerau dirprwyedig

C: Y swyddog enwebedig neu Gynllun Pensiwn Dyfed fel darparwr gwasanaethau gweinyddu pensiwn yr Awdurdod. Byddai hyn o dan bwerau dirprwyedig ac yn unol â:

- chyfarwyddyd yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer achosion unigol (Lefel A)
- cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr perthnasol (Lefel B).

Pan fydd yn rhaid gwneud penderfyniad/gweithredu ar Lefelau B neu C mewn perthynas â pherson a fyddai fel arfer yn gwneud penderfyniadau ar y lefel honno, bydd y penderfyniad/gweithredu yn digwydd ar Lefel "A".

CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU) 2015

Darparu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 (fel y'i diwygiwyd)	Lefel y penderfyniad			Sylwadau
	A	B	C	
Rheoliadau 4A, 4B, 4C a 4D: Sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol.	✓			
Rheoliad 5: Dirprwyo	✓			
Rheoliad 16(2)(b): Optio allan o'r cynllun. Disgresiwn i bennu'r ddyddiad y daw gwasanaeth pensiynadwy i ben.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheoliad 17(1)(d): Disgresiwn i benderfynu y dylai taliadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus fod yn bensiynadwy.	✓			

Rheoliad 19 (c): Disgresiwn i gyfrif absenoldeb fel aelodaeth actif o'r Cynllun yn amodol ar dalu cyfraniadau.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheoliad 28: Sefydlu cyfrifon pensiwn. Disgresiwn i'w cadw ar ffurf yr ystyrir yn briodol gan yr Awdurdod Tân ac Achub.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 37 Cau ac ailsefydlu cyfrif aelod actif. Disgresiwn i ddewis cyfrif priodol pan fo gan aelod fwy nag un cyfrif.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 49: Cau cyfrif aelod gohiriedig ar ôl bwlch mewn gwasanaeth pensiynadwy nad yw'n hwy na phum mlynedd. Disgresiwn i ddewis pa gyfrif sydd i'w gau pan fo gan yr aelod fwy nag un cyfrif.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 62: Ymddeoliad a ysgogir gan gyflogwr. Disgresiwn i ddyfarnu taliad pensiwn ymddeol ar unwaith heb ostyngiad.		✓		Wedi'i ddirprwyo i PST neu'r Awdurdod Tân yn achos Prif Swyddogion
Rheoliadau 63 a 64: Arfer yr opsiwn o ran-ymddeoliad. Disgresiwn o ran dyddiad cychwyn pensiwn rhan-ymddeoliad.			✓	Ar y cyd â'r Tîm AD
Rheoliad 68: Adolygu dyfarniad afiechyd neu daliad o bensiwn ymddeol yn gynnar. Disgresiwn i ddewis amseriad priodol ar gyfer adolygu.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 69: Canlyniadau adolygu		✓		
Rheoliad 70: Cychwyn pensiynau. Disgresiwn i bennu'r dyddiad y bydd y taliadau'n dechrau.			✓	Tîm Pensiynau
Rheoliad 72: Dewisiad i ddyrannu. Disgresiwn i atal cydsyniad os nad yw'r Awdurdod Tân ac Achub wedi ei fodloni bod y person a enwebwyd yn dibynnu'n sylweddol ar yr aelod.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 73: Gwneud dewisiad i ddyrannu. Disgresiwn i wrthod cais i ddyrannu os nad yw'r rheolwr cynllun wedi'i fodloni bod gan yr aelod ddisgwyliad oes normal.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 75: Addasu budd a ddyrannwyd. Disgresiwn i addasu buddion a ddyrannwyd os bydd aelod yn marw ar ôl cyrraedd 75 oed.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 76: ystyr "partner sy'n goroesi": Disgresiwn i hepgor cyfnod cymhwyso ar gyfer pensiwn partner sy'n goroesi yn achos partner sy'n cyd-fyw.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 85: Ystyr "plentyn cymwys". Disgresiwn o ran penderfynu "anabledd parhaol" ar gyfer pensiwn plentyn ac ar gyfer amseriad yr adolygiad.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 95: Y person y mae cyfandaliad budd marwolaeth yn daladwy iddo. Disgresiwn yr ATA i ddewis derbynwyr.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 100: Talu pensiwn mewn cysylltiad â phlentyn cymwys o dan 18 oed. Disgresiwn sy'n ymwneud â thalu pensiwn plentyn.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 101: Pensiynau partner sy'n goroesi a phensiynau plentyn cymwys. Disgresiwn i atal dros dro ac adennill.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 102: Dyfarniadau dros dro o bensiynau plentyn cymwys. Disgresiwn ar gyfer addasiadau diweddarach.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 104: Addasu buddion i gydymffurfio â Deddf Cyllid 2004 pan fydd farw aelodau dros 75 mlwydd oed.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun

Rheoliad 110: Cyfraniadau aelodau. Disgresiwn i bennu amgylchiadau lle bydd gostyngiad mewn tâl pensiynadwy yn cael ei ddiystyru at ddibenion penderfynu ar gyfraniadau'r aelodau.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheoliad 111: Cyfraniadau yn ystod absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch, anaf, anghydfod undebol neu absenoldeb awdurdodedig. Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i aelod dalu cyfraniad y cyflogwr yn ychwanegol at gyfraniad y cyflogai os yw'n absennol o gyflogaeth oherwydd salwch neu anaf heb dâl.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheoliad 114: Didynnu a thalu cyfraniadau. Disgresiwn i ddod i gytundeb gyda'r aelod ar y dull o dalu cyfraniadau'r cyflogai.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheoliad 135: Datganiad o hawlogaeth gwerth trosglwyddo. Disgresiwn i ymestyn cyfnod y dyddiad gwarant.			✓	Person priodol Gweinyddwr pensiynau
Rheoliad 141: Cais am dderbyn taliad trosglwyddo. Disgresiwn i ymestyn terfyn amser ar gyfer gwneud cais.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliadau 142 a 144: Datganiad trosglwyddo a datganiad o werth trosglwyddiad clwb. Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i aelod ofyn i reolwr cynllun pensiwn arall ddarparu datganiad o werth trosglwyddiad.			✓	Person priodol Gweinyddwr pensiynau
Rheoliad 152: Rôl YMCA mewn penderfyniadau gan yr Awdurdod Tân ac Achub.			✓	Yn unol â'r Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Rheoliad 155: Hysbysiad o apêl (Bwrdd y Canolwyr Meddygol).		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Rheoliad 157: Y weithdrefn pan wneir apêl. Disgresiwn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Penodi person(au) i fod yn bresennol i gynrychioli'r Awdurdod Tân ac Achub yn y cyfweiliad.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Rheoliad 161: Ffioedd a lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd: treuliau pob un o'r partïon. Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu ffioedd a lwfansau o dan rai amgylchiadau.		✓		
Rheoliad 163: Apelau ar faterion eraill: gofyniad i ymdrin ag anghytundeb unigolyn trwy Weithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau. Disgresiwn i benderfynu ar weithdrefnau mewnol i ddatrys anghydfodau yn lleol.		✓		
Rheoliad 165: Adennill gordaliad o fuddion. Disgresiwn i benderfynu ar ddulliau adennill gordaliad a ddigwyddodd o ganlyniad i ostyngiad canran mewn enillion mewn gorchymyn ailbrisio.			✓	Timau Pensiynau ar y cyd â gweinyddwyr
Rheoliad 167: Cymudo pensiynau bach. Disgresiwn i gymudo.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 168: Disgresiwn ynghylch taliadau ar gyfer personau sy'n analluog i reoli eu busnes eu hunain		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 169: Talu dyfarndaliadau – disgresiwn, yn dilyn marwolaeth person, o ran derbynnydd(derbynwyr) symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun

Rheoliad 171: Disgresiwn o ran fforffedu: troseddau a gyflawnir gan aelodau, partneriaid sy'n goroesi neu blant cymwys.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 172: Fforffedu pensiwn mewn achos o lofruddiaeth a disgresiwn o ran fforffedu yn achos dynladdiad.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 174 a 176: Fforffedu. Disgresiwn i atal buddion mewn perthynas â rhwymedigaethau ariannol perthnasol a cholledion ariannol perthnasol.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 175 a 176: Disgresiwn i wrthgyfrif rhwymedigaeth ariannol berthnasol yn erbyn hawlogaeth aelod i gael buddion o dan y Cynllun.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 184: Disgresiwn i ofyn am dystiolaeth o hawlogaeth.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Atodlen 1: Taliadau ar gyfer pensiwn ychwanegol Rhan 1, Paragraff 4. Ni chaiff cyfanswm y pensiwn ychwanegol cronedig fod yn fwy na'r terfyn cyffredinol o bensiwn ychwanegol			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Atodlen 1: Taliadau ar gyfer pensiwn ychwanegol Rhan 1, Paragraff 7. Dewisiad Aelodau i wneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Atodlen 1: Taliadau ar gyfer pensiwn ychwanegol. Rhan 2, Paragraffau 6 i 11. Taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol. Disgresiwn i osod isafswm, i gytuno ar ddull talu, ac i ymestyn y terfyn amser ar gyfer talu.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Atodlen 2: Rhan 1, Paragraff 3(3). Disgresiwn i bennu dyddiad diogelwch taprog mewn rhai achosion.	✓			

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007

Rheoliad	Esboniad	Penderfyniad GC	Sylwadau
Rhan 2 Rheol 1(6) i (9) - Disgresiwn i dderbyn statws "partner enwebedig" pan fo aelod y cynllun a'u partner wedi bod mewn perthynas am lai na 2 flynedd.	Yn amodol ar fodloni'r gofynion enwebu eraill a nodir yn Rhan 2, Rheol 1 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i dderbyn enwebiad partner gan aelod o'r cynllun os yw'r berthynas wedi parhau am gyfnod byrrach na dwy flynedd.	Derbyn	Cyn cydsynio â'r dyraniad, rhaid bodloni'r Awdurdod fod yr enwebai yn berson sy'n sylweddol ddibynnol ar yr aelod. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rhan 3, Rheol 5: Pensiwn yn sgil ymddeoliad cynnar ar archiad yr aelod.	Os bydd aelod-ddiffoddwr tân, ac eithrio aelod-ddiffoddwr tân arbennig, yn bodloni amod cymhwyster, y dyfernir pensiwn gohiriedig iddo, ac yn 55 oed neu'n hŷn ond cyn iddo gyrraedd yr oedran buddion arferol (65) yn gofyn am daliad cynnar drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod Tân ac Achub, caiff yr Awdurdod wrthod y cais os bydd cyfradd y pensiwn, ar ôl y lleihad actiwaraid priodol, yn debyg o fod yn llai na'r pensiwn â lleiafswm gwarantedig a fyddai'n daladwy o oedran pensiwn y wladwriaeth ymlaen.	Derbyn	Gall yr Awdurdod wrthod cais gan ddiffoddwr tân am daliad cynnar o bensiwn gohiriedig lle mae hyn yn debygol o fod yn llai na'r isafswm pensiwn gwarantedig ar oedran pensiwn y wladwriaeth. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.

Rhan 3, Rheol 6: Ymddeoliad cynnar ar archiad yr awdurdod.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub, gan ystyried y dull darbodus, effeithiol ac effeithlon o reoli eu swyddogaethau a'r costau sy'n debyg o gael eu tynnu yn yr achos penodol, ddyfarnu y dylid ymddeol diffoddwr tân – ac eithrio aelod-ddiffoddwr tân arbennig – sydd yn 55 oed o leiaf ond sydd o dan yr oedran ymddeol arferol (60), o gyflogaeth yr Awdurdod gyda phensiwn ar unwaith wedi'i gyfrifo ar yr un egwyddorion â phensiwn arferol o dan Ran 3, Rheol 1 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.	Derbyn	Ni fydd yr Awdurdod fel arfer yn caniatáu talu buddion yn gynnar at ddibenion effeithlonrwydd busnes nac yn hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraid, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ar ôl ystyried yr achos busnes; rhaid i'r Prif Swyddog Tân gytuno, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu talu pensiwn yn gynnar i Ddiffoddwr Tân sy'n 55 oed neu hŷn lle mae'r ymddeoliad er budd rheolaeth y Gwasanaeth.
Rhan 3, Rheol 7B: Disgresiwn i benderfynu y dylai taliadau penodol, nad ydynt yn bensiynadwy fel arall, gael eu trin felly ar gyfer credyd Budd Pensiwn Ychwanegol i'r aelod-ddiffoddwr tân.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i benderfynu y gellir trin y buddion y cyfeirir atynt yn Rheol 7B (5) fel rhai pensiynadwy ar gyfer credyd Budd Pensiwn Ychwanegol i'r diffoddwr tân. (Ond sylwch, yn unol â Rhan 11, Rheol 1(6), pan fo lwfans neu atodiad a dalwyd i ddiffoddwr tân yn cael ei drin fel tâl pensiynadwy cyn 1 Gorffennaf 2013 ond nad yw'n dâl pensiynadwy yn ôl Rhan 11, Rheol 1(a), bydd yn parhau i gael ei drin fel tâl pensiynadwy cyhyd â bod y diffoddwr tân yn parhau i'w dderbyn heb unrhyw doriad yn y taliad.)	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn trin taliadau DPP a Dyrchafiad Dros Dro fel Budd Pensiwn Ychwanegol pensiynadwy.

Rhan 3, Rheol 10: Disgresiwn i gymudo pensiwn bach am gyfandaliad mân-gymudo.	Pan na fo swm unrhyw bensiwn sy'n daladwy i aelod sydd wedi cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth, o dan Ran 3 ac, os yw'n berthnasol, Rhan 6, Rheol 1 (pensiwn â chredyd pensiwn), Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, ynghyd ag unrhyw gynnydd o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971, yn fwy na'r terfyn cymudo a bennir at ddibenion Rhan 1 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 (y rheol ynghylch cyfandaliadau), caiff yr Awdurdod Tân ac Achub, os ystyrir ei fod yn briodol, gymudo'r pensiwn(pensiynau) am gyfandaliad yn unol â chanllawiau Actiwari'r Cynllun.	Derbyn	Lle bo'n briodol bydd yr Awdurdod yn caniatáu cyfnewid pensiwn bach am gyfandaliad yn unol â'r terfynau ariannol a bennwyd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.
Rhan 3, (Rheol 11, paragraffau 2(b) a 3) Disgresiwn i ganiatáu i ddiffoddwr tân ddyrannu cyfran o'u pensiwn i ddibynnydd heblaw priod, partner sifil, neu bartner enwebedig.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub wrthod cydsynio i ddyrannu cyfran o bensiwn i berson ac eithrio priod, partner sifil neu bartner enwebedig yr aelod os na chaiff ei fodloni bod y person yn dibynnu'n sylweddol ar yr aelod-ddiffoddwr tân.	Derbyn	Pan fo cyfran o bensiwn wedi'i ddyrannu i ddibynnydd nad yw'n briod, yn bartner sifil neu'n bartner sy'n cyd-fyw â'r aelod, bydd yr Awdurdod yn atal y taliad os na ellir ei fodloni bod y person a enwebir yn dibynnu'n sylweddol ar yr aelod. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rhan 3, (Rheol 11, paragraff 6(a)) Gofyniad i gael barn ar ddisgwyliad oes arferol, a'i derbyn, at ddibenion dyrannu.	Os yw aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 yn dymuno dyrannu cyfran o'u pensiwn er budd buddiolwr, rhaid i'r aelod hwnnw fodloni'r Awdurdod Tân ac Achub bod ganddynt ddisgwyliad oes arferol ar adeg gwneud y cais. Nid oes manylion ynglŷn â sut y dylid gwneud hyn, e.e. barn feddygol gan Feddyg Teulu'r diffoddwyr tân, neu'r Meddyg Iechyd Galwedigaethol neu YMCA, ac felly mae'n rhaid i'r Awdurdod benderfynu ar eu polisi o ran y dull o brofi.	Derbyn	Pan fo Diffoddwr Tân yn dewis ildio rhan o'u pensiwn (yn unol â Rhan 3, Rheol 11, Paragraffau 2(b) a 3), mae'r Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael archwiliad meddygol i sicrhau eu bod mewn iechyd da cyn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr Awdurdod yn cyfeirio'r unigolyn at yr YMCA; bydd yr Aelod yn talu'r costau.

Rhan 3, (Rheol 12) Aelodau â debyd pensiwn	Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub ddarparu prisiadau pensiwn, ac unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol mewn perthynas ag ysgariad neu achos o ddiddymu partneriaeth sifil a bydd yn cymryd camau priodol i gofnodi a gweinyddu Gorchmynion Atafaelu. Os bydd Gorchymyn Rhannu Pensiwn, bydd hawliau pensiwn aelod o'r cynllun yn cael eu dosrannu yn unol â chyfarwyddiadau'r Llys, deddfwriaeth ysgariad/ diddymu, Rhan 3, Rheol 12 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, a'r canllawiau a'r ffactorau a baratowyd gan Actiwari'r Cynllun. Gall yr Awdurdod bennu'r tâl a godir am y gwaith gweinyddol.	Derbyn	Defnyddio'r disgresiwn hwn; Bydd yr Awdurdod yn pennu tâl priodol ar gyfer y gwaith gweinyddol.
Rhan 4, Rheol 1, paragraff 3: Disgresiwn i wrthod rhoi pensiwn goroeswr, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro, pan fo priod, partner sifil, neu bartner enwebedig yr ymadawedig wedi'i gollfarnu o ddynladdiad yr ymadawedig.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i wrthod rhoi pensiwn priod, partner sifil neu bartner enwebedig yn gyfan gwbl ac yn barhaol os yw'r person hwnnw wedi'i gollfarnu o ddynladdiad yr ymadawedig.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 4 (Rheol 5): Disgresiwn, yn amodol ar gais priod, partner sifil neu bartner enwebedig sy'n goroesi aelod-ddiffoddwr tân, i gymudo eu pensiwn am gyfandaliad mân-gymudo.	Pan na fo swm unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod, partner sifil neu bartner enwebedig sy'n goroesi o dan ddarpariaethau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, yn fwy na'r terfyn cymudo a bennir at ddibenion paragraff 20 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 (cyfandaliadau budd marwolaeth) ac os bydd y derbynnydd yn gofyn am hynny, caiff yr Awdurdod Tân ac Achub gymudo'r pensiwn cyfan am gyfandaliad yn unol â ffactorau a baratowyd gan Actiwari'r Cynllun ac sydd mewn grym ar yr adeg pan fydd y cymudo yn digwydd.	Derbyn	Gall yr Awdurdod ganiatáu cyfnewid pensiwn bach am gyfandaliad yn unol â'r terfynau ariannol a bennwyd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.

Rhan 4, Rheol 7, paragraff 5: Disgresiwn i wrthod rhoi'r pensiwn plentyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro, pan fo'r plentyn wedi'i gollfarnu o ddynladdiad yr ymadawedig.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub wrthod rhoi'r pensiwn plentyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dros, pan fo'r plentyn wedi'i gollfarnu o ddynladdiad yr ymadawedig.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 4, Rheol 12: Disgresiwn, gyda chydsyniad y rhiant sydd ar ôl, ei warcheidwad neu'r plentyn (os yw'r plentyn dros 18 oed) i gymudo pensiwn plentyn am gyfandaliad mân-gymudo.	Pan na fo swm lwfans plentyn sy'n daladwy o dan ddarpariaethau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, yn fwy na'r terfyn cymudo a bennir at ddibenion paragraff 20 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 a (a) bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ei fodloni bod rhesymau digonol i wneud hynny, a (b) bod y rhiant sy'n goroesi neu warcheidwad y plentyn neu – os nad oes un gan y plentyn – y plentyn (os yw dros 18 oed) yn cydsynio, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i gymudo'r pensiwn am gyfandaliad yn unol â chyfarwyddyd Actiwari'r Cynllun ar yr adeg pan ddaw'r pensiwn yn daladwy am y tro cyntaf.	Derbyn	Gall yr Awdurdod ganiatáu cyfnewid pensiwn bach am gyfandaliad yn unol â'r terfynau ariannol a bennwyd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.
Rhan 5: Dyfarndaliadau yn sgil marwolaeth (Rheolau 1 a 2): Disgresiwn o ran derbynnydd grant marwolaeth a grant marwolaeth ar ôl ymddeol.	Yn sgil marwolaeth person tra bo'n gwasanaethu fel aelod-ddiffoddwr tân neu aelod sy'n bensiynwr, gall yr Awdurdod Tân ac Achub dalu grant marwolaeth a aseswyd yn unol â Rhan 5, Rheolau 1 a 2 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i'r person neu'r personau hynny y gwêl yr Awdurdod yn dda, yn unol â Rhan 5, Rheol 1, paragraff 10.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pwy sy'n derbyn grant marwolaeth ar ôl ymddeol fel y gwêl yn dda. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu i'r Awdurdod benderfynu pwy ddylai gael Grant Marwolaeth.

Rhan 5, Rheol 1, paragraff 12: Disgresiwn i dalu rhan o unrhyw grant marwolaeth nad yw wedi ei thalu'n llawn, i berson y mae ei gollfarn am lofruddiaeth neu ddynladdiad yr ymadawedig wedi'i ddiddymu.	Pan fo collfarn person am lofruddiaeth neu ddynladdiad yn cael ei ddiddymu ar apêl, caiff yr Awdurdod, os nad yw'r grant marwolaeth wedi'i dalu'n llawn bryd hynny a chan ystyried amgylchiadau'r achos, dalu rhan ohono i'r person y mae ei gollfarn wedi'i ddiddymu.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 6: Rhannu pensiwn yn sgil ysgaru (Rheol 2) Disgresiwn, gyda chytundeb yr aelod â chredyd pensiwn, i gymudo am gyfandaliad mân-gymudo y cyfan o bensiwn â chredyd pensiwn.	O dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn rheoliad 3(2)(b) Rheoliadau Rhannu Pensiwn (Budd Credyd Pensiwn) 2000, pan na fo swm pensiwn â chredyd pensiwn sy'n daladwy o dan ddarpariaethau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, yn fwy na'r terfyn cymudo a bennir at ddibenion paragraff 20 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 a a) bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ei fodloni bod rhesymau digonol i wneud hynny, a b) bod yr aelod â chredyd pensiwn yn cydsynio, caiff yr Awdurdod gymudo'r pensiwn am gyfandaliad wedi'i gyfrifo yn unol â'r ffactorau a ddarperir gan Actiwari'r Cynllun sy'n gyfredol ar adeg y cymudo.	Derbyn	Yn sgil ysgariad, gall yr Awdurdod ganiatáu cyfnewid pensiwn bach am gyfandaliad yn unol â'r terfynau ariannol a bennwyd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu cymudo pensiwn bach am gyfandaliad yn sgil ysgariad. Diffinnir pensiwn bach ym Mharagraff 20 atodlen 29 Deddf Cyllid 2004 fel cyfandaliad nad yw'n fwy nag 1% o'r lwfans oes safonol ar y dyddiad y telir y cyfandaliad.

Rhan 6, Rheol 5, paragraff 2: Disgresiwn i dalu grant marwolaeth ar ôl ymddeol mewn perthynas ag aelod â chredyd pensiwn i'r person neu'r personau hynny a wêl yr Awdurdod Tân ac Achub yn dda.	Pan fo aelod â chredyd pensiwn yn marw o fewn pum mlynedd i ddyddiad dechrau talu'r pensiwn a chyn pen-blwydd yr aelod yn 75 oed a bod gwahaniaeth rhwng • y swm sy'n bum gwaith swm y pensiwn, wedi'i gyfrifo yn ôl y gyfradd flynyddol a oedd yn effeithiol ar y diwrnod y dechreuwyd talu'r pensiwn, a • y rhandaliadau pensiwn sydd wedi'u talu gall yr Awdurdod Tân ac Achub dalu grant marwolaeth ar ôl ymddeol sy'n swm y gwahaniaeth hwnnw i'r person neu'r personau hynny a wêl yr Awdurdod Tân ac Achub yn dda.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pwy sy'n derbyn grant marwolaeth ar ôl ymddeol fel y gwêl yn dda. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried pwy ddylai dderbyn Grant Marwolaeth ar ôl ymddeol.
Rhan 8 (Rheol 4, paragraff 4): Dyfarnu cwestiynau ac apelau 70. Disgresiwn i ymestyn terfyn amser ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Tân ac Achub sydd wedi'u seilio ar gyngor meddygol.	Pan fo person sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad yn seiliedig ar gyngor meddygol o dan Ran 8, Rheol 4 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, yn methu â chyflwyno'r hysbysiad apêl ac unrhyw ddogfennau ategol o fewn y 28 diwrnod a ganiateir ar gyfer cyflwyno apêl o'r fath, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod.	Derbyn	Os na chaiff apêl ei chyflwyno o fewn y terfyn amser a bennir a bod yr Awdurdod yn credu nad yw hynny oherwydd diffyg ar ran yr unigolyn ei hun, bydd yr Awdurdod yn ymestyn y terfyn amser ar gyfer apelio hyd at fis ar y mwyaf o ddyddiad terfyn amser gwreiddiol yr apêl. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu i'r Awdurdod ystyried eithriadau i'r terfyn amser o 28 diwrnod i Ddiffoddwr Tân gyflwyno apêl.

Rhan 8, Rheol 5: Gofyniad i ymdrin ag anghytundeb unigolyn drwy gyfrwng Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau a sefydlwyd gan Awdurdod Tân ac Achub yn unol â gofynion adran 50 Deddf Pensiynau 1995, pan fo'r anghytundeb yn ymwneud â phenderfyniad Awdurdod o dan Ran 8, Rheol 2 ac nad yw'r anghytundeb yn ymwneud â mater meddygol ei natur.	Mae atal pensiwn yn sgil ailddechrau gwasanaeth yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Tân ac Achub, fodd bynnag, bydd Awdurdod fel arfer yn ystyried telerau Rhan 9, Rheol 3, egwyddorion lleihau a nodir yng Nghylchlythyr Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 10/2009, a chanllawiau Trysorlys EF, h.y. ni ddylai'r pensiwn sy'n ddyledus o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 ynghyd â'r tâl o'r gyflogaeth newydd fod yn fwy na'r tâl pensiynadwy oedd yn sail i gyfrifiad pensiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 (gan ystyried cynnydd mewn costau byw). I'r graddau y mae'n gwneud hynny, bydd pensiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 yn cael ei leihau am gyfnod y gyflogaeth.	Derbyn	Pan fydd diffoddwr tân wedi ymddeol ac wedi cael ei ail-gyflogi fel diffoddwr tân, bydd eu pensiwn yn cael ei leihau. Byddai'r Gwasanaeth bob amser yn caniatáu i'r unigolyn godi mater o'r natur hon drwy Weithdrefn Fewnol i Ddatrys Anghydfodau'r Gwasanaeth.
Rhan 9, Rheol 1, paragraff 1: Gofyniad i benderfynu, yn ôl yr ysbeidiau y mae Awdurdod Tân ac Achub yn eu hystyried yn briodol, a yw person sydd o dan oedran pensiwn y Wladwriaeth ac sydd wedi bod yn cael pensiwn afiechyd am lai na 10 mlynedd wedi dod yn alluog i gyflawni unrhyw ddyletswydd sy'n briodol i'r rôl y bu i'r person ymddeol ohoni ar sail afiechyd, ac i ymgymryd â chyflogaeth reolaidd.	Er bod adolygu dyfarniadau afiechyd yn orfodol, gall yr Awdurdod Tân ac Achub bennu amseriad adolygiadau o'r fath.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Yn unol â'r Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd presennol Mae angen i'r polisi ysgrifenedig gynnwys proses ymddeol ar sail afiechyd ac amserlen ar gyfer adolygu

Rhan 9, Rheol 1, paragraff 2 a Rheol 2: Gofyniad i benderfynu, yn ôl yr ysbeidiau y mae Awdurdod Tân ac Achub yn eu hystyried yn briodol, a yw person sydd o dan yr oedran buddion arferol (65) ac sy'n cael pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail anabledd parhaol, wedi dod yn alluog i gyflawni unrhyw ddyletswydd sy'n briodol i'w rôl flaenorol, ac i ymgymryd â chyflogaeth reolaidd.	Er bod adolygu talu pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd yn orfodol, gall yr Awdurdod Tân ac Achub bennu amseriad adolygiadau o'r fath.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Yn unol â'r Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd presennol Mae angen i'r polisi ysgrifenedig gynnwys proses ymddeol ar sail afiechyd ac amserlen ar gyfer adolygu
Rhan 9, Rheol 3: Disgresiwn i atal y cyfan neu ran o bensiwn Rhan 3 (dyfarndaliadau personol) ar gyfer unrhyw gyfnod y caiff y person, y mae ganddo hawlogaeth i'w gael, ei gyflogi eto fel diffoddwr tân, neu mewn unrhyw swyddogaeth arall, gan unrhyw Awdurdod Tân ac Achub.	Mae atal pensiwn yn sgil ailddechrau gwasanaeth yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Tân ac Achub, fodd bynnag, bydd Awdurdod fel arfer yn ystyried telerau Rhan 9, Rheol 3, egwyddorion lleihau a nodir yng Nghylchlythyr Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 10/2009, a chanllawiau Trysorlys EF, h.y. ni ddylai'r pensiwn sy'n ddyledus o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 ynghyd â'r tâl o'r gyflogaeth newydd fod yn fwy na'r tâl pensiynadwy oedd yn sail i gyfrifiad pensiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 (gan ystyried cynnydd mewn costau byw). I'r graddau y mae'n gwneud hynny, bydd pensiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 yn cael ei leihau am gyfnod y gyflogaeth. Rhaid ystyried hefyd rwymedigaeth yr Awdurdod o dan Ran 13, Rheol 2, paragraff 11 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod swm sy'n cyfateb i'r cyfan neu ran o bensiwn <u>nad</u> yw wedi'i leihau neu ei atal yn cael ei dalu i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r taliad pensiwn yn cael ei wneud.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried atal pensiwn diffoddwr tân os yw'r person yn cael ei ail-gyflogi fel Diffoddwr Tân rheolaidd. Byddai hyn yn gofyn am asesiad atal.

Rhan 9, Rheol 4: Disgresiwn i atal talu pensiwn gohiriedig yn gynnar o dan Rhan 3, Rheol 3, paragraff 4 yn sgil ei ddiswyddo fel diffoddwr tân o gyflogaeth Awdurdod Tân ac Achub	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i atal talu pensiwn gohiriedig cyn cyrraedd 65 oed, neu cyn cyrraedd 60 oed yn achos aelod arbennig, i ddiffoddwr tân sy'n cael ei ddiswyddo o gyflogaeth yr Awdurdod os teimlir bod hyn yn briodol mewn achos penodol. Nid yw'r rheswm dros "ddiswyddo" yn cael ei grybwyll. Efallai y bydd yr Awdurdod yn dymuno ystyried gwahaniaethu rhwng diswyddo oherwydd tramgwydd a diswyddo oherwydd gallu meddygol (lle na fyddai'r person yn gymwys i gael dyfarndal afiechyd).	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae Rhan 3, Rheol 3, paragraff 4 yn cynnwys y pŵer i dalu pensiwn gohiriedig yn gynnar pan fo unigolyn wedi'i anablu'n barhaol. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried peidio â gwneud taliad o'r fath pan fydd Diffoddwr Tân yn cael ei ddiswyddo. Bydd hyn yn cael ei ystyried ar sail pob achos unigol.
Rhan 9, (Rheol 5, paragraffau 1 i 3) Disgresiwn i atal pensiwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro, pan fo person wedi'i gollfarnu am dramgwyddau penodol.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ddefnyddio'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 9, Rheol 5, paragraffau 1 i 3 o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i atal pensiwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ac yn barhaol neu dros dro, pan fo pensiynwr wedi'i gollfarnu o dramgwydd fel y gwêl yr Awdurdod yn dda o dan amgylchiadau unrhyw achos sy'n dod o fewn telerau Rhan 9, Rheol 5 ac yn amodol ar ardystiad yr Ysgrifennydd Gwladol lle bo angen.	Derbyn	Pan fo unigolyn yn cael ei gollfarnu am droseddau a gwmpesir yn Rhan 9 Rheol 5, bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.
Rhan 9, Rheol 5, paragraff 4: Disgresiwn, ar unrhyw bryd ac i'r graddau y gwêl yr Awdurdod Tân ac Achub yn dda, ad-dalu pensiwn sydd wedi'i atal o dan Ran 9, Rheol 5, paragraffau 1 i 3, neu ei gymhwyso er budd unrhyw un o ddibynyddion y pensiynwr.	Os bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn atal pensiwn o dan Ran 9, Rheol 5, paragraffau 1 i 3 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, yn amodol ar amgylchiadau'r achos, gallant ystyried ei gymhwyso er budd unrhyw un o ddibynyddion y pensiynwr neu ei ad-dalu i'r pensiynwr.	Derbyn	Gall yr Awdurdod adfer pensiwn a gafodd ei atal o dan Ran 9, Rheol 5 neu ei gymhwyso er budd unrhyw un o ddibynyddion y pensiynwr. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol. Dyma'r disgresiwn i ad-dalu pensiwn a gafodd ei atal yn unol â'r ddirprwyaeth uchod.

Rhan 11 (Rheol 3, paragraff 2) Disgresiwn i ddiwynnu cyfraniadau pensiwn o bob rhandaliad o dâl pensiynadwy wrth iddo ddod yn ddyledus (neu drwy unrhyw ddull talu arall y gall yr awdurdod a'r aelod gytuno arno).	Mae cyfraniadau fel arfer yn cael eu didynnu o randaliadau cyflog ond mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i gasglu'r cyfraniadau sy'n ddyledus trwy ddulliau eraill pe bai angen.	Derbyn	Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.
Rhan 11, Rheol 4, paragraff 3: Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud dewisiad i dalu cyfraniadau pensiwn mewn perthynas ag absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol di-dâl.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu estyniad i'r terfyn amser o 30 diwrnod ar gyfer gwneud dewisiad i dalu cyfraniadau mewn perthynas ag absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu di-dâl na fyddai fel arall yn cyfrif fel gwasanaeth pensiynadwy neu wasanaeth pensiynadwy arbennig.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 11, Rheol 4, paragraffau 6 a 7: Disgresiwn i ddiwynnu cyfraniadau mewn perthynas ag absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol di-dâl o'r grant marwolaeth sy'n daladwy o dan Rhan 5 os bydd aelod neu aelod cysylltiedig yn marw heb roi hysbysiad ei f/bod yn dymuno talu'r cyfraniadau cyn diwedd y terfyn amser ar gyfer gwneud y dewisiad.	Pe byddai aelod-ddiffoddwr tân wedi cael yr opsiwn i dalu cyfraniadau er mwyn cyfrif y cyfnod o absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu fel gwasanaeth pensiynadwy neu wasanaeth pensiynadwy arbennig ond yn marw cyn diwedd y terfyn amser ar gyfer gwneud dewisiad a heb fod wedi rhoi'r hysbysiad, bernir bod y person hwnnw wedi rhoi'r hysbysiad a rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub roi i gynrychiolwyr personol y diffoddwr tân ddatganiad o swm y cyfraniadau sy'n ddyledus, a chaiff gasglu'r cyfraniadau o'r grant marwolaeth sy'n daladwy o dan Ran 5 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu i'r Awdurdod ystyried a ddylid trin cyfnod o absenoldeb di-dâl fel gwasanaeth pensiynadwy pan fo aelod yn marw heb roi hysbysiad o fewn y terfyn amser ar gyfer gwneud dewisiad, ei fod yn dymuno talu cyfraniadau o'r fath.
Rhan 11, Rheol 5, paragraff 5: Disgresiwn i ganiatáu i ddiffoddwr tân rheolaidd rhan-amser dalu cyfraniadau ar gyfradd ran-amser i brynu gwasanaeth ychwanegol.	Os yw aelod-ddiffoddwr tân rheolaidd rhan amser yn dymuno prynu gwasanaeth ychwanegol trwy gyfraniadau cyfnodol, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu iddynt dalu'r cyfraniadau ychwanegol ar gyfradd ran-amser.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rhan 11, Rheol 5, paragraff 6: Disgresiwn i ganiatáu i ddiffoddwr tân ar alwad neu ddiffoddwr tân gwirfoddol brynu gwasanaeth ychwanegol drwy gyfraniadau cyfnodol.	Os yw aelod-ddiffoddwr tân ar alwad neu ddiffoddwr tân gwirfoddol yn dymuno prynu gwasanaeth ychwanegol trwy gyfraniadau cyfnodol mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu hyn, ac os felly mae'r cyfraniadau'n seiliedig ar dâl cyfeirio'r diffoddwr tân.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 11, Rheol 5A: Prynu gwasanaeth yn ystod y cyfnod cyfyngedig.	<i>Disgresiwn ar gyfer amcangyfrif gwasanaeth ar gyfer ymarferiad diffoddwyr tân ar alwad arbennig yn unig.</i>	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 11, Rheol 8: Disgresiwn i gytuno, ar archiad aelod-ddiffoddwr tân, i roi'r gorau i dalu cyfraniadau ychwanegol i brynu gwasanaeth ar yr amod bod hyn ar sail amgylchiadau ariannol yr aelod yn unig, a bod yr aelod wedi cytuno gyda'r penderfyniad o ran ailgychwyn talu cyfraniadau ychwanegol i brynu gwasanaeth ar ôl cyfnod nad yw'n hwy na chwe mis.	Os teimlir ei fod yn briodol mewn achos penodol, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i gytuno i roi'r gorau i ddidynnu cyfraniadau ychwanegol i brynu gwasanaeth o gyflog aelod-ddiffoddwr tân, pan fydd y diffoddwr tân yn gwneud cais ar sail ei amgylchiadau ariannol yn unig.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Pwrpas y disgresiwn hwn yw caniatáu i Diffoddwr Tân roi'r gorau i wneud cyfraniadau ychwanegol.

Rhan 11, Rheol 9, paragraff 4(c): Talu cyfraniadau mewn perthynas â chyfnodau o wasanaeth neu absenoldeb di-dâl, a disgresiwn i ymestyn y terfyn amser i'r diffoddwr tân dalu.	Os bydd gan aelod-ddiffoddwr tân sydd wedi dewis talu cyfraniadau ychwanegol i “brynu” gwasanaeth ychwanegol gyfnod o wasanaeth di-dâl neu absenoldeb di-dâl (h.y. absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu neu absenoldeb arall heb dâl) ac o ganlyniad nid oes tâl y gellir tynnu'r cyfraniadau ychwanegol ohono, gall wneud cais i'r Awdurdod Tân ac Achub i dalu'r cyfraniadau. Rhaid gwneud y cais heb fod yn hwyrach nag un mis ar ôl diwedd y cyfnod o absenoldeb di-dâl. Caniateir i gyfraniadau ychwanegol gael eu talu'n uniongyrchol i'r Awdurdod yn ystod cyfnod o absenoldeb di-dâl neu o fewn chwe mis i'r diffoddwr tân ddychwelyd i'w ddyletswydd ar ôl yr absenoldeb. Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser hwn.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 12, Pennod 2, Rheol 3, paragraff 6: Disgresiwn i godi tâl ar aelod am gais am drydydd datganiad neu ddatganiad ar ôl hynny o hawlogaeth i daliad gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis.	Pan fo aelod, mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis olynol, wedi gwneud dau gais am ddatganiad o hawlogaeth, a heb eu tynnu'n ôl, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i beidio â rhoi trydydd datganiad neu ddatganiad dilynol yn ystod y cyfnod hwnnw o ddeuddeg mis oni bai bod yr ymgeisydd yn talu unrhyw ffi y mae'n rhesymol i'r Awdurdod ofyn amdano.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 12, Pennod 3, (Rheol 9(1)(c)(ii)) Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser lle gall aelod, ac eithrio aelod-ddiffoddwr tân arbennig, wneud cais am daliad gwerth trosglwyddo o gynllun pensiwn analwedigaethol.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i dderbyn cais gan aelod o'r cynllun am daliad gwerth trosglwyddo o gynllun pensiwn analwedigaethol pan fydd y cais yn cael ei wneud fwy na blwyddyn ar ôl i'r aelod ddod yn gymwys i fod yn aelod-ddiffoddwr tân am y tro cyntaf.	Gwrthod	Ni fydd yr Awdurdod yn ymestyn y terfyn amser o flwyddyn oni bai mewn amgylchiadau esgusodol, e.e. nid yw'r Gweinyddwr Pensiynau wedi gweithredu ar gais yr aelod. Y cynllun wedi'i gau
Rhan 12, Pennod 3, Rheol 10, paragraff 1, yn ddarostyngedig i baragraffau 3 a 4 a Rhan 10, Rheol 2, paragraffau 2 a 3: Disgresiwn i dderbyn taliadau gwerth trosglwyddo.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i dderbyn taliad gwerth trosglwyddo i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 pan fo aelod o'r Cynllun wedi gwneud cais o dan Ran 10 Rheol 8.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rhan 12, Pennod 5, Rheol 14, paragraff 3: Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar gyfer derbyn taliad gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd".	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar gyfer derbyn gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd."	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 12, Pennod 5, Rheol 14, paragraff 6: Disgresiwn i addasu gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd" er mwyn ystyried credyd am unrhyw wasanaeth blaenorol.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i addasu swm y gwerth trosglwyddo y mae'n ei dderbyn o dan y rheolau trosglwyddo "cam-werthu" i sicrhau nad oes dyblygu o ran y gwasanaeth pensiynadwy a gredydwyd.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 2(a): Disgresiwn i ohirio talu dyfarniad i'r graddau y bo'n angenrheidiol i ddyfarnu unrhyw gwestiwn ynghylch atebolrwydd Awdurdod Tân ac Achub.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ohirio talu dyfarniad i'r graddau y bo'n angenrheidiol i ddyfarnu unrhyw gwestiwn ynghylch atebolrwydd yr Awdurdod Tân ac Achub.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Nid oes angen i'r Awdurdod Tân dalu'r swm nes ei fod yn fodlon ar gymhwystra dyfarniad.
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 2(b): Disgresiwn i dalu dyfarndal yn ôl ysbeidiau rhesymol eraill os nad yw'n ymarferol i'w talu'n fisol.	Yn unol â Rhan 14, Rheol 3, paragraff 1, pan fo'r Awdurdod Tân ac Achub o'r farn, oherwydd swm y dyfarndal, y byddai ei dalu'n fisol mewn ôl-daliadau yn anymarferol, caiff gyflawni ei atebolrwydd mewn perthynas â'r swm hwnnw drwy wneud taliadau bob hyn a hyn yn ôl yr ysbeidiau rhesymol a wêl yn dda.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 5: Disgresiwn i adennill y cyfan neu ran o'r gordaliad os na chafodd Awdurdod Tân ac Achub ei hysbysu am farwolaeth pensiynwr (o bosibl drwy wrth-gyfrifiad yn erbyn unrhyw ddyfarndal arall sy'n daladwy o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 mewn perthynas â'r ymadawedig).	Pan nad yw Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei hysbysu am farwolaeth pensiynwr ac, o ganlyniad, bod y pensiwn wedi parhau i gael ei dalu, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i adennill y cyfan neu ran o'r gordaliad fel y gwêl yn dda a chaiff ei adennill drwy wrth-gyfrifiad yn erbyn unrhyw ddyfarndal arall sy'n daladwy o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r ymadawedig.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn adennill unrhyw ordaliadau a wnaed yn dilyn marwolaeth pensiynwr yn unol â chanllawiau 'Rheoli Arian Cyhoeddus' Trysorlys EF.

Rhan 14, Rheol 3, paragraff 6: Ad-dalu cyfraniadau cyfanredol.	Pan fo gan berson hawlogaeth o dan Ran 3, Rheol 8 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i gael ad-daliad o'i gyfraniadau pensiwn cyfanredol, nid yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn rhwym i wneud taliad hyd nes y bydd blwyddyn o ddyddiad ymddeol y person wedi dirwyn i ben os na fydd y person yn gwneud cais am daliad ynghynt. Efallai y byddant am wneud datganiad polisi ynglŷn â'r opsiwn hwn.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 14, Rheol 5, paragraff 1: Disgresiwn o ran derbynnydd unrhyw swm sy'n daladwy i berson ifanc dan oed a chyfarwyddiadau i'w ddefnyddio er budd y person ifanc.	Datganiad Gweinyddol: Pan fo budd-daliadau plant yn daladwy, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn o ran pwy sy'n derbyn y taliad hwnnw a gall roi cyfarwyddiadau iddynt i ddefnyddio'r taliadau er budd y plentyn.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu talu symiau sy'n ddyledus i blentyn dan oed i berson priodol.
Rhan 14, Rheol 5, paragraff 2: Disgresiwn o ran derbynnydd, neu ddefnyddio, taliadau sy'n ddyledus i bersonau sy'n analluog i reoli eu materion eu hunain	Os yw'n ymddangos i'r Awdurdod Tân ac Achub fod person sydd â hawlogaeth i gael taliad dyfarndal, oherwydd anhwylder meddwl neu fel arall, yn analluog i reoli ei faterion, caiff yr Awdurdod a) dalu'r budd-daliad neu unrhyw ran ohono i berson sydd â gofal dros y person a chanddo hawlogaeth, neu i unrhyw berson arall a ddyfernir ganddynt, neu b) defnyddio'r buddion mewn modd a benderfynir gan yr Awdurdod er budd y person sydd â hawlogaeth, neu buddiolwyr y person hwnnw.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried talu dyfarndal i berson priodol os bernir nad yw'r derbynnydd yn gallu rheoli ei faterion ei hun.
Rhan 14, Rheol 6, paragraff 1: Disgresiwn, yn dilyn marwolaeth person, o ran derbynnydd(derbynwyr) symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965.	Yn sgil marwolaeth person yr oedd swm yn ddyledus iddo, mewn perthynas â dyfarndal, nad oedd yn fwy na £5,000 (ar hyn o bryd), caiff yr Awdurdod Tân ac Achub dalu'r swm sy'n ddyledus i'r person neu'r personau fel y gwêl yr Awdurdod yn dda heb fod angen cyflwyno Grant Profiant neu unrhyw brawf arall o hawlogaeth.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn ymdrin â dyfarndaliadau o lai na £5,000 ac yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud ynghylch pwy ddylai gael y swm hwn.

Rhan 14, (Rheol 6, paragraffau 4 i 6) Disgresiwn i atal symiau sy'n ddyledus mewn perthynas â dyfarndal i ddiffoddwr tân os bydd colled o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeuluster ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'i gyflogaeth, yng nghronfeydd yr Awdurdod Tân ac Achub.	Os bydd colled, o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeuluster ar ran diffoddwr tân mewn cysylltiad â'i gyflogaeth, yng nghronfeydd yr Awdurdod Tân ac Achub, caiff yr awdurdod ystyried defnyddio'r pwerau a gynhwysir yn Rhan 14, Rheol 6 Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru/Lloegr) 2006/2007 i wrthod talu y cyfan neu ran o unrhyw symiau a ddaw'n ddyledus i'r diffoddwr tân hwnnw oddi wrth yr Awdurdod mewn perthynas â dyfarndal. Rhaid i'r cyfanswm y gwrthodir ei dalu beidio â bod yn fwy na swm y golled nac unrhyw ran o swm sy'n ddyledus ac nad yw'n briodoladwy i wasanaeth fel cyflogai Awdurdod Tân ac Achub. Os bydd unrhyw anghydfod ynglŷn â swm y golled, ni chaniateir gwrthod talu unrhyw beth onid oes modd bellach adennill y golled oddi wrth y person sydd â hawlogaeth i gael y dyfarndal o dan orchymyn llys cymwys. Rhaid i'r awdurdod ddarparu i'r person sydd â hawlogaeth i gael y dyfarndal dystysgrif sy'n dangos y swm sy'n cael ei atal.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn atal symiau sy'n ddyledus mewn perthynas â dyfarndal i ddiffoddwr tân os bydd colled o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeuluster ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'i gyflogaeth, yng nghronfeydd y Gwasanaeth.
Rhan 15, Rheol 3: Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i berson sydd, neu a all fod â hawl i bensiwn neu gyfandaliad o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007, ddarparu tystiolaeth ategol i Awdurdod Tân ac Achub o'i hunaniaeth a'i hawl parhaus o dan y Cynllun; a disgresiwn i atal taliad neu ran o daliad pan fo person yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn.	Caiff Awdurdod Tân ac Achub ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cael pensiwn neu y mae'n bosibl bod ganddo hawlogaeth i gael pensiwn neu gyfandaliad o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 ddarparu tystiolaeth ategol o bryd i'w gilydd i gadarnhau pwy yw'r person hwnnw a'i hawlogaeth i gael taliad o dan y Cynllun. Pan fo person yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn, yn unol ag amgylchiadau'r achos, caiff yr Awdurdod arfer ei ddisgresiwn i atal y taliad cyfan.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rhan 15, Rheol 4: Penderfynu ar ddyddiad dyroddi datganiadau buddion blynyddol a dyddiad perthnasol ar gyfer enghraifft o'r pensiwn.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub benderfynu ar amseriad dyroddi datganiadau buddion blynyddol. Caiff yr Awdurdod hefyd benderfynu ar y dyddiad perthnasol ar gyfer yr enghraifft o'r pensiwn (ac eithrio yn achos aelodau â chredyd pensiwn).	Gwrthod	Nid oes disgresiwn bellach – rhaid dyroddi datganiadau buddion blynyddol i aelodau erbyn 31 Awst bob blwyddyn. Mae hyn bellach yn ofyniad statudol.
Atodiad 2, (paragraff 1(2)) Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod, lle mae'n rhaid i berson gyflwyno apêl feddygol, i gyfnod nad yw'n hwy na 6 mis. (paragraff 1(2))	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod lle mae'n rhaid i berson gyflwyno apêl feddygol, i gyfnod nad yw'n hwy na 6 mis o ddyddiad dyroddi'r dogfennau o dan Ran 8, Rheol 4, paragraff 4 Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.	Derbyn	Os na chaiff apêl ei chyflwyno o fewn y terfyn amser a bennir a bod yr Awdurdod yn credu nad yw hynny oherwydd diffyg ar ran yr unigolyn ei hun, bydd yr Awdurdod yn ymestyn y terfyn amser ar gyfer apelio hyd at fis ar y mwyaf o ddyddiad terfyn amser gwreiddiol yr apêl.
Atodiad 2, paragraff 6(5): Disgresiwn i benodi cynrychiolydd yr Awdurdod Tân ac Achub yng nghyfweliad y Bwrdd Apeliadau Meddygol.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub benderfynu pwy ddylai gynrychioli'r Awdurdod mewn cyfweliad Bwrdd Apêl Feddygol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD
Atodiad 2, paragraff 7(1): Disgresiwn i benderfynu a ddylid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Apeliadau Meddygol.	Gall yr Awdurdod Tân ac Achub benderfynu a ddylid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig i Fwrdd Apeliadau Meddygol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD

Atodiad 2, paragraff 10(2): Disgresiwn, pan fo'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn dyfarnu apêl o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan mai, yn ei farn ef, yr oedd yr apêl yn "wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail", i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod Tân ac Achub swm a wêl yr Awdurdod yn dda, nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd o dan Atodiad 2, paragraff 9(1). (paragraff 10(2))	Pan fo'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn dyfarnu apêl o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan bod yr apêl a gyflwynwyd gan yr apelydd, yn ei farn ef, yn wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail, caiff yr Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod swm sydd yr un faint, ond nid yn fwy na, chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd fel y'u pennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. (Gweler y gofyniad i hysbysu person o'r posibilrwydd hwn o dan Atodiad 2, paragraff 4(5)(i)).	Derbyn	Pan fydd Bwrdd Apeliadau Meddygol yn penderfynu bod apêl unigolyn yn 'wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail' bydd yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu unrhyw swm y mae'n ei ystyried yn addas yn amodol ar gapio yn unol â'r rheoliadau.
Atodiad 2, (paragraff 10(3)) Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod Tân ac Achub y cyfryw swm ag y gwêl yr Awdurdod yn dda, heb fod yn fwy na chyfanswm ffioedd a lwfansau'r Bwrdd Apeliadau Meddygol sy'n daladwy i'r Bwrdd gan yr Awdurdod o dan Atodiad 2, paragraff 9(1), dan amgylchiadau pan fo'r apelydd yn rhoi hysbysiad i'r Bwrdd Apeliadau Meddygol, ei fod yn tynnu'r apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio'r dyddiad a bennir ar gyfer yr archwiliad meddygol llai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennir, neu os yw gweithred neu anweithred apelydd yn peri i'r Bwrdd ganslo neu ohirio fel arall lai na 22 diwrnod cyn y dyddiad a bennir. (paragraff 10(3))	Pan fo'r apelydd yn tynnu apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio'r dyddiad a bennwyd ar gyfer cyfweiliad neu archwiliad meddygol gan y Bwrdd Apeliadau Meddygol lai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd, neu os yw gweithred neu anweithred yr apelydd yn peri i'r Bwrdd ganslo neu ohirio fel arall y dyddiad a bennwyd, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod swm sydd yr un faint, ond nid yn fwy na, chyfanswm y ffioedd a lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd o dan Atodiad 2, paragraff 9(1) Gorchymyn Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.	Derbyn	Pan fydd apelydd yn tynnu ei apêl yn ôl lai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer cyfweiliad neu archwiliad meddygol, bydd yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu unrhyw swm y mae'n ei ystyried yn addas yn amodol ar gapio yn unol â'r rheoliadau.

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007

Dirprwyaethau Awdurdodedig

A: Yr Awdurdod Tân ac Achub neu'r Pwyllgor priodol o dan bwerau dirprwyedig.

B: Y Prif Swyddog Tân neu'r Prif Swyddog Cynorthwyol o dan bwerau dirprwyedig

C: Y swyddog enwebedig neu Gynllun Pensiwn Dyfed fel darparwr gwasanaethau gweinyddu pensiwn yr Awdurdod. Byddai hyn o dan bwerau dirprwyedig ac yn unol â:

- chyfarwyddyd yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer achosion unigol (Lefel A)
- cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr perthnasol (Lefel B).

Pan fydd yn rhaid gwneud penderfyniad/gweithredu ar Lefelau B neu C mewn perthynas â pherson a fyddai fel arfer yn gwneud penderfyniadau ar y lefel honno, bydd y penderfyniad/gweithredu yn digwydd ar Lefel "A".

CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN (Cymru) 2007

Darpariaeth Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd)	Lefel y penderfyniad			Sylwadau
	A	B	C	
Rhan 2, Rheol 1(6) i (9): Disgresiwn i dderbyn statws partner enwebedig pan fo diffoddwr tân a'i bartner mewn perthynas am lai na 2 flynedd.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 3, Rheol 5: Pensiwn yn sgil ymddeoliad cynnar ar archiad yr aelod.			✓	
Rhan 3, Rheol 6: Ymddeoliad cynnar ar archiad yr awdurdod.	✓			Wedi'i ddirprwyo i'r PST
Rhan 3, Rheol 7B: Disgresiwn i benderfynu y dylai taliadau penodol, nad ydynt yn bensiynadwy fel arall, gael eu trin felly ar gyfer credyd Budd Pensiwn Ychwanegol.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rhan 3, Rheol 10: Disgresiwn i gymudo pensiwn bach am gyfandaliad mân-gymudo.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 3, Rheol 11, paragraffau 2(b) a 3: Disgresiwn i ganiatáu dyrannu cyfran o bensiwn i ddibynnydd heblaw priod, partner sifil neu bartner enwebedig.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 3, Rheol 11, paragraff 6(a): Gofyniad i gael barn ar ddisgwyliad oes arferol, a'i derbyn, at ddibenion dyrannu.		✓		
Rhan 3, Rheol 12: Dyfarndal i aelodau â debyd pensiwn.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 4, Rheol 1, paragraff 3: Disgresiwn i wrthod rhoi pensiwn goroeswr yn gyfan gwbl neu'n rhannol pan fo'r goroeswr wedi'i gollfarnu o ddynladdiad y diffoddwr tân ymadawedig.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 4, Rheol 5: Disgresiwn i gymudo pensiwn goroeswr am gyfandaliad mân-gymudo.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 4, Rheol 7, paragraff 5: Disgresiwn i wrthod rhoi'r pensiwn plentyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pan fo'r plentyn wedi'i gollfarnu o ddynladdiad y diffoddwr tân ymadawedig.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 4, Rheol 12: Disgresiwn i gymudo pensiwn plentyn am gyfandaliad mân-gymudo.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 5, Rheolau 1 a 2: Grant marwolaeth a grant marwolaeth ar ôl ymddeol.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 5, Rheol 1, paragraff 12: Disgresiwn i dalu rhan o unrhyw grant marwolaeth nad yw wedi ei thalu'n llawn, i berson y mae ei gollfarn am lofruddiaeth neu ddynladdiad yr ymadawedig wedi'i ddiddymu.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 6, Rheol 2: Disgresiwn i gymudo'r cyfan o fuddion credyd pensiwn am gyfandaliad mân-gymudo.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 6, Rheol 5, paragraff 2: Disgresiwn o ran derbynnydd grant marwolaeth ar ôl ymddeol aelod â chredyd pensiwn.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 8, Rheol 4, paragraff 4: Disgresiwn i ymestyn terfyn amser ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau sydd wedi'u seilio ar gyngor meddygol.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Rhan 8, Rheol 5: Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau	✓			
Rhan 9, Rheol 1, paragraff 1: Adolygu pensiwn afiechyd.			✓	Mae angen polisi ysgrifenedig ffurfiol ar ymddeol ar sail afiechyd
Rhan 9, Rheol 1, paragraff 2, a Rheol 2: Adolygiad o'r pensiwn gohiriedig a dalwyd yn gynnar ar sail afiechyd.			✓	Mae angen polisi ysgrifenedig ffurfiol ar ymddeol ar sail afiechyd

Rhan 9, Rheol 3: Disgresiwn i atal y cyfan neu ran o bensiwn ar ôl ailddechrau gwasanaeth gydag Awdurdod Tân ac Achub.		✓		
Rhan 9, Rheol 4: Disgresiwn i wrthod talu pensiwn gohiriedig yn gynnar yn sgil diswyddo o gyflogaeth.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 9, Rheol 5, paragraffau 1 i 3: Disgresiwn i atal pensiwn yn sgil collfarnu person am dramgwyddau penodol.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 9, Rheol 5, paragraff 4: Disgresiwn i ad-dalu pensiwn sydd wedi'i atal neu ei dalu er budd dibynnydd.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 9, Rheol 6: Disgresiwn i benderfynu faint o'r dyfarniad fydd yn cael ei fforffedu pan fydd person wedi ei gollfarnu am drosedd o dan a34(6) Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 10, Rheol 4, paragraff 3: Disgresiwn i'r Awdurdod Tân ac Achub dalu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr sy'n ddyledus am gyfnod o absenoldeb di-dâl.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 11, Rheol 3, paragraff 2: Disgresiwn i ddidynnu cyfraniadau o randaliadau tâl pensiynadwy.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 11, Rheol 4, paragraff 3: Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud dewisiad i dalu cyfraniadau mewn perthynas ag absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol di-dâl.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 11, Rheol 4, paragraffau 6 a 7: Disgresiwn i ddidynnu cyfraniadau mewn perthynas ag absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol di-dâl o'r grant marwolaeth os bydd aelod yn marw heb roi hysbysiad ei f/bod yn dymuno talu cyn diwedd y terfyn amser ar gyfer gwneud y dewisiad.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 11, Rheol 5, paragraffau 5 a 6: Disgresiwn i ganiatáu i ddiffoddwr tân rheolaidd rhan-amser, neu ddiffoddwr tân ar alwad neu ddiffoddwr tân gwirfoddol sy'n aelodau brynu gwasanaeth ychwanegol pro rata.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 11, Rheol 5A: Prynu gwasanaeth yn ystod cyfnod cyfyngedig (diffoddwyr tân ar alwad arbennig).			✓	Matthews 2 ymarferiad yn unig
Rhan 11, Rheol 8: Disgresiwn i gytuno i gais gan ddiffoddwr tân i roi'r gorau i dalu cyfraniadau ychwanegol i brynu gwasanaeth pan fo taliad yn achosi caledi ariannol; penderfyniad ynglŷn ag amseriad ailgychwyn gwneud didyniadau.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 11, Rheol 9, paragraff 4(c): Talu cyfraniadau mewn perthynas â chyfnodau o wasanaeth neu absenoldeb di-dâl, a disgresiwn i ymestyn terfyn amser ar gyfer gwneud dewisiad i dalu cyfraniadau mewn perthynas â gwylliau di-dâl.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 12, Pennod 2, Rheol 3, paragraff 6: Disgresiwn i godi tâl ar aelod am drydydd datganiad neu ddatganiad ar ôl hynny o hawlogaeth i daliad gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 12, Pennod 3, Rheol 9(1)(c)(ii): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser lle gall aelod wneud cais am daliad gwerth trosglwyddo o gynllun pensiwn analwedigaethol.			✓	Mewn achosion o gamweinyddu yn unig
Rhan 12, Pennod 3, Rheol 10, paragraff 1, a paragraffau 3 a 4: Disgresiwn i dderbyn taliadau gwerth trosglwyddo.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr

Rhan 12, Pennod 5, Rheol 14, paragraff 3: Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar gyfer derbyn taliad gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd".		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 12, Pennod 5, Rheol 14, paragraff 6: Disgresiwn i addasu gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd" er mwyn ystyried credyd am wasanaeth blaenorol.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 2(a): Disgresiwn i ohirio talu dyfarniad i'r graddau y bo'n angenrheidiol i ddyfarnu unrhyw gwestiwn ynghylch atebolrwydd yr Awdurdod Tân ac Achub.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 2(b): Disgresiwn i dalu dyfarniad yn ôl ysbeidiau rhesymol yn hytrach nag yn fisol.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 5: Disgresiwn i adennill y cyfan neu ran o ordaliad yn dilyn marwolaeth pensiynwr os na chafodd yr Awdurdod Tân ac Achub ei hysbysu.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 6: Ad-dalu cyfraniadau cyfanredol.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 5, paragraff 1: Disgresiwn o ran derbynnydd y swm sy'n daladwy i berson ifanc dan oed a chyfarwyddiadau i'w ddefnyddio er budd y person ifanc.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 5, paragraff 2: Disgresiwn o ran derbynnydd, neu ddefnyddio, taliadau sy'n ddyledus i bersonau sy'n analluog i reoli eu materion eu hunain		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 6, paragraff 1: Disgresiwn o ran derbynnydd(derbynwyr) symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 6, paragraffau 4 i 6: Disgresiwn i atal symiau sy'n ddyledus mewn perthynas â dyfarniad i ddiffoddwr tân os bydd colled o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeuluster ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'i gyflogaeth, yng nghronfeydd yr Awdurdod Tân ac Achub.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 15, Rheol 3: Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i berson sydd, neu a all fod â hawl i bensiwn neu gyfandaliad o dan y Cynllun Pensiwn, ddarparu tystiolaeth i'r Awdurdod Tân ac Achub o'i hunaniaeth a'i hawl parhaus o dan y Cynllun; disgresiwn i atal taliad pan fo person yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 15, Rheol 4: Penderfynu ar ddyddiad dyroddi datganiadau buddion blynyddol a dyddiad perthnasol ar gyfer enghraifft o'r pensiwn - Nid yw hyn bellach yn ddisgresiwn - rhaid dyroddi datganiadau buddion blynyddol i aelodau erbyn 31 Awst bob blwyddyn. Mae hyn bellach yn ofyniad statudol.				Ddim yn berthnasol mwyach
Atodiad 2, paragraff 1(2): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer apêl feddygol (i gyfnod nad yw'n hwy na 6 mis).		✓		Pennaeth AD/ Perchennog y polisi
Atodiad 2, paragraff 6(5): Disgresiwn i benodi cynrychiolydd yr Awdurdod Tân ac Achub yng nghyfweliad y Bwrdd Apeliadau Meddygol.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y polisi
Atodiad 2, paragraff 7(1): Disgresiwn p'un ai i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Apeliadau Meddygol ai peidio.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y polisi
Atodiad 2, paragraff 10(2): Disgresiwn, pan fo'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn dyfarnu apêl o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan mai, yn ei farn ef, yr oedd yr apêl yn wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail, i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r awdurdod swm nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd.		✓		

Atodiad 2, paragraff 10(3): Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r awdurdod swm nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd pan fo'r apelydd yn tynnu'r apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio dyddiad cyfweliad/archwiliad meddygol llai na 22 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennwyd, neu pan fo gweithred neu anweithred apelydd yn peri i'r Bwrdd ganslo neu ohirio'r dyddiad hwnnw, llai na 22 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennwyd.		✓		

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992

Rheoliad	Esboniad	Penderfyniad GC	Sylwadau
Rheol B1(2)(b): Caniatâd i Brif Swyddog Tân a benodwyd ar 1.7.2013, neu cyn hynny, ymddeol cyn cyrraedd 55 oed	Os bydd Prif Swyddog Tân Awdurdod Tân ac Achub, a benodwyd ar 1.7.2013, neu cyn hynny, yn ymddeol cyn cyrraedd 55 oed, rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i dalu buddion ymddeoliad ar unwaith o dan Reol B1 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992.	Amherthnasol	GC heb ei gynnwys o'r blaen Ar adeg cymeradwyo'r ddogfen hon, roedd dyddiad penodi'r PST ar ôl 1.7.2013
Rheol B5C: Disgresiwn i benderfynu y dylai taliadau penodol, nad ydynt yn bensiynadwy fel arall, gael eu trin felly ar gyfer credyd Budd Pensiwn Ychwanegol i'r aelod-ddiffoddwr tân	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i benderfynu a ddylid trin unrhyw daliadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus neu gynnydd mewn tâl am ddrychafiad dros dro sy'n dod i rym ar, neu ar ôl, 1 Gorffennaf 2013 fel rhai pensiynadwy ar gyfer credyd Budd Pensiwn Ychwanegol i'r diffoddwr tân. (Yn unol â Rheol G1(9), pan fo lwfans neu atodiad a dalwyd i ddiffoddwr tân yn cael ei drin fel tâl pensiynadwy cyn 1 Gorffennaf 2013 ond nad yw'n dâl pensiynadwy yn ôl Rheol G1(1)(a), dylai barhau i gael ei drin fel tâl pensiynadwy cyhyd â bod y diffoddwr tân yn parhau i'w dderbyn heb unrhyw doriad yn y taliad.)	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Argymhellir ystyried pob lwfans neu atodiad ar sail pob achos unigol. - DPP – budd pensiwn ychwanegol pensiynadwy - Drychafiad dros dro – budd pensiwn ychwanegol pensiynadwy - Lwfansau pensiynadwy dros dro eraill – budd pensiwn ychwanegol

Rheol B7 (5a) Caniatâd i gael cymudo un chwarter o swm y pensiwn yn achos diffoddwr tân na fyddai fel arall, wrth ymddeol, yn cael cymudo cyfran o'r pensiwn hwnnw a fyddai'n rhoi cyfandaliad mwy na dwywaith a chwarter swm llawn y pensiwn	Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i gyflogwyr ganiatáu'r aelodau hynny o gynllun 1992 sydd â llai na 30 mlynedd o wasanaeth ac o dan 55 oed i gymudo uchafswm o chwarter eu pensiwn am gyfandaliad ar eu hymddeoliad. O dan y ddarpariaeth newydd, byddai'r cyflogwr yn atebol am unrhyw gost ychwanegol a allai fod yn sylweddol pe bai'n arfer y disgresiwn hwn. Byddai angen paratoi achos busnes llawn yn dangos rheolaeth ddarbodus, effeithiol ac effeithlon o'i swyddogaethau gyda'r costau cysylltiedig.	Gwrthod	Ni fydd yr Awdurdod fel arfer yn cydsynio i geisiadau o'r fath.
Rheol B8: Disgresiwn i gymudo, am “gyfandaliad mân-gymudo”, pensiwn bach sy'n daladwy i bensiynwr ddiffoddwr tân.	Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried cyfnewid pensiwn bach am gyfandaliad ac mae'n cael ei reoli gan derfynau ariannol a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol B9 (2b) Dyrannu cyfran o bensiwn i ddibynnydd heblaw priod neu bartner sifil	Mae Rheol B9 yn caniatáu i aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân i ddyrannu (ildio) rhan o'i bensiwn yn ystod ei oes, pan fydd yn dod yn gymwys i ymddeol, i ddarparu, ar ôl ei farwolaeth, bensiwn ar gyfer priod, partner sifil, neu ddibynnydd.	Derbyn	Cyn cydsynio â'r dyraniad, rhaid bodloni'r Awdurdod fod yr enwebai yn berson sy'n sylweddol ddibynnol ar yr aelod. Bydd yr Awdurdod yn ystyried tystiolaeth ariannol dros gyfnod o ddwy flynedd.
Rheol B9(6) Gofyniad i gael barn ar ddisgwyliad oes arferol, a'i derbyn, at ddibenion dyrannu	Pan fo Diffoddwr Tân yn dewis ildio rhan o'u pensiwn (o dan Rheol B9), gall yr Awdurdod ei gwneud yn ofynnol iddynt gael archwiliad meddygol i sicrhau eu bod mewn iechyd da cyn caniatáu iddynt wneud hynny. Mae Rheol B9 yn caniatáu i aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân i ddyrannu (ildio) rhan o'i bensiwn yn ystod ei oes, pan fydd yn dod yn gymwys i ymddeol, i ddarparu, ar ôl ei farwolaeth, bensiwn ar gyfer priod, partner sifil, neu ddibynnydd. Mae rhan hon o gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn hen iawn erbyn hyn ac wedi'i disodli i raddau helaeth gan well darpariaeth yn y cynllun ar gyfer priod a phartneriaid sifil, neu ddibynnyddion. Mae Rheol B9(6) yn cynnwys gofyniad bod gan yr aelod ddisgwyliad oes arferol, ac mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried a yw hynny'n wir.	Derbyn	Pan fo Diffoddwr Tân yn dewis ildio rhan o'u pensiwn, mae'r Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael archwiliad meddygol i sicrhau eu bod mewn iechyd da cyn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr Awdurdod yn cyfeirio'r unigolyn at yr YMCA ac efallai y bydd angen i'r aelod dalu unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir y Gwasanaeth.

Rheol B12 Aelodau â debyd pensiwn	Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub ddarparu prisiadau pensiwn, ac unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol mewn perthynas ag ysgariad neu achos o ddiddymu partneriaeth sifil a chymryd camau priodol i gofnodi a gweinyddu Gorchmynion Atafaelu. Os bydd Gorchymyn Rhannu Pensiwn, bydd hawliau pensiwn aelod o'r Cynllun yn cael eu dosrannu yn unol â chyfarwyddiadau'r Llys, deddfwriaeth ysgariad/diddymu, Rheol B12 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, a'r ffactorau a baratowyd gan Actiwari'r Cynllun. Mater i'r Awdurdod yw pennu tâl priodol ar gyfer y gwaith gweinyddol.	Derbyn	Defnyddio'r disgresiwn hwn; Bydd yr Awdurdod yn pennu tâl priodol ar gyfer y gwaith gweinyddol.
Rheol C8(6) - Disgresiwn i gynyddu lefel dyfarniad priod neu bartner sifil am y cyfryw gyfnod ag y gwêl yr Awdurdod Tân ac Achub yn dda lle'r oedd y diffoddwr tân a'r priod neu bartner sifil yn byw ar wahân ar ddyddiad y farwolaeth a lle mae lefel arferol y budd-dal yn cael ei ostwng yn unol â hynny o dan reolau Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992. Rheol C8(7) Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 - Disgresiwn i ganiatáu talu arian rhodd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, mewn amgylchiadau pan oedd buddiolwr ac aelod yn byw ar wahân ar adeg y farwolaeth.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu cynyddu'r dyfarniad a delir i briod neu bartner sifil sy'n goroesi neu ganiatáu i arian rhodd pensiwn gael ei dalu'n gyfan gwbl neu'n rhannol pan fo budd yn cael ei leihau o dan Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 oherwydd bod y diffoddwr tân a'i briod neu bartner sifil yn byw ar wahân ar ddyddiad y farwolaeth. Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu talu arian rhodd yn gyfan gwbl neu'n rhannol i briod neu bartner sifil sy'n goroesi os oedd y diffoddwr tân a'i briod, neu diffoddwr tân a'i bartner sifil, yn byw ar wahân ar ddyddiad y farwolaeth.	Derbyn Derbyn	Defnyddio'r disgresiwn hwn ar sail pob achos unigol. Defnyddio'r disgresiwn hwn ar sail pob achos unigol.

Rheol D5(1) a (2): Dod â thaliad pensiwn plentyn i ben.	Dyfarnu budd-dal i blentyn 17 oed neu hŷn sydd â bylchau yn ei addysg amser llawn neu hyfforddiant galwedigaethol. Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn caniatáu talu pensiwn plentyn pan fo'r plentyn mewn addysg amser llawn. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu ystyried adfer y pensiwn pan fo bylchau wedi bod mewn addysg amser llawn neu hyfforddiant galwedigaethol. Yn unol â Rheol D5(1) a (2) o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rhoi'r gorau i dalu pensiwn plentyn pan fydd y plentyn yn peidio â bod yn gymwys ar ôl cyrraedd oedran penodol, neu'n rhoi'r gorau i addysg amser llawn a dechrau cyflogaeth am dâl, neu ar ôl priodi neu ffurfio partneriaeth sifil.	Derbyn	Adfer buddion yn unol â hynny, unwaith y bydd y Gwasanaeth yn fodlon bod y gofynion deddfwriaethol wedi'u bodloni ar gyfer talu pensiwn plentyn.
Rheol D5(3) a (9)(c): Penderfynu ar hawlogaeth plentyn 18 oed neu'n hŷn a oedd yn ddibynnol ar yr ymadawedig oherwydd anabledd parhaol i lwfans plentyn; adolygiad o'r dyfarniad hwnnw, a'r camau a gymerir os yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn fodlon nad yw'r plentyn bellach wedi'i anablu'n barhaol.	Nid oes cyfarwyddyd yma ynglŷn â sut y dylid profi anabledd y plentyn ac felly bydd yn rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub benderfynu ar bolisi priodol, e.e. barn gan YMCA. Dylai'r polisi hefyd nodi sut a phryd y dylid adolygu'r anabledd. Bydd y dyfarniad yn peidio â bod yn daladwy os yw'r Awdurdod yn fodlon nad yw'r plentyn bellach wedi'i anablu'n barhaol ac nad oes ganddo hawl i lwfans plentyn o dan unrhyw delerau cymhwysra eraill.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Dylai'r asesiad o anabledd gael ei gynnal gan YMCA a benodir gan y Rheolwr Cynllun.
Rheol D5(5) i (8): Disgresiwn i wrthod rhoi'r pensiwn plentyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro, pan fo'r plentyn wedi'i gollfarnu o ddynladdiad yr ymadawedig.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub wrthod rhoi'r pensiwn plentyn yn barhaol, pan fo'r plentyn wedi'i gollfarnu o ddynladdiad yr ymadawedig hyd nes ac oni bai bod y gollfarn yn cael ei diddymu ar apêl.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheol E3: Disgresiwn i ddyfarnu arian rhodd perthynas dibynol i berthynas dibynol nad oes ganddo hawl i unrhyw ddyfarniad arall o dan Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 mewn perthynas â'r un diffoddwr tân.	Yn unol ag amodau Rheol E3 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, gall yr Awdurdod Tân ac Achub ystyried talu arian rhodd perthynas dibynol i berthynas dibynol nad oes ganddo hawl i unrhyw ddyfarniad arall o dan Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 mewn perthynas â'r un diffoddwr tân.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol E5 ac E6 yn amodol ar gyfyngiadau yn Rheol E7 – Disgresiwn ar gyfer cymudo pensiwn dibynnydd	Pan na fo swm unrhyw bensiwn neu lwfans plant sy'n daladwy i blentyn, priod neu bartner sifil sy'n goroesi o dan ddarpariaethau Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, ynghyd ag unrhyw gynnydd o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971, yn fwy na'r terfyn cymudo a bennir at ddibenion Rhan 2 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 (y rheolau ynghylch cyfandaliadau buddion marwolaeth), neu'r "swm a ganiateir" fel y'i diffinnir yn Rheol E7(3), ac (a) os bu farw'r priod neu'r partner sifil cyn cyrraedd 75 oed, a (b) bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ei fodloni bod rhesymau digonol i wneud hynny, a (c) bod y priod neu'r partner sifil sy'n goroesi yn cydsynio, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i gymudo'r cyfan o bensiwn priod neu bartner sifil sy'n goroesi am gyfandaliad yn unol â chyfarwyddyd Actiwari'r Cynllun ar yr adeg pan ddaw'r pensiwn yn daladwy am y tro cyntaf.	Derbyn	Rhoddir ystyriaeth i gymudo swm cyfyngedig o bensiwn plentyn, priod, partner sifil, neu blentyn am gyfandaliad mewn amgylchiadau eithriadol lle gellir profi caledi ariannol. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol. Ni fyddai'r Gwasanaeth yn arfer y disgresiwn hwn mewn amgylchiadau arferol. Fodd bynnag, pe bai unigolyn yn codi'r mater a bod yr amgylchiadau'n cael eu hystyried yn eithriadol, byddai'r Rheolwr Cynllun yn ei ystyried.
Rheol E9(6): Penderfynu rhoi swm uwch na dyfardal cyfradd safonol y plentyn pan nad yw'r un o rieni'r plentyn yn fyw.	O dan yr amgylchiadau eithriadol y dylai'r mater hwn gael ei ystyried, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i wneud dyfarniad o'r fath.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried rhoi swm uwch na chyfradd safonol y plentyn pan nad yw'r un o rieni'r plentyn yn fyw.

Rheol F2(5): Disgresiwn y dylai'r Awdurdod Tân ac Achub dalu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr (a fyddai fel arall yn daladwy gan y diffoddwr tân) sy'n ddyledus am gyfnod o absenoldeb di-dâl y diffoddwr tân pan fo'r diffoddwr tân yn hysbysu ei fod yn dymuno talu cyfraniadau er mwyn i'r cyfnod gyfrif fel gwasanaeth pensiynadwy.	Os yw'r diffoddwr tân wedi rhoi hysbysiad o dan Reol F2(3) ei fod yn dymuno talu cyfraniadau er mwyn i gyfnod o absenoldeb di-dâl allu cyfrif fel gwasanaeth pensiynadwy, gall yr Awdurdod Tân ac Achub ddefnyddio'i ddisgresiwn o dan Reol F2(5) i dalu cyfraniadau'r cyflogwr a fyddai fel arall yn daladwy gan y diffoddwr tân yn ogystal â chyfraniadau aelod o dan yr amgylchiadau hyn.	Derbyn Gwrthod	Heb ei gynnwys o'r blaen Ar gyfer cyfnodau o absenoldeb di-dâl awdurdodedig neu gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i anghydfod diwydiannol ni fydd y Rheolwr Cynllun yn talu Cyfraniadau'r Cyflogwr, rhaid i'r Cyflogai dalu'r rhain, yn ogystal â thalu Cyfraniadau'r Cyflogai. Rhaid talu POB cyfraniad er mwyn i'r Gwasanaeth gyfrif tuag at ymddeoliad. Am gyfnodau o absenoldeb oherwydd salwch neu anaf, bydd y Rheolwr Cynllun yn talu Cyfraniadau'r Cyflogwr, os yw'r aelod yn dymuno prynu'r Gwasanaeth hwn yn ôl. Mewn achosion o absenoldebau sy'n ymwneud â Phlant neu'n Wasanaeth yn y Lluoedd Wrth Gefn, RHAID i'r Cyflogwr dalu ei gyfraniadau os yw'r aelod yn dymuno prynu'r cyfnodau absenoldeb hyn yn ôl.
Rheol F4(3)(c): Ymestyn y terfyn amser o 6 mis ar gyfer dewisiad i dalu symiau penodol er mwyn gallu cyfrif gwasanaeth pensiynadwy blaenorol wrth ailymuno â'r gwasanaeth tân ac achub.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu ymestyn y terfyn amser o 6 mis ar gyfer dewisiad i dalu symiau penodol er mwyn gallu cyfrif gwasanaeth pensiynadwy blaenorol pan fydd diffoddwr tân yn ailymuno â'r gwasanaeth tân ac achub.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheol F5(1): Disgresiwn i ymestyn y cyfnod pan gaiff diffoddwr tân wneud taliad i gyfrif cyfnod pan oedd dyfarndal am anaf yn daladwy, fel gwasanaeth pensiynadwy.	Os oes gan ddiffoddwr tân hawl o dan Reol F5 i dalu i'r Awdurdod Tân ac Achub y swm sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 6, Rhan I, paragraff 1 o Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 mewn perthynas â chyfnod pan oedd gan y diffoddwr tân hawl i gael pensiwn anaf, er mwyn iddo gael ei gyfrif fel gwasanaeth pensiynadwy adeg ailddechrau gwasanaeth, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ymestyn y cyfnod y mae'n rhaid gwneud y dewisiad i dalu a'r cyfnod y mae'n rhaid ei dalu (o fewn chwe mis i ailddechrau gwasanaeth).	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud dewisiad i dalu am wasanaeth blaenorol pan fo Ymladdwr Tân yn dechrau gweithio gydag Awdurdod Tân arall ar ôl ymddeol heb bensiwn.
Rheol F6A(3)(b): Ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar gyfer derbyn taliad gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd".	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar gyfer derbyn gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd."	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol F6A (6): Disgresiwn i addasu gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd" er mwyn ystyried credyd am unrhyw wasanaeth blaenorol.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub ddefnyddio disgresiwn i addasu swm y gwerth trosglwyddo y mae'n ei dderbyn o dan y rheolau trosglwyddo "cam-werthu" i sicrhau nad oes dyblygu o ran y gwasanaeth pensiynadwy a gredydwyd.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol F7(1) yn ddarostyngedig i Reol F7(2) a (3): Disgresiwn i dderbyn taliadau gwerth trosglwyddo.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i dderbyn gwerth trosglwyddo o gynllun pensiwn blaenorol diffoddwr tân ond, gyda threigl amser, mae'n annhebygol y byddai unrhyw un bellach yn bodloni'r gofyniad y dylai'r cais ysgrifenedig i'r Awdurdod gael ei wneud heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl dyddiad dechrau cyflogaeth gyda'r Awdurdod.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheol F9(2): Ymestyn y terfyn amser o 6 mis lle gall cyn-ddiffoddwr tân neu ddiffoddwr tân mewn swydd sydd wedi optio allan o Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 ofyn am daliad gwerth trosglwyddo i gynllun pensiwn arall.	Os bydd cyn-ddiffoddwr tân neu ddiffoddwr tân mewn swydd sydd wedi optio allan o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 yn dod yn ddarostyngedig i gynllun pensiwn arall ac yn gofyn i'r Awdurdod Tân ac Achub dalu gwerth trosglwyddo i'r cynllun arall hwnnw, rhaid gwneud y cais ysgrifenedig o fewn 6 mis i ddod yn ddarostyngedig i'r cynllun arall. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser hwn.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol F9(5): Ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar ôl gadael lle mae'n rhaid i gyn-ddiffoddwr tân fod yn ddarostyngedig i gynllun newydd os yw gwerth trosglwyddo sy'n seiliedig ar ad-daliad o gyfraniadau pensiwn neu arian rhodd yn cael ei ganiatáu.	Os yw cyn-ddiffoddwr tân wedi cael ad-daliad o gyfraniadau pensiwn neu arian rhodd o dan Ran B o Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 ac yn dymuno dychwelyd y cyfraniadau/arian rhodd i adfer gwasanaeth pensiynadwy at ddibenion gwerth trosglwyddo i gynllun newydd, rhaid iddo fod wedi dod yn ddarostyngedig i'r cynllun hwnnw o fewn 12 mis o roi'r gorau i wasanaethu fel diffoddwr tân rheolaidd. Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser 12 mis hwn.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried sefyllfa Diffoddwr Tân sydd wedi derbyn arian rhodd neu ad-daliad o gyfraniadau sy'n gofyn am werth trosglwyddo yn lle hynny. Rhaid ad-dalu'r cyfraniadau neu'r arian rhodd hefyd.
Rheol G2(2): Disgresiwn i ddiynnu cyfraniadau pensiwn o randaliadau tâl pensiynadwy.	Mae cyfraniadau fel arfer yn cael eu didynnu o randaliadau cyflog ond mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i gasglu'r cyfraniadau sy'n ddyledus trwy ddulliau eraill pe bai angen.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol G2A (3) - Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 30 diwrnod ar gyfer gwneud dewisiad i dalu cyfraniadau mewn perthynas ag absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol di-dâl.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu ymestyn y terfyn amser o 30 diwrnod (gan gyfrif o'r diwrnod y mae'r person yn dychwelyd i'r gwaith neu, os nad yw'n dychwelyd i'r gwaith, o ddiwrnod olaf ei gyflogaeth gyda'r Awdurdod) ar gyfer dewisiad i dalu cyfraniadau mewn perthynas ag absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu na fyddai fel arall yn cyfrif fel gwasanaeth pensiynadwy.	Derbyn	Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried hyd at uchafswm o 90 diwrnod.

Rheol G6(4): Disgresiwn i beidio â derbyn dewisiad diffoddwr tân i brynu mwy o fuddion trwy dalu cyfraniadau ychwanegol oni bai bod y diffoddwr tân wedi cael archwiliad meddygol ar ei gost ei hun ac wedi bodloni'r Awdurdod Tân ac Achub bod ei iechyd mewn cyflwr da.	Os yw aelod-ddiffoddwr tân o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 yn dymuno prynu mwy o fuddion drwy dalu cyfraniadau ychwanegol, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r person ei fodloni bod ganddo ddisgwyliad oes arferol ar adeg y cais drwy gael archwiliad meddygol ar ei gost ei hun. Os bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn defnyddio'r disgresiwn hwn bydd yn rhaid iddynt ystyried pwy fydd yn darparu'r farn feddygol, e.e. meddyg teulu'r diffoddwr tân, neu Feddyg Iechyd Galwedigaethol yr Awdurdod, neu YMCA.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Byddai'r asesiad hwn yn cael ei gynnal gan yr YMCA a benodir gan y Rheolwr Cynllun
Rheol G7(3): Disgresiwn yr Awdurdod Tân ac Achub i gytuno i roi'r gorau i dalu cyfraniadau cyfnodol ar gyfer mwy o fuddion pan fo'n fodlon bod y taliad hwnnw yn achosi, neu'n debygol o achosi, caledi ariannol i'r diffoddwr tân.	Os yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn fodlon bod talu cyfraniadau cyfnodol ar gyfer mwy o fuddion yn achosi, neu'n debygol o achosi, caledi ariannol i'r diffoddwr tân, gall roi caniatâd i beidio â pharhau â'r taliad am unrhyw gyfnod y gwêl yn dda.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Pwrpas y disgresiwn hwn yw caniatáu i Diffoddwr Tân roi'r gorau i wneud cyfraniadau ychwanegol.
Rheol H2(4)(c): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Tân ac Achub sydd wedi'u seilio ar farn feddygol.	Pan fo person, sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad ar sail barn feddygol o dan Reol H2 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, yn methu â chyflwyno'r hysbysiad apêl ac unrhyw ddogfennau ategol o fewn y 28 diwrnod a ganiateir ar gyfer cyflwyno apêl o'r fath, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheol H3: Gofyniad i ymdrin ag anghytundeb unigolyn drwy gyfrwng Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau a sefydlwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn unol â gofynion adran 50 Deddf Pensiynau 1995, pan fo'r anghytundeb yn ymwneud â phenderfyniad yr Awdurdod o dan Reol H1, ac nad yw'r anghytundeb yn ymwneud â mater meddygol ei natur.	Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub gymhwyso gofynion Rheol H3 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 ac Adran 50 Deddf Pensiynau 1995 gyda Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau dau gam. Fodd bynnag, mae ganddynt ddisgresiwn i benderfynu pwy fydd y gwneuthurwyr penderfyniadau yng Ngham Un a Cham Dau.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae angen cynnal ac adolygu polisi ysgrifenedig Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau sy'n cynnwys manylion am y gwneuthurwyr penderfyniadau ac aelodau'r panel yn rheolaidd. Gweithdrefn Fewnol i Ddatrys Anghydfodau a dogfennaeth ategol yn unol â rheoliadau LIC.
Rhan 1A: Aelodau â chredyd pensiwn.	Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn darparu prisiadau pensiwn, ac unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol mewn perthynas ag ysgariad neu achos o ddiddymu partneriaeth sifil a bydd yn cymryd camau priodol i gofnodi a gweinyddu Gorchmynion Atafaelu. Os bydd Gorchmyn Rhannu Pensiwn, bydd hawliau pensiwn aelod o'r Cynllun yn cael eu dosrannu yn unol â chyfarwyddiadau'r Llys, deddfwriaeth ysgariad/diddymu, Rheol B12 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, a'r ffactorau a ddarparwyd gan Actiwari'r Cynllun; bydd hawlogaeth pensiwn aelod â chredyd pensiwn yn cael ei weinyddu yn unol â Rhan 1A. Ar yr adeg y daw'r buddion credyd pensiwn yn daladwy, bydd yr aelod â chredyd pensiwn yn cael gwybod am yr opsiwn i gymudo a'r hawliau apelio. Gall yr Awdurdod bennu'r tâl a godir am y gwaith gweinyddol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol IA2 (1) – Cymudo buddion credyd pensiwn	Cymudo'r cyfan o bensiwn y mae gan aelod â chredyd pensiwn hawl iddo am gyfandaliad.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol.

Rheol K1(1) a (2): Gofyniad i benderfynu, yn ôl yr ysbeidiau y mae Awdurdod Tân ac Achub yn eu hystyried yn briodol, a yw person sydd o dan 60 oed ac sydd wedi bod yn cael pensiwn afiechyd am lai na 10 mlynedd wedi dod yn alluog i gyflawni unrhyw ddyletswydd sy'n briodol i'r rôl y bu i'r person ymddeol ohoni ar sail afiechyd ac, yn achos pensiwn afiechyd haen uwch, a yw'r person hwnnw wedi dod yn alluog i ymgymryd â chyflogaeth reolaidd.	Er bod gofyniad i adolygu hawlogaeth i bensiwn afiechyd yn unol â'r Rheol hon, gall yr Awdurdod Tân ac Achub benderfynu pryd y dylid adolygu'r pensiwn. Mae adolygiad o bensiynau gohiriedig a dalwyd yn gynnar ar sail afiechyd yn cael eu cynnwys yma hefyd.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Gofyniad i adolygu pensiynau afiechyd llai na 10 mlynedd ar ôl ymddeol. Mae angen polisi ysgrifenedig ffurfiol ar ymddeol ar sail afiechyd yn nodi amserlenni ar gyfer adolygu a'r broses ymddeol ar sail afiechyd
Rheol K3(1): Disgresiwn i leihau lefel pensiwn afiechyd i ddim llai na hanner y swm llawn pan fo diffoddwr tân wedi cyfrannu at ei wendid drwy ei ddiffyg ei hun.	Gall yr Awdurdod Tân ac Achub, os yw'n teimlo ei fod yn briodol yn unol ag amgylchiadau unrhyw achos sy'n dod o fewn telerau Rheol K3, ystyried defnyddio'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Rheol K3 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 i leihau dyfarniad afiechyd lle mae'r diffoddwr tân wedi'i anablu'n barhaol ac wedi achosi neu gyfrannu at ei wendid trwy ei ddiffyg ei hun. Byddai swm y pensiwn gostyngol yn cael ei gynyddu i lefel pensiwn gohiriedig tybiannol pan fydd y person yn cyrraedd 60 oed.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu lleihau pensiwn Diffoddwr Tân i ddim llai na hanner y swm sy'n ddyledus pan ystyrir ei fod wedi cyfrannu at ei wendid trwy ei ddiffyg ei hun.

Rheol K4 Atal pensiwn tra'n gyflogedig gan awdurdod tân ac achub (atal)	Diwygio cynllun 1992 i ehangu disgresiwn y cyflogwr i atal pensiwn a delir i aelod sy'n cael ei ailgyflogi mewn unrhyw rôl gan unrhyw awdurdod tân ac achub; ac i'w gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr sy'n talu'r pensiwn dalu i mewn i'r gronfa bensiwn swm y pensiwn a delir a allai fod wedi bod yn destun gostyngiad o dan reolau'r cynllun. Byddai'r gofyniad i'r cyflogwr fod yn atebol am y costau pan nad yw'n arfer y disgresiwn i leihau pensiwn aelodau yn berthnasol i gynlluniau 1992 a 2007. Mae Gorchymyn Diwygio 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr ad-dalu'r gronfa bensiwn os nad yw'n arfer y disgresiwn i atal pensiwn aelod wrth iddynt ailddechrau gwasanaeth.	Derbyn	Bydd y broses o leihau pensiwn, ar sail £ am £, yn berthnasol pan fydd enillion ynghyd â thaliadau pensiwn yn y rôl newydd yn fwy nag enillion yn y rôl flaenorol. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu lleihau pensiwn lle mae'r cyflogai wedi cael ei ailgyflogi, yn unol â'r rheoliadau, a byddai angen cynnal asesiad ffurfiol i'w leihau.
Rheol K5(1): Disgresiwn i atal pensiwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro, ar gollfarn unigolyn o droseddau penodol.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ddefnyddio'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Rheol K5 o Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 i atal pensiwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol pan fo pensinywr wedi'i gollfarnu o dramgwydd (yn achos priod, neu bartner sifil mae hyn yn golygu tramgwydd a gyflawnwyd ar ôl marwolaeth yr aelod) fel y gwêl yr Awdurdod yn dda o dan amgylchiadau unrhyw achos sy'n dod o fewn telerau Rheol K5 ac yn amodol ar ardystiad yr Ysgrifennydd Gwladol lle bo angen. Mae'r troseddau'n cynnwys y rhai yr ystyrir eu bod wedi bod yn niweidiol iawn i fuddiannau'r Wladwriaeth (gan gynnwys tramgwydd brad neu dramgwydd o dan Ddeddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989) neu sy'n debygol o arwain at golli hyder yn y gwasanaeth cyhoeddus i raddau difrifol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Dim ond mewn achos o frad neu drosedd ddifrifol o dan y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol y mae'r disgresiwn hwn yn berthnasol.
Rheol K5(5): Disgresiwn i ad-dalu i'r pensinywr, ar unrhyw bryd ac i'r graddau y gwêl yr Awdurdod Tân ac Achub yn dda, pensiwn sydd wedi'i atal o dan Reol K5(1) neu ei gymhwyso er budd unrhyw un o ddibynyddion y pensinywr.	Os bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn atal pensiwn o dan Reol K5(1) Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, yn amodol ar amgylchiadau'r achos, gall ystyried ei gymhwyso er budd unrhyw un o ddibynyddion y pensinywr neu ei ad-dalu i'r pensinywr ar unrhyw adeg, ac i'r graddau y gwêl yn dda.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried adfer y pensiwn a dynnwyd yn ôl o ganlyniad i benderfyniad yn Rheol K5(1).

Rheol L3(1): Penderfynu yn ôl pa ysbeidiau fydd rhandaliadau pensiwn neu lwfans yn cael eu talu.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i benderfynu yn ôl pa ysbeidiau y dylid talu rhandaliadau pensiwn neu lwfans. (Nid oes angen talu ymlaen llaw mwyach.)	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu trefnu taliadau misol arferol o bensiwn blynyddol, neu os bydd yr angen yn codi, yn ôl ysbeidiau eraill fel y gwêl y Rheolwr y Cynllun yn dda.
Rheol L3(1): Disgresiwn i ohirio talu dyfarniad i'r graddau y bo'n angenrheidiol i ddyfarnu unrhyw gwestiwn ynghylch atebolrwydd yr Awdurdod Tân ac Achub.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub ddefnyddio ei ddisgresiwn o dan Reol L3(1) Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 i ohirio talu dyfarniad i'r graddau y bo'n angenrheidiol i ddyfarnu unrhyw gwestiwn ynghylch eu hatebolrwydd.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu i'r Awdurdod Tân ohirio talu swm dyfarniad nes ei fod yn fodlon ar gymhwystra dyfarniad.
Rheol L3(7) ac (8): Disgresiwn i benderfynu ar ddyddiad talu cynharach ar gyfer buddion goroeswyr na'r dyddiad a bennwyd (blwyddyn ers dyddiad y farwolaeth) lle cafodd yr ymadawedig arian rhodd neu gyfandaliad, ac opsiwn i dalu arian rhodd mewn rhandaliadau yn hytrach nag fel un cyfandaliad.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i benderfynu ar y dyddiad talu a disgresiwn o ran talu o dan yr amgylchiadau uchod.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried talu buddion goroeswr, sydd fel arfer yn cael eu talu flwyddyn ar ôl y dyddiad y bu farw'r aelod, ynghynt. Mae opsiwn hefyd i dalu swm llai mewn rhandaliadau rheolaidd lle byddai hyn o fantais i'r sawl sydd â hawlogaeth.
Rheol L3(9): Ad-dalu cyfraniadau pensiwn cyfanredol.	Pan fo gan berson hawlogaeth o dan Reol B6 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 i gael ad-daliad o'i gyfraniadau pensiwn cyfanredol, nid yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn rhwym i wneud taliad tan flwyddyn o ddyddiad ymddeol y person oni bai bod y person yn gwneud cais am daliad ynghynt, neu fod yr Awdurdod yn defnyddio ei ddisgresiwn i wneud taliad ynghynt.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheol L5(1): Talu dyfarndaliadau – pobl ifanc dan oed.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub, yn ôl ei ddisgresiwn ac fel y gwêl yn briodol, dalu pensiwn pobl ifanc dan oed i unrhyw berson arall a bennir ganddynt. Gallant roi cyfarwyddiadau i'r person hwnnw ynghylch defnyddio'r pensiwn er budd y person ifanc dan oed.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu talu unrhyw swm sy'n ddyledus i blentyn dan oed i berson priodol. Bydd hyn yn cael ei bennu ar sail pob achos unigol.
Rheol L5(2): Talu dyfarndaliadau – disgresiwn o ran derbynnydd, neu ddefnyddio, taliadau sy'n ddyledus i bersonau sy'n analluog i reoli eu materion eu hunain.	Os yw'n ymddangos i'r Awdurdod Tân ac Achub fod person sydd â hawlogaeth i gael taliad dyfarndal, oherwydd anhwylder meddwl neu fel arall, yn analluog i reoli ei faterion, caiff yr Awdurdod ddefnyddio ei ddisgresiwn i: a) dalu'r budd-daliad neu unrhyw ran ohono i berson sydd â gofal dros y person a chanddo hawlogaeth, neu i unrhyw berson arall a ddyfernir ganddynt, neu b) defnyddio'r buddion mewn modd a benderfynir gan yr Awdurdod er budd y person sydd â hawlogaeth, neu buddiolwyr y person hwnnw.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried talu dyfarndal i berson priodol os bernir nad yw'r derbynnydd yn gallu rheoli ei faterion ei hun neu mewn modd y penderfynir ei fod er lles pennaf yr unigolyn.
Rheol L5(3): Talu dyfarndaliadau – disgresiwn, yn dilyn marwolaeth person, o ran derbynnydd(derbynwyr) symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965.	Yn sgil marwolaeth person yr oedd dyfarniad yn ddyledus iddo a chyn i'r dyfarniad gael ei dalu, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn o ran pwy sy'n derbyn y swm sy'n ddyledus os yw'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965 (£5,000 ar hyn o bryd).	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn ymdrin â dyfarndaliadau o lai na £5,000 ac yn caniatáu i'r Rheolwr Cynllun benderfynu pwy ddylai gael y swm hwn.
Rheol L5 (6) i (9): Atal pensiwn mewn achosion o dwyll, lladrad neu esgeuluster	Atal y cyfan neu ran o unrhyw daliadau sy'n ddyledus i ddiffoddwr tân mewn perthynas â phensiwn lle bu twyll, lladrad, neu esgeuluster ar ran y diffoddwr tân mewn cysylltiad â'i gyflogaeth gan arwain at golled yng nghronfeydd yr Awdurdod.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu i'r Awdurdod adennill symiau a gollwyd o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeuluster ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'i gyflogaeth.

Atodlen 6, Rhan 1, paragraff 1(4): Disgresiwn i ddiynnu o ddyfarniad unrhyw daliadau sy'n weddill mewn perthynas â gwasanaeth blaenorol.	Os bydd gan unrhyw aelod-ddiffoddwr tân daliadau sy'n weddill mewn perthynas â gwasanaeth blaenorol ar adeg ymddeol, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ddiynnu'r swm sy'n weddill o daliadau'r dyfarndal a wneir iddo/iddi.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn ymwneud ag aelod sydd wedi dewis talu symiau ychwanegol mewn perthynas â gwasanaeth pensiwn blaenorol ac yna'n ymddeol cyn cwblhau'r taliadau. Mae'r cynllun yn gofalu y byddant yn derbyn pensiwn fel pe baent wedi cwblhau'r taliadau. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu adennill y taliadau na chafodd eu gwneud.
Atodlen 9, Rhan I, paragraff 1(2): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod lle mae'n rhaid i berson gyflwyno unrhyw apêl feddygol, i gyfnod nad yw'n hwy na 6 mis o ddyddiad dyroddi'r dogfennau y cyfeirir atynt yn Rheol H2(4) i'r person hwnnw, ar yr amod bod yr Awdurdod Tân ac Achub o'r farn nad oedd methiant y person i gyflwyno'r apêl o fewn 28 diwrnod yn ganlyniad i'w ddiffyg ei hun.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ymestyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl feddygol, fel yr amlinellir uchod.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 4(5): Disgresiwn i benodi cynrychiolydd yr Awdurdod Tân ac Achub mewn cyfweiliad Bwrdd Apeliadau Meddygol.	Disgresiwn i benodi cynrychiolydd yr Awdurdod Tân ac Achub mewn cyfweiliad Bwrdd Apeliadau Meddygol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD

Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 5: Disgresiwn i benderfynu a ddylid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig i Fwrdd Apeliadau Meddygol.	Gall yr Awdurdod Tân ac Achub benderfynu a ddylid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig i Fwrdd Apeliadau Meddygol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried a ddylid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Fwrdd Apeliadau Meddygol. Yn ymarferol, mae hyn bob amser yn digwydd. Wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 8(2): Disgresiwn, pan fo'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn dyfarnu apêl o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan mai, yn ei farn ef, yr oedd yr apêl yn wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail, i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod swm a wêl yr Awdurdod yn dda, nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd fel y'i pennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.	Pan fo'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn dyfarnu apêl o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan bod yr apêl a gyflwynwyd gan yr apelydd, yn ei farn ef, yn wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod swm sydd yr un faint, ond nid yn fwy na, chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd o dan Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 7(1) Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 fel y'u pennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 8(2A): Disgresiwn Awdurdod Tân ac Achub i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu swm i'r Awdurdod nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd, pan fo'r apelydd yn tynnu apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio'r dyddiad a bennwyd ar gyfer cyfweliad neu archwiliad meddygol gan y Bwrdd Apeliadau Meddygol lai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd, neu os yw gweithred neu anweithred yr apelydd yn peri i'r Bwrdd ganslo neu ohirio fel arall 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd.	Pan fo'r apelydd yn tynnu apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio'r dyddiad a bennwyd ar gyfer cyfweliad neu archwiliad meddygol gan y Bwrdd Apeliadau Meddygol lai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd, neu os yw gweithred neu anweithred yr apelydd yn peri i'r Bwrdd ganslo neu ohirio fel arall y dyddiad a bennwyd o dan Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 4(2) Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 ar gyfer cyfweliad lai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod swm sydd yr un faint, ond nid yn fwy na, chyfanswm y ffioedd a lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992

Dirprwyaethau Awdurdodedig

A: Yr Awdurdod Tân ac Achub neu'r Pwyllgor priodol o dan bwerau dirprwyedig.

B: Y Prif Swyddog Tân neu'r Prif Swyddog Cynorthwyol o dan bwerau dirprwyedig

C: Y swyddog enwebedig neu Gynllun Pensiwn Dyfed fel darparwr gwasanaethau gweinyddu pensiwn yr Awdurdod. Byddai hyn o dan bwerau dirprwyedig ac yn unol â:

- chyfarwyddyd yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer achosion unigol (Lefel A)
- cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr perthnasol (Lefel B).

Pan fydd yn rhaid gwneud penderfyniad/gweithredu ar Lefelau B neu C mewn perthynas â pherson a fyddai fel arfer yn gwneud penderfyniadau ar y lefel honno, bydd y penderfyniad/gweithredu yn digwydd ar Lefel "A".

CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN 1992

Darpariaeth Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (fel y'i diwygiwyd)	Lefel y penderfyniad			Sylwadau
	A	B	C	Ddim yn berthnasol mwyach
Rheol B1(2)(b): Caniatâd i Brif Swyddog Tân a benodwyd ar 1.7.2013, neu cyn hynny, ymddeol cyn cyrraedd 55 oed.	✓			Ddim yn berthnasol mwyach
Rheol B5C: Statws pensiynadwy i daliadau, nad ydynt yn bensiynadwy fel arall, ar gyfer Buddion Pensiwn Ychwanegol. O 1 Gorffennaf 2013 ymlaen			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheol B7(5A): Caniatâd ar gyfer cymudo un chwarter lle na chaniateir gwneud hynny fel arall o dan reolau'r Cynllun.	✓			
Rheol B8: Disgresiwn i gymudo, am "gyfandaliad mân-gymudo", pensiwn bach sy'n daladwy i bensiynwr ddiffoddwr tân.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol B9(2)(b): Disgresiwn i ganiatáu dyraniad i ddibynnydd heblaw priod neu bartner sifil.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol B9(6): Prawf o ddisgwyliad oes at ddibenion dyrannu.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol B12: Aelodau â debyd pensiwn.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol C8(6): Disgresiwn i gynyddu'r dyfarndal i briod/partner sifil sy'n goroesi ac yn byw ar wahân i'r diffoddwr tân ar ddyddiad y farwolaeth.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol C8(7): Disgresiwn i dalu arian rhodd i briod/partner sifil sy'n goroesi ac yn byw ar wahân i'r diffoddwr tân ar ddyddiad y farwolaeth.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol D5(1) a (2): Dod â thaliad pensiwn plentyn i ben.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol D5(3) a (9)(c): Adolygu pensiwn plentyn anabl.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol D5(5) i (8): Atal pensiwn plentyn ar gollfarn o ddynladdiad y diffoddwr tân ymadawedig.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol E3: Disgresiwn i dalu arian rhodd perthynas dibynnol i berthynas dibynnol nad oes ganddo hawl i unrhyw ddyfarndal arall.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheolau E5 ac E6: Disgresiwn i gymudo swm cyfyngedig o bensiwn priod/partner sifil sy'n goroesi, am gyfandaliad.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol E6, Rheol E7, Atodlen 5 Rhan III: Disgresiwn i gymudo swm cyfyngedig o bensiwn plentyn, am gyfandaliad.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol E9(6): Penderfynu rhoi swm uwch na dyfarndal cyfradd safonol y plentyn pan nad yw'r un o rieni'r plentyn yn fyw.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol F2(5): Disgresiwn i'r Awdurdod Tân ac Achub dalu cyfraniad cyflogwr yn ystod cyfnod o absenoldeb.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheol F4(3)(c): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 6 mis ar gyfer dewisiad i wneud taliad er mwyn cyfrif gwasanaeth blaenorol wrth ailymuno.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheol F5(1): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 6 mis ar gyfer dewisiad i wneud taliad er mwyn cyfrif y cyfnod pan dalwyd dyfarndal am anaf.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol F6A(3)(b): Ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar gyfer derbyn taliad gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd".		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr

F6A (6): Disgresiwn i addasu gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd" er mwyn ystyried credyd am unrhyw wasanaeth blaenorol.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol F7(1), Rheol F7(2) a (3): Disgresiwn i dderbyn taliadau gwerth trosglwyddo.		✓		Ddim yn berthnasol mwyach
Rheol F9(2): Ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am daliad gwerth trosglwyddo i gynllun pensiwn arall.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol F9(5): Ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am daliad trosglwyddo yn seiliedig ar ad-daliad o gyfraniadau pensiwn neu arian rhodd a ddychwelwyd.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol G2(2): Disgresiwn i ddidynnu cyfraniadau o randaliadau tâl pensiynadwy.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheol G2A (3): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 30 diwrnod ar gyfer gwneud dewisiad i dalu cyfraniadau ar gyfer absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheol G6(4): Disgresiwn i beidio â derbyn dewisiad i brynu mwy o fuddion oni bai bod diffoddwr tân yn gallu dangos bod ei iechyd mewn cyflwr da.		✓		
Rheol G7(3): Disgresiwn i gytuno y dylai diffoddwr tân sydd wedi gwneud dewisiad i brynu mwy o fuddion roi'r gorau i dalu ar sail caledi ariannol.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheol H2(4)(c): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau Awdurdod Tân ac Achub sydd wedi'u seilio ar farn feddygol.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Rheol H3: Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau		✓		Yn unol â'r polisi Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau
Rhan IA: Hawlogaeth pensiwn i aelodau â chredyd pensiwn.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rhan IA2(1): Disgresiwn i gymudo pensiwn bach sy'n daladwy i aelod â chredyd pensiwn.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol K1(1) a (2): Adolygu pensiynau afiechyd.			✓	Yn unol â'r Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Rheol K3(1): Disgresiwn i leihau pensiwn afiechyd pan fo diffoddwr tân wedi cyfrannu at ei wendid drwy ei ddiffyg ei hun.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol K4: Disgresiwn i atal y cyfan neu ran o bensiwn ar ôl ailddechrau cyfnod o wasanaeth gydag Awdurdod Tân ac Achub.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol K5(1): Disgresiwn i atal pensiwn yn sgil colfarnu person am dramgwyddau penodol.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol K5(5): Disgresiwn i adfer pensiwn a gafodd ei atal o dan Reol K5(1).		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L3(1): Penderfynu yn ôl pa ysbeidiau fydd rhandaliadau pensiwn neu lwfans yn cael eu talu.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L3(1): Disgresiwn i ohirio talu dyfarniad i'r graddau y bo'n angenrheidiol i ddyfarnu unrhyw gwestiwn ynghylch atebolrwydd yr Awdurdod Tân ac Achub.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L3(7) ac (8): Disgresiwn i benderfynu ar ddyddiad talu cynharach ar gyfer buddion goroeswr lle cafodd yr ymadawedig arian rhodd neu gyfandaliad, ac opsiwn i dalu arian rhodd mewn rhandaliadau yn hytrach nag fel un cyfandaliad.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L3(9): Ad-dalu cyfraniadau pensiwn cyfanredol.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L5(1): Talu dyfandaliadau – plant.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L5(2): Talu dyfandaliadau – person sy'n analluog i reoli ei fusnes ei hun		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr

Rheol L5(3): Talu dyfarndaliadau – disgresiwn o ran derbynwyr symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L5(6) i (9): Talu dyfarndaliadau – disgresiwn i atal symiau os bydd colled o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeuluster ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'i gyflogaeth, yng nghronfeydd yr Awdurdod Tân ac Achub.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Atodlen 6, Rhan 1, paragraff 1(4): Disgresiwn i ddiynnu o'r dyfarniad unrhyw daliadau sy'n weddill mewn perthynas â gwasanaeth blaenorol.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 1(2): Disgresiwn i ymestyn terfyn amser ar gyfer apêl feddygol.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 4(5): Disgresiwn i benodi cynrychiolydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn y Bwrdd Apeliadau Meddygol.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 5: Disgresiwn i benderfynu a ddylid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Apeliadau Meddygol.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 8(2): Disgresiwn, pan fo'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn dyfarnu apêl o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan mai, yn ei farn ef, yr oedd yr apêl yn wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail, i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r awdurdod swm nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd.		✓		
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 8(2A): Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r awdurdod swm nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd pan fo'r apelydd yn tynnu'r apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio dyddiad cyfweiliad/archwiliad meddygol llai na 22 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennwyd, neu pan fo gweithred neu anweithred apelydd yn peri i'r Bwrdd ganslo neu ohirio'r dyddiad hwnnw, llai na 22 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennwyd.		✓		

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	21 Gorffennaf 2025	
Swyddog Arweiniol	Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau	
Pwnc	Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2024/25	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol (y Bwrdd) i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) sy'n rhoi manylion y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad blynyddol wedi'i atodi yn atodiad 1.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol yn rhoi manylion y gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod 2024/25 ac yn darparu rhaglen waith ar gyfer 2025/26.

ARSYLWADAU GAN Y BWRDD PENSIWN LLEOL

- 3 Mae'r adroddiad wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2025.

ARGYMHELLIAD

- 4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2024/25 y Bwrdd Pensiwn Lleol.

CEFNDIR

- 5 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Pensiwn Lleol yr Awdurdod. Yr Awdurdod yw Rheolwr y Cynllun fel y'i diffinnir o dan Adran 4 Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu yn unol ag Adran 5 o'r Ddeddf honno.
- 6 Cyflwynwyd y gofynion llywodraethiant yn ymwneud â phensiynau o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer trefniadau llywodraethiant cliriach gyda rolau diffiniedig penodol, cyhoeddi mwy o wybodaeth yn gyson, a bod yr arferion gweinyddu'n cyd-fynd â'r rheini yn y sector preifat.

- 7 Daeth Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethiant) 2015 sy'n ymwneud â chreu pensiynau lleol a pharhau i'w gweithredu i rym ar 1 Ebrill 2015. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol mewn perthynas â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015.
- 8 Rôl a chylch gwaith y Bwrdd yw cynorthwyo'r Awdurdod yn rhinwedd ei swydd fel Rheolwr y Cynllun drwy sicrhau ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon a'i fod yn cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol. Er mwyn hybu tryloywder, mae'n ofynnol i Reolwr y Cynllun gyhoeddi adroddiad blynyddol ei Fwrdd Pensiwn Lleol.
- 9 Fel y pennwyd yng nghylch gwaith y Bwrdd, dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys:
- crynodeb o waith y Bwrdd a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod;
 - manylion meysydd o bryder yr adroddwyd yn eu cylch i'r Bwrdd neu a godwyd ganddo ac argymhellion a wnaed;
 - manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau unigol o'r Bwrdd a sut cafodd y rhain eu rheoli;
 - unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi â Rheolwr y Cynllun;
 - manylion yr hyfforddiant a gafwyd ac anghenion hyfforddi a nodwyd; a
 - manylion unrhyw dreuliau a chostau yr aethpwyd iddynt gan y Bwrdd ac unrhyw dreuliau a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod.

GWYBODAETH

- 10 Mae Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2024/25 wedi'i nodi yn Atodiad 1.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Ystyrir nad yw'n berthnasol
Cyllideb	Mae cost y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei hariannu o'r gyllideb bresennol Gwasanaethau Aelodau.
Cyfreithiol	Cyflwynwyd y gofynion llywodraethiant newydd sy'n ymwneud â phensiynau o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Rheoliadau Llywodraethiant Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) 2015.
Staffio	Ystyrir nad yw'n berthnasol
Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Nid ystyrir bod unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy gan fod yr argymhellion yn berthnasol yn gyfartal i bob Aelod, beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl.
Risgiau	Mae angen i bob Awdurdod Tân ac Achub gydymffurfio â chanllawiau'r Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â threfniadau llywodraethiant Byrddau Pensiwn Lleol.

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

**Bwrdd Pensiwn Lleol
Adroddiad Blynyddol
2024/25**

Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad	3
2. Rolau a Swyddogaethau	3
3. Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd	3
4. Polisi Gwrthdaro Buddiannau	4
5. Gwybodaeth a Dealltwriaeth	4
6. Rhaglen Waith 2024/25	5
7. Rhaglen Waith 2025/26	7

1.0 Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Bwrdd), sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys sylwebaeth ar y canlynol:

- Manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau'r Bwrdd;
- Manylion yr hyfforddiant a dderbyniwyd a'r anghenion hyfforddi a nodwyd ar gyfer aelodau'r Bwrdd;
- Crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod 2024/25;
- Meysydd pryder neu risg a adroddwyd i'r Bwrdd neu a godwyd ganddo; a
- Y blaenraglen waith ar gyfer 2025/26.

2.0 Rolau a Swyddogaethau

Yn unol ag Adran 5 ac Adran 30(1) o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliad 4A o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, sefydlwyd y Bwrdd ym mis Ebrill 2015. Rôl a chylch gwaith y Bwrdd yw cynorthwyo'r Rheolwr Cynllun (Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, "yr Awdurdod") i sicrhau cydymffurfiaeth â:

- Y cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol;
- Unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun;
- Y gofynion a osodwyd gan y Rheoleiddiwr mewn perthynas â'r Cynllun; a
- Sicrhau llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun yn effeithiol ac effeithlon.

Disgwylir i'r Bwrdd ategu a gwella trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer rheoli'r cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân. Nid yw'n disodli'r trefniadau presennol ac nid yw'n gorff gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, mae wedi'i gynllunio i weithredu fel ffrind beirniadol i'r Awdurdod a'i swyddogion pan fyddant yn gweithredu fel rheolwr cynllun.

3.0 Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd

Roedd aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys deg aelod fel a ganlyn:

- Pum cynrychiolydd cyflogwyr sy'n cynnwys tri aelod o'r Awdurdod, Clerc yr Awdurdod (neu ddirprwy enwebedig) a Thrysorydd yr Awdurdod.
- Pum cynrychiolydd gweithwyr - pedwar ohonynt o bob corff cynrychioliadol sy'n gysylltiedig yn swyddogol â'r Awdurdod ac un yn cynrychioli'r system ddyletswydd gadw.

Darperir crynodeb o'r aelodaeth ar gyfer 2024/25 isod:

Enw	Rôl	Cynrychioli	Dyddiadau (wedi'u halinio â dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer rhan o flwyddyn)
Bryan Apsley	Aelod o'r FRA	Cyflogwr	Blwyddyn iawn
Dafydd Edwards (Cadeirydd)	Trysorydd yr Awdurdod	Cyflogwr	Blwyddyn iawn
Gareth Owens	Swyddog Monitro	Cyflogwr	Blwyddyn iawn
John Brynmor Hughes	Aelod o'r FRA	Cyflogwr	Blwyddyn iawn
Gwynfor Owen	Aelod o'r FRA	Cyflogwr	Blwyddyn iawn
Dawn Docx	Cymdeithas Arweinwyr Tân	Cyflogai	18/04/2025-30/01/2025
Stuart Millington	Cymdeithas Arweinwyr Tân	Cyflogai	30/01/2025-bresennol
Paul Kay	Cymdeithas y Swyddogion Tân	Cyflogai	Blwyddyn iawn
Geraint Evans	Cynrychiolydd RDS	Cyflogai	Blwyddyn iawn
Terry Ledden	Undeb y Brigadau Tân	Cyflogai	Blwyddyn iawn
Rebekah Uden	Undeb y Brigadau Tân	Cyflogai	Blwyddyn iawn

Yn ogystal ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol, mae'r swyddogion allweddol canlynol yn cefnogi'r Bwrdd ac yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd:

- Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau;
- Rheolwr Pensiynau Gwasanaeth; a
- Arweinydd Technegol (trefniant ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru).

Cadeirydd y Bwrdd

Mae Cadeirydd y Bwrdd yn cael ei gylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli cyflogwyr a'r rhai sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

Etholwyd Dafydd Edwards yn Gadeirydd am y cyfnod 2024/25, gan gynrychioli'r cyflogwr. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi'i enwebu i eistedd ar Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Cenedlaethol Cymru.

Roedd y Bwrdd i fod i gyfarfod ar bedwar achlysur yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 a chynhaliwyd cyfarfod ar y dyddiadau canlynol:

- 18 Ebrill 2024
- 18 Gorffennaf 2024
- 01 Hydref 2024
- 30 Ionawr 2025

4.0 Polisi Gwrthdaro Buddiannau

Mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol nad oes gan aelod o fwrdd pensiwn wrthdaro buddiannau. Diffinnir gwrthdaro buddiannau fel buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o amharu ar arfer swyddogaethau person fel aelod o fwrdd pensiwn. Mae'r Ddeddf yn glir nad yw aelodaeth wirioneddol o un o'r Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân ynddo'i hun yn wrthdaro buddiannau, felly ni fyddai'n atal aelod o'r cynllun rhag gwasanaethu ar y Bwrdd.

Mae gan y Bwrdd bolisi ar gyfer rheoli gwrthdaro posibl er mwyn sicrhau nad ydynt yn dod yn wrthdaro gwirioneddol ac mae holl aelodau'r Bwrdd yn gyfarwydd â'r polisi. Yn ogystal, mae gwrthdaro buddiannau yn eitem sefydlog ar holl agendâu'r Bwrdd ac mae unrhyw fuddiannau a nodir gan yr Aelodau yn cael eu cofnodi fel y gellir cymryd camau priodol i reoli'r gwrthdaro.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau gan unrhyw Aelod, cynghorydd neu fynychwr yn ystod y cyfnod perthnasol.

Gellir dod o hyd i gopi o'r polisi Gwrthdaro Buddiannau yma:

[Polisi Gwrthdaro Buddiannau](#)

5.0 Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae'n ofyniad statudol Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 y dylai aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fod â'r gallu i ddod yn gyfarwydd â materion manwl sy'n gysylltiedig â phensiwn a datblygu gwybodaeth amdanynt er mwyn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Rhaid i bob unigolyn a benodir i'r Bwrdd fod â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau a materion eraill a ragnodir mewn deddfwriaeth arall.

Dylai aelod o'r Bwrdd fod â dealltwriaeth o'r hyn sy'n berthnasol i'w rôl yn y meysydd canlynol:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân;
- Deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau;
- Gofynion a osodwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau; Gan gynnwys
- Y safonau a'r disgwyliadau a nodir mewn unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Ar ôl penodi, mae'n ofynnol i'r Aelodau gwblhau'r modiwlau hyfforddi ar-lein sydd ar gael ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant sefydlu i aelodau newydd o'r Bwrdd a sesiynau hyfforddi parhaus yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd i'r holl Aelodau i'w cynorthwyo i ymgymryd â'u rôl.

Mae'r Rheolwr Cynllun yn cadw cofnodion priodol o'r gweithgareddau dysgu a ddarperir i Aelodau unigol a'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd. Anogir aelodau'r Bwrdd i nodi eu hanghenion hyfforddi eu hunain er mwyn bod yr hyfforddiant a ddarperir yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol. Darperir hyfforddiant trwy becyn cymorth sector cyhoeddus y rheoleiddiwr pensiynau, trwy ddigwyddiadau allanol fel y rhai a ddarperir gan yr LGA a hefyd trwy hyfforddiant mewnol.

6.0 Rhaglen Waith 2024/25

Cyfarfu'r Bwrdd ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn ariannol a diffiniwyd cwrmpas ei waith gan y Cylch Gorchwyl. Mae'r Bwrdd yn ystyried ei Gylch Gorchwyl yn flynyddol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw newidiadau i'w hystyried gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Ystyriwyd y fersiwn ddiweddaraf yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr 2025 a gwnaed cynigion i leihau nifer yr aelodau sydd eu hangen i gyrraedd cworwm i dri (chwech gynt). Yn ogystal, dylai pob cyfarfod fod ag o leiaf un cyflogwr ac un cynrychiolydd gweithiwr.

Gellir dod o hyd i'r cylch gorchwyl drwy'r ddolen ganlynol:

[Bwrdd Pensiwn Lleol - Awdurdod Tân ac Achub - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru \(llyw.cymru\)](#)

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 ystyriwyd y materion penodol canlynol gan y Bwrdd:

- Adolygu a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl;
- Ystyried yr her gyfreithiol genedlaethol sy'n ymwneud â threfniadau'r cynllun pensiwn trosiannol (Dyfarniad McCloud);
- Ystyried y mater cyfreithiol sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad (Dyfarniad O'Brien);
- Diweddariadau mewn perthynas â phrisiad GAD 2020 gan gynnwys cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru;
- Adolygu a chyflwyno'r cynnig ar gyfer newidiadau i gyfradd cyfraniadau gweithwyr yn dilyn prisiad GAD 2020;
- Diweddariadau gan Fwrdd Cyngori Cynllun Cymru;
- Diweddariad gwybodaeth a hyfforddiant;
- Diweddariadau ar achosion Ombwdsmon Pensiwn; a
- Diweddariad ar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun ac adolygiad i'r gofrestr risg.
- Mae'r materion o arwyddocâd i'r Rheolwr Cynllun yn cynnwys gweinyddu heriau cyfreithiol a chynigion i ddiwygio'r Cylch Gorchwyl.

Mae pob agenda hefyd yn cynnwys yr eitemau sefydlog canlynol:

- Datganiad o Fuddiant;
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf;
- Adroddiad Diweddaru Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân sy'n canolbwyntio ar aelodaeth a chwynion mewnol ac achosion a atgyfeiriwyd at yr Ombwdsmon Pensiynau;
- Adroddiad Diweddaru Gweinyddwyr (Cronfa Bensiwn Dyfed) sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth â chylchlythyrau Llywodraeth Cymru ac ansawdd data;
- Diweddariad ar faterion cyfreithiol sy'n effeithio ar y cynllun;
- Diweddariad ar y Bwrdd Cyngori'r Cynllun;
- Hyfforddiant i aelodau o'r LPB;
- Cofrestr Risg; a
- Materion ar gyfer escalation i FRA llawn.

Ers sefydlu'r Bwrdd Pensiwn Diffoddwyr Tân Lleol yn 2015, mae gwaith y Bwrdd wedi cael ei lunio gan aelodau'r Bwrdd a chan swyddogion sy'n cefnogi'r Bwrdd. Mae rhai adroddiadau rheolaidd wedi'u datblygu a'r rhain yw:

- Adroddiad Diweddaru Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am feysydd o waith pensiwn sylweddol, ac sy'n cynnwys materion lleol a chenedlaethol. Yn ogystal â gwella gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Bwrdd, mae'r adroddiad rheolaidd hwn yn ysgogi trafodaeth yn y Bwrdd am effaith materion ar aelodau'r Cynllun pensiwn ac am sut mae llwythi gwaith yn cael eu rheoli. Mae hyn yn helpu i gyflawni pwrpas y Bwrdd o sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol;
- Adroddiad Diweddaru Cronfa Bensiwn Dyfed sy'n cael ei gynhyrchu gan y gweinyddwyr ac sy'n rhoi sicrwydd bod y cynllun yn cael ei weinyddu'n briodol. Yn ogystal â darparu diweddariadau rheoleiddiol, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar faterion llwyth gwaith penodol, megis, cysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig, ansawdd data, apeliadau, toriadau a lefelau gweithgarwch ar yr offeryn 'Fy Mhensiynau Ar-lein'; a
- Meysydd penodol o'r Gofrestr Risg sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Cynllun ac sy'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod, gydag unrhyw ddiwygiadau yn cael eu hamlygu. Mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gadw golwg ar y risgiau allweddol a'r mesurau rheoli sydd wedi'u cynllunio i reoli'r risgiau hynny.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd uchod y gellir eu cyrchu drwy'r ddolen ganlynol: [Bwrdd Pensiwn Lleol](#)

8.0 Rhaglen Waith 2025/26

Mae Bwrdd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnal rhaglen waith sy'n cael ei hystyried ym mhob cyfarfod. Nawr bod y Bwrdd wedi cwblhau nifer o weithgareddau hyfforddi, bydd yn dechrau dewis pynciau i'w dadansoddi'n fanwl gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Awdurdod yn ôl y bo angen.

Mae'r Rhaglen Waith ar gyfer 2025/26 fel y nodir isod:

Blaengynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol 2025/26

Eitem yr agenda	Cyfarfod 1	Cyfarfod 2	Cyfarfod 3	Cyfarfod 4
Adolygiad o aelodaeth a chadarnhau dyddiadau'r cyfarfodydd	X			
Adroddiad diweddariad gwasanaeth	X	X	X	X
Adroddiad diweddariad y gweinyddwr	X	X	X	X
Heriau cyfreithiol a materion rheoleiddio	X	X	X	X
Bwrdd Cynggori Cynlluniau Cymru	X	X	X	X
Cofrestr Risg	X	X	X	X
Sefydlu Aelodau	Mae hyn yn parhau wrth i aelodau newydd gael eu penodi i'r LPB			
Dadansoddi anghenion hyfforddi	X			
Diweddariad hyfforddi	X	X	X	X
Y Rheoleiddiwr Pensiynau – agweddau ar lywodraethu da		X	X	X
Adroddiad Blynnyddol	X			
Diweddariad polisi yn ôl disgrisiwn	X			
Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl				X
Eitemau o arwyddocâd i'w cyfeirio i'r Awdurdod Tân ac Achub	X	X	X	X